Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

1268 e. 40.

TREFN DUW YN CYFIAWNHAU DYN EUOG.

# TRAETHAWD

AR

# GYFIAWNHAD PECHADUR,

TRWY

## FFYDD YN NGHRIST;

WEDI EI GYMERYD ALLAN O WAITH

*Y PARCH. JOHN GOODWIN, A.C.,*
(Periglor St. Stephens, Cole Man Street, Llundain, yn y flwyddyn 1633, &c., &c.)

GAN

MR. JOHN WESLEY, A.C.,

Wedi ei Gyfieithu i'r Gymraeg, o'r Trydydd Argraffiad Seisnig,
**GAN R. HUMPHREYS, CAERNARFON.**

CAERNARFON:
ARGAFFWYD GAN H. HUMPHREYS, CASTLE SQUARE.

1843.

BODLEIAN
20 7 1897
LIBRARY

# Y CYNWYSIAD.

## RHAN I.

PEN. I.

Tudal.

Yn mha Ystyr y mae Cyfiawnder Crist yn Gyfrifedig mewn mewn Cyfiawnhad . . . . . . . . . . 13

PEN. II.

Cyfrifiad Ffydd yn Gyfiawnder yn cael ei brofi o'r Ysgrythyrau, a'r Dehongliad o'r Ysgrythyrau hyny yn cael ei gadarnhau gan Reswm ac Awdurdod . . . . . . . . . 20

PEN. III.

Prawfiau Ereill o'r Ysgrythyrau . . . . . . . 32

PEN. IV.

Ystyr Rhuf. iii. 21.—Y Gosodiad yn cael ei Gadarnhau yn ngwyneb Gwrthddadl . . . . . . . . . . 37

PEN. V.

Cyfrifiad Ffydd yn cael ei brofi yn mhellach oddiwrth Rhuf. v. 16, 17.—Gwrthddadl yn cael ei hateb . . . . . . 39

PEN. VI.

Prawfiadau ychwanegol o'r Ysgrythyrau dros Gyfrifiad Ffydd yn Gyfiawnder.—Pedair o Wrthddadleuon yn cael eu hateb . 45

PEN. VII.

Y Prawf diweddaf o'r Ysgrythyrau, na Chyfrifir Cyfiawnder Gweithredol Crist mewn Cyfiawnhad . . . . . . 49

PEN. VIII.

Y Rheswm cyntaf yn erbyn Cyfrifiad o Gyfiawnder Crist . 52

PEN. IX.

Yr ail Reswm yn erbyn Cyfrifiad o Gyfiawnder Crist, wedi ei dynu oddiwrth ei Natur . . . . . . . . . . 56

PEN. X.

Y trydydd Rheswm yn erbyn y cyfryw Gyfrifiad;—Nad oes angenrheidrwydd am dano . . . . . . . . . 62

PEN. XI.

Y pedwerydd Rheswm yn erbyn Cyfrifiad o Gyfiawnder Crist: Y mae yn diddymu y Gras o Fabwysiad . . . . . . 66

PEN. XII.

Y pummed, chweched, a'r seithfed Rheswm yn erbyn Cyfrifiad o Gyfiawnder Crist;—Y mae yn cymeryd ymaith yr angenrheidrwydd yn 1. O Edifeirwch, 2. O Farwolaeth Crist, ac yn 3. O Faddeuant Pechodau . . . . . . . . . . 68

PEN. XIII. Tudal.
Yr wythfed Rheswm yn erbyn y Cyfrifiad hwn;—y mae yn gydsyniad amlwg â'r Cyfeiliornad peryglus hwnw, Nad yw Duw yn canfod Pechod yn ei Bobl . . . . . . . . 72
PEN. XIV.
Pedwar o Resymau yn ychwanegol yn erbyn y Cyfrifiad mewn dadl . . . . . . . . . . . . . . . 73
PEN. XV.
Tri o Resymau yn mhellach yn erbyn y Cyfrifiad hwn . . 77
PEN. XVI.
Tri o Brawfiadau eglur yn mhellach . . . . . . 80
PEN. XVII.
Pedwar o Resymau yn ychwanegol . . . . . . 84
PEN. XVIII.
Y Rheswm diweddaf yn erbyn y Cyfrifiad o Gyfiawnder Crist . 88

---

## RHAN II.

---

PEN. I.
Trefn a Chynwysiad yr Ail Ran . . . . . . . 97
PEN. II.
Rhai Gosodiadau er parotoi y Ffordd i Ateb amrywiol Wrthddadleuon . . . . . . . . . . . . 98

1. Y mae yr hwn y rhoddwyd Iawn digonol dros ei bechodau, i gael ei ystyried mor gyfiawn a'r hwn na throseddodd erioed . 98

2. Nid oes Canol-fan rhwng Rhyddhad oddiwrth bob Pechod a Chyfiawnder Perffaith . . . . . . . . . . 98

3. Yr oedd Adda, hyd ei Ddarostyngiad trwy Bechod, mewn Cyflwr perffaith Gyfiawn ger bron Duw . . . . . . 98

4. Cynwysa Maddeuant Pechodau Gyfrifiad neu Gydnabyddiaeth o Gyflawniad o'r holl Ddeddf . . . . . . . 99

5. Nid yw yr hwn sydd wedi ei hollol ryddhau oddiwrth ei Bechodau, mewn angen am Gyfiawnder arall, i roi iddo Hawl i Fywyd . . . . . . . . . . . . . . 100

6. Y mae yr Iawn a dalodd Crist dros Bechod, a thrwy yr hwn yr enillodd Faddeuant pechodau i bawb a gredant, yn gynwysedig yn unig yn yr ufudd-dod a elwir yn "Ddyoddefol," ac nid yn ei Ddarostyngiad i'r Ddeddf Foesol . . . . . . . 101

7. Pe buasai Crist wedi cadw y Ddeddf yn ein lle ni, drwy gyfnod ei Fywyd, fel y gallesid ein cyfrif yn berffaith gyfiawn trwy gyfrifiad o hyny i ni, ni buasai angenrheidrwydd am ei Farwolaeth drosom . . . . . . . . . . . . 102

8. Nid yw yr Undeb a'r Berthynas a fedd y Credinwyr â Christ, mewn un modd yn gofyn nac yn golygu y fath Gyfrifiad o'i Gyfiawnder iddynt . . . . . . . . . . 102

9. Ni ellir profi un Cyfrifiad arall o Bechod Adda i'w Hiliog-

Tudal

aeth, trwy Ysgrythyr na Rheswm cywir, amgen na'r hyn sydd yn sefyll yn y berthynas a feddai ei Hiliogaeth âg ef yn y drosedd, neu ynte yn Nghyfleäd ei Natur, yr hon a lygrwyd trwy y drosedd, iddynt hwy, neu ynte yn y Condemniad a'r Gospedigaeth sydd wedi dyfod arnynt trwyddi . . . . . . . 103

10. Er fod Cyfiawnhad ac Iachawdwriaeth wedi dyfod i'r Byd trwy yr Ail Adda, megys y daeth Condemniad a Marwolaeth trwy yr Adda cyntaf, eto y mae gwahaniaeth mawr rhwng dyfodiad Iachawdwriaeth trwy y naill a Chondemniad trwy y llall . 105

11 Nid dim ag sydd yn hanfodol neu yn naturiol i wir Ffydd sydd yn ei gwneyd yn offerynol mewn Cyfiawnhad, ond rhyw beth tu allan iddi; megys, Ewyllys, Boddlonrwydd, Ordeiniad, a Chyfammod Duw o berthynas i hyny . . . . . . 108

12. Nid oes un Sail, mewn Ysgrythyr na Rheswn, i ddyweyd fod Crist, trwy unrhyw Gyfrifiad o Bechod, wedi ei wneyd yn Bechadur gweithredol . . . . . . . . . . . 109

13. Nid yn unig datgan fod Dyn mewn sefyllfa gyfiawnhaol yw gwaith Ffydd, ond hi ydyw yr unig Foddion trwy yr hwn y meddiennir Cyfiawnder . . . . . . . . . . . 109

14. Ni weinyddwyd Dedfryd neu Felldith briodol y Ddeddf ar Grist yn ei Farwoiaeth: er hyny yr oedd ei Farwolaeth yn sail i Dduw gymedroli ei Ddeddf, a pheidio Gweinyddu y Gospedigaeth neu y Felldith fygythiedig ynddi, gyda golwg ar y rhai sydd yn Credu . . . . . . . . . . . 110

PEN. III.

Rhai Gwahaniaethau *(distinctions)* angenrheidiol er deall y Ddadl yn mhellach, a symyd ymaith lawer o Anhawsderau. Megys,

1. Bod "Cyfiawnhad" yn cael ei gymeryd mewn ystyr deu-blyg, gweithredol a goddefol . . . . . . . . . . 110

2. Bod cyfiawnder yn yr Ysgrythyrau, yn cael ei briodoli weithiau i Dduw, ac weithiau i ddynion; ond yn meddu ystyr dirfawr wahanol yn y naill berthynas a'r llall . . . 111

3. Bod Cyfiawnder neu ufudd-dod Crist yn ddeu-fath:—geilw Duwinyddion un yn "Gyfiawnder ei Berson," a'r llall yn "Gyfiawnder ei Haeddiant" . . . . . . . . . 113

4. Goddefa yr ymadrodd "Cyfrif" neu "Gyfrifiad" amrywiol arwyddocâd . . . . . . . . . . . 114

5. Gellir dyweyd fod Ufudd-dod i'r Ddeddf Foesol yn ofynol oddiwrth ddynion mewn dau olygiad: 1. Mewn ffordd o Gyfiawnhad; yn 2. Mewn ffordd o santeiddhad . . . 116

6. Y mae dwy Ffordd y dichon Crist gael ei olygu wedi cadw y Ddeddf gyda golwg ar ein cyfiawnhad; 1. Drosom, neu yn 2. Yn ein lle . . . . . . . . . . . . 117

7. Er nad yw cyfiawnhad Pechadur ond un Effaith, eto gall gael ei phriodoli i'w hamrywiol Achosion perthynol, yn ol eu hamrywiol Ddylanwadau arni . . . . . . . . 117

PEN. IV.

Golwg ar Gyfiawnhad yn yr amrywiol Achosion o hono; yn yr hyn, 1. Y rhag-grybwyllir pedair Rheol gyffredinol o berthynas i Rif, Natur, a Chynneddf Achosion yn gyffredinol . . 118

Tudal.

2. Rhai Achosion neillduol yn cael eu cynwys o dan y pedwar Pen cyffredinol . . . . . . . . . . . 119

3. Ymchwiliad i mewn i Achosion Cyfiawnhad.—
1. Yr Achos Effeithiol . . . . . . . . . . 120
2. Yr Achos Gorphenol . . . . . . . . . 123
3. Yr Achos Defnyddiol . . . . . . . . . 123
4. Yr Achos Ffurfiol . . . . . . . . . . 123

Desgrifiad o Gyfiawnhad oddiwrth yr Ymchwiliadau blaenorol. 127

## PEN. V.

Yr Ysgrythyrau a ddygir yn mlaen dros Gyfrifiad Cyfiawnder, neu Ufudd-dod Gweithredol Crist, mewn Cyfiawnhad, yn cael eu hegluro a'u hateb, a'r gwir Ddehongliad o honynt yn cael ei gadarnhau . . . . . . . . . . . . 128

I. YR YSGRYTHYRAU O'R HEN DESTAMENT.

Sal. xxxii. 1, 2. yn cael eu hateb . . . . . . . 128
Jer. xxiii. 6, a Jer. xxxiii. 16. . . . . . . . . 129
Esa. xlv. 24. . . . . . . . . . . . . 131
Esa. xli. 10. . . . . . . . . . . . . 131
Lle yr eglurir tair o Ysgrythyrau ereill ar y ffordd, sef,
Dat. xix. 7, 8 . . . . . . . . . . 133
Rhuf. xiii. 14 . . . . . . . . . . 134
Gal. iii. 27 . . . . . . . . . . 134

II. O'R TESTAMENT NEWYDD.

Rhuf. iii. 21, yn cael ei hateb . . . . . . . . 134
Rhuf. iii. 31 . . . . . . . . . . . . 135
Rhuf. iv. 6 . . . . . . . . . . . . 136
Rhuf. v. 19 . . . . . . . . . . . . 137
Rhuf. viii. 4 . . . . . . . . . . . . 138
Rhuf. ix. 31, 32 . . . . . . . . . . . 139
Rhuf. x. 4 . . . . . . . . . . . . 142
1 Cor. i. 30 . . . . . . . . . . . . 143
2 Cor. v. 21 . . . . . . . . . . . . 145
Gal. iii. 10. . . . . . . . . . . . . 147

## PEN. VI.

Y Gwrthddadleuon yn erbyn Cyfrifiad Ffydd yn Gyfiawnder yn cael eu hateb; megys yn

1. Bod y fath Gyfrifiad yn Cyhuddo Gwirionedd a Chyfiawnder Duw . . . . . . . . . . . . 150

2. Bod y Cyfrifiad hwn yn gwneyd Cyfiawnhad i fod o Weithredoedd . . . . . . . . . . . . 151

3. Bod y fath Gyfrifiad yn annghyson â rhad Ras Duw mewn Cyfiawnhad . . . . . . . . . . . . 152

4. Bod y Cyfrifiad hwn yn rhoi Achos i Ymffrostio . . 153

5. Bod y fath Gyfrifiad yn golygu Cyfiawnhad i fod trwy yr hyn sydd yn anmherffaith . . . . . . . . . 154

6. Bod y fath Gyfrifiad yn golygu fod Duw yn derbyn Cyfiawnder oddiwrthym ni, yn hytrach na nyni oddiwrtho ef, yn ein Cyfiawnhad . . . . . . . . . . 155

PEN. VII. Tudal.

Y prif Resymau dros Gyfrifiad o Gyfiawnder Gweithredol Crist yn cael eu hateb; megys yn

1. Na bydd dim moddbron Duw, yn nydd Barn, heb Gyfrifiad o'r Cyfiawnder yna . . . . . . . . . 156

2. Na ddichon Cyfiawnhad fod trwy Gyfiawnder un arall, oddieithr i'r Cyfrifiad hwn gael ei olygu . . . . . . 157

3. Nad yw yn bosibl i wir undeb perthynasol rhwng Crist â Chredinwyr sefyll, oddieithr i'r Cyfrifiad hwn gael ei ganiatau . 158

4. Nas gellir nodi Rheswm neu Angenrheidrwydd arall paham y dylasai Crist gadw y Ddeddf, ond y Cyfrifiad hwn yn unig . 158

5. Ein bod yn Ddyledwyr i'r Ddeddf, nid yn unig mewn Pwynt o Gospedigaeth am ein Pechodau, ond mewn Pwynt o Ufudd-dod Perffaith hefyd . . . . . . . . . 161

6. Nad yw Cyfiawnhad yn gyrhaeddadwy heb Gyfiawnder perffaith; na'r fath Gyfiawnder i'w gael ond Cyfiawnder Crist 163

7. Fod "Gwna hyn a byw fyddi" yn Ddeddf sefydlog o eiddo Duw, na ddiddymir mo honi yn dragywydd . . . . . 164

8. Mai Cyfiawnder Crist ydyw yr un a gymeradwya Duw ar ein rhan . . . . . . . . . . . . . 164

9. Fod Crist yn Berson cyhoeddus yn sefyll yn lle yr holl rai a gredant ynddo . . . . . . . . . . . 165

10. Nad oes un Llwybr i gael ein cyfiawnhau trwy Gyfiawnder Crist, ond yn unig trwy y Cyfrifiad o hono . . . . . 168

11. Gallwn mor wirioneddol a phriodol gael ein golygu wedi cadw y Ddeddf yn neu gyda Christ, a chael ein golygu wedi marw, ein croeshoelio, ein bywhau, ac adgyfodi i eistedd yn y nefolion leoedd gydag ef . . . . . . . . . . . 169

Y Diwedd-glo . . . . . . . . . . . 171

## LLYTHYR Y CYFIEITHYDD AT Y BEIRNIAID A'R DARLLENWYR YN GYFFREDINOL.

*Anwyl Gyd-ieithwyr,*

*Sicrhaf chwi mai graddau helaeth o deimladau pryderus a'm meddiana pan ystyriwyf fy ngwaith yn bresennol yn cynyg fy hun i sylw y Cyhoedd fel* Cyfieithydd, *er gwasanaeth fy Nghenedl, am y tro cyntaf; yn enwedig pan gofiwyf am amlder y Beirniaid craffus a'm cylchyna yn mhob ardal a chymydoyaeth. Ond pan gofiwyf, ar y llaw arall, nad oes un* Cyfieithiad *na* Chyfieithydd *heb ei* ddiffygion, *yn gystal a'r eiddo fy hun, llonydda ofnau a phryder fy meddwl, ac egyr y drws i minau ymwthio yn mlaen, gan gyflwyno y* Cyfieithiad *canlynol o Draethawd Goodwin ar Gyfiawnhad, i sylw cyhoeddus. Ac nid oes genyf ond personoli yr un gynt, a dyweyd, "yr hwn sydd yn berffaith ac heb ddiffygion tafled yn gyntaf garey ataf." Ond, ar yr un pryd, erfyniaf hynawsedd y rhai synwyr-graff a deallus, i fantellu holl ddiffygion ac anmherffeithiau y gwaith canlynol â mantelli cariad a chydymdeimlad.*

*Dymunwn alw sylw y Darllenydd i'w ddarllen yn bwyllog ac ystyriol, heb yr hyn ni ddichon neb ei ddeall; ag os dygwydda gyfarfod âg ambell i frawddeg lled aneglur, ar yr olwg gyntaf, cofied ei fod yn gyffelyb yn yr iaith Seisnig hefyd; a hyny yn cael ei achosi gan ddull (*style*) yr Awdwr yn ysgrifenu; trwy ei fod yn defnyddio geiriau* (terms) *lled ddieithr i'r oes a'r amser presennol, yr hyn sydd yn ei wneyd yn beth agosaf i anmhosiblrwydd, mewn rhai cysylltiadau, i ddeall ei wir feddwl; o herwydd y caniatta ei ddull yn geirio ei feddwl y fath amrywiol feddyliau gwahanol, ac felly mor hawdd cymeryd y naill feddwl yn lle y llall. Na ddysgwylied neb gael y cyfieithiad yn airiol* (Metraphast) *o'r un Seisnig, ond cadwyd at y lythyren mor bell ac y caniattai amgylchiadau, a gwnaed pob ymdrech i gadw mor agos ac y gellid i'r meddwl.*

*Boed hysbys i'r Darllenydd, fod John Goodwin yn Galfinaidd o ran ei farn ar y pynciau ereill, pan ysgrifenodd ei Draethawd ar Gyfiawnhad: ond diau fod Mr. Wesley wedi ymdrechu gwneyd y talfyriad o hono mor agos ag oedd yn bosibl o'r* iawn ryw *cyn ei gyhoeddi i'r byd.*

*Os gofyn rhywun fy rheswm dros gyhoeddi y "Traethawd" can-*

*lynol, atebaf, Y Prif deimladau cymhelliadol oeddynt,—casineb greddfol at gyfeiliornadau,—ymddifadrwydd fy nghenedl o ddim ar y Pwnc o Gyfiawnhad, yn ol y dull ei trinir yn nghorph y Traethawd hwn, yn gyson a meddwl yr Ysgrythyr, ac hefyd yr ymofyniad parhaus a glywswn gan amryw yma a thraw, am Bregeth y Parch. D. Rogers ar Gyfiawnhad, (sydd allan o argraffiad) yr hon nid yw amgen, mewn rhan fawr, na thalfyriad cyfieithiedig o Draethawd Goodwin ar Gyfiawnhad; felly credais oddiar yr amgylchiadau anghenus yna, mai buddiol fuasai o un fyned at y gwaith i gyfieithu y talfyriad o hono a gyhoeddwyd gan Mr. John Wesley. Wele yn awr y gwaith wedi ei gwblhau, ac os bydd o les a bendith i bawb a'i darllcno, caiff yr amcan mawr mewn golwg ei ateb hefyd. Am iddo fod yn fendithiol i oleuo meddwl y pechadur am ffordd y cymmod drwy ffydd yn Nghrist, y gweddia,*

*Gwasanaethydd Ieuanc y Genedl,*

*Y CYFIEITHYDD.*

O.Y. Bwriedais, ar y cyntaf, roddi ychydig o hanes bywyd yr Awdwr yn gysylltiol â'r Traethawd; ond gan i'w derfynau fyned yn helaethach na disgwyliad, a'r *pris* wedi ei nodi yn flaenorol, ac hefyd, am y rhydd y Parch. D. Evans, yn ei lythyr, o "Gymeradwyaeth i'r gwaith," awgrym lled helaeth o amgylchiadau yr Awdwr, bernais mai gwell fyddai hebgor cyhoeddi hanes ei fywyd, na newid y pris ar ol ei benodi. Ond os ceir cefnogaeth deilwng yn nghyhoeddiad y gwaith hwn, bydd i mi eto, os caniatta Duw oes ac iechyd, gyhoeddi Llyfryn bychan arall o waith yr un awdwr, sef, "Banner Cyfiawnhad," yn nghyd a hanes ei fywyd, yn un llyfr, o bris un swllt. A diau y bydd y gwaith yna yn gynnorthwy mawr i egluro egwyddorion llawnion y Traethawd.

ROBERT HUMPHREYS.

CASTLE SQUARE,
Caernarfon, Mawrth 25ain, 1843.

# LLYTHYRAU O GYMERADWYAETH I'R GWAITH.

ANWYL GYFAILL,

Y mae yn dda genyf glywed eich bod yn bwriadu cynnysgaethu cenedl y Cymry â Chyfieithiad o Draethawd rhagorol y Parch. JOHN GOODWIN, A.M., ar GYFIAWNHAD.

Yr oedd yr Awdwr parchus yn byw mewn amseroedd o anesmwythder ac aflonyddwch mawr, mewn gwlad ac eglwys; a dywedir ei fod ef yn un o'r rhai cyntaf a ddechreuodd ddadleu dros ryddid cydwybod, mewn achosion crefyddol. Cafodd Mr. Goodwin ei ddwyn i fynu yn *Galfinist*, a pharhaodd i gofleidio a phregethu yr egwyddorion hyny dros amryw flynyddoedd; ond, fel yr oedd yn cynnyddu mewn dyddiau ac aeddfedrwydd barn, ymwrthododd â Chalfiniaeth, ac ymunodd â'r Archesgob Usher, Hales o Eton, Dr. Jackson, Dr. Price, ac ereill o'i gyd-oeswyr enwog, i ddadleu yn wresog a chadarn dros yr egwyddorion Ysgrythyrol, y rhai a amddiffynwyd gyda chymaint o fedrusrwydd cyn hyny gan yr enwog Barch. James Arminius, yn Holand, a chan y Parch. J. Wesley a'i ganlynwyr wedi hyny yn Lloegr. Y mae ei waith enwog ar Brynedigaeth Gyffredinol, *(Redemption Redeemed)*, ei Esponiad goleu ar y 9fed bennod o'r Epistol at y Rhufeiniaid, yn nghyda'r Traethawd galluog hwn ar Gyfiawnhad, yn brofion o'i wybodaeth helaeth a manwl mewn duwinyddiaeth, a'i allu medrus fel amddiffynydd yr athrawiaethau sydd yn ol cysondeb y ffydd.

Nid oes dim o fwy pwys i'r hwn sydd yn teimlo ei hun yn bechadur colledig, nag ateb llawn i'r gofyniad pwysig, "Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw?" Nid yw hyny i'w gael ond yn yr Efengyl yn unig. Ac er ei bod yn cynwys datguddiad eglur a llawn am drefn rhyddhad yr euog, ac adferiad yr estron i ffafr a chyfeillgarwch gyda Duw, y mae llawer, er hyny, o herwydd diffyg ymofyn am wybodaeth o'r gwirionedd hwn, neu ragfarn yn ei erbyn yn anmherffaith iawn eu golygiadau ar y pwnc; a dyna un rheswm pa ham y mae cymaint o wahaniaeth barnau ar hyn, wedi bod ac yn parhau felly yn mhlith Cristionogion. Y mae gwybodaeth gywir yn y gangen hon o athrawiaeth gras, yn un o'r pethau mwyaf eu pwys i ddyn fel pechadur, canys os yw cyfiawnhad yn hanfodol i gadwedigaeth dyn, ac nad oes un ffordd arall ond hon i'r euog gael ryddhad, a'r colledig gael bywyd, geill cyfeiliorni ar y mater hwn fod o ganlyniadau peryglus a niweidiol mewn amser, ac arwain i drueni tragwyddol wedi amser ddarfod; ac, o'r tu arall, gan fod ei heffeithiau yn cyrhaedd trwy holl gorph duwinyddiaeth, a thrwy brofiad ac ymarferion y Cristion, y mae ei deall yn iawn a'i chredu yn gadarn yn foddion i'n cadw rhag gwyro oddiwrth athrawiaethau ereill sylfaenol Cristionogaeth; ac y mae yn deilwng o sylw hefyd, mai yn ol y golygiadau a fabwysiedir gan yr eglwys ar drefn adferiad dyn i heddwch Duw, y gwna gwir dduwioldeb a santeiddrwydd gynnyddu neu leihau yn mhlith ei haelodau.

Trwy bregethiad ffyddlon athrawiaeth ysgrythyrol cyfiawnhad trwy ffydd yr effeithiwyd y diwygiad oddiwrth Babyddiaeth gynt, a thrwy hon y cedwir yr eglwys eto rhag ail-gofleidio egwyddorion annghristaidd y Buttain Rhufeinaidd ar un llaw, a phenrhyddid Antinomaidd ar y llaw arall. Ystyriaethau o'r fath hyn a gymhellodd Mr. Goodwin i ddyfod allan fel dadlenydd gwresog o blaid yr athrawiaeth hon. A chan iddo brofi, mor eglur a goleu, yn y Traethawd hwn, afresymoldeb y farn o gyfrifiad ufudd-dod gweithredol a phersonol Crist i'r gyfraith foesol yn gyfiawnder i ddyn, ac egluro mor fedrus y modd y mae ffydd yn cael ei chyfrif felly iddo, yn ol tystiolaeth St. Paul yn Rhuf. iv. 3—5; yn nghydag ateb cwestiynau, ac egluro llawer o adnodau perthynol i'r pwnc pwysig hwn, barnodd Mr. Wesley, y buasai ei ail-argraffu o wasanaeth mawr i'r eglwys a'r byd, ac am hyny cyhoeddodd dalfyriad medrus a gofalus o hono, yn y flwyddyn 1763, am yr hwn y dywed yn un o'i gyhoeddiadau, "Hyderaf na wna neb gondemnio y Traethawd hwn, cyn ei ddarllen trosodd yn bwyllog a manwl; canys prin y gellir ei iawn ddeall wrth fyned drosto gyda brys diofal. A bydded i'r neb a'i darllenodd dystioliaethu, oni ddarfu i'r Awdwr brofi ei holl osodiadau, nid yn unig drwy dystiolaeth eglur a phenderfynol yr Ysgrythyrau, ond hefyd wrth farn y rhan fwyaf o'r Diwygwyr enwocaf." Diammheu y dylai pob dyn a chwenycho gael iawn ddeall yn yr athrawiaeth bwysig hon, ei ddarllen drwyddo gyda phwyll ac arafwch; a cheir ynddo y cynnorthwy hyny, nad yw ei gyffelyb i'w gael gan un Awdwr yn yr iaith Gymraeg hyd yn hyn; a phe y buasai ei Draethawd, yr hwn a elwir 'Banner Cyfiawnhad,' yn cael ei roddi megys attodiad at hwn, buasai hyny yn gwneyd rhwymau y genedl Gymreig yn fwy fyth i'r Cyhoeddwr o hono. Hyderaf y ca y Traethawd synhwyrlawn ac ysgrythyrol hwn dderbyniad cyffredin, a darlleniad helaeth, ac na byddo yr un dyn ymofyngar am wybodaeth o natur a threfn achubiaeth pechadur yn amddifad o hono.

Gorphwysaf,

Yr eiddoch yn serchog,

*Treffynon, Tachwedd 29ain* 1842. D. EVANS, IAF.

---

ANWYL GYFAILL,

Clywais eich bod wedi dechreu cyfieithu Traethawd GOODWIN, ar GYFIAWNHAD; gobeithiaf y gorphenwch ef yn fuan.

Hoffwn yn fawr ei weled yn llaw fy holl gyd-wladwyr, a'u bod yn ei ddarllen yn fanwl er ei ddeall. Yn ngoleu ac ysbryd Goodwin ar Gyfiawnhad, ni raid i neb ofni Pabyddiaeth Rhufain, na Rhydychain, na chwaith esboniad chwithyg Antinomiaeth o gyfiawnder cyfrifol. Na fydded y neb a all ei gael fod hebddo, ac wedi ei gael na fydded neb yn gorphwys heb ei ddeall yn oleu, a'i drysori yn eu hyspryd yn llwyr.

Gwnewch eich goreu i osod allan lyfrau buddiol i'r wlad, er eu dwyn i'r iawn ffordd. Y mae eich amser yn fyr.

Wyf, eich anwyl gyfaill,

*Amlwch, Chwefror 14eg*, 1843. E. ANWYL.

ANWYL FRAWD,

Gan fy mod yn golygu yr athrawiaeth o gyfiawnhad pechadur ger bron Duw bwys mawr i'w hiawn ddeall, y mae yn dda genyf glywed eich bod wedi cyfeithu talfyriad Mr. Wesley o waith yr enwog a'r dysgedig GOODWIN, ar y pwnc mawr yna, i'r iaith Gymraeg.

Y mae ar y CYMRY angen mawr am oleuni ar y Pwnc. Hyd yr amser yr anfonodd Duw Genhadon Wesleyaidd i'r wlad, Argraffu a Phregethu yr oeddid mai trwy gyfrifiad o ufudd-dod gweithredol Crist i bechadur yr oedd Duw yn ei gyfiawnhau; athrawiaeth nad oes un sail iddi yn yr Ysgrythyrau, a'r hon sydd yn cymylu gogoniant Crist, ac yn diddymu yr athrawiaeth o faddeuant pechodau; canys os cyflawnodd Crist y ddeddf dros ac yn lle y troseddwr, nid oes gan Dduw le i faddeu mwyach.

Gobeithiwyf y bydd eich *Cyfieithiad* yn feddiannol gan filoedd yn y Dywysogaeth, yn enwedig yr Ieuenctyd, ac y bydd o gymaint lles iddynt hwy ag y bu i minau yn moreu-ddydd fy oes grefyddol.

*Caernarfon, Mawrth 25ain*, 1843. J. BRYAN.

---

ANWYL GYFAILL,

Y mae GOLWG CYWIR ar drefn Duw yn cyfiawnhau pechadur, yn sefydlu yn y meddwl wiredd yr athrawiaeth o ddirywiaeth dyn, yn chwalu Phariseaeth o un tu ac Antinomiaeth o'r tu arall oddiwrth y galon, ac yn dangos yn eglur fod y drefn o ras yn unig; yn dysgu dyn, ei bod yn cynwys, maddeuant o ochr y Tad, haeddiant o ochr Crist, a ffydd yn yr haeddiant hwnw o ochr y pechadur; yn egluro hefyd, fod dychymygion dynion am drefn wahanol, yn *cuddio'r angen am faddeuant*, yr athrawiaeth o *haeddiant*, a'r *dyben* o foddion gras, yn rhagflaenol er ffydd mewn pechadur: er cael y golwg cywir ar y DREFN fawr, yn yr Ysgrythyrau, ac ar *gyd-farn* y *Diwygwyr* cynt a diweddar ar y pwnc, a *rhyddid* oddiwrth gyfeiliornadau dynion, ceir cymhorth, lled ddigonol i hyny, trwy ddarllen TRAETHAWD GOODWIN, ar GYFIAWNHAD, wedi ei gyfieithu gan R. Humphreys, Caernarfon; ac am hyny annogir y Cymry i ddyfod yn mlaen yn lluosog i'w brynu ac i'w ddarllen yn fanwl.

*Beaumaris, Rhag.*, 15*fed*, 1842. DAVID WILLIAMS.

# TRAETHAWD AR GYFIAWNHAD.

## PEN. I.

*Yn mha ystyr y mae Cyfiawnder Crist yn gyfrifedig mewn Cyfiawnhad.*

TUAG at iawn ddeall natur yr ymholiad, y mae rhai pethau a ellir eu rhag-grybwyll, ond a brofir ar ol hyn: megys,

DOSPARTH I.—Nad yw yr ymadroddion "Cyfiawnhau," "Cyfiawnhad," &c., ddim i'w cymeryd yn yr ymholiad presenol, yn 1, Mewn ystyr anianyddol, megys pe byddai "Cyfiawnhau" yn arwyddo "gwneyd yn gyfiawn," trwy unrhyw weithredol, neu reddfol, gyfiawnder. Nac yn 2. Mewn ystyr ddeddfol, yn (briodol elwir felly,) lle na fêdd y barnwr ond is-raddol awdurdod i farnu, a'i fod yn rhwym i roddi dedfryd yn ol rheol fanol y gyfraith; megys, pe "cyfiawnhau" fyddai cyhoeddi dyn yn gyfiawn, neu ei waredu oddiwrth gospedigaeth, yn gyson ag egwyddorion manol y ddeddf o'r hon ei cyhuddwyd fel troseddwr o honi. Ond, yn 3. Mewn ystyr ddeddfol, (yn llai priodol elwir felly,) sef, lle mae yr hwn a eistedd yn farnwr, yn Arglwydd goruchel, ac yn meddu awdurdod benarglwyddiaethol i gymedroli y gyfraith, fel y byddo rheswm a chyfiawnder yn gofyn: felly "cyfiawnhau," yn yr ymholiad hwn, a olyga ryddhad dyn oddiwrth euogrwydd a chospedigaeth, yr hyn bethau ei cyhuddir, neu a ellid yn gyfiawn ei gyhuddo o'u plegyd; nid ei gyfiawnhau o herwydd ei fod yn lân oddiwrth y fath gyhuddiadau, neu yn gyfiawnhaol yn ol manylrwydd y ddeddf, (oblegyd felly nis gallai yn gyfiawn gael ei gyhuddo.) Ond o herwydd fod y barnwr yn meddu awdurdod ben-arglwyddiaethol, ac yn ewyllysgar, oddiar resymau digonol, i atal cospedigaeth y gyfraith, a'i ollwng yn rhydd, fel pe byddai yn gyfiawn.

DOS. II.—Oberthynas i gyfiawnhad deddfol, (mewn ystyr fanol elwir felly,) yn yr hwn y mae y barnwr yn gweithredu oddiar seiliau cyfreithlon i ryddhau y blaid euog neu gyhuddedig, nis gellir golygu hyn yn yr ymholiad hwn oddieithr ymwrthod â'r ysgrythyrau; oblegyd y maent bob

amser yn llefaru am Dduw yn cyfiawnhau pechadur, nid fel gweithred trwy yr hon y mae yn ei wneyd neu ei gyhoeddi yn ddeddfol gyfiawn, neu ei osod allan fel un heb droseddu y gyfraith, ond gweithred trwy yr hon y mae yn maddeu iddo yr hyn oll a wnaeth yn erbyn y gyfraith, a'i ryddhau oddiwrth yr holl gospedigaeth haeddianol i'r cyfryw droseddiadau. Felly yn yr unig weithred yna o eiddo Duw, trwy yr hon y mae yn cyfiawnhau pechadur, fel y mae yna ryddhad oddiwrth bob cospedigaeth haeddianol iddo, felly y mae yna arwyddiad amlwg o euogrwydd y person a gyfiawnheir, ac nad yw wedi ei ryddhau ar unrhyw gyfrifon a ellir eu dadleu drosto yn ol y ddeddf, ond ar gyfrif rhywbeth a wnaed drosto, er ei ryddhau oddiwrth y gosp benodol o honi. Nis gellir dyweyd mewn unrhyw ystyr, fod yr hwn ag y mae ei gyfiawnhad yn sefyll mewn maddeuant pechod, yn cael ei gyfiawnhau yn ol y ddeddf, oblegyd ni ŵyr y ddeddf am faddeuant pechodau, ac nid oes ganddi ychwaith yr un rheol i'r fath beth. Am "felldith," "marwolaeth," a "chondemniad" y pechadur y llefara y ddeddf, ond am ei "gyfiawnhad" ni rydd yr un gobaith.

Yn ail, I fod Iesu Grist, naturiol Fab Duw, a goruwchnaturiol Fab y Forwyn, wedi ufuddhau i'r ddeddf, (y seremoniol yn gystal a'r foesol) ac wedi cyfarfod â phob llythyren, iod, a rhan o honi, drwy ystod ei fywyd, ni chyfododd neb i wadu ond y rhai a wadent ei Dduwdod. "Pwy o honoch chwi a'm hargyhoedda i o bechod?" ydoedd ei feiddiad i'r Iuddewon pan oedd ar y ddaiar, ac y mae yn aros trwy yr holl oesoedd fel beiddiad i'r byd. Yr hwn fedr ddwyn y cyfrifiad lleiaf o bechod ar Grist, a sigla sylfeini heddwch a diogelwch y byd.

Yn drydydd, Fod Crist wedi offrymu ei hun megys Oen difrycheulyd ar y groes, i wneuthur iawn dros, a dwyn ymaith bechod, y byd, nid oes yr un Cristion a'i gwâd.

Yn bedwerydd, Yr Arglwydd Iesu Grist yw unig achos haeddianol cyfiawnhad pob un ar a gyfiawnheir gan Dduw. Y cyfiawnder hwnw, neu y rhyddhad oddiwrth bechod a chondemniad, a roddir i bob dyn yn ei gyfiawnhad, sydd gyfran arbenig o'r pwrcas mawr a wnaeth Crist i'r byd.

Yn bumed, Ffydd ydyw yr ammod a benodwyd gan Dduw, ac sydd yn ofynol ar ran dyn, i'w ddwyn i afael y cyfiawnhad a bwrcasodd Crist i feibion dynion. Heb gredu, ni ddichon neb gael cyfran na chymdeithas yn y gorchwyl mawr a bendigedig hwn.

Yn chweched, Y mae yn amlwg oddiwrth yr ysgrythyrau,

fod Duw, yn nghyfiawnhad pob pechadur, yn cyfrif cyfiwander iddo, neu yn hytrach, rhywbeth am, neu yn lle, cyfiawnder, (y mae yr ysgrythyrau yn defnyddio y naill ymadrodd a'r llall,) trwy gyfrwng yr hwn gyfrifiad y mae yr hwn sydd wedi ei gyfiawnhau yn cael ei ystyried mewn cyfrifiad fel un cyfiawn, (er nad yw yn briodol y fath yn ol y ddeddf,) ac yn gyfatebol i hyny a anrhydeddir â holl ragorfreintiau mawrion y dyn perffaith gyfiawn,—gwaredigaeth oddiwrth farwolaeth a chondemniad, a derbyniad i ffafr Duw. Y rheswm paham y mae Duw yn gweled yn dda i ddefnyddio y fath ymadrodd, "cyfrif cyfiawnder," yn nghyfiawnhad pechadur, a ymddengys ydyw hyn,—ei bod y ffordd oreu er tawelu ammheuon naturiol cydwybodau dynion, y rhai, braidd y gallant feddwl i gael eu cyfiawnhau (yn neillduol gan Dduw) heb benodol a pherffaith gyfiawnder deddfol. Yn awr, bwriad Duw yn yr efengyl yw i gyfiawnhau dynion heb y fath gyfiawnder, (yn wir, y mae yn gyfiawnder ag y mae dyn, yn ei sefyllfa gwympedig, yn analluog o hono) ac er meddyginiaethu ofnau cydwybod oreu, o herwydd y fath ddiffyg, y mae Duw yn rasol wedi gweled yn dda i ymddarostwng i ddynion, fel mewn effaith, i ganiatau a dyweyd wrthynt, er nad yw yn cael ynddynt unrhyw gyfiawnder perffaith a phriodol, eto, os credant ynddo, megys ag y gwnaeth Abraham, bydd y grediniaeth hon, yn y canlyniadau o honi, yn ogystal a chyfiawnder perffaith iddynt, neu y bydd iddo gyfrif cyfiawnder iddynt ar eu crediniaeth ynddo.

Dos. III.—Felly nid y cwestiwn yw, yn 1, Pa un ai yw ffydd, ar wahân i Grist, yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder; oblegyd ni freuddwydiwyd erioed am y fath ffydd, yn y pwnc o gyfiawnhad, gan yr un dyn yn ei synwyrau. 2. Ac nid y cwestiwn yw, ai ffydd yw achos haeddiannol cyfiawnhad pechadur; canys y mae y rhai sydd yn credu, a'r rhai sy'n gwadu, cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder, yn gwadu teilyngdodolrwydd ffydd. 3. Nid y cwestiwn yw ychwaith, pa un ai Crist yw yr unig achos haeddiannol o gyfiawnhad pechadur; canys yr ydym oll yn cyduno yn hyn. 4. Nid ydym yn dadleu ychwaith, pa un a yw ufudd-dod gweithredol Crist, mewn cysylltiad a'i ufudd-dod dyoddefol, yn gynnorthwyol tuag at gyfiawnhad pechaduriaid; oblegyd hyn hefyd a addefir, gan y naill a'r llall. Ond, yn 5. Y gofyniad yn gwbl yw hyn, pa un a'i ffydd yr hwn sydd yn credu mewn gwirionedd yn Nghrist, a'i cyfiawnder Crist ei hun; h.y. ei ufudd-dod i'r ddeddf foesol, yw yr hyn ag y mae Duw yn ei gyfrif i bechadur yn gyfiawnder,

yn ei gyfiawnhad: fel y mae yr hwn sydd yn credu yn cael ei osod a'i wneuthur mor berffaith a deddfol gyfiawn, ag yw Crist ei hun; y cyfiawnedig a'r cyfiawnhawr, y naill a'r llall yn gyfiawn drwy'r un cyfiawnder; ond yn unig fod yr hwn a gyfiawnheir yn ei wisgo trwy gyfrifiad, a'r cyfiawnhâwr trwy feddiant. Hyderaf am gynnorthwy ysbryd Duw i ddangos yn y Traethawd hwn nad yw yr ysgrythyrau, mewn un man, yn cefnogi y fath gyfrifiad o gyfiawnder Crist, trwy dystiolaethau ysgrythyrol, pwys niferoedd o resymau, a chymeradwyaeth amrywiol awduron enwog, dysgedig, ac iawn-gred.

Dos. IV.—Yn unig caniatewch i mi grybwyll yma yr hyn a ddichon atal llawer o gamgymeriadau, wrth ddarllen gwaith amrywiol Dduwinyddion ar y pwnc dan sylw. Os cymerwn yr ymadrodd, "Cyfrif cyfiawnder Crist," am gyflead cyfiawnder Crist, yn cynwys ei ufudd-dod goddefol a gweithredol, yn y dychweliad o hono, h.y. yn y rhagorfreintiau, y bendithion, a'r llesiant, a bwrcaswyd drwyddo; felly y gellir dyweyd fod y credadyn yn cael ei gyfiawnhau trwy gyfrifiad cyfiawnder Crist. Ond wed'yn, y meddwl yw hyn—fod Duw yn cyfiawnhau yr hwn sydd yn credu, er mwyn cyfiawnder Crist, ac nid er mwyn unrhyw gyfiawnder o'i eiddo ei hun: y fath gyfrifiad o gyfiawnder Crist a hyn, nid yw yn cael ei wadu na'i ammheu mewn un modd. Felly Calvin: *Christus suâ obedienta gratiam nobis apud Patrem acquisivit et promeritus est;* (Instit. Lib. ii., c. 17., ss. 30.) h.y., "Crist, trwy ei ufudd-dod, a enillodd ac a deilyngodd ini ras a fafr gyda Duw y Tad." Ac eilwaith, Lib. iii. c. 14., ss. 17., *Christus per suam obedientiam nobis Justitiam acquisivit;* h.y., "Crist, trwy ei ufudd-dod, a enillodd neu a bwrcasodd gyfiawnder i ni." Eilwaith ar Gal. iii. 6: *Omnes istæ Locutiones peræque valent, Justificari nos Dei gratiâ, Christum esse Justitiam nostram, Justitiam morte et resurectione Christi nobis acquisitam, &c.;* h.y., "Y mae pob ymadroddion cyffelyb i'r rhai hyn, ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ras Duw, mai Crist yw ein cyfiawnder, fod cyfiawnder wedi ei enill i ni trwy farwolaeth ac adgyfodiad Crist, &c., yn arwyddo yr un peth." Y mae yn eglur, wrth yr holl gyfryw ymadroddion, a llawer ereill a ellid eu dyfynu allan o waith yr un Awdwr, pan y mae yn crybwyll am unrhyw gyfrifiad o gyfiawnder Crist mewn cyfiawnhad, mai ei feddwl yn unig yw, mai cyfiawnder Crist—golygu yn benaf ei ufudd-dod goddefol, neu gyfiawnder—ydyw achos haeddiannol ein cyfiawnhad, ac a enillodd i ni oddiar law Duw, ar ein gwaith yn credu y bydd i ni gael

ein cyfrif yn gyfiawn ganddo; neu, yr hyn sydd yr un peth, y bydd i'n ffydd i gael ei chyfrif yn gyfiawnder i ni. I'r un perwyl y mae yn llefaru yn eglurach, ar Gal. iii. 6., *Quam autem Justitiam in se repositam non habeant homines, imputatione hanc adipiscuntur;* h.y., "Dynion, heb unhyw gyfiawnder yn cartrefu ynddynt eu hunain, a'i meddianant trwy gyfrifiad;" y cyfrifiad hwn y mae yn ei egluro fel hyn, *Quia Deus fidem illis fert acceptam pro justitiá:* "O herwydd y mae Duw yn cyfrif eu ffydd iddynt hwy yn gyfiawnder."

Dos. V.—Ac fel hyn y mae Musculus yn egluro ei feddwl yn groyw: *Fides reputatur in justitiam propter Christum;* "Y mae ffydd yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder er mwyn Crist." Ac eto; *Commendata debet esse hœc fides, quam constituit Deus credentibus in Christum propter ipsum, Justitiœ loco imputare;* (Loc. com. de Justiff, sect. v.;) h.y., "Dylai y ffydd hon gael ei mawrhau genym, ac y mae Duw wedi ei gosod er mwyn Crist i gael ei chyfrif yn gyfiawnder i'r rhai sydd yn credu." Felly hefyd Luther, ar Gal. iii. 6, *Deus reputat istam imperfectam fidem ad justitiam perfectam propter Christum;* h.y., "Y mae Duw, er mwyn Crist, yn cyfrif y ffydd anmherffaith hon yn berffaith gyfiawnder." Ac y mae Chamier yn galw maddeuant pechodau, "y cyfiawnder hwnw a gyfrifir i ni," *Remissio peccatorum est justitia imputata,* (T. iii., Lib. 21., c. 19., ss. 10.) Am hyny, pa le bynag ai yn Homiliau yr Eglwys, neu awduron ereill, y cyfarfyddwn â'r fath ymadroddion, megis cyfrifiad o gyfiawnder Crist mewn cyfiawnhad, nid ydym i olygu y cyfiawnder hwn yn y llythyren, ond yn yr ysbryd, neu'r teilyngdod o hono. Ac y mae y dull hwn o lefaru, i osod enw peth am y budd neu y dychweliad o hono, yn arferedig mewn ymddiddan cyffredin, ac yn fynych yn yr Ysgrythyrau santaidd.

Felly Job xxiii. 26., Dywedir fod Duw "yn talu i ddyn ei gyfiawnder," h.y., y ffrwyth neu y budd o'i gyfiawnder, yn ffafr Duw a'r amlygiad o hyny, yn ei waredigaeth a'i adferiad. Felly Eph. vii. 8, "Pa ddaioni bynag a wnelo dyn, hyny a dderbyn efe gan yr Arglwydd," h.y., "efe a dderbyn fudd a gwobr oddiwrth yr Arglwydd am dano." Felly Dat. xiv. 12: "Yma y mae amynedd y saint;" Pen. xiii. 10: "Dyma amynedd a ffydd y saint;" h.y., yma y mae llesiant ac annhraethol wobr ffydd ac amynedd y saint i'w weled; pan bydd y bwystfil, a'r rhai a'i haddolasant ef, yn cael eu poeni mewn tân a brwmstan, a'r rhai a ddyoddefasant yn wastadol am beidio a'i addoli, wedi eu

gwaredu rhag yfed o'r cwpan chwerw yna. Felly Sal. cxxviii. 2: "Canys mwynhai lafur dy ddwylaw;" h.y., ffrwyth o'r llafur hwn.* Felly ar y llaw arall y dywedir am Grist, Heb. ix. 28: "I'r rhai sydd yn ei ddysgwyl, yr ymddengys yr ail waith heb bechod;" h.y., heb euogrwydd neu gospedigaeth pechod yn gyfrifedig arno; os yn amgenach, y cymerwn bechod yn ei briodol arwyddocad, ni bydd yr un gwahaniaeth rhwng ei ymddanghosiad cyntaf a'i ddiweddaf, yn gymaint a'i fod mor rhydd oddiwrth bechod yn ei ymddanghosiad cyntaf ag y dichon iddo fod yn ei ail. Felly Esec. xvi. 58: "Dy ysgelerder a'th ffieidd-dra hefyd, ti a'u dygaist hwynt, medd yr Arglwydd;" h.y., mewn barnedigaethau cyfatebol iddynt. Felly 1 Bren. viii. 32: "I ddwyn ei ffordd ar ei ben;" h.y., y gospedigaeth a haeddodd am ei ffordd bechadurus. Yn yr unrhyw ystyr ag y mae yr Ysbryd Glân ei hun yn ei ddefnyddio yn yr ymadroddion hyn a'u cyffelyb, y gellir dyweyd fod cyfiawnder Crist (goddefol a gweithredol) yn gyfrifedg i ni yn ein cyfiawnhad.

Dos. VI.—Ac am hyny, pan yr y'm yn haeru fod ffydd yr hwn sydd yn credu yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder, nid y meddwl yw, 1. Y dylai gael ei chyfrif fel ag y mae yn weithred o eiddo'r dyn: nac 2. Ei bod yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder o herwydd ei gwrthddrych, neu am ei bod yn cymeryd gafael yn Nghrist; (er mae'n wir, rhaid i'r ffydd a gyfrifir yn gyfiawnder o angenrheidrwydd gymeryd gafael yn Nghrist;) canys os yw ffydd yn cyfiawnhau neu yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder, fel ag y mae hi yn ymaflyd yn Nghrist, rhaid ei bod yn cyfiawnhau o'i theilyngdod greddfol ei hun, a thrwy rinwedd yr hyn sydd yn naturiol iddi; nid oes dim yn fwy naturiol neu hanffodol i ffydd nag ymaflyd yn Nghrist; am hyny, i wneuthur ffydd, fel y cyfryw, y sylfaen bennodol o'r cyfrifiad o honi, yw rhoddi deheulaw cymdeithas i'r cyfiawnhad Pabaidd, yr hyn sydd yn gwneyd ffydd, mewn rhan, yr achos haeddannol o hono. Ond, 3. Pan yr ydym, gyda'r ysgrythyrau, yn haeru fod ffydd yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder, dyma yn eglur yw ein meddwl,—mai fel ag yr oedd Duw, yn y cyfammod gweithredoedd, yn gofyn ufudd-dod llawn i'r holl ddeddf yn mhob peth, er cyfiawnhad pob dyn, yr hwn ufudd-dod, pe cawsai ei gyflawni, a fuasai yn berffaith gyfiawnder i'r ufuddhäwr, ac felly, a fuasai yn ei gyfiawnhau: yr un modd yn y cyfammod newydd o ras, nid yw

* Felly y mae gwaith yn cael ei roddi yn fynych am y cyflog dyledus iddo, Lef. xix. 13; Job vii. 2; Jer. xxii. 13; Esay xlix. 4.

Duw yn gofyn gan unrhyw ddyn, ond ffydd, er ei gyfiawnhad; yr hon ffydd fydd mor effeithiol er ei gyfiawnhad ag a fuasai cyfiawnder perffaith o dan y cyfammod cyntaf; ac nid yw hyn ddim ond a ddysgir yn gyffredin gan Dduwinyddion hen a diweddar: *Sic decretum dicit à Deo, ut cessante lege, solam fidem gratia Dei posceret ad salutem;* (Ambrosius in Rom. iv.;) h.y., "Yr Apostol a ddywed mai i'r hwn sydd yn credu ei ffydd ef a gyfrifir iddo yn gyfiawnder, ac a gadarnha fod Duw wedi arfaethu felly, na ofyn gras Duw oddiwrth ddynion ond yn unig ffydd er iachawdwriaeth." Y mae gan Calvin, wrth ysgrifenu ar Rhuf. x. 8, eiriau o'r un ystyr, ond yn fwy eglur a llawn: "Oddiwrth y gwahaniaethiad hwn yr ydym yn casglu, mai fel ag yr oedd y ddeddf yn gofyn gweithredoedd, felly nid yw yr efengyl yn gofyn ond i ddynion gredu er derbyn gras Duw."

Dos. VII.—Eilwaith, pan yr ydym yn gwadu y cyfrifiad o gyfiawnder Crist mewn cyfiawnhad, nid ydym yn, 1. Yn gwadu cyfiawnder Crist ynddo ei hun; yr ydym yn ei gredu a'i gadarnhau: 2. Nid ydym yn gwadu, ychwaith, yr hollol angenrheidrwydd am dano er cyfiawnhad pechadur: 3. Hefyd, nid ydym yn gwadu nad oes haeddiannol effeithiad yn y cyfiawnder hwn, mewn cyfiawnhad; ond yn credu yn wir fod Duw wedi cyfiawnhau yr holl rai a gyfiawnhawyd, nid yn unig er mwyn Crist, (oblegyd gall dyn wneuthur peth er mwyn yr hwn y mae yn ei garu, er na haeddodd hyny oddiar ei law,) ond er mwyn haeddiant cyfiawnder Crist, bod yna gyflawn reswm yn y cyfiawnder hwn o'i eiddo, (sef ei farwolaeth neu gyfiawnder goddefol yn benaf,) paham y mae Duw yn cyfiawnhau y rhai sydd yn credu ynddo. Ond, 4. Y peth yr ydym yn ei wadu yw hyn, fod Duw yn edrych ar bechadur crediniol yn ei gyfiawnhad, ac yn ei gyfrif yn un ag sydd wedi gwneuthur yr hyn oll a wnaeth Crist mewn ufudd-dod i'r ddeddf foesol, ac ar sail hyn yn ei gyhoeddi yn gyfiawn. Neu, (yr hyn sydd yn gyfystyr,) fod Duw yn cyfrif, i'r pechadur crediniol, y gweithredoedd neillduol hyny o ufudd-dod a gyflawnodd Crist, fel ag y mae yn sefyll mor gyfiawn ger bron Duw ag yw Crist ei hunan, ac yn gyfiawn trwy yr un cyfiawnder ag yr oedd Crist yn gyfiawn. Mewn gair, dyma yr hyn yr ydym yn ei wadu, a'r hyn a haerwn, o berthynas i gyfiawnder Crist yn nghyfiawnhad pechadur, mai nid y cyfiawnder yma o eiddo Crist yw yr hyn a gyfrifir i neb yn gyfiawnder, ond mai er mwyn hyn y mae cyfiawnder yn cael ei gyfrif i

bob un ar sydd yn credu.—Yr ydym yn awr yn d'od i brofi yr hyn a haerwyd, a'r hyn a wadwyd, 1. Oddiwrth yr Ysgrythyrau; 2. Oddiwrth reswm; 3. Oddiwrth gydsyniad awduron.

## PEN. II.

*Cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder yn cael ei brofi o'r ysgrythyrau, a'r dehongliad o'r ysgrythyrau hyny yn cael ei gadarnhau gan reswm ac awdurdod awduron enwog.*

BETH yw yr hyn a gyfrifir yn gyfiawnder mewn cyfiawnhad, nid yw'r holl ddysgeidiaeth na doethineb dan yr holl nefoedd ddim mor gymwys i benderfynu a'r Ysbryd Glân sy'n llefaru yn yr ysgrythyrau; yr hwn yw ysgrifenydd mawr y nef, ag sydd yn wybyddus o holl gyfrinion Duw.

Pedwar o bethau a fawr ganmolant ddehongliad o'r ysgrythyr, pan eu ceir mewn cysylltiad â'u gilydd. Yn gyntaf, os bydd i'r llythyren yn gyfiawn ei oddef. Yn ail, os bydd i rediad y fan gyduno yn union-gyrchol âg ef. Yn drydydd, os bydd i'r dehongliad gwrthwynebol fethu a dal yn ngwyneb amgylchiadau y cyd-destynau. Yn bedwerydd, os ceir barnau dynion dysgedig a diduedd yn berffaith gydsyniol âg ef. Ond os yw yr ystyriaethau hyn yn ddigonol i gadarnhau dehongliad, yna ni bydd angen am ddim mwy o ysgrythyrau i brofi mai ffydd yw yr hyn a gyfrifir gan Dduw yn gyfiawnder, na Rhuf. 4 bennod.

Dos. II.—Oblegyd, yn gyntaf, y mae llythyren yr ysgrythyr yma yn llefaru yn eglur yr hyn a honir genym; ïe, yn ei lefaru unwaith a dwywaith; ïe, teirgwaith a phedair, "Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder," Adn. 3. Eilwaith, "I'r hwn nid yw yn gweithio ond yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, ei ffydd ef a gyfrifir iddo yn gyfiawnder," adn. 5. Felly eilwaith, "Canys yr ydym yn dyweyd, ddarfod cyfrif ffydd i Abraham yn gyfiawnder," Adn. 9. Ac eto, eilwaith, "Ac am hyny a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder," Adn. 22. Cyffelyb ymadroddion a ddefnyddir hefyd yn adn. 23, a 24. Y mae yn sicr nad oes yr un gwirionedd yn perthyn i grefydd, na'r un erthygl o'r ffydd Gristionogol, a fedr ymffrostio o lythyren yr ysgrythyr yn llawnach ac eglurach o'i blaid.

Dos. III.—Yn ail, Y mae rhediad y fan yn dangos fod y gair "ffydd" yn cael ei gymeryd yn briodol yn yr holl

ymadroddion hyn. Eglur yw, mai amcan penaf yr apostol yn yr holl draethiad hyn ar gyfiawnhad oedd, cau i fynu â drain y gau lwybr hwnw o gyfiawnhad, trwy weithredoedd y ddeddf, a dadlenu y wir ffordd o gyfiawnhad, trwy yr hon y gall dynion gyrhaedd cyfiawnder ger bron Duw: h.y., hysbysu iddynt yr hyn a ofynai Duw oddiwrthynt er eu cyfiawnhad; a'r hyn a ddywed yr apostol yw ffydd, neu gredu, yn ei briodol arwyddocâd. Nid yw yn gofyn cyfiawnder Crist oddiwrthym ni er ein cyfiawnhad. Hyn a ofynai oddiwrth Grist yn unig; ond yr hyn a ofyn oddiwrthym ni er hyn yw ein ffydd yn Nghrist; nid yn nghyfiawnder Crist, fel y dangosir ar ol hyn. Am hyny, fod Paul wedi dyweyd wrth ddynion, mai cyfiawnder Crist a gyfrifid yn gyfiawnder iddynt, a fuasai yn hollol wahanol i'w fwriad; yr hwn yn amlwg ydoedd hyn, hysbysu ewyllys rasol Duw o berthynas i'r hyn ydoedd i'w gyflawni ganddynt, (er nid trwy eu nerth eu hunain) tuag at eu cyfiawnhad. Hyn y mae yn ei gadarnhau, drachefn a thrachefn, i fod yn ddim arall ond eu ffydd, neu gredu. Dyweyd y byddai yn rhaid iddynt gael eu cyfiawnhau trwy Grist, neu trwy gyfiawnder Crist, ac ar yr un pryd heb ddangos yr hyn a ofynai Duw oddiwrthynt, i roddi iddynt ran yn y cyfiawnder hwnw neu'r cyfiawnhad ag sydd trwy Grist, a fuasai yn hytrach yn daflu maglau arnynt, nac agoryd drws o fywyd a thangnefedd iddynt. Am hyny, y mae yn ofalus pan y mae yn llefaru am gyfiawnhad neu brynedigaeth trwy Grist, i grybwyll am ffydd, yn fynych, fel y moddion trwy ba un y mae hyn yn gyrhaeddadwy. Gwel Rhuf. iii. 25. v. 1, 2. Trwy oleuni y fath ymadroddion y dangosir ystyr yr ysgrythyrau hyny lle y mae cyfiawnhad neu brynedigaeth trwy Grist yn cael eu gosod allan, heb unrhyw grybwylliad eglur am ffydd. megis Rhuf. iii. 24. v. 9, &c. megis, yr un modd a'r ysgrythyrau hyny yn y rhai y mae cyfiawnhad trwy ffydd yn cael ei honi, heb unrhyw grybwylliad eglur am Grist, na dim a ddyoddefwyd ganddo, megis Rhuf. iii. 28. 30.

Dos. IV.—Yn drydydd, Y mae amrywiol ymadroddion, yn y cyd-destynau, yn dadymchwelyd y dehongliad gwrthwynebol a roddir, sef, mai wrth y gair "ffydd," neu "gredu," yn yr holl ysgrythyrau dyfynedig, y meddylir, nid ffydd mewn ystyr briodol, ond mewn ystyr drawsenwadol, h.y., cyfiawnder Crist.

Yn gyntaf, Nid yw yn debyg y buasai yr apostol yn y pwnc pwysig o gyfiawnhad, yn yr hwn, diammheu y dymunai lefaru, (os mewn unrhyw bwnc) fel y byddai i'r

hyn a ddeallai ei hun i'w ddeall yn eglur gan ereill, drachefn a thrachefn, heb byth egluro ei hun, ddefnyddio y fath ymadroddion dyeithr, rhyfedd, a chwithig; ar nad ydynt i'w cael yn ei holl ysgrifeniadau, nac mewn un man yn yr ysgrythyrau. Dyweyd mai ffydd neu gredu a gyfrifir yn gyfiawnder, a meddwl mai nid ffydd yw a gyfrifir felly, ond mai cyfiawnder Crist, rhaid penderfynu mai amcan yr apostol ydoedd i beidio a gadael ei wir feddwl dd'od allan o'i enau.

Yn ail, Y mae yn eglur fod y ffydd, neu gredu, a ddywedir yn adn. 3, a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder, yn wahanol i weithredoedd neu weithio, adn. 5. Yn awr, rhwng ffydd yn yr ystyr briodol a gweithredoedd, rhwng credu a gweithio, y mae gwahaniaeth gwastadol rhyngddynt yn ysgrifeniadau yr Apostol. Ond rhwng ufudd-dod gweithredol, neu gyfiawnder Crist, a gweithredoedd, nid yw Paul byth yn gwneyd yr un gwahaniaeth, ac ni buasai rheswm yn goddef iddo wneyd ychwaith.

Yn drydydd, dywedir, yn adn. 5, mai "i'r hwn sydd yn credu ei ffydd ef a gyfrifir iddo yn gyfiawnder." Oddiwrth y fath ymadrodd, y mae yn amlwg fod y ffydd hòno (beth bynag a ddeallwn wrthi) a gyfrifwyd yn gyfiawnder, yn eiddo iddo ef; h.y., rhywbeth a ellir yn wirioneddol a phriodol ei galw felly, yn flaenorol i'r cyfrifiad o honi. Yn awr, y mae yn anmhosibl dyweyd fod cyfiawnder Crist yn eiddo yr un dyn cyn iddo gael ei gyfrif iddo; ond am ffydd, yn ei hystyr briodol, y mae yn eiddo'r credinwr, cyn iddi gael ei chyfrif, (yn ol trefn o leiaf, os nad o ran amser,) am hyny, wrth y ffydd a ddywedir yma sydd yn gyfrifedig, nis gall olygu cyfiawnder Crist.

Dos. V.—Yn bedwerydd, Os bydd i ni ganiatau troellymadrodd neu draws-enwad yn y fan hon, ac mai wrth ffydd y dylid deall yr hyn sydd i'w gredu; eto, nid yw yn canlyn, mai cyfiawnder Crist a ddywedir yma sydd yn gyfrifedig; ond naill ai Duw ei hun, neu ynte addewid Duw a wnaethpwyd i Abraham. Canys dywedir, "Credodd Abraham Dduw,"* adn. 3. Nid ei fod wedi credu cyfiawnder Crist, oddieithr i ni osod i fynu draws-enwad arall i amddiffyn y cyntaf, ac wrth "Dduw" y meddylir cyfiawnder Crist, yr hyn ni fyddai yn droell-ymadrodd neu ffigiwr, ond yn hytrach anghenfil o ymadrodd. Am hyny, nis gall mai cyfiawnder Crist a ddywedir neu a feddylir yma a gyfrifir yn gyfiawnder. Ie, er fod gwrth-

* Saesonaeg, "Credodd Abraham Dduw." Cymraeg, "Credodd Abraham *i* Dduw."

ddrych ffydd gyfiawnhaol yn cael ei osod allan gydag amrywiol lawer o ymadroddion yn yr ysgrythyrau; eto, yn yr holl amrywiaeth hyn nid oes y crybwylliad lleiaf ynddynt am gyfiawnder Crist; fel pe buasai yr Ysbryd Glân yn rhagweled cyneuad y tân dyeithr hwn, a gadwodd yn fwriadol bob tanwydd a allasai fod yn gynhaliaeth iddo. Weithiau y mae Crist yn ei berson yn cael ei wneyd yn wrthddrych y ffydd hon: Ioan iii. 16, "Pwy bynag a gredo ynddo ef." Weithiau athrawiaethau Crist: Ioan v. 46, "Canys pe credasech chwi i Moses, chwi a gredasech i minau." Weithiau Crist, fel y mae yn dal perthynas â Duw, ei Dad: Ioan xx. 31, "Eithr y pethau hyn a ysgrifenwyd fel y credoch chwi mai Iesu yw Crist, Mab Duw." Neu ynte, fel y mae yn dal perthynas â'r hen addewidion hyny a wnaethpwyd i'r Iuddewon o bryd i byd, o berthynas i'r Messia, yn flaenorol i'w ymddangosiad yn y cnawd: Ioan viii. 24; "Oblegyd oni chredwch mai myfi yw efe, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau." Weithiau y mae adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw yn cael ei wneuthur yn wrthddrych y ffydd hon: Rhuf. x. 9, "Mai os cyffesi â'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi o feirw, cadwedig fyddi." Bryd arall, y mae Duw ei hun yn cael ei nodi fel gwrthddrych y ffydd hon: 1 Pedr i. 21. "Fel y byddai eich ffydd chwi a'ch gobaith yn Nuw." Ioan xii. 44, "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, nid yw yn credu ynof fi, ond yn yr hwn a'm danfonodd i." Yn olaf, y mae tystiolaeth Duw am ei Fab yn cael ei gwneyd yn wrthddrych y ffydd hon: 1 Ioan v. 10, "Yr hwn nid yw yn credu i Dduw, a'i gwnaeth ef yn gelwyddog, oblegyd na chredodd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab." Ond yn yr amrywiaeth hyn o osod allan wrthddrych ffydd gyfiawnhaol, nid oes yr un crybwylliad ynddynt am gyfiawnder neu ufudd-dod gweithredol Crist.

Dos. VI.—Yn bummed, Y ffydd a ddywedir, yn adn. 3., "a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder," yw y ffydd trwy yr hon y "credodd efe yn Nuw, yr hwn sydd yn bywhau y meirw, ac yn galw y pethau nad ydynt fel y byddent," adn. 17. Ond ni ellir galw cyfiawnder Crist, yn ol unrhyw gystrawen oddefol, neu gysondeb ymadrodd, y gyfryw ffydd â'r hon y "credodd Abraham yn Nuw, yr hwn sydd yn bywhau y meirw." Felly nid cyfiawnder Crist yw y ffydd hono ac y dywedir yma a gyfrifwyd yn gyfiawnder.

Yn chweched, Y ffydd a "gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder," adn. 3, yw y ffydd hono y dywedir fod "Abraham

yn ddiegwan," adn. 19. Ac sydd yn wrthwyneb i "ammheu addewid Duw trwy annghrediniaeth," adn. 20. Ond y mae yn anmhosibl golygu cyfiawnder Crist i fod yr hyn ag yr oedd Abraham yn ddiegwan; ac nid yw cyfiawnder Crist yn dwyn unrhyw wrthwynebiad gydag ef i amheuaeth i addewid Duw trwy angrhediniaeth. Ond cydrhwng ffydd yn ei hystyr briodol, neu grediniaeth ddiysgog, ac ammheuaeth trwy annghrediniaeth, y mae yna wrthwynebiad perffaith a chyfeiriol. Felly ffydd, yn yr ystyr hon, a ddywedir a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder, ac nid cyfiawnder Crist.

Yn seithfed, Y ffydd a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder, ydoedd y ffydd hono trwy yr hon yr oedd efe yn gwbl sicr, fod yr hwn a addawodd yn abl i'w wneuthur hefyd, canys felly y darlunir yn adn. 21; a chyfrifiad ffydd yn ol y desgrifiad yna a gadarnheir, yn adn. 22, "Ac am hyny a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder." Ond nid yw cyfiawnder Crist yn addas o'r fath ddarluniad a hyn, mai trwyddo yr oedd Abraham "yn gwbl sicr ganddo, am yr hyn a addawsai, ei fod yn abl i'w wneuthur." Am hyny, nid cyfiawnder Crist yw yr hyn a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder.

Yn Wythfed, Yr hyn a gyfrifir i ni yn gyfiawnder a ddywedir yw ein "credu yn yr hwn a gyfododd yr Arglwydd Iesu oddiwrth y meirw," adn. 24. Ond nid cyfiawnder Crist yw ein credu yn yr hwn a gyfododd ein Harglwydd ni oddiwrth y meirw, gan hyny, nis gall fod yr hyn a ddywedir, neu a feddylir, a gyfrifir i ni yn gyfiawnder.

Yn nawfed, ac yn olaf, gan nad yw y pwnc o gyfrifiad mewn cyfiawnhad yn cael ei drin ond yn y bennod hon o'r ysgrythyr, Rhuf. iv. (canys nid yw y manau ereill, megis Gal. iii. ac Iago ii. ond yn unig ei grybwyll, ond heb orphwys dim ar unrhyw eglurhad o hono,) nid yw mewn un modd yn debygol, na fuasai yr apostol yn llefaru yn groyw ac yn eglur am ei natur yn y fan hon; a phe yn amgenach buasai yn hytrach yn gosod maen tramgwydd yn ffordd dynion, nac ysgrifenu dim er eu hyfforddiant. Yn awr, os cymerwn y gair "ffydd," neu gredu, a ddefnyddir mor fynych yn y bennod hon, yn ei arwyddocâd eglur a phriodol, am y ffydd â'r hon y mae dyn yn credu yn Nghrist, neu addewid Duw am Grist, yna y mae rhediad y traethiad (*discourse*) mor amlwg a'r dydd, a ffrwd yr holl bennod yn rhedeg yn ddirwystr. Ond os dygwn i fewn ddehongliad ffigwrol neu draws-enwadol, a chaethiwo yr Apostol i feddwl wrth "ffydd," cyfiawnder Crist, yr ydym

yn mantellu yr haul â sachlen! ac yn troi eglurdeb yr yr Apostol yn niwl eithaf. Nid yw y gair "ffydd," er yn cael ei ddefnyddio yn fynych yn yr ysgrythyrau, byth i'w gael yn arwyddo cyfiawnder Crist; ac nid oes ychwaith unrhyw reol mewn gramadeg, na ffigiwr mewn areithyddiaeth, a ddichon gysoni anghysondeb y fath ddehongliad.

Dos. VII.—Os dywedir fod ffydd weithiau yn cael ei gosod am wrthddrych ffydd, megis Gal. iii. 23: "Eithr cyn dyfod ffydd," h.y., athrawiaeth ffydd, neu Grist ei hun, gwrthddrych ffydd, "y'n cadwyd dan y ddeddf." Yr wyf yn ateb,

Yn gyntaf, Er fod enw y gyneddf weithiau yn cael ei osod am y gwrthddrych a briodolir iddi, eto, anaml y weithred, os byth, 'rwy'n meddwl. Yn awr, nid y rhinwedd neu y gras o ffydd a ddywedir yma a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder; "ond credodd Abraham Dduw," h.y., cyflawnodd weithred o ffydd, "a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder." Ac er dichon fod ffydd weithiau yn cael ei gosod am wrthddrych ffydd, eto, nid yw yr ymarferiad o'r ffydd hon, neu gredu, byth yn cael ei osod am dano.

Yn ail, Pe caniateid y dichon i'r weithred, yn gystal a'r rhinwedd o ffydd, gael ei gosod weithiau am wrthddrych ffydd, eto, pan y mae'r weithred a'i gwrthddrych yn cael eu henwi gyda'u gilydd, a'r weithred yn cael ei gosod allan gyda gwrthddrych priodol iddi; ac, yn mhellach, rhywbeth yn cael ei briodoli yn union-gyrchol i'r weithred o dan yr ystyriaeth yna, yr hyn oll a ganfyddir yn eglur yn yr ymadrodd hyn, "Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder;" a haeru, yn y mater hwn, nad yw yr hyn a briodolir fel yna, ddim yn cael ei briodoli i'r weithred a grybwyllir yn y geiriau, (yr hyn yw crediniaeth Abraham,) nac ychwaith i'r gwrthddrych a gyd-goffheir â hi, (yr hwn yw Duw; "Credodd Abraham i Dduw,") ond i ryw drydydd peth gwahanol i'r naill a'r llall, nad yw yn cael ei grybwyll gymaint ag unwaith yn yr holl draethiad; canys nid yw cyfiawnder Crist yn cael ei enwi gymaint ag unwaith drwy yr holl bennod hon, nac mewn un arall yn agos iddi, yn flaenorol nac yn ddilynol; beth ydyw hyn ond cyfnewid yr hyn a gadarnheir yn amlwg, am yr hyn na chynwysir mono yn y llewyrch gwanaf, a gwneyd yr Apostol i lefaru fel na lefarodd dyn erioed, nid o ran godidowgrwydd ymadrodd, ond o ran chwithigrwydd a thywyllwch? Sicr nad oes engrhaifft i'w chael o unrhyw awdwr, pa bynag, santaidd neu gyffredin, yn meddu y fath ddygasedd i

gael ei ddeall yn yr hyn a lefara, fel ag i osod ei feddwl mewn geiriau o'r fath ystyrion.

Yn drydydd, Ond nid cyfiawnder Crist yw gwrthddrych ffydd gyfiawnhaol, ac nid yw yr ysgrythyrau, pan yn llefaru am ffydd gyfiawnhaol, yn gwneyd yr un coffâd, nac yn rhoddi y crybwylliad lleiaf o'r fath beth. Y mae yn wir fod yr ysgrythyrau, weithiau, yn gosod cyfiawnder Crist, neu ei ufudd-dod i'r ddeddf, fel yr hyn sydd i'w gredu, ac felly gellir ei gyfrif yn ranol (*partial*) wrthddrych ffydd; ond yr un modd y mae creadigaeth y byd i'w gredu, ac mai mab Adda oedd Cain. Ac yn gyffredin, beth bynag y mae yr ysgrythyrau yn ei hòni a ellir eu galw yn ranol wrthddrych ffydd. Ond gwrthddrych ffydd gyfiawnhaol yw naill ai Crïst ei hun, neu addewid Duw o berthynas i brynedigaeth y byd trwyddo ef. Nid yw cyfiawnder Crist ddim yn fwy gwrthddrych ffydd gyfiawnhaol na'i enedigaeth o Forwyn, neu ei esgyniad i'r nefoedd; a byddai mor briodol dyweyd mai y naill neu y llall a a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder, a dyweyd mai cyfiawnder Crist. Felly y gwelwch yn eglur gymaint o ymadroddion ac amgylchiadau yn y cyd-destynau sydd yn sefyll yn erbyn yr esponiad yna, mai wrth "ffydd Abraham," yn y bennod hon, y dylid deall cyfiawnder Crist.

Dos. VIII.—Yn bedwerydd, Y dehongliad yma, yn yr hwn y mae y gair "ffydd," neu gredu, yn cael ei gymeryd yn ei ystyr briodol, ac nid traws-enwadol yn yr holl ymadroddion crybwylledig, ydoedd yr un a gymeradwywyd yn gyffredin yn y dyddiau gynt, ac a dderbyniwyd yn ddylynol gan oleuadau enwocaf eglwys Dduw; ac ni chafodd ei ammeu na'i wrthwynebu ychwaith, yn ol eithaf fy ngwybodaeth, am bymtheg cant o flynyddoedd. Ac nid ymddanghosodd y dybiaeth wrthwynebol erioed yn y byd, hyd yr oesoedd diweddaf. Fel nad yw ond cabl a ddygwyd arni (annheilwng o dafod neu ysgrif-bin yr un dyn difrifol) i wneuthur Arminius neu Socinus yn awdwr o honi. Ac am y can' mlynedd diweddaf, er amserau Luther a Calvin, a'r oesoedd blaenorol i hyny, y mae Esponwyr yn cyd-uno yn hyn. Credwch hyn yn hawdd os byddwch gystal a chwilio yr ychydig dystiolaethau hyn yn ddiduedd.

Tertulian, yr hwn a ysgrifenodd o gylch y flwyddyn 194, yn ei bummed llyfr yn erbyn Marcion, a ddywedodd fel hyn, "Ond pa fodd yn blant ffydd? neu, o ffydd pwy os nad o ffydd Abraham? Oblegyd os credodd Abraham i Dduw, a hyny gael ei gyfrif iddo yn gyfiawnder, a thrwy

hyny a deilyngodd yr enw tad cenhedloedd lawer, nyni yn fwy trwy gredu yn Nuw, a gyfiawnheir fel Abraham."* Am hyny, barn Tertulian yn amlwg oedd, mai y ffydd a ddywedir a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder yw ffydd yn ei hystyr briodol, ac nid cyfiawnder Crist a ddeallir wrth ffydd.

Origen, yr hwn oedd yn oesi o gylch y flwyddyn 203, yn ei bedwerydd llyfr ar y Rhufeiniaid, pen. iv. adn. 3, a ddywed fel hyn, "Ymddengys, gan hyny, yn y fan hon hefyd, er fod amrywiol ffydd, hyny yw, amrywiol weithredoedd o gredu, o eiddo Abraham wedi myned heibio o'r blaen, fod ei holl ffydd yn awr wedi ei chrynhoi a'i huno gyda'i gilydd, ac felly a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder."† Ac yn ebrwydd, yn yr un man, y mae ganddo eiriau i'r un perwyl. Felly efe a gydunodd â Thertulian yn y dehongliad o'r ysgrythyr hon.

Justin Martyr, yr hwn oedd yn oesi o flaen y naill a'r llall, ac yn fuan ar ol yr apostol Ioan, o gylch y flwyddyn 130, yn ei ddadl â Trypho, yr Iuddew, arweiniwyd y naill a'r llall i ffordd y dehongliad hwn, "Ni chariodd Abraham dystiolaeth o gyfiawnder o herwydd ei enwaediad, ond o herwydd ei ffydd; canys cyn ei enwaediad y dywedwyd hyn am dano, "Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder."‡

Crysostom, yr hwn oedd yn oesi ryw gymaint ar ol y flwyddyn 380, yn nechreuad ei nawfed bregeth ar y Rhufeiniaid a ddywed, "Wedi iddo lefaru," (sef Paul, yn y rhan flaenorol o'r bennod hono) "pethau mawr yn nghylch Abraham a'i ffydd," &c.§ Ac yn fuan ar ol hyny y dywed, "I ba beth eu hysgrifenwyd, onid fel y dysgem ein bod ninau hefyd wedi ein cyfiawnhau yr un modd ag ynteu, oblegyd i ni gredu yr un Duw?" Yr un tad eilwaith, ar Gal. iii, "Canys pa faint gwaeth oedd er peidio a bod dan y ddeddf? Dim oll, canys yr oedd ei ffydd yn gyfiawnder digonol iddo ef"||

Os oedd ffydd Abraham yn gyfiawnder digonol iddo, rhaid ei bod yn cael ei chyfrif gan Dduw iddo felly; canys rhaid mai y cyfrifiad hwn oddiwrth Dduw a wnaeth y fath ddigonolrwydd o honi i Abraham. Ni bydd yr hyn na chymeradwyir gyda Duw yn gyfiawnder, byth yn gyfiawnder digonol i'r creadur.

* Tertul. Contra Marc., i. 5., C. 3.—† Origen, 1. 4, ad Rom., in c. iv.—‡ Just. Mart. Dial. Cum. Tryph. Post. Medium.—§ Chrysost. ad Rom. iv. 23., circa initium Serm. 9, et. Paulo Post.—|| Idem ad Gal. iii. 6.

Dos. IX.—Sant Augustine, yr hwn oedd yn oesi o gylch y flwyddyn 390, sydd yn dwyn tystiolaethau mynych i'r dehongliad hwn: "Canys yr ydym ni, trwy gredu, wedi enill yr hyn a gollasant hwy (sef yr Iuddewon) trwy anghrediniaeth: canys credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder."* Gan hyny y mae yn amlwg mai ei farn ef ydoedd, mai ffydd Abraham, yn ei hystyr briodol, a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder, ac nid cyfiawnder Crist. Canys y ffydd a gyfrifwyd iddo felly, y mae yr Apostol yn ei gwrth-gyferbynu i anghrediniaeth yr Iuddewon, trwy yr hyn y collasant hwy ras a ffafr Duw. Nid cyfiawnder Crist, a wrth-gyferbynir i anghrediniaeth yr Iuddewon, ond ffydd yn ei hystyr briodol. Eto wrth ysgrifenu ar Sal. 70, "Canys yr ydwyf yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, fel y byddo i fy ffydd i gael ei chyfrif yn gyfiawnder imi." Wrth "ffydd" yn y fan hon nis gall olygu cyfiawnder Crist, oblegyd dywed ei bod yn eiddo iddo ei hun yn flaenorol i'r cyfrifiad o honi; ond nis gellir dychmygu mewn un modd fod cyfiawnder Crist yn eiddo'r un dyn, cyn iddo gael ei wneyd yn eiddo iddo trwy gyfrifiad. Yr un tad, eilwaith eto, yn ei draethawd ar Natur a Gras, a ddywed, "Ond os na bu Crist farw yn ofer, cyfiawnheir yr annuwiol trwyddo ef yn unig: i'r sawl sydd yn credu yn yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, ei ffydd a gyfrifir iddo yn gyfiawnder."†

Primasius, o gylch y flwyddyn 500, wrth ysgrifenu ar Rhuf. iv. 3., a ddywed, *Tam magna fuit dono Dei fides Abrahœ, ut et pristina ei peccata donarentur, et sola prœ omni justitiâ doceretur accepta:* "Yr oedd ffydd Abraham, trwy ddawn Duw, mor fawr fel y maddeuwyd ei holl bechodau blaenorol, a'r ffydd hon o'i eiddo yn unig a dderbyniwyd mewn cymeradwyaeth o flaen pob cyfiawnder." Sicr yw, wrth "ffydd Abraham," nis gall olygu cyfiawnder Crist.

Beda, yr hwn a oesodd ryw gymaint cyn y flwyddyn 700, ar Rhuf. iv. 5, sydd ganddo y geiriau hyn: "Pa ffydd, ond yr hon ag y mae yr Apostol yn ei darlunio yn llawn mewn man arall? Ni all enwaediad ddim, na dienwaediad ddim, ond ffydd yn gweithio trwy gariad; nid yr un ffydd arall, ond yr hon sydd yn gweithio trwy gariad."‡ Sicr yw, nis gellir golygu y ffydd hòno, ag y dengys yr Apostol sydd yn gweithio trwy gariad, i fod yn gyfiawnder

* Aug. in Psal. cxlviii., versus finem.—† Aug. De Nat. et grat., non longe ab initio.—‡ Beda ad Rom. 4. 5.

Crist; ac eto, dyma'r ffydd, yn marn yr awdwr hwn, a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder.

Haymo, o gylch y flwyddyn 840, ar Rhuf. iv. 3, a ddywed, "O herwydd iddo gredu Duw, cyfrifwyd hyny iddo yn gyfiawnder; h.y., er maddeuant pechodau, canys trwy y ffydd hòno y credodd, y gwnaethpwyd ef yn gyfiawn."*

Anselm, Archesgob Canterbury, o gylch y flwyddyn 1090, ar Rhuf. iv. 3, "Efe," (sef Abraham) "a gredodd mor gadarn, a chyfrifwyd hyny gan Dduw iddo yn gyfiawnder; h.y., trwy y grediniaeth hon y cyfrifwyd ef yn gyfiawn ger bron Duw."†

Oddiwrth yr holl dystiolaethau hyn eglur yw, mai yr esponiad hwn a amddiffynir genym ni o'r ysgrythyr hon a lywodraethodd yn eglwys Dduw yn yr oesoedd boreuaf, ac eisteddodd ar yr orsedd am dros fil o flynyddoedd cyn i'r un dyn agor ei enau i'w wrthwynebu. Os deuwn at amseroedd y diwygiad, ni a'i canfyddwn yma hefyd yn cael amddiffyn gan ddynion o'r ddysgeidiaeth a'r awdurdod fwyaf.

Dos. X.—Luther, ar Gal. iii. 6., "Ymddiriediad neu ffydd yn Mab Duw ydyw Cyfiawnder Cristionogol, yr hwn ymddiriediad a gyfrifir yn gyfiawnder, er mwyn Crist."‡ Ac yn fuan ar ol hyn y dywed, "Y mae Duw, yn yr hwn yr wyf yn credu, er mwyn Crist, yn cyfrif fy ffydd anmherffaith *i* yn berffaith gyfiawnder."

Bucer, ar Rhuf. iv. 3, a ddywed, "Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder; h.y., efe a gyfrifodd y ffydd hon iddo yn gyfiawnder. Felly, trwy gredu yr ennillodd efe hyn,—i Dduw ei gyfrif yn ddyn cyfiawn."

Peter Martyr, a ddengys ei fod o'r un farn, ar Rhuf. iv. 3, "Cyfrif yn gyfiawnder mewn ystyr arall, a olyga yr hyn ag yr ydym ni drwyddo yn cael ein cyfrif o nifer y cyfiawnion. A hyn y mae Paul yn ei briodoli i ffydd yn unig."

Calvin, sy'n cefnogi yr un dehongliad ar Rhuf. iv. 3, "Gan hyny, nid oedd Abraham, trwy gredu, ond yn unig derbyn y gras a gynygiwyd iddo, fel na byddai yn ofer. Os hyn a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder, y mae yn canlyn nad oedd yn gyfiawn mewn un ffordd arall, ond fel yr ymddiriedai neu yr ymorphwysai ar ddaioni Duw, a thrwy hyny fod ganddo hyder i obeitho am bob-peth oddiwrtho."§ Eilwaith, adn. 5, "Cyfrifir ffydd yn gyfiawnder, nid am ei bod yn cario unrhyw deilyngdod oddiwrthym ni, ond

* Haymo in Rom. iv. 3.—† Anselm. Cant. in Rom. iv. 3.—‡ Luther ad. Gal. iii. 6.—§Calvin ad Rom. iv. 3.

o herwydd ei bod yn ymaflyd yn nhrugaredd Duw." Y mae yn amlwg, oddiwrth hyn, na feddyliodd erioed am ystyr ffigwrol i'r gair "ffydd;" ond efe a'i cymerai yn yr ystyr eglur a gramadegol o hono.

Dos. XI.—Musculus, sydd yn milwrio o blaid y cyfrifiad hwn hefyd, yn ei nodiadau a'r gyfiawnhad, dos. V: "Dylai y ffydd hon fod mewn bri mawr genym, nid o ran ei nhatur, ond o herwydd bwriad Duw, trwy yr hyn y mae wedi arfaethu, er mwyn Crist, i'w chyfrif yn gyfiawnder i'r sawl a gredant ynddo."* Yr un awdwr ar Gal. iii. 6, "Beth a wnaeth Abraham i'w gyfrif iddo yn gyfiawnder, ond yn unig hyn—credu yn Nuw?" Eto, "Ond pan gredodd efe yn ddiysgog addewid Duw, y ffydd hòno a gyfrifwyd iddo yn lle cyfiawnder; h.y., efe a gyfrifwyd gan Dduw yn gyfiawn am y ffydd hòno, ac a ryddhawyd oddiwrth ei holl bechodau."

Bullinger, sydd yn rhoddi yr un esponiad ar Rhuf. iv: "Cyflwynodd Abraham ei hunan i Dduw trwy gredu, a'r unig ffydd hon a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder." Ac felly ar Gal. iii. 6: "A chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder, h.y., y ffydd hòno o eiddo Abraham a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder, tra yr oedd efe eto yn ddienwaediad."

Gaulter, nid yw ynteu ar ol i'r rhai blaenorol i amddiffyn yr esponiad hwn; ar Rhuf. iv. 3, y dywed, "Credodd Abraham i Dduw, ac efe, sef Duw, a gyfrifodd y ffydd hon iddo yn gyfiawnder."

Aretius, sydd yn cadarnhau yr esponiad blaenorol ar Rhuf. iv, "Efe a gyfrifodd gyfiawnder iddo, yr hyn sydd yn ogymaint a dyweyd, efe a gymeradwyodd ei ffydd mor fawr, fel ar hyny, i'w gyfrif yn gyfiawn â chyfiawnder cyfrifol." Nid yw yn galw y cyfiawnder cyfrifol yma, yn gyfiawnder ag sydd yn eiddo un yn reddfol, ac yn dyfod yn eiddo arall trwy gyfrifiad, ond rhywbeth yn cael ei gyfrif gan Dduw yn gyfiawnder, nad yw felly mewn ystyr lythyrenol a manwl. Yr un awdwr eto yn fwy eglur, ar adn. 22, o'r un bennod, "Ffydd mor gadarn a duwiolfrydus, a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder."

Illyricus, ar Rhuf.iv. 3, a ddywed, "y grediniaeth hòno a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder."

Pelicanus, yr un modd, a ddywed, ar Gen. xv. 6: "Credodd Abraham yn syml *(simply)* air Duw, ac ni ofynodd arwydd gan yr Arglwydd; a chyfrifodd Duw y ffydd hòno i Abraham yn gyfiawnder.

Hunnius, diwygiwr arall, ar Rhuf. iv. 3, a ddywed,

* Musc. Loc. de sect. 5.

"Ffydd Abraham yn credu addewid Duw, a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder."

Beza, ar yr un ysgrythyr a ddywed, "Yn hyn y mae'r peth, o berthynas i'r hyn a gyfrifwyd iddo, sef, ei ffydd."

Junius a Tremellius ydynt o'r un meddwl, ar Gen. xv. 6: "Cyfrifodd Duw ef yn gyfiawn, er yn ddiffygiol o gyfiawnder; a chyfrifodd hyn yn lle cyfiawnder,—iddo gofleidio addewid Duw gyda chrediniaeth gadarn."

Paræus, y diweddaf a enwir o'r Duwinyddion tramor, a rydd yr un dehongliad ar Rhuf. iv. 3: "Yr ydym yn deall wrth y gair ffydd, (a ddywedir a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder) ymorphwysiad Abraham, nid arno ei hun, nac ar ei deilyngdod ei hun, ond ar addewid a graslonrwydd Duw."

Ond nid ydym heb ddynion, yn ein plith ein hunain, o ddysgeidiaeth a barn iachus, i ddal allan y dehongliad hwn.

Dos. XII.—Doctor Robert Abbott, (wedi hyny Esgob Sarum,) yn ei Ddiheurad (*Apology*) yn erbyn Esgob, Rhan I. Pen. ix, ar ol gosod i lawr y geiriau hyny o eiddo yr apostol, Rhuf. iv. 5 a'r 6: "Yn y cyfryw eiriau, ni ganfyddwn y modd y mae yr Apostol yn cadarnhau cyfrifiad o gyfiawnder heb weithredoedd; yr hyn a ddengys yw cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder; oblegyd trwy hyn y derbynir gollyngdod a maddeuant pechodau." Eto, ychydig ar ol hyn y dywed, "Am y cyfrifiad o gyfiawnder heb weithredoedd, beth yw yr hyn a gyfrfir yn gyfiawnder? Ffydd, medd yr Apostol, a gyfrifir yn gyfiawnder."

Dr. Preston, hefyd sydd yn ymwrthod â'r dehongliad ffigwrol o'r ysgrythyr hon, ac yn cymeradwyo yr un llythyrenol a phriodol. Yn ei draethawd ar holl-ddigonolrwydd Duw, tudal. 12 a 13, y dywed, "Yn yr ystyr hwn y dywedir fod ffydd yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder,—Credodd Abraham Dduw, Gen. xv. Dywedodd Duw wrtho yr hyn wnai iddo, ac medd y testun, Credodd Abraham Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder. Cyfrifwyd hyn yn gyfiawnder iddo, yn yr ystyr hwn yn benaf, fel ag y mae wedi ei egluro yn Rhuf. iv, sef yn unig ei grediniaeth o'r addewid a'i dderbyniad o'r cyfammod a roddwyd gan Dduw, yr hyn a'i gosododd o fewn y cyfammod, ac felly cyfrifodd yr Arglwydd ef yn ddyn cyfiawn, am y grediniaeth a'r derbyniad yna."

Mr. John Forbs, gweinidog Eglwys Loegr, yn ddiweddar, yn Middleburgh, dyn hysbys o ran ei ddifrifwch, duwioldeb, a dysgeidiaeth, yn ei Draethawd ar Gyfiawnhad,

(pen. xxviii. tudal. 135,) a ddywed fel hyn: "Y mae ffydd yn yr ymadrodd hyn," (lle y dywedir ei bod yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder,) "yn ol fy meddwl i, i'w chymeryd yn briodol, yn yr ystyr hwnw ag y gwahaniaetha ynddi ei hun oddiwrth y gair trwy yr hwn ei cenhedlir, ac oddiwrth y gwrthddrych o honi yn y gair, sef Crist."

Fel hyn y gosodais i lawr ddyfyniadau o amrywiol awduron, mewn ffordd o gyd-brawf, er amddiffyn y dehongliad llythyrenol a phriodol o'r ysgrythyr hon. Nid am fod y dehongliad ynddo ei hun mewn angen *tali auxilio aut defensoribus istis;* ond yn unig er symud ymaith y maen-tramgwydd dirfawr hwnw ag sydd yn gorwedd yn ffordd llawer o ddynion, yr hwn a elwir "rhagfarn."

## PEN. III.

*Prawfiadau ereill o'r Ysgrythyr.*

Dos. I.—Mai nid ufudd-dod gweithredol Crist a fwriadwyd erioed gan Dduw i fod y cyfiawnder hwnw trwy yr hwn y'n cyfiawnheir ni, a ellir ei brofi yn mhellach oddiwrth yr holl ysgrythyrau hyny lle y mae gweithredoedd y ddeddf yn cael eu cau allan o gyfiawnhad; megis, Rhuf. iii. 28, "Yr ydym ni, gan hyny, yn cyfrif mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn, heb weithredoedd y ddeddf." Felly Gal. ii. 16, "Yn gwybod nad ydym yn cyfiawnhau dyn trwy weithredoedd y ddeddf, ond twy ffydd Iesu Grist; ninau hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnheir trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf." Eto, Rhuf. iii. 20, "Am hyny, trwy weithredoeddd y ddeddf ni chyfiawnheir yr un cnawd yn ei olwg ef:" ond os trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist y cyfiawnheir dyn, y mae yn cael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf, canys y mae y cyfiawnder hwn o eiddo Crist yn gynwysedig o'r gweithredoedd hyny ag a fuasai cyfiawnder personol pob dyn, pe buasai y cyfammod cyntaf yn aros. Am hyny, nis gellir cyfrif y cyfiawnder hwn o eiddo Crist i'r un dyn yn gyfryw gyfiawnder ag y mae i gael ei gyfiawnhau trwyddo.

Ond ni oddef yr ysgrythyrau rhai'n y fath ddehongliad a hyn; sef, "Ni chyfiawnheir yr un dyn trwy weithredoedd y ddeddf, a gyflawnir ganddo ei hun, canys nid yw gweithredoedd neb yn gyfartal i fanylrwydd y ddeddf. Ond fe all dyn gael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd a gyflawnir gan arall, a thybied i'r arall hwn fod mor fawr yn

ei ufudd-dod ag yw'r ddeddf yn ei gofynion, a bod Duw yn ewyllysgar i gyfleu y gweithredoedd hyn i ni trwy gyfrifiad." I hyn yr wyf yn ateb,

Dos. II.—Yn gyntaf, Pan y mae yr Ysbryd Glân yn llefaru gwirionedd gyda symledd anmhenderfynol, ac mewn ffordd o gasgliad cyffredinol, heb osod unrhyw angenrheidrwydd ar ddynion i'w benderfynu yn y fan hòno, nac mewn man arall ychwaith; ac i ddynion yn y fan hòno arferyd eu doethineb, trwy wahaniaethu, penderfynu, a gŵyrdroi gwir ac eglur ystyr y geiriau, sydd yn arferyd awdurdod dros yr ysgrythyrau, ac nid dysgu dynion i ymostwng iddynt: nid oes arferiad, pa mor bechadurus, na thybiaeth, pa mor gyfeiliornus, ond a ddichon fel hyn ysgoi cleddyf yr Ysbryd.

Dos. III.—Yn ail, Pe swydd benodol yr Apostol fuasai, wrth osod allan yr athrawiaeth o gyfiawnhad, gwneyd y fath wahaniaethiad ag yr ymdrechir drosto, cydrhwng gweithredoedd y ddeddf a gyflawnir gan ddynion, a'r un gweithredoedd a gyflawnwyd gan Grist, na byddai i'r rhai cyntaf feddu yr un rhan mewn cyfiawnhad, ond y byddai i'r rhai diweddaf fod oll yn oll ynddo; sicr y buasai yn anffyddlon yn yr ymddiriediad hwn, ac yn gwneuthur cam dirfawr â'r gweithredoedd yma o eiddo Crist, trwy roddi y lle hwnw o anrhydedd, ac ydoedd yn ddyledus iddynt hwy, i'r hyn sydd yn llawer îs o ran natur, sef, "ffydd;" fel y mae yn amlwg ei fod yn gwneyd, yn yr ysgrythyr dyfynedig, "Yn gwybod nad ydys yn cyfiawnhau dyn trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffydd Iesu Grist." (Gal. ii.) Ni ddywed, Ond trwy weithredoedd Iesu Grist, fel pe byddai y gwahanieth yn aros rhwng gweithredoedd y ddedf wedi eu cyflawni gan ddynion, a'r un gweithredoedd wedi eu cyflawni gan Grist; yr hyn, yn ol pob rheswm, a ddylasai wneyd, os oedd gweithredoedd y ddeddf, wedi eu cyflawni gan Grist, yn meddu y fath ragoriaeth a hyn ar y lleill; ac nid priodoli i ffydd, yn yr hon y mae gan y creadur beth i wneyd, yr hyn ydoedd uchel-fraint cyfiawnder Crist. Sicr nad oedd Paul y fath elyn i gyfiawnder Crist fel ag i osod traws-feddianwr ar yr orsedd-fainc a berthynai iddo ef.

Yn drydydd, Os bwriad yr apostol oedd gosod lle mewn cyfiawnhad, i gyfiawnder gweithredol Crist, neu weithredoedd y ddeddf a gyflawnwyd gan Grist, yn wrthwyneb i'r unrhyw weithredoedd a gyflawnir gan ddynion, buasai ei ddull tywyll yn ymadroddi, yn cau allan yn gwbl weithredoedd y ddeddf, ac heb y crybwylliad lleiaf am unrhyw wahaniaeth yn y gweithredoedd hyny gan y naill na'r llall,

o ganlyniadau peryglus. Y mae yn sicr, pe buasai Paul wedi cloddio y fath bwll a hyn, y buasai yn ofalus i'w gau i fynu drachefn.

Dos. IV.—Yn bedwerydd, Os nad oedd meddwl yr Apostol, wrth gau allan weithredoedd y ddeddf o gyfiawnhad, ddim mwy na chau allan weithredoedd a gyflawnir gan ddynion, ac nid gan Grist, y mae yn anmhosibl meddwl na fuasai yn gwneyd defnydd o'r fath wahaniaethiad ei hun, a llawenychu am ei ddyfod mor agos i'w gydwladwyr, yr Iuddewon, yn y pwnc mawr o gyfiawnhad. A gallasai y gwahaniaethiad hwn fod yn gyfrwng undeb dymunol rhyngddynt. Beth yn benaf a enynai lid yr Iuddewon yn erbyn Paul, pregethiad yr efengyl, a chyfiawnder ffydd, onid am nad oedd y ddeddf a'i chyflawniadau yn cael eu dwyn i mewn i'r gorchwyl mawr o gyfiawnhad? Os gallasai Paul ddyweyd wrthynt, "Nid oes genych yr un rheswm dros gymeryd tramgwydd am fy mod i yn pregethu cyfiawnhad trwy ffydd yn Nghrist, canys nid wyf yn cau allan gyfiawnder neu weithredoedd eich deddf, nac ydwyf ddim, o feddu y rhan benaf yn eich cyfiawnhad; yr hyn wyf yn ei bregethu o berthynas i ffydd, sydd yn bwrpasol i ddyrchafu cyfiawnder y ddeddf, ac i ddangos y modd y bydd i chwi gael eich cyfiawnhau drwyddo. Nid wyf ond pregethu yn unig na ellwch gael eich cyfiawnhau drwy eich gwaith eich hunain yn cadw y ddeddf, oblegyd fod ei manylrwydd y fath nas gellwch byth ei gyraedd; a bod Duw wedi anfon un i'w chadw drosoch, a thrwy gyfrifiad o ufudd-dod hwn i chwi, y'ch cyfiawnheir. Gan hyny, nid wyf yn elyn i'ch cyfiawnhad trwy weithredoedd; nid wyf ond yn unig eich dysgu fod y gweithredoedd hyn wedi eu cyflawni gan un arall er eich cyfiawnhad:— Pwy na wel, na allasai yr Apostol, trwy y fath faterion esmwyth a nyna, symud ymaith ran fawr o'u gwrthnynebiad digofus tuag ato? Ond nid ydym yn cael cymaint ag un gair o'r natur hyn yn ei holl ysgrifeniadau; yr hyn a ddengys fod y gwahaniaeth rhyngddynt yn fwy na hyn. Nid y ddadl rhwng Paul â'r Iuddewon ydoedd, pa un ai trwy weithredoedd y ddeddf, wedi eu cyflawni ganddynt eu hunain, ynte gan un arall, yr oeddynt i gael eu cyfiawnhau; ond yn unig hyn,—pa un ai trwy weithredoedd y ddeddf, (dim gwahaniaeth gan bwy eu cyflawnid) ai ynteu trwy ffydd, yr oedd cyfiawnhad. Nid oes y crybwylliad lleiaf am yr un gwahaniaeth rhyngddynt yn hyn, pa un a oedd cyfiawnhad trwy weithredoedd y ddeddf, o'u heiddo eu hunain, ai ynte o eiddo Crist: nid oedd Paul

byth yn eu harwain at weithredoedd y ddeddf a gyflawnwyd gan Grist, am y defnydd o'u cyfiawnhad; yr hyn a ddengys ei fod ef a hwythau, yn hyn, o'r un meddwl, er eu bod mewn ystyr arall mor wahanol i'w gilydd, yn y pwnc o gyfiawnhad, ag y mae yn bosibl meddwl am dano: yr oedd Paul mor bell oddiwrth gredu cyfiawnhad trwy weithredoedd y ddeddf, a gyflawnwyd gan Grist, a'r Iuddewon mwyaf ystyfnig.

Dos. V.—Dichon y gwrthddadleuir dau beth fel hyn—yn gyntaf, Fod yna sail ddigonol wedi ei gosod gan Paul ei hun, i sylfaenu y gwahaniaethiad a nodwyd; sef, wrth gau allan weithredoedd y ddeddf o gyfiawnhad, nid yw ond eu cau allan yn unig, fel eu gwneir gan ddynion, ond nid fel eu gwnaethpwyd gan Grist; Titus iii. 5. Yn ail, Y mae yna grybwylliad hefyd am weithredoedd y ddeddf, a gyflawnwyd gan Grist, neu, (yr hyn sydd yn gyfystyr) o Grist "wedi ei wneuthur dan y ddeddf," yn un o brif ddadleuon Paul ar gyfiawnhad; Gal. iv. 4.

Ei eiriau yw y rhai hyn:—"Nid o weithredoedd cyfiawnder, y rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni." Ac oddiyma dadleua rhai fod yr Apostol drwy wrthod gweithredoedd cyfiawnder a wneir genym ni, yn golygu eu derbyn fel eu cyflawnwyd gan un arall drosom ni.

I hyn yr atebaf, yn gyntaf, Ni haerais, mewn un man, y dylai ufudd-dod gweithredol Crist gael ei gau allan yn gwbl, fel nad oes ganddo ddim i wneyd mewn cyfiawnhad: na, y mae hyn wedi ei addef yn eglur fod ganddo fendithiol ddylanwad ynddo, fel y mae yn cyfarfod yn ei ufudd-dod dyoddefol. Am hyny, nid yw yr wrthddadl hon dros dderbyniad gweithredoedd y ddeddf, a gyflawnwyd gan Grist, i fewn i gyfiawnhad, mewn un modd yn gwrthddyweyd yr atebiad a roddwyd mewn un rhan o hono, tu yma iddi allu profi yr angenrheidrwydd o dderbyn cyfiawnder gweithredol Crist fel yr achos defnyddiol, ffurfiol, neu offerynol, cyfiawnhad; a'r gwir yw, pwy bynag sydd yn myned oddiamgylch i wneyd y cyfiawnder yma o eiddo Crist yn achos ffurfiol, defnyddiol, neu offerynol cyfiawnhad, a geir, ar ymchwiliad iawn, yn hollol ddadymchwelyd y teilyngdod o hono; er y dywedir mai cadarnhau hyn ydyw amcan mawr y dybiaeth hon.

Yn ail, Nid yw y casgliad hwn yn canlyn oddiwrth yr ysgrythyrau crybwylledig. Gall yr Ysbryd Glân wrthod gweithredoedd dynion o fod yn achos o'r peth hyn neu arall, ac eto heb olygu mewn un modd i weithredoedd un arall fod yn achos o hyny. Ond,

Yn drydydd, I roddi y mater allan o bob dadl, wrth gau allan weithredoedd y ddeddf, "y rhai a wnaethom ni," nid oedd gan yr Apostol yr un meddwl, mewn ffordd wrth-gyferbyniol i hyn, i gynwys y gweithredoedd a allai un arall eu gwneyd; ond efe a ddengys yn eglur yn y geiriau y peth gwrth-gyferbyniol i hyny, ac a ddywed i ni mai "yn ol ei drugaredd yr achubodd efe ni:" "Nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni, ond yn ol ei drugaredd yr achubodd efe ni." Felly, nis gall fod yma ddim yn gynwysedig mewn ffordd o wrth-gyferbyniad, heblaw yr un a nodir yn y geiriau. Ond,

Yn bedwerydd, Rhag i neb allu dyweyd, y gallai fod yn ol trugaredd Duw, a thrwy weithredoedd cyfiawnder Crist, hefyd, y mae yr Apostol yn dangos yn eglur yn mha beth y mae'r drugaredd hon o eiddo Duw yn gynwysedig; nid yn ein hachub trwy gyfrifiad gweithredoedd Crist i ni, ond yn ein hadnewyddiad a golchiad yr adenedigaeth.

Dos. VI.—Yn nghylch yr ail wrthddadl, oddiwrth Gal. iv. 4, lle dywedir fod Crist "wedi ei wneuthur dan y ddeddf:" cesglir oddiwrth hyn, mai llefaru y mae yr Apostol am ufudd-dod gweithredol Crist, ac o herwydd hyny na fwriadodd i gau allan weithredoedd y ddeddf, a gyflawnwyd ganddo ef, o feddu eu rhan mewn cyfiawnhad.

Er ateb hyn, yr wyf yn nodi yn gyntaf, nad yw yr ymadrodd fod Crist "wedi ei wneuthur dan y ddeddf," ddim yn arwyddocau ufudd-dod Crist i'r ddeddf foesol, ond i'r un seremoniol, fel y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddywedir yn union-gyrchiol yn adn. 5, fel y dyben o'i wneuthur dan y ddeddf; sef, "fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf." Y mae yn afresymol i feddwl, y dywedir fod Crist wedi ei wneuthur dan unrhyw ddeddf amgen na'r hon yr oedd efe i brynu y sawl oedd odditani. Felly, gan nad ydym wedi ein prynu oddiwrth y ddeddf foesol, neu'r ufudd-dod dyledus iddi, canys y mae hon yn ddeddf dragwyddol, ac yn rhwymedigaeth dragwyddol, ond oddiwrth y ddeddf seremoniol, yna y mae yn canlyn mai y ddeddf hon a ddywedir yma y gwnaethpwyd Crist odditani. Os bydd i ddynion gasglu unrhyw beth oddiwrth hyn, dros gyfrifiad o ufudd-dod Crist mewn cyfiawnhad, rhaid iddo fod dros yr ufudd-dod hwnw a gyflawnodd efe i'r ddeddf seremoniol; ac felly, rhaid i'r Iuddewon, a'r Cenhedloedd hefyd, gael eu gwisgo â mentyll cyfiawnder seremoniol yn gyfrifedig iddynt er eu cyfiawnhad.

Yn ail, Os dylynwn yr esponiad hwnw, o'r geiriau hyn, "Crist wedi ei wneuthur dan y ddeddf," ag y mae Luther

yn gogwyddo ato, eto, nid ydym i ddeall wrth hyn ei ddarostyngiad i'r ddeddf foesol na'r un seremoniol, yn y rhan orchymynol o honynt, ond ei ddarostyngiad i felldith y ddeddf. Ac fel hyn y dengys fwriad grasol Duw, ac ymddarostyngiad gwirfoddol Crist i farwolaeth, er gwaredigaeth dynion, nid yn unig rhag marwolaeth ei hun yn ddyfodol, ond oddiwrth yr ofnau presenol o honi, fel y danghosir yn eglur yn Luc i. 74. a Heb. xi. 15. Yr effaith o'i wneuthur dan y ddeddf yn yr ystyr hon, a ddywedir yn adn. 5 yw, "derbyniad o'r Mabwysiad."

## PEN. IV.

*Ystyr Rhuf. iii. 21.—Y Gosodiad yn yn cael ei Gadarnhau yn ngwyneb Gwrthddadl.*

Dos. I.—Yn drydydd, Na chyfrifir cyfiawnder Crist i ddynion er eu cyfiawnhad, a ddanghosaf oddiwrth yr Ysgrythyr hon, "Ac yr awr hon yr eglurwyd cyfiawnder Duw heb weithredoedd y ddeddf, wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi; sef cyfiawnder Duw, sydd trwy ffydd Iesu Grist i bawb, ac ar bawb a gredant," Rhuf. iii. 21, 23. Oddiwrth yr Ysgrythyr hon, ymresymaf fel hyn: Os yw cyfiawnder ffydd, yr hwn sydd yn cael ei alw yma yn gyfiawnder Duw, (megis mewn manau ereill yn ysgrifeniadau yr Apostol,) naill ai o herwydd mai Duw yw yr awdwr a'r sylfaenwr o hono, neu o herwydd mai Duw sydd yn ei gyfranu i ddynion, neu am mai hwn ydyw yr unig gyfiawnder a ddichon sefyll ger bron Duw, neu dichon ei fod yn cael ei alw yn gyfiawnder Duw mewn ffordd o wrth-gyferbyniad i gyfiawnder y ddeddf, yr hwn a elwir yn gyfiawnder dynion, Rhuf. x. 3, canys braidd y gallant hwy oddef meddwl am yr un cyfiawnder arall; ïe meddaf, os yw y cyfiawnder yma o ffydd yn gynwysedig o gyfrifiad cyfiawnder Crist, yna nid yw, ac nis gall, gael ei egluro heb y ddeddf; h.y. heb weithredoedd y ddeddf, fel y mae Calvin yn iawn ddehongli meddwl y gair. Ond eglurwyd cyfiawnder ffydd heb y ddeddf, h.y., heb weithredoedd neu gyfiawnder y ddeddf. Gan hyny, nid yw yn gynwysedig yn nghyfrifiad o gyfiawnder Crist. Y mae rheswm y gosodiad blaenorol yn eglur, (ond dylid dwyn prawf i'w erbyn os gwedir y casgliad, canys y mae yr olaf yn amlwg yn Ysgrythyrol.) Os yw cyfiawnder Duw yn gynwysedig yn nghyfrifiad cyfiawnder Crist, yna nid yw wedi ei

egluro heb y ddeddf, h.y., heb weithredoedd a chyfiawnder y ddeddf; oblegyd y mae'r ddeddf a'i gweithredoedd yn fwy hanffodol i'r fath gyfiawnder, na ffydd; canys ni wneir ffydd ond yn unig moddion i'w gyfleu i feddiant dynion: ond am y cyfiawnder ei hun, nid yw ddim arall ond y ddeddf bur a'i gweithredoedd. Pa fodd y gallesid dyweyd fod y cyfryw gyfiawnder, sylwedd a grym yr hwn nid yw ddim ond y ddeddf, wedi ei egluro heb y ddeddf, yr wy'n meddwl ei fod tu draw i ehangach amgyffredion na'm heiddo i i'w ddirnad.

Dos. II.—Os dadleuir, "gellir dyweyd fod cyfiawnder Duw, neu ffydd, wedi ei egluro heb y ddeddf neu y gweithredoedd o honi, o herwydd nad oes gweithredoedd yn ofynol oddiwrthym ni tuag ato; ond nid yw hyn yn un rhwystr i weithredoedd y ddeddf, a gyflawnwyd gan Grist, i fod y defnydd o hono:" Atebaf,

Yn gyntaf, Y mae'r allor hon wedi ei llwyr ddinystrio yn barod, yn yr eglurhad o'r prawf blaenorol.

Yn ail, Ni roddir y crybwylliad lleiaf fod gan yr Apostol y fath au-feddwl a hyn. Ond yr oedd, am i'r cyfiawnder hwn o ffydd i gael ei ddysgu a'i ddeall heb unrhyw ystyriaeth o'r ddeddf, neu ei gweithredoedd, yn gyfran o hono.

Yn drydydd, Nid yw gweithredoedd y ddeddf ddim llai gweithredoedd y ddeddf o herwydd eu cyflawni gan Grist. Ac nid yw mawredd neu santeiddrwydd y person a weithreda yn ol y ddeddf, yn cyfnewid dim ar natur y gweithredoedd; ond gweithredoedd y ddeddf ydynt pwy bynag a'u cyflawna. Nid yw bod Crist yn Grist yn gwneyd i'r ddeddf beidio a bod yn ddeddf.

Yn bedwerydd, dywedir fod y cyfiawnder hwn yn cael tystiolaeth gan y ddeddf, h.y., gan y rhan hyny o'r Ysgrythyr a elwir yn gyffredin "y ddeddf," sef, Llyfrau Moses, (fel y mae Calvin yn nodi) a chan y Prophwydi; felly nis gall fod yn gyfiawnder cynwysedig o gyfrifiad cyfiawnder deddfol, canys ni cheid yr un dystiolaeth gan y ddeddf na'r Prophwydi i'r fath gyfiawnder. Ond os golygwn gyfiawnder Duw yma i fod yn gyfiawnder sydd yn deilliaw i ddyn trwy ffydd neu gredu, y mae tystiolaeth eglur yn cael ei rhoddi iddo gan y ddeddf a'r Prophwydi, fel y mae yr Ysbryd Glân yn cadarnhau yn amlwg yma. Gan y ddeddf: "yntau," sef Abraham, "a gredodd yn yr Arglwydd, ac efe a'i cyfrifodd iddo yn gyfiawnder," Gen. xv. 6. Gan y Prophwydi: "Ond y cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd," Hab. ii. 4.

Yn bummed, ac yn olaf, Dywedir fod y cyfiawnder hwn

"i bawb, ac ar bawb, trwy ffydd," mewn ffordd o wrth-gyferbyniad i weithredoedd y ddeddf, adn. 20. Y mae gwrth-gyferbyniad gwastadol rhwng ffydd a'r ddeddf, neu weithredoedd y ddeddf, yn ysgrifeniadau yr Apostol hwn, Rhuf. iii. 27, 28. Pen. iv. 13, 14. ix. 32. x. 5, 6; Gal. ii. 16. iii. 5, 11, 12, &c. Ond nid oes yr un gwrth-gyferbyniad rhwng y ddeddf â gweithredoedd, neu gyfiawnder Crist, ond perffaith gydweddiad. Am hyny, nis gall y cyfiawnder sydd trwy ffydd sefyll yn nghyfrifiad cyfiawn-Crist.

## PEN. V.

*Hyn yn cael ei brofi yn mhellach oddiwrth Rhuf. v.* 16, 17. *Gwrthddadl yn cael ei hateb.*

Dos. I.—Yn bedwerydd, Dadleuaf yn erbyn y cyfrifiad o gyfiawnder Crist yn yr ystyr y mae wedi ei ddiarddelwi eisioes, oddiwrth Rhuf. v. 16, 17, wedi eu cydmaru â'u gilydd. "Y dawn o gyfiawnder," (fel ei gelwir yn adn. 17) yr hwn sydd trwy Grist yn yr Efengyl, a ddywedir yn adn. 16, i fod yn "ddawn o gamweddau lawer i gyfiawnhad." Oddiwrth hyn ymresymaf fel y canlyn:—Nis gall y cyfiawnder hwnw sydd yn ddawn o gamweddau lawer (h.y., yn faddeuant o gamweddau neu bechodau lawer) fod yn gyfiawnder deddfol wedi ei wneyd yn eiddo i ni trwy gyfrifiad. Ond y cyfiawnder sydd trwy Grist yn yr Efengyl, trwy yr hwn y'n cyfiawnheir, sydd yn ddawn o gamweddau lawer i gyfiawnhad; felly nis gall fod yn gyfiawnder deddfol wedi ei wneyd yn eiddo i ni trwy gyfrifiad. Y mae yr olaf yn osodiad o eiddo yr Ysbryd Glan. Y cyntaf a egluraf fel hyn:—Nis gall y cyfiawnder hwnw ag sydd yn effeithiol er cyfiawnhad dyn trwy faddeuant ei bechodau, fod yn gyfiawnder deddfol yn gyfrifedig. Ond cyfiawnder Crist yn yr Efengyl, trwy yr hwn y'n cyfiawnheir, sydd yn effeithiol er cyfiawnhad dyn trwy faddeuant pechodau; ac am hyny nis gall fod yn gyfiawnder deddfol yn gyfrifedig. Y rheswm o'r gosodiad cyntaf yw hyn: oblegyd nid yw cyfiawnder deddfol yn cyfiawnhau dyn mewn ffordd o faddeuant, ond y mae hwn yn hanffodol ynddo ei hun yn gyfiawnhad i ddyn; ïe, y mae yn gyfryw gyfiawnhad, nad yw maddeuant pechodau yn gydweddol âg ef. Canys pa angen sydd ar yr hwn ag sydd yn ddeddfol gyfiawn, neu yn meddu cyfiawnder deddfol yn gyfrifedig iddo, am faddeuant pechodau?

Onid yw y fath gyfiawnder yn cau allan bob pechod, a phob euogrwydd o bechod, yn gwbl oddiwrtho?

Dos. II.—Os dywedir mai "derbyn maddeuant pechodau y mae'r dyn gyntaf, ac wedi hyny y mae cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif iddo, a dyna fel ei cyfiawnheir:" I hyn yr atebaf,

Yn gyntaf, Os bydd raid iddynt gael gwahanu effeithiau ufudd-dod gweithredol a goddefol Crist, fel ag i gyrchu cyfiawnder deddfol yn gyfrifedig oddiwrth ei ufudd-dod gweithredol, a maddeuant pechodau oddiwrth ei ufudd-dod goddefol; eto, pa un a yw yn resymol i wrthdroi trefn yr effeithiau hyn, a adawaf i'r ystyriol a'r difrifol benderfynu. Ond hyn sydd wirionedd, nid marw wnaeth Crist gyntaf, ac wedi hyny cadw y ddeddf drosom. Ond efe a gadwodd y ddeddf yn gyntaf, ac yna a ddyoddefodd farwolaeth drosom. Am hyny, os mynwn wneyd y cyfrifiad o'r naill yn fendith ar wahan i'r llall, y mae rheswm yn gofyn am i'r hyn a bwrcaswyd gyntaf i gael ei dderbyn, neu ei gymwyso yn gyntaf, ac o ganlyniad, dylai cyfrfiad o gyfiawnder flaenori maddeuant pechodau.

Yn ail, Ar ol i ddyn bechu unwaith, (yr hyn o angenrheidrwydd a raid ei addef am bob dyn a dderbyn faddeuant) nid oes yr un cyfiawnder deddfol, pa bynag a gyfrifir iddo, a ddichon ei gyfiawnhau wed'yn. Nag oes, pe byddai yn bosibl iddo gadw y ddeddf yn berffaith byth ar ol hyny, ni wnai hyn ei gyfiawnhau, oblegyd nad yw y fath gyfiawnder yn gyson âg egwyddor a gofynion y ddeddf: "Melldigedig yw yr hwn nad yw yn aros yn yr holl bethau." Gan hyny, nis gall yr hwn sydd wedi troseddu yn erbyn y ddeddf, byth gael ei wneyd yn gyfiawn trwy gyfrifiad o gyfiawnder y ddeddf iddo.

Yn drydydd, Os bydd i ddyn dderbyn maddeuant o'i bechodau, nid yw mewn angen am gyfrifiad o unrhyw gyfiawnder pellach er ei gyfiawnhad; oblegyd y mae maddeuant pechodau yn dyfod yn gyfiawnhad cyflawn gyda Duw. Y mae hyn yn eglur oddiwrth Rhuf. v. 16. "Y dawn," h.y., y dawn o gyfiawnder, medd Paul, (fel ei heglura yn yr adnod ddylynol,) "sydd o gamweddau lawer i gyfiawnhad;" h.y., pan y mae Duw yn maddeu i ddynion eu camweddau, y mae yn eu hollol gyfiawnhau. Y cyfiawnder y mae Duw yn ei gyfrif i ddynion trwy ffydd, nid yw ddim arall ond maddeuant pechodau, neu eu rhyddhad oddiwrth y condemniad a'r farwolaeth haeddianol iddynt. A hyn yw yr holl gyfiawnhad y llefara yr Ysgrythyrau am dano, maddeuant o'n pechodau, neu ryddhad

oddiwrth gondemniad. Diffyg o iawn ystyried hyn fu yr achlysur penaf o'r camgymeriad ag y sonir am dano. Drwy fod dynion yn darllen yn yr Ysgrythyrau am gyfiawnhad pechaduriaid, neu eu gwneyd yn gyfiawn trwy Grist, tybiasant nad allai y fath beth fod ond trwy i gyfiawnder gwirioneddol a phenodol, (*positive,*) ryw fodd, gael ei wneyd yn eiddo iddynt; a chan nad oedd y fath gyfiawnder i'w gael ond cyfiawnder Crist, meddyliasant oddiwrth hyn fod yn rhaid i gyfiawnhad fod trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist iddynt. Pryd mai cyfiawnder nacaol, ac nid cadarnhaol neu benodol, ydyw y cyfiawnder a dderbyniwn ni trwy Grist, a thrwy yr hwn y'n cyfiawnheir trwy gredu; nid yw ddim arall ond peidio a chyfrif pechod, yr hyn a alwn ni yn "gyfiawnder," o herwydd ei fod yn meddu holl ragorfreintiau cyfiawnder deddfol, er nad yw yr un o ran natur.

Dos. III.—Y mae yr Ysgrythyr yn tywynu gyda chymaint o eglurdeb, ar y gwirionedd hwn, a'r haul pan yn ei lawn nerth. Cydmarer Rhuf. iv. 6, âg adn. 7, 8: "Megys y mae Dafydd yn datgan dedwyddwch y dyn y mae yr Arglwydd yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd." Rhaid i gyfiawnder heb weithredoedd fod yn gyfiawnder nacaol, fel y danghosir yn amlwg yn yr adnodau dylynol: "Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau,"—"Dedwydd yw y gŵr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo." Felly gwelwch, nad yw cyfrif cyfawnder, adn. 6, fel y danghosir yma, yn ddim arall, ond peidio a chyfrif pechod. Ac felly y mae Calvin ar Rhuf. iii. 21, yn galw hyn yn "ddarluniad o gyfiawnder ffydd." Ac wed'yn y dywed, "Y mae Paul yn dysgu fod Duw yn cyfiawnhau dynion trwy beidio a chyfrif eu pechodau." Y mae genym yr unrhyw ddarluniad o'r cyfiawnder hwn yn 2 Cor. v. Yr hyn a eilw yr Apostol, o eiddo Duw, yn "beidio a chyfrif ein pechodau," yn adn. 19, efe a'i geilw yn adn. 21, "fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef." Ond yn eglurach, Act. xiii. 38, 39: "Bydded hysbys i chwi," (meddai Paul wrth yr Iuddewon,) "mai trwy yr hwn," sef Crist, "yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechodau," yr hwn faddeuant pechodau y mae yn ei alw yn ebrwydd eu "cyfiawnhad:" "A thrwy yr hwn y cyfiawnheir pob un sydd yn credu, oddiwrth yr holl bethau y rhai ni allech trwy gyfraith Moses gael eich cyfiawnhau oddiwrthynt." Y mae yn amlwg, gan hyny, y modd yr eglura yr Apostol natur y cyfiawnhad hwn a dderbynir trwy Grist, mai cyfiawnder nacaol ydyw, ac nid cadarn-

haol; "y cyfiawnheir pob un ar sydd yn credu oddiwrth yr holl bethau," h.y., oddiwrth bob pechod, "y rhai ni allech trwy gyfraith Moses gael eich cyfiawnhau oddiwrthynt;" nid yw y cyfiawnhad a dderbynir trwy Grist yn yr Efengyl ddim yn gyfiawnhad trwy gyfiawnder, a elwir felly mewn ystyr briodol, ond cyfiawnhad oddiwrth bechod ydyw—oddiwrth euogrwydd pechod, a'r ddamnedigaeth haeddianol iddo. Felly pan ddywedodd Crist wrth ddynion a merched yn yr Efengyl, "Maddeuwyd i ti dy bechodau," y pryd hyny y darfu iddo eu cyfiawnhau: eu cyfiawnhad ydoedd maddeuant o'u pechodau.

Dos. IV.—Dyma yr arwyddocad mwyaf arferol a phriodol o'r gair "cyfiawnhau," yn yr Ysgrythyrau, ac yn ngwaith awduron ereill. Nid yw yn arwyddo ond yn unig ryddhad dyn oddiwrth euogrwydd a chospedigaeth y cyfryw bethau a ddygir i'w erbyn, ac nid cyfraniad o gyfiawnder deddfol. Fe'i defnyddir yn yr Ysgrythyrau yn wrthwyneb i gondemniad neu ddamnedigaeth: "Y neb a gyfiawnhao y drygionus ac a gondemnio y gwirion, ffiaidd gan yr Arglwydd ydynt ill dau." Diar. xvii. 15. Pa beth a olygir yma wrth "gyfiawnhau y drygionus?" diau mai nid eu gwneyd yn gyfiawn trwy eu gwisgo â moesol gyfiawnder: y neb a fedr wneyd y drygionus yn gyfiawn fel yna, a fydd mor bell o fod yn ffiaidd gan yr Arglwydd, fel "y dysgleiria fel y sêr yn y ffurfafen," Dan. xii. 3. Felly, wrth gyfiawnhau y drygionus yma, nis gellir golygu dim arall ond rhoddi iddynt ragorfreintiau y cyfiawnion, y rhai ydynt, ryddhad oddiwrth bechod, condemniad, a chospedigaeth; fel yr ymddengys oddiwrth y rhan arall o'r ymadrodd,—"ac a gondemnio y gwirion;" felly, wrth gyfiawnhau y drygionus, ni feddylir dim arall ond peidio a'i gondemnio. Felly Rhuf. viii. 33, 34: "Pwy a ddyry ddim yn erbyn etholedigion Duw? Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau: Pwy yw yr hwn sydd yn damnio?" Lle y canfyddir eto y gwahaniaeth rhwng bod wedi ein cyfiawnhau, a'n condemnio; gan hyny, wrth gyfiawnhau, ni feddylir dim arall ond rhyddhau oddiwrth ddamnedigaeth: ac felly, cael ein cyfiawnhau, a chael byw, neu gael ein rhyddhau oddiwrth gondemniad a marwolaeth, ydynt gyfartal; Gal. iii. 11: "Ac na chyfiawnheir neb trwy weithredoedd y ddeddf ger bron Duw, eglur yw; oblegyd y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd;" h.y., a gyfiawnheir trwy ffydd, canys pe yn amgenach, ni byddai yr un grym yn y rheswm. Yr un modd eilwaith yn adn. 21: "Canys pe rhoisid deddf a allasai fywhau," h.y., a allasai gyfiawnhau

dynion, "yn wir, o'r ddeddf y buasai cyfiawnder," neu gyfiawnhad. Ac medd y Prophwyd Esay, Pen. liii. 11, "Fy ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer trwy ei wybodaeth; canys efe a ddwg eu hanwireddau hwynt," h.y., trwy ddwyn cospedigaeth haeddianol eu pechodau,—efe a'u gwared hwynt oddiwrth gospedigaeth.

Dos. V.—Y mae yn eglur oddiwrth amrywiol ymadroddion yn ysgrifeniadau Calvin, mai ei farn ef ydoedd, mai cyfiawnhad yw maddeuant pechodau; ac amlwg yw, gan hyny, yn ngwyneb pob gwrthddywediadau, nad oedd yn dal y fath gyfrifiad o gyfiawnder Crist er cyfiawnhad, ag y dywed rhai ei fod. Drachefn a thrachefn y dywed, ar Rhuf. iv. 6, "Ychwanegwch yma y rhan arall, sef, fod Duw yn cyfiawnhau dynion drwy beidio cyfrif pechod iddynt." Eto, "Fe'n dysgir, trwy y fath ymadrodd, nad oedd cyfiawnder ddim arall gyda Paul ond maddeuant pechodau."* Ac eilwaith, "Y mae y dywediad anwylaf hwn yn aros yn ddiogwymp, ac ansigladwy, sef, fod dyn yn cael ei gyfiawnhau trwy ffydd, oblegyd fe'i purir trwy faddeuant o'i bechodau ger bron Duw."

Dos. VI.—Musculus hefyd sydd o'r un farn a Chalvin yn y pwnc hwn. Ar Rhuf. iv. 6, y dywed, "Y mae hyn i'w sylwi, yn gyntaf, mai maddeuant pechodau yw ein cyfiawnder." Ac yn fuan ar ol hyn, "Am hyny cyfiawnder Duw, yr hwn a gyfrifir o ras, yw, fod pechod yn peidio a chael ei gyfrif." Yr un awdwr, ar Sal. xxxii., a ddywed, "Hyfryd yw, fod ein cyfiawnder a'n dedwyddwch yn sefyll yn maddeuant ein pechodau trwy ffydd yn Nghrist." Felly Luther, ar y Salm hono, "Ein cyfiawnder priodol ni ydyw maddeuant ein pechodau; neu, fel y dywed y Salm peidio cyfrif, neu guddio ein pechodau." Melancthon hefyd, yr un modd, ar gyfiawnhad, "cyfiawnhad sydd yn arwyddo maddeuant pechodau, neu dderbyniad y dyn i fywyd tragwyddol." Eilwaith, ar yr ugeinfed erthygl o Gyffes Augustan, "Y mae cyfiawnhad yn ngeiriau yr Apostol, yn arwyddocau maddeuant pechodau, ail-heddychiad, neu gyfrifiad o gyfiawnder; h.y., derbyniad o'r dyn i gymeradwyaeth." Beza sydd yn dal ei afael yn dŷn yn y gwirionedd ar y pwnc yma, (er ei fod weithiau yn ymddangos i'w adael i fyned ymaith) yn ei 'Draethawd ar Swper yr Arglwydd.' "I bwy y priodolwn, neu y cyfrifwn gyfiawnhad? Sicr, mai i Dduw yn unig, oblegyd Duw yn unig sydd yn maddeu pechodau. Ac y mae cyfiawnhad oll yn sefyll mewn maddeuant pechodau;

* Y mae rhai Awduron Pabaidd wedi cyfrif hyn i Calvin fel ei gyfeiliornad. LORIN, in Act. v. 31.

ac, am hyny, y cyfiawnder sydd yn sefyll mewn cyfrifiad, a elwir yn gyfiawnder Duw," Rhuf. i. 17. iii. 21, &c. Geiriau Zanchius yw, "Nad yw cyfiawnder ffydd ddim arall ond heddychiad gyda Duw, ac nid yw hyn mewn dim arall ond maddeuant pechodau."

Dos. VII.—Chamier, yn y drydedd ran o'i "Panstratia," tudal. 907, sydd yn hèr feio Cymanfa Trent, am wadu mai maddeuant pechodau yw ffurf cyfiawnhad, gan ddangos mai hyny oedd barn Augustine; ac wrth siarad am y Protestaniaid, efe a ddywed fel hyn: "Yr ydym ni," y Protestaniaid, "yn gosod y dechreu a'r diwedd o'n cyfiawnder yn maddeuant ein pechodau, canys hyn sydd yn ein gwneyd yn gyfiawn ger bron Duw." Ac yn fuan ar ol hyn y dywed, "Gan fod ein cyfiawnder yn gynwysedig mewn maddeuant pechodau, yr y'm yn ei alw, gyda Paul, yn gyfiawnhad: ond perffeithiad mewn rhinweddau a alwn yn santeiddhad." Eilwaith, "Yr ydym ni yn cymeradwyo yr hyn ag y mae Bellarmine yn ei addef, mai yr un peth yw cyfiawnhad a maddeuant pechodau." Ac eilwaith, tudal. 903, "Maddeuant pechod ydyw y cyfiawnder hwnw a gyfrifir i ni." Yn olaf, Amesius hefyd sydd yn gwneyd maddeuant pechodau a chyfiawnhad yn ymadroddion cyfystyr: "Darluniad o ddedwyddwch a dynir oddiwrth yr achos effeithiol a pharhaol o hono, yr hyn yw maddeuant pechodau, neu gyfiawnhad, yn nghyda'i effeithiau."

Dos. VIII.—Byddai yn hawdd i'r hwn sydd ganddo hamdden i drosi ysgrifeniadau y Duwinyddion hyn ac ereill, bentyru llawer mwy o ymadroddion cyffelyb i'r rhai a ddyfynwyd: ond diau eu bod yn niweidiol, nid yn unig i gyfrifiad y sêr goleu hyn yn eglwys Dduw, (y rhai a fuasent ar y tystiolaethau hyn yn gwrthwynebu y fath dybiaeth mor anghyson âg egwyddor yr Ysgrythyr a rheswm hefyd,) ond i'r gwirionedd ei hun hefyd; trwy geisio ei bresenoli "fel aderyn y tô, unig ar ben y tŷ," pryd y mae yn preswylio yn mysg ei bobl, a chanddo niferoedd o'r rhai rhagorol, santaidd, ffyddlon, ac etholedig, sydd gyda'r Oen yn erbyn y bwystfil, i sefyll o'i blaid. Nid yw yr enllibau o ddyweyd, "Pabyddiaeth ac Arminiaeth yw," ond gwiberod a ysgydwir i'r tân, pan ddelo amser yr ysgydwad.

## PEN. VI.

*Prawfiadau ychwanegol o'r Ysgrythyr dros Gyfrifiad Ffydd yn Gyfiawnder.—Pedair o Wrthddadleuon yn cael eu Hateb.*

Rheswm arall a ellir ei dŷnu dros y pwnc dan sylw, oddiwrth Phil. iii. 9: "Ac y'm ceir ynddo ef heb fy nghyfiawnder fy hun yr hwn sydd o'r gyfraith, ond yr hwn sydd trwy ffydd Crist, sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd." Y mae yr Apostol, yn yr adnod flaenorol, yn gosod allan yr effeithiau annghydmarol a weithredwyd ynddo, gan ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu yr Arglwydd. Parodd iddo gyfrif yn golled, yr hyn bethau gynt a gyfrifai yr enill fwyaf. Yr hyn a olyga yr Apostol yw, ei gyfiawnder phariseaidd, a'i ragorfreintiau cyfreithlon fel Iuddew. Ond yr oedd yn awr wedi ei draws-newid gymaint gan ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist, nes yr edrychai ar ei holl ogoniant blaenorol fel ar dom, ac aroglai sawyr marwolaeth ar y pethau hyny y bu ei obaith ynddynt o'r blaen am fywyd a thangnefedd. Ni cheisiodd ddim yn awr, ond enill Crist, a'i gael ynddo ef. Nodwn, nid dyweyd y mae yr Apostol, ac y'm ceir "yn ei gyfiawnder ef," llawer llai "yn ei gyfiawnder ef yn gyfrifedig iddo;" ond hyn, fel y byddai "i'w gael ynddo ef;" yr hwn sydd ymadrodd arferol, yn yr Ysgrythyr, am gyflwr y credadyn: "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu, Rhuf. viii. 1. Felly pen. xvi. 7: "Y rhai hefyd oedd yn Nghrist o'm blaen i," h.y., yn gredinwyr o'm blaen i. Y mae yn egluro beth yw ei gael yn Nghrist, yn amser ei ymatodiadiad, yn awr angeu, 1. yn nacaol, fel hyn: "heb fy nghyfiawnder fy hun," eto, nid yn hollol heb "gyfiawnder" na ellir mewn unrhyw ystyr ei alw yn gyfiawnder ei hun, ond heb yr un cyfiawnder o'i eiddo ei hunan, ag sydd yn ol gweithredoedd y ddeddf. Y mae yn sicr nad oedd ganddo y fath gyfiawnder o'i eiddo ei hun, hyny yw, i ymddiried ynddo, neu wisgo a diddosi ei hunan rhag dyrnod cyfiawnder Duw. 2. Yn gadarnhaol, fel hyn: "Ond yr hwn," h.y., y cyfiawnder hwnw "sydd trwy ffydd Crist, sef y cyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd." Nid oes yn y fan hon y crybwylliad lleiaf am unrhyw gyfiawnder a feddianir trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist, nac am unrhyw gyfiawnder trwy gyfiawnder Crist; ond yn unig am yr hwn sydd "trwy ffydd Crist," neu trwy gredu ynddo.

Dos. II.—Yn awr, o achos y dichon i'r fath gyfiawnder, lle nad yw yn ofynol oddiwrth ddynion, ond yn unig credu yn Nghrist, ymddangos yn gyfiawnder egwan i ymddiried y fath bwys ag enaid gwerthfawr arno, a'i fod yn fŷr i'r cyfiawnder hwnw a enillasai dyn pe cadwasai'r ddeddf; y mae yr Apostol yn ychwanegu mewn ffordd o ganmoliaeth a dyrchafiad i'r cyfiawnder hwn drwy ddyweyd ei fod yn "gyfiawnder o Dduw;" h.y., cyfiawnder a gafwyd allan gan Dduw ei hun, a'r hwn a arddela ac a gyfrif yn gyfiawnder i ddynion, ac nid yr un arall ond hwn; "sef, y cyfiawnder sydd o Dduw," meddai, "trwy ffydd;" Groeg, "yr hwn sydd mewn ffydd;" h.y., yr hwn sydd yn deilliaw i ddyn trwy ffydd. Ail-grybwylliad o'r cyfiawnder hwn, sydd trwy ffydd, sy'n ddiau yn brawf ei fod yn beth ag y gosodir pwys arno. Fel y mae yn fynych mewn ymddiddan rhwng y naill ddyn a'r llall, pan y llefaro un rywbeth a ymddengys yn anhygoel, yr hyn a dybir ydoedd yn gamgymeriad mewn geiriau, ac y byddai iddo ddiwyllio yr hyn a ddywedodd, ond ei iawn ystyried; y mae yn arferiad, os bydd yr hwn sydd yn llefaru yn llefaru yn bwyllog, ac yn alluog i gadarnhau yr hyn a ddywedodd, i lefaru yr un peth drosodd drachefn, ac felly i gadarnhau yr hyn a ddywedwyd. Felly y mae Paul yn y geiriau hyn, wedi iddo haeru unwaith, mai y cyfiawnder y dymunai ef i'w gael ynddo ydoedd "y cyfiawnder sydd trwy ffydd Crist," rhag iddo ymddangos wedi llefaru yr hyn nad allai sefyll ato, neu y buasai ar ail feddwl yn ei ddad-ddyweyd; y mae yn llefaru yr un geiriau, mewn effaith yr ail waith, ac yn cadarhau mai y "cyfiawnder hwnw ag sydd trwy ffydd Crist," yw y cyfiawnder y safai ato, ac y dymunai i'w gael ynddo. Pe buasai gan yr Apostol unrhyw dueddfryd o gwbl i osod y cyfiawnder yr oedd i gael ei gyfiawnhau trwyddo yn "nghyfrifiad cyfiawnder Crist," yr oedd yma achlysur o demtasiwn i'w ddenu i amlygu hyny. Ond nid oes yma ond llefaru uchel, drachefn a thrachefn, am y "cyfiawnder sydd trwy ffydd," a hollol ddystawrwydd am unrhyw gyfiawnder trwy gyfrifiad o "gyfiawnder Crist."

Dos. III.—Yn chweched, Gellir profi mai nid cyfiawnder Crist, a gyfrif Duw yn gyfiawnder mewn cyfiawnhad, ond ffydd yn Nghrist, oddiwrth yr holl Ysgrythyrau hyny lle priodolir cyfiawnhad i ffydd. Ond nodwn rai o lawer o honynt:—"Yr ydym ni, gan hyny, yn cyfrif mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn," Rhuf. iii. 28. "Am hyny, gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd," Rhuf. v. 1.

Yn awr, pan y dywed dynion mai ffydd sydd yn cyfiawnhau, gofynaf gyda hawl beth y maent yn ei ddeall wrth ffydd? Ai nid eu credu a feddyliant, neu y weithred o ffydd, yr hon ffydd a gynyrchir ynddynt gan orchwyliaeth Ysbryd Duw, ag a roddir mewn gweithrediad ganddynt hwy? Os ydynt yn golygu rhywbeth arall wrth ffydd heblaw y rhinwedd neu y weithred o ffydd, rhaid imi gyfaddef fy mod eto heb wybod eu dirgelwch. Mae'r Ysgrythyrau yn ymddangos i lefaru yn fwy am y weithred o ffydd yn y gorchwyl o gyfiawnhad; a Duwinyddion dysgedig yr un modd (mor bell ag y sylwais i.) I ddynion ddyweyd eu hunain mai ffydd sydd yn cyfiawnhau, ac eto ei gondemnio fel cyfeiliornad yn arall am ddyweyd mai y weithred o ffydd sy'n cyfiawnhau, sydd mor annghyson, yn ol fy meddwl i, a phe bâi dyn yn addef i Jerusalem unwaith fod yn llawenydd yr holl ddaiar, ond eto dyfarnu yr hwn a ddywedai fod dinas Jerusalem wedi bod felly; neu ddyweyd fod Paul wedi llafurio mwy yn yr Efengyl na'r holl Apostolion, ond ni oddefai i arall ddyweyd fod Paul yr Apostol wedi gwneyd felly erioed. Ond gan mai yr un yw Jerusalem, a dinas Jerusalem; ac mai yr un yw Paul, a Phaul yr Apostol; felly hefyd, yr un yw ffydd, a'r weithred o ffydd: ac os yw y naill yn cyfiawnhau, rhaid fod y llall hefyd.

Dos. IV.—Fe allai y dywedir yma, nad yw y rhai a addefant fod ffydd yn cyfiawnhau, ddim yn ei golygu ar wahan i'w gwrthddrych, sef Crist. Ni feddyliodd yr un dyn yn ei synwyrau erioed yn wahanol. I ddyn ddyweyd ei fod yn gweled, ac eto haeru pan yn gweled, na wêl ddim yn y byd, sydd yn haeriad eglur croes i synwyr cyffredin. Ond yr un peth yn union ydyw yn yr hwn a feddylia am unrhyw weithred o ffydd, ar wahan i weithrediad ffydd ar ei gwrthddrych, sef, Crist yn ei berson, neu Grist mewn addewid. Y mae yn anmhosibl i'r un dyn gredu, heb rywbeth i'w gredu, neu mewn rhyw wrthddrych; ac felly, pan y sonia rhywun am ffydd neu gredu, y mae yn rhaid wrth gwrs ei fod yn golygu ei gwrthddrych yn neu gyda'r weithred, er nad yw yn enwi ond y weithred yn unig, ac nid y gwrthddrych, yr hyn yw dull arferol yr Ysgrythyrau; canys enwir ffydd ddeugain o weithiau yn yr Ysgrythyrau, heb yr un crybwylliad am y gwrthddrych, sef Crist, neu addewid Duw yn Nghrist, nac unrhyw beth yn gyfartal iddynt.

Yn ail, dichon y dywedir, "pan y mae dynion yn proffesu fod ffydd yn cyfiawnhau, yr hyn yn unig a ddeallant yw, mai yn offerynol y mae hi yn cyfiawnhau."

Atebaf, ni ddywedais inau ddim mwy, ac nid wyf yn bwriadu dyweyd dim i'r gwrthwyneb.

Dos. V.—Yn drydydd, ond dichon y gwrthddadleuir yn mhellach, "pan y mae dynion yn addef fod ffydd yn cyfiawnhau, eu meddwl yw, mai fel y cymer afael yn ughyfiawnder Crist, y mae hi yn cyfiawnhau." Atebaf, Pe byddai i hyn hefyd gael el addef, (ond ni ddywed yr Ysgrythyrau byth felly) eto y weithred o ffydd sydd yn cyfiawnhau. Felly bydded i ddynion roi yr ystyr a fynont i'w geiriau, pan y proffesant mai ffydd sydd yn cyfiawnhau, os y meddyliant o gwbl fel y dywedant, rhaid iddynt olygu mai y weithred o ffydd sydd yn cyfiawnhau; canys gweithred o ffydd yw credu yn Nghrist; a gweithred o ffydd ydyw iddi gyfiawnhau yn offerynol; a gweithred o ffydd ydyw iddi gymeryd gafael yn nghyfiawnder Crist hefyd. Am hyny, bydded i ddynion droi unrhyw ffordd, ar ffordd a fynont hefyd, a gwneyd i'w geiriau ogwyddo i'r dehau neu'r aswy, os y meddyliant fel y dywedant, mai ffydd mewn gwirionedd sydd yn cyfiawnhau, rhaid iddynt olygu mai y weithred o ffydd sydd yn cyfiawnhau. Pan y dywedant eu hunain mai ffydd sydd yn cyfiawnhau, ac a'i condemniant yn gyfeiliornad mewn arall, a ddywed mai y weithred o ffydd sydd yn cyfiawnhau; y mae yn anmhosibl iddynt ysgoi gafaelion y dyryswch deublyg hwn: naill ai nad ydynt yn meddwl fel y dywedant, neu ynte, condemniant eu golygiad eu hunain mewn arall.

Dos. VI.—Os dywedir yn mhellach, "pan y dywed dynion ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, yr hyn a feddyliant yw ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy yr hyn yr ymafla ffydd ynddo; ac y mae hyn yn bell oddiwrth ddyweyd 'mai ffydd a gyfrifir yn gyfiawnder:'" I hyn yr atebaf, yn gyntaf, Os dyna a feddyliant mewn gwirionedd, pan y dywedant ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy'r hyn yr ymafla ffydd ynddo, y mae mwy o wirionedd yn yr hyn a ddywedant nag yn yr hyn a feddyliant. Canys fod ffydd yn cyfiawnhau sy'n wirionedd sicr; ond fod pa beth bynag yr ymafla ffydd ynddo yn cyfiawnhau sydd bell oddiwrth y gwirionedd. Canys "trwy ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd, trwy air Duw," Heb. ii. 3. Ond eto, ni ddywed neb fod creadigaeth y byd yn cyfiawnhau dynion. Yn ail, Os y priodola dynion gyfiawnhad yn mhob ystyr i'r hyn y mae ffydd yn ymaflyd ynddo, dymchwelant yn hollol yr hyn a broffesant yn gyffredin, sef, fod ffydd yn cyfiawnhau yn offerynol. Canys os yw yr hyn yr ymafla ffydd ynddo yn

cyfiawnhau bob modd, yn ei holl achosion, yn haeddianol, defnyddiol, ac offerynol, &c., nid yw ffydd yn cyfiawnhau mewn un modd; ac felly, pan ddywed dynion eu bod wedi eu cyfiawnhau trwy ffydd, rhaid mai eu meddwl yw, mai nid trwy ffydd y maent wedi eu cyfiawnhau, ond trwy rywbeth arall. Ond y mae yn wirionedd, y rhaid fod ffydd yn cyfiawnhau rywfodd. Ac os yw hi yn cyfiawnhau unrhyw ffordd, y mae yn rhaid mai trwy y cyfrifiad o honi yn gyfiawnder gan Dduw y mae, oblegyd ffydd yw y cwbl a ofyn efe oddiwrth ddynion er eu cyfiawnhad, yn lle cyfiawnder y ddeddf. A phe na byddai i Dduw ei chyfrif yn gyfiawnder i ddynion, ni safai yn lle cyfiawnder deddfol er eu cyfiawnhad; oblegyd nid oes dim yn effeithiol i un amcan achubol, ond yn unig i'r hyn y mae Duw wedi ei ordeinio. Os yw Duw, yn y cyfammod newydd, yn gofyn ffydd yn Nghrist er ein cyfiawnhad, yn lle cyfiawnder y ddeddf, ac os na chymeradwyir y ffydd hon ganddo yn lle y cyfryw gyfiawnder, y mae ei orchymyn a'i gyfammod, o berthynas i gredu, yn dyfod yn ofer ac yn ddieffaith; a'r holl fudd o honynt yn cael ei golli o herwydd ewyllys Duw yn eu hordeinio i'r dybenion y gwnaeth.

## PEN. VII.

*Y Prawf diweddaf o'r Ysgrythyr, na chyfrifir Cyfiawnder Gweithredol Crist mewn Cyfiawnhad.*

Dos. I.—Y mae un Ysgrythyr eto yn aros ag sydd yn hollol ddadymchwelyd yr hyn a raid fod yn sylfaen i osod y cyfrifiad hwn o gyfiawnder Crist arno; sef, cyfrifiad, neu drosglwyddiad o hono oddiwrth y naill i'r llall. Os nad yw yr Ysgrythyrau mewn un man yn cadarnhau, ond gwadu yn hollol, y posiblrwydd o drosglwyddiad cyfiawnder Crist oddiwrth naill berson i'r llall, gwna hyn derfynu y ddadl yn gwbl; meddyliwyf, y profir hyn yn anwrthwynebol oddiwrth Gal. iii. 12: "A'r ddeddf nid yw o ffydd: eithr y dyn a wna y pethau hyn a fydd byw ynddynt." Y mae yr Ysgrythyr hon nid yn unig yn gwadu y posiblrwydd i drosglwyddo cyfiawnder y ddeddf oddiwrth y naill berson i'r llall, ond yn ei wadu yn y modd mwyaf arbenig, a chyda'r fantais fwyaf; canys y mae yn gwadu yr anmhosiblrwydd i hyn gael ei wneyd hyd yn nod gan law ffydd, yr hon ydoedd y debycaf o bob

un dan yr holl nefoedd i allu ei gyflawni, oni bai fod natur y peth yn ei wneyd yn berffaith annichonadwy. Y mae yr Apostol yn gwadu y gallu a'r swydd hon i ffydd o fod yn gyfrwng yn yr achos hwn, i gario cyfiawnder y ddeddf oddiwrth y naill berson i'r llall. Ac ymddengys hefyd oddiwrth hyn, fod ganddo fwriad neillduol i wneyd cyfiawnder deddfol Crist yn analluog o'r trosglwyddiad neu'r cyfrifiad hwn; o herwydd ni chymerodd ffydd arni erioed, ac ni feddai ddigon o haerllugrwydd i gymeryd arni, drosglwyddo unrhyw gyfiawnder deddfol arall oddiwrth y naill berson i'r llall er cyfiawnhad, amgen na'r hwn a gyflawnwyd gan Grist. A phe buasai unrhyw beth yn y byd a allasai effeithio yr hyn y dadleuir drosto, diau mai ffydd fuasai yn meddu blaenafiaeth yn yr oll; oblegyd ei bod yn dwyn cyfiawnder oddiwrth y naill i'r llall, sef y cyfryw gyfiawnder ag y mae yn bosibl i'w ddwyn felly, gellir ei alw yn gyfiawnder cyfrifedig, gan ei fod y fath trwy gyfrifiad neu drosglwyddiad; (maddeuant pechodau yw yr hyn wyf yn ei olygu;) y mae ffydd yn dwyn y cyfiawnder hwn oddiwrth Grist i'r hwn sydd yn credu; ond ni all ddwyn cyfiawnder y ddeddf, canys nid yw y cyfiawnder hwnw yn drosglwyddadwy.

Dos. II.—Os olrheinir yn fanwl eiriau a rhediad yr Ysgrythyr a nodwyd, ceir ynddi yr hyn oll a ddywedwyd. "A'r ddeddf nid yw o ffydd; ond y dyn a wna y pethau hyn a fydd byw ynddynt." Y mae y rhan gyntaf o'r ymadrodd, yn ol arferiad Paul o egluro ei feddwl, yn dra byr, ac o herwydd hyny, dichon ei fod yn ymddangos yn aneglur; ond y mae y rhan ddiweddaf yn hyrwyddo yr anhawsdra, ac yn taflu goleuni digonol arno. Ac os ychwanegwn at hyn y cysylltiad sydd rhwng yr adnod hon â'r un flaenorol, bydd meddwl yr Apostol i'w ganfod mor oleu a chanol dydd; a phan y dywed, "A'r ddeddf nid yw o ffydd," neu trwy ffydd, ni's gall ei feddwl fod yn amgenach na hyn—nad yw cyfiawnder y ddeddf yn dyfod i neb o ffydd, neu trwy gredu, neu nad oes yr un dyn yn cael ei wneyd yn feddianol a'r gyfiawnder deddfol trwy gredu: "Eithr" meddai, "y dyn a wna y pethau hyny yn unig a fydd byw ynddynt, neu trwyddynt." Y mae yn profi gwirionedd y rhan flaenaf o'r adnod oddiwrth egwyddor amlwg y ddeddf, neu gyfiawnder deddfol, sef ei fod yn hollol wrthwynebol i unrhyw drosglwyddiad o hono oddiwrth y naill i'r llall, ie, gan ffydd ei hun. Fel pe dywedasai, "Nis gall yr un cyfiawnder deddfol ddyfod i neb trwy gredu, oblegyd y dyn a gyflawna weithredoedd y ddeddf yn unig

a gyfiawnheir, ac a fydd byw trwyddynt." Ac nid yw cyfiawnder y ddeddf byth yn myned yn mhellach, yn y cymhwysiad o hono, er cyfiawnhad neb arall amgen na'r hwn a'i cyflawna. Mai cyfiawnder neu gyflawniad o'r ddeddf a olygir wrth y gair "deddf" yn y fan hon, (canys byddai yn anhawdd rhoi yr un dehongliad rhesymol o'r geiriau pe cymerid y gair hwn mewn unrhyw ystyr arall) a ymddengys oddiwrth yr unrhyw arwyddocâd a roddir o'r gair deddf mewn manau ereill gan yr Apostol hwn, pan ei defnyddir mewn achlysur o'r fath, Rhuf. iv. 13: "Canys nid trwy y ddeddf y daeth yr addewid i Abraham, neu i'w hâd," h.y., trwy gyfiawnder neu ufudd-dod i'r ddeddf; ac nid trwy y cyfryw gyfiawnder y darfu iddo eu henill a'u meddianu; fel y mae yn amlwg oddiwrth y rhan arall o'r ymadrodd, "Eithr trwy gyfiawnder ffydd," h.y., ni wnaethpwyd yr addewid hon iddo ef ac i'w hâd, y byddai i'r fendith gael ei henill trwy gyfiawnder y ddeddf, ond trwy gyfiawnder ffydd. Defnyddir y gair eilwaith yn yr un arwyddocâd yn yr adnod ddylynol: "Canys os y rhai sydd o'r ddeddf yw yr etifeddion," h.y., os yn etifeddion trwy gyfiawnder y ddeddf, ac os eu cyfiawnheir trwyddo, "gwnaed ffydd yn ofer," &c.: a defnyddir ef mewn niferoedd o fanau ereill heblaw yma.

Dos. III.—Y mae rhediad y fan, yn nghyda chysylltiad yr adnod hon â'r un flaenorol, yn cadarnhau y dehongliad hwn. Yn yr adnod flaenorol, y mae yr Apostol wedi gosod allan yr anmhosiblrwydd i neb gael eu cyfiawnhau trwy y ddeddf; h.y., trwy gyfiawnder neu weithredoedd y ddeddf; am y rheswm yma, o herwydd dywed yr Ysgrythyr "fod y cyfiawn yn byw trwy ffydd. Yn awr, o herwydd fod y casgliad hwn yn ymddangos i rai yn annghredadwy, gwrthddadleuant fel hyn: "Er fod y cyfiawn yn byw trwy ffydd, oni allant fod wedi eu cyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf, a byw trwyddynt hefyd? Ac oni ellir trosglwyddo cyfiawnder y ddeddf iddynt hwy trwy ffydd, ac felly i gyfiawnder cyfansawdd gael ei wneyd iddynt o'r naill a'r llall?" Na ddichon, medd Paul, "A'r ddeddf nid yw o ffydd:" nis gall yr un cyfiawnder deddfol ddeilliaw i ddynion trwy ffydd; a hyny am y rheswm yma, bod y cyfryw gyfiawnder, yn ol egwyddor a llythyren y ddeddf, yn cael ei gyfyngu yn gwbl i'r hwn a'i gweithreda; Groeg, "y dyn ei *hun* a'i gwna a fydd byw trwyddynt;" h.y., y mae yna wrthdarawiad yn hanfod a natur y peth i symud cyfiawnder y ddeddf byth oddiwrth y naill berson i'r llall, ïe, er i law ffydd gynnyg gwneyd hyn. Y mae yn

amlwg na fwriadodd Duw erioed i'r ddeddf a ffydd gyfarfod â'u gilydd, i wneyd cymysgedd o gyfiawnhad i'r un dyn. Y mae y dyb a amddiffynir genym ni yn cael ei chyhuddo yn fynych o fawrhau ffydd yn ormodol, ond, y gwir yw, y mae y dyb wrthwynebol, yr hon sydd yn priodoli iddi allu i drosglwyddo cyfiawnder deddfol, yn ei mawrhau seithwaith fwy; canys priodola hon iddi allu i gyflawni anmhosiblrwydd. Dichon ffydd ymffrostio o allu cyflawni niferoedd o orchestion mawr, ïe, o symud mynyddoedd, ond am symud cyfiawnder deddfol, (yn yr ystyr y sonir am dano yn bresenol) rhaid iddi adael hyny heibio am oes amser, a chyfnodau diderfyn tragwyddoldeb. Y mae llawer mwy o wrthdarawiad yn natur y ddeddf a ffydd i'w gilydd, gyda golwg ar gydgymysgu neu gydweithredu, er gwneyd i fynu gyfiawnhad, nac oedd rhwng yr haiarn a'r pridd yn ngweledigaeth Nebuchodonozor. Dan. ii. 43. Medd Calvin ar Gal. iii. 12: "Y mae yna wrthdarawiad cydrhwng y ddeddf a ffydd, yn y gorchwyl o gyfiawnhad; a byddai yn haws i ddyn gyplysu tân a dwfr â'u gllydd, na gwneyd i'r ddau hyn gytuno—fod dynion yn gyfiawn trwy ffydd, a thrwy'r ddeddf hefyd." Rhuf. iv. 14, sydd yn gydunol â hyn: "Canys os y rhai sydd o'r ddeddf yw yr etifeddion, gwnaed ffydd yn ofer, a'r addewid yn ddirym." Lle canfyddir gwrthwynebiad mor llawn ac annghymmodadwy cydrhwng cyfiawnder y ddeddf a chyfiawnder ffydd. gyda golwg ar gyfiawnhad, ag sydd rhwng y dwyrain a'r gorllewin; fel y mae yn annichonadwy i'w dwyn at eu gilydd. Y mae gagendor mwy rhwng y rhai hyn, nag oedd rhwng Abraham yn y nef a'r goludog yn uffern: nis gall ffydd fyned at gyfiawnder y ddeddf, i gyduno âg ef mewn cyfiawnhad; ac nis gellir dwyn cyfiawnder y ddeddf at ffydd.

## PEN. VIII.

*Y Rheswm cyntaf yn Erbyn Cyfrifiad Cyfiawnder Crist.*

Wedi i ni ystyried yr Ysgrythyrau hyny ag sydd yn dal perthynas â'r ddadl, yr ydym yn nesaf, i osod ger bron y cyfryw brawfiadau ag y mae rheswm a difrifoldeb yn eu cynnyg.

Fy rheswm cyntaf, i brofi nas gellir cyfrif cyfiawnder Crist, yn yr ystyr sydd mewn dadl yn bresenol, i neb er eu cyfiawnhad, a gynnygiaf fel hyn:—

Y cyfiawnder hwnw na chynnysgaedda yr holl gredinwyr

â phob rhan o'r cyfiawnder hwnw ag y mae'r ddeddf yn ei ofyn, nis gellir ei gyfrif iddynt er eu cyfiawnhad.

Ond ni ddichon ufudd-dod Crist i'r ddeddf foesol gynnysgaeddu yr holl gredinwyr â'r holl gyfiawnder ag y mae'r ddeddf yn ei ofyn; am hyny, nis gellir ei gyfrif i'r credinwyr er eu cyfiawnhad. Y rheswm o'r gosodiad cyntaf yw hyn, oblegyd fod cyfiawnder perffaith-gwbl—y fath yn ddiau y rhaid i'r hwn sydd yn cyfiawnhau fod—yn cynwys ufudd-dod diball i'r holl bethau yn y ddeddf, ag y perthyna i ddyn i'w cyflawni. Os bydd y iod lleiaf o goll yn ufudd-dod dyn i'r pethau ag y mae yn ddyledswydd arno i'w gwneuthur, y mae y cyfiawnder hwnw yn ddiffygiol er ei gyfiawnhad. Ac fe dŷr melldithion y ddeddf ar ddyn, gorph ac enaid, drwy y diffygion lleiaf o gyfiawnder deddfol, yn gystal a thrwy y troseddau mwyaf; os na bydd gan y dyn ryw ffordd arall i ddiogelu ei hun: canys ei lleferydd yw, "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt," Gal. iii. 10. Felly, y mae yn annichonadwy ysgoi melldith y ddeddf, drwy y ddeddf, oddieithr bod ufudd-dod dyn yn berffaith, yn gystal yn ei barhad ac yn ei gyffredinolrwydd, i'r holl bethau a ysgrifenwyd; sef, gyda golwg arno ei hun, ac ar ei sefyllfa neu ei alwedigaeth. Canys y mae yn bosibl fod cyfiawnder deddfol perffaith, heb wneuthur llawer o bethau ag sydd yn orchymynedig yn y ddeddf, o herwydd na feddant yr un berthynas â sefyllfa y dyn. Er engrhaifft, gallasai Adda fod yn gyfiawn drwy berffaith gyfiawnder deddfol, a pheidio cyflawni niferoedd o ddyledswyddau, y rhai yr oedd y ddeddf yn eu gofyn oddiwrth Efa, er parhad ei sefyllfa gyfiawn. Felly hefyd cyflawnodd Crist bob cyfiawnder, a chadwodd gydweddiad mor ddichlynaidd â'r ddeddf, fel na allai dynion, ïe, na Duw ei hunan, ei argyhoeddi ef o bechod; ond eto, y mae'r ddeddf yn gofyn niferoedd o bethau gan ereill, y rhai na chyflawnodd Crist mo honynt erioed.

Dos. II.—Pa gynifer o ddyledswyddau y mae gweision mewn dyled i'w meistriaid yn ol y cnawd, trwy orchymyn y ddeddf, na chyflawnodd Crist erioed mo'nynt, megys "ufuddhau iddynt gydag ofn a dychryn," Eph. iv. 5. Hefyd, mae y ddeddf yn gorchymyn i wragedd mewn llawer o bethau ymostwng i'w gwŷr priod, ïe, a'r gwŷr hefyd mewn rhai pethau i'w gwragedd, y cyfryw y mae yn sicr na chyflawnodd Crist erioed drostynt. Y mae yn amlwg fod Crist wedi gommedd cyflawni rhai pethau, o herwydd eu bod tu allan i gylch ei alwedigaeth, yr hyn a ofynai

y ddeddf oddiwrth ereill, fel dyledswyddau neillduol ac arbenig. Pan ddymunwyd arno wneyd cyfiawnder rhwng gŵr â'i frawd, ei ateb oedd, "Ddyn, pwy a'm gwnaeth i yn farnwr neu yn rhanwr arnoch chwi?" Luc xii. 13, 14; danghosai nad oedd am ymyraeth gyda gweithredoedd o gyfiawnder ag oedd tu allan i gylch ei alwedigaeth. Ac yn wir, pe buasai yn gwneyd, (er, diau ei bod yn anmhosibl iddo ar yr un pryd) buasai yn dadymchwelyd yr anfeidrol lesiant ag sydd yn awr yn deilliaw i'r byd oddiwrth y gweithredoedd o gyfiawnder a gyflawnwyd ganddo yn ei alwedigaeth. Yr un modd hefyd pan y mynai y bobl ei wneyd yn frenin, efe a wrthododd, Ioan vi; ac os gwrthododd y swydd frenhinol, diau na chymerai arno ychwaith gyflawni y swydd hòno. Yn awr, pa gyfiawnder a gyfrifir oddiwrth Grist i frenhinoedd a llywodraethwyr, i'w gwneyd yn gyfiawn yn eu galwedigaethau, pryd ag y mae Crist ei hun wedi gwrthod cyflawni y gweithredoedd o gyfiawnder ag sydd yn briodol iddynt hwy? Y mae yn annichonadwy cyfrif yr hyn na wnaeth Crist erioed mono i neb; canys nid yw yr hyn na feddianodd erioed fôd, yn alluog i'r weithred o gyfrifiad gael ei chyflawni arno.

Dos. III.—Dichon y dadleua rhai, mai "cyflawnder y gyfraith yw cariad:" canys yr hwn sydd yn caru arall a gyflawnodd y gyfraith. Rhuf. xiii. 8. A'r cyflawniad yma o'r ddeddf trwy gariad sydd yn gyfiawnder addas i bawb yn mhob sefyllfa. Am hyny, dichon perffaith gariad Crist gael ei gyfrif yn gyfiawnder i bawb, er fod yna weithredoedd neillduol o gyfiawnder ar ol."

Yr wyf yn ateb: Yn gyntaf, pa fodd bynag y mae cariad yn gyflawniad efengylaidd o'r ddeddf, o herwydd fod Duw o'i raslonrwydd yn ei gymeradwo, ac yn ei wobrwyo fel y cyfryw, eto, nid yw yn gyflawniad o'r ddeddf mewn ystyr lythyrenol a manwl. Nid yw yn gyfryw gyflawniad o honi ag a hawlia deilyngdod er cyfiawnhad yr un dyn mewn cyfammod o weithredoedd. Oblegyd, yn gyntaf, y mae'r ddeddf yn gofyn llawer o ddyledswyddau oddiwrth ddynion; ac mewn dylyniad i'r pall cyntaf o aros yn yr holl bethau, rhuthra yn ei mhelldith arnynt yn uniongyrchiol. Yn awr, nid yw cariad ond un ddyledswydd o'r gyfraith, am hyny, y mae yn anmhosibl iddo fod yn llawer, a sicr na ddichon fod y cwbl o'r dyledswyddau ag y mae'r ddeddf yn eu gofyn oddiwrthym. Yn ail, pe byddai cariad yn gyfryw gyflawniad o'r ddeddf ag sydd yn ofynol mewn cyfiawnhad deddfol, yna cyfiawnheid yr holl gredinwyr

trwy gyfiawnder personol, ac nid cyfrifol; canys nid oes neb yn wir gredadyn ond yr hwn sydd yn caru ei frawd. Yn drydydd, os gellir cyfrif cariad Crist yn gyfiawnder, yna y mae'n canlyn, o leiaf yn ol egwyddorion y dybiaeth a wrthwynebir genym, fod holl ufudd-dod gweithredol Crist yn ofer; canys ni addefir, gan amddiffynwyr y dyb hòno, yr un angenrheidrwydd am y cyfiawnder hwn, ond yn unig er y cyfrifiad o hono. Am hyny,

Yn ail, Atebaf eto, pan y mae yr Ysgrythyr yn galw cariad, "yn gyflawniad o'r ddeddf," ni lefarant ond yn unig am y rhan hòno o'r ddeddf a elwir yr "ail lech;" fel y mae yn amlwg oddiwrth yr Ysgrythyr addyfynwyd olaf, Rhuf. xiii. 8, 9. Ond rhaid i'r cyfryw gyflawniad o'r ddeddf, ag sydd yn hawlio yr anrhydedd o gyfiawnhad, pa un bynag ai trwy gyfrifiad ai cyflawniad personol, fod yn gyflawniad o'r llech gyntaf yn gystal a'r ail lech.

Dos. IV.—Ond dichon y gwrthddadleua rhai, "Nad yw angenrheidiol i ddynion gael pob cyflawniadau neillduol o gyfiawnder yn gyfatebol i'w sefyllfaoedd, yn gyfrifedig iddynt er cyfiawnhad; y mae yn ddigonol os byddant yn meddu cyfiawnder cyfartal a hyny yn gyfrifedig iddynt."

I hyn yr atebaf, yn gyntaf, Nid yw y rhai sydd yn llefaru fel hyn yn ystyried natur fanwl a phendant y ddeddf. Ni chydnebydd y ddeddf ddim mewn ffordd o gyfartalrwydd; di wna y naill beth gystal a'r llall mo'r tro iddi; rhaid i'r ddeddf gael iod am iod, pwynt am bwynt, a llythyren am lythyren, pob peth i gyfateb yn y modd mwyaf manwl â'i gofynion; ac os yn groes i hyny, y mae ganddi felldithion yn barod i gymeryd dial ar y cyfryw.

Yn ail, Cyfrif gweithredoedd o gyfiawnder i ddyn ag sydd briodol i alwedigaeth dyn arall, ac hefyd, yn hollol annghydweddol â'r alwedigaeth y mae Duw wedi ei osod ef ynddi, sydd yn hytrach yn gyfrif pechod iddo, na chyfrif cyfiawnder; oblegyd, er fod y cyflawniadau hyny yn gyfiawnder i'r hwn a'u gwnaeth, eto, os bydd i mi, a minau mewn sefyllfa wahanol, gael fy nghyfrif gan Dduw wedi eu cyflawni, (yr hon yw deddf cyfrifiad) dylwn gael fy nghyfrif ganddo ef yn un ag sydd wedi dryllio rhwymau fy ngalwedigaeth, ac o ganlyniad, wedi pechu.

Dos. V.—Y mae yn wir y gall Duw, gan iddo dderbyn iawn digonol am holl droseddau o'r ddeddf, trwy gyfammod newydd, gymeradwyo yr hyn a fỳno er adferyd dynion i afael a bendithon yr iawn hwnw, fel ag y bydd i'r hyn a gymeradwyir felly gan Dduw ddyfod i'r hwn a'i gwna, yn gyfatebol i gyfiawnder deddfol, oblegyd ei fod yn ei gyf-

iawnhau (gyda golwg ar holl freintiau cyfiawnhad) yn gystal ag y buasai cyfiawnder deddfol yn ei wneyd; ond y bydd i Dduw gymeradwyo, ar ran dyn, fel cyfiawnder deddfol, y gweithredoedd hyny nad ydynt yn ofynol oddiwrtho gan y cyfammod o weithredoedd na'r cyfammod o ras, sydd yn hollol annghyfatebol ac annghyson â'r naill gyfammod a'r llall hefyd. Tybiwyf y rhaid fod gan y dyn hwnw alluoedd annghydmarol, a ddichon olygu y dylai gwaith Crist yn pregethu ar y mynydd, ordeinio dysgyblion, argyhoeddi yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, cyflawni gwyrthiau, a'r cyffelyb, (yr hyn oeddynt ranau o'i ufudd-dod i'r ddeddf) gael eu cyfrif i wraig yn lle ei hufudd-dod, ei chariad, a'i ffyddlondeb i'w gŵr; ac y dylai gael ei chyfrif ger bron Duw wedi cyflawni hyn oll yn gyson â threfn fanol y ddeddf, am fod Crist wedi cyflawni y cyfryw, a'u bod trwy gyfrifiad wedi eu gwneyd yn eiddo iddi hi.

## PEN. IX.

*Yr ail Reswm yn erbyn Cyfrifiad o Gyfiawnder Crist, wedi ei dynu oddiwrth ei Natur.*

Dos. I.—Yr ail reswm paham na ddichon ufudd-dod gweithredol neu gyfiawnder Crist gael eu cyfrif i neb arall yn gyfiawnder, a gynhygir fel hyn:—

Y cyfiawnder hwnw sydd addas mewn modd arbenig i berson a swydd yr hwn sydd Gyfryngwr rhwng Duw a dynion, neu Iachawdwr y byd, nis gellir ei gyfrif yn gyfiawnder i neb arall.

Y mae cyfiawnder Crist mewn modd arbenig yn addas i berson a swydd Cyfryngwr. Am hyny, nis gellir eu gyfrif yn gyfiawnder i neb arall.

Yr wyf yn meddwl yr addefir yn rhwydd wirionedd yr ail osodiad yn y rheswm uchod; canys os cymer neb arno i brofi fod y fath ddiffyg yn nghyfiawnder Crist ag sydd yn ei wneyd yn annghyson â'i swydd Gyfryngol, y mae yn cymeryd arno ar unwaith ddisylfaenu heddwch y byd, a gosod gobaith iachawdwriaeth dynion yn y pridd. Medd'r Apostol, Heb. vii. 36: "Canys y cyfryw arch-offeiriad oedd weddus i ni," h.y., ydoedd yn angenrheidiol i ni i'w gael, os oeddem yn disgwyl am iachawdwriaeth drwyddo, "ag ydoedd yn santaidd, diddrwg, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid." A gwae i'r byd pe ceid y bai neu'r diffyg lleiaf yn yr Arch-offeiriad hwn, neu yn ei gyfiawnder.

Felly, os oes unrhyw wendid yn y gosodiad, rhaid mai yn y fraich arall o hono y mae: swm yr hyn yw a ganlyn, Y cyfiawnder hwnw sydd addas i berson a swydd Cyfryngwr, nis gellir ei gyfrif yn gyfiawnder i neb arall. Ac yn wir, nis gallaf ddirnad pa fodd y dichon dychymig am y fath gyfrifiad a hyny letya yn dawel yn meddwl un dyn.

Dos. II.—Y mae yr holl rai sydd yn dal allan y cyfrifiad yr y'm ni yn ei wrthwynebu, yn egluro yr ymadrodd o feddu "cyfiawnder Crist yn gyfrifedig," drwy fod wedi ein gwisgo neu ein mantellu â chyfiawnder Crist. Ond yr hwn sydd yn rhyfygu cymeryd cyfiawnder Crist iddo ei hun, gan ymwisgo âg ef, y mae yn ymddangos ger bron Duw, nid mewn gwisg dyn cyfiawn, ond yn addurn-wisg ogoneddus yr hwn sydd yn gwneyd dynion yn gyfiawn; sef, Cyfrwngwr mawr y byd; cyfiawnder yr hwn sydd yn meddu y fath uwchder a dyfnder, hŷd a llêd, fel y mae yn anfeidrol ragori ar holl gyfiawnder dynion pa bynag; ac ni ddichon neb ei lenwi ond ei hunan mawr yn unig! megys ag y dywedodd Ioan am ei wedd-newidiad ar y mynydd, "Ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr Uniganedig oddiwrth y Tad," Ioan i. 14; yn arddangos fod y gogoniant yr ymddanghosodd Crist ynddo mor ardderchog a thra-rhagorol, ac yn rhagori ar ryw a grâdd y creadur, pa un bynag ai dyn ai angel, ac nad oedd yn weddus i neb arall ei wisgo, ond yr Unig-anedig oddiwrth y Tad. Felly hefyd, rhaid addef am gyfiawnder ei fywyd ef, ei fod mor ardderchog a thra-rhagorol, fel nad yw yn gymwys i neb i'w wisgo ond yr Unig-anedig oddiwrth y Tad, Ceidwad a Gwaredwr mawr y byd. Ni ragorodd y gogoniant hwnw o'i eiddo a welodd Ioan ddim mwy ar natur a sefyllfa'r creadur, nag y mae gogoniant cyfiawnder ei fywyd yn ei wneyd. Yn awr, erfyniaf gyda dwysder am i ddynion ystyried yn ddifrifol, a yw yn addas i abwydyn distadl o ddyn gymeryd y fantell annhraethol ogoneddus hon am dano, a dychymygu ei hunan yn gyfartal mewn santeiddrwydd a chyfiawnder â'r Arglwydd Iesu ei hun; (canys hyn yn gwbl yw ysbryd y dybiaeth yna, dysgu dynion i gymeryd pob peth a wnaeth Crist iddynt eu hunain, a hyn yn gwbl fel pe buasent wedi eu cyflawni yn bersonol.) Pob gweithred o gyfiawnder a wnaeth Crist, efe a'u cyflawnodd fel un wedi derbyn yr Ysbryd nid wrth fesur. Yr oedd y fath bwys a theilyngdod ynddynt ag oedd yn cyfateb yn llawn i'r llawnder hwnw o ras a roddwyd iddo; ïe, er iddo gyflawni y gweithredoedd hyny mewn natur

ddynol, eto, o herwydd undeb y natur ddwyfol â'r ddynol yn un person, nis gallasent lai na derbyn argraffiadau teilwng o urddas y natur hòno arnynt. Yr oedd y cyfiawnder yn ei holl ranau a'i amgylchiadau yn gyfryw ag oedd yn gweddu i Dduw mewn undeb a chnawd. Yn awr, pa un a yw hyn yn drais-feddianu ai peidio, i'r creadur hòni ei fod yn ogyfuwch mewn cyfiawnder (pa un bynag ai trwy gyfrifiad neu ryw ffordd arall) a Duw ei hun, barned yr ystyriol a'r diduedd. Y mae rhai pethau o leiaf yn nghyfiawnder Crist nas gellir eu cymhwyso i neb arall heb fod yn euog o'r pechod mwyaf rhÿfygus; canys yr oedd yr oll a ddysgodd ac a bregethodd Crist ar y ddaiar yn rhanau o'i gyfiawnder a'i ufudd-dod: "Canys myfi ni lefarais o honof fy hun," medd Crist, "Ond y Tad a'm hanfonodd i, efe a roddes orchymyn imi beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn," Ioan xii. 49. Gan hyny, pan y llefarodd ef y geiriau hyn a'u cyffelyb, "Myfi yw goleuni y byd:" "Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn drwmlwythog, ac mi a esmwythâf arnoch;" a ydyw yn addas i rywun arall eu golygu fel geiriau wedi eu llefaru ganddo ei hun, neu fod Duw yn eu cyfrif iddo fel pe byddent wedi eu llefaru ganddo ei hun? Byddai y geiriau hyn, y rhai oeddynt yn llawn gras a gwirionedd yn ngenau yr hwn a'u llefarodd, ac i'r hwn yn unig y maent yn addas, yn eiriau o ryfyg a chabledd yn ngenau neb arall.

Dos. III.—Gwelwch gan hyny, mai un rheswm paham yr ydym yn gwadu cyfrifiad o gyfiawnder Crist yw, nid o herwydd ein bod yn gwadu y cyfiawnder ynddo ei hun, nac yn gwadu yr angenrheidrwydd o hono ychwaith; ac nid o herwydd nad y'm yn ei fawrhau a'i anrhydeddu gymaint ag ereill; na, ond yn hytrach, am ein bod yn dymuno ei gadarnhau, a dangos mwy ac eglurach angenrheidrwydd am dano, a rhoddi uwch anrhydedd a gogoniant iddo nag y dichon y dyb wrthwynebol byth wneyd. Diau y buasai yr hwn a gymerasai y gorsen o law Crist, gan ei ddyllio, ac a roddasai deyrnwialen aur iddo yn ei lle, yn anrhydeddu Crist yn llawer mwy na'r rhai a roddes y gorsen iddo; felly hefyd, yr hwn sydd yn dadymchwelyd ffug angenrheidrwydd am gyfiawnder Crist, gan sefydlu gwir angenrheidrwydd yn ei le, nid yw mewn un modd yn dianrhydeddu y cyfiawnder na'r angenrheidrwydd o hono ychwaith, ond y mae'n hytrach, yn dyrchafu pwys ac awdurdod y naill a'r llall. Nid yw, yr hwn sydd yn haeru na orweddodd neb erioed yn nghroth y wyryf ond Crist yn unig, yn yr hon ei cenhedlwyd ef gan yr Ysbryd Glân, ddim yn difrio y groth a'i

dygodd, na'r hwn a genhedlwyd ynddi, ond yn hytrach yn anrhydeddu y naill a'r llall. Ac felly hefyd, nid yw yn anfri ar gyfiawnder Crist i ddyweyd na chyfiawnhawyd neb erioed yn weithredol âg ef ond Crist ei hunan; a'i fod yn gyfryw gyfiawnder nad yw yn addas i neb arall i'w wisgo neu ei gymeryd, ond yn unig yr hwn a'i gwnaeth. Yr ydym ni, gan hyny, trwy hyn yn dyrchafu cyfiawnder Crist, ac yn amddiffyn yr anrhydedd hanffodol iddo.

Dos. IV.—Fe allai y meddylia rhai ddiogelu y cyfrifiad yma drwy yr undeb sydd rhwng Crist a'r credinwyr, fel pen corph yr Eglwys, ac a ddadleuant fel hyn:—"Er fod cyfiawnder Crist yn rhy ogoneddus i'w briodoli i ddynion, fel pechaduriaid, eto, fel y maent yn aelodau o Grist, ac ynteu yn ben iddynt, gall gael ei briodoli iddynt; canys onid ellir priodoli yr hyn a wneir gan y pen i'r holl gorph?"

I hyn yr wyf yn ateb, yn gyntaf, corph dirgelaidd ac ysbrydol yw Crist a chredinwyr, h.y., corph yn unig mewn ffordd o gyffelybiaeth â chorph naturiol; felly, nid ydym i ddisgwyl cydweddiad cyffredinol rhyngddynt yn mhob peth: oblegyd ni byddai felly gyffelybiaeth yn gyffelybiaeth mwy, ond unweddiad hollol; ac ni byddai corph dirgelaidd yn gorph dirgelaidd mwy, ond un naturiol. Yn awr, un gwahaniaeth arbenig a fodola rhwng y ddau gorph yma â'u gilydd yw hyn: beth bynag a wneir gan un aelod o'r corph naturiol, megys y pen, llygaid, neu glustiau, gellir dyweyd fod y cwbl yn ei wneyd. Pan fydd y pen ar waith yn myfyrio, gellir dyweyd fod y dyn yn myfyrio: yr un modd pan fyddo y llygaid yn edrych, a'r glust yn gwrando, gellir dyweyd fod y dyn yn edrych ac yn gwrando. Ie, y mae yn fwy addas priodoli y gweithredoedd a gyflawnir gan aelodau neillduol o'r corph naturiol i'r holl ddyn, nac i'r aelodau yn unig; canys y mae yn fwy priodol dyweyd fod y dyn yn gweled â'i lygaid, na dyweyd mai ei lygair sydd yn gweled. Ond y mae yn gwbl wahanol yn y corph ysbrydol a dirgeledig. Pan gyflawnodd Crist, pen corph yr Eglwys, wyrthiau, ni ellir dyweyd mai y corph a'u cyflawnodd; yr un modd hefyd, pan ddarfu Paul, aelod neillduol o'r corph hwn, wrthwynebu a cheryddu Pedr, ni ellir dyweyd fod yr holl gorph wedi ei wrthwynebu; canys cydunodd rhai o'r aelodau gyda Pedr yn y drosedd yn erbyn Paul, fel y gwelir yn amlwg oddiwrth waith yr Apostol yn eu hargyhoeddi. Y rheswm o'r gwahaniaeth yma yw hyn:—Yn y corph naturiol, nid yw yr holl aelodau ond un person, ac felly, nid ydynt yn meddu ond un

egwyddor i'w holl weithrediadau a'u hysgogiadau, sef, yr enaid rhesymol. Ond y mae y corph ysbrydol yn cael ei wneyd i fynu o amrywiol bersonau, a phob un yn meddu bodaeth naturiol a sylweddol ynddo ei hunan, ar wahân i'w perthynas, fel aelodau, y naill â'r llall; ac felly, y mae pob un o honynt yn meddu egwyddor lywodraethol i'w gweithredoedd yn gwbl ar wahan i'w gilydd. Nid yw ewyllys y naill ddyn i'w chyfrif gydag ewyllys dyn arall, na gras y naill yn wirioneddol yr un a gras y llall. Ac felly, y mae yn canlyn oddiwrth hyn, nad yw yn addas priodoli yr hyn a gyflawnir gan un o aelodau y corph hwn, i'r holl gorph, na, dim ond i'r aelod hwnw a'i gwna yn unig, o herwydd ei fod yn meddu egwyddor ynddo ei hun, ar wahan i bob aelod arall.

Yn ail, Yr wyf yn ateb yn eglurach: Er fod y budd o'r hyn a weithredir gan y pen yn cael ei gyfranu i'r corph, a phob aelod o hono, eto, nid yw yr hyn a weithredir gan y pen mewn un modd yn cael ei gyfrif i'r llaw neu'r troed, nag i unrhyw aelod arall, megys pe byddai wedi ei gyflawni ganddynt. Felly hefyd y mae pob aelod o gorph dirgeledig Crist, (sef yr holl gredinwyr) yn cyfranogi yn helaeth o effeithiau bendithiol yr oll a wnaeth ac a ddyoddefodd Crist, pen corph yr Eglwys, yn y byd; maddeuant pechodau, heddwch cydwybod, derbyniad i ffafr Duw, mabwysiad, santeiddiad, gobaith gogoniant, a gogoniant neu iachawdwriaeth ei hun tu draw i'r bedd. Nid yw hyn oll ond grawn a gesglir oddiar y winwydden hòno; canys y mae ufudd-dod gweithredol a goddefol, neu gyfiawnder Crist, yn cyn-nysgaeddu ei holl gorph â'r cyfoethogrwydd annhraethol hwn. Ond eto, ni ddylai ei weithredoedd na'i ddyoddefiadau ef gael eu priodoli iddynt hwy, mwy nag y dylai llafur neu fedrusrwydd y wenynen gael ei briodoli i'r hwn sydd yn bwyta'r mêl.

Dos. V.—Eilwaith; dadleua rhai dros y pwnc o gyfrifiad oddiwrth undeb priodasol Crist â'i Eglwys, (ac o ganlyniad â phob credadyn) gan resymu fel hyn: "Y mae y wraig, trwy briodas, yn meddianu hawl i bob peth sydd eiddo'r gŵr, maent yn eiddo y naill yn gystal a'r llall. Am hyny, y mae gan y credadyn, yr hwn sydd wedi ymbriodi â Christ, hawl i bob peth a berthyn iddo ef; pob peth a fedd Crist ydynt eiddo i'r credadyn, ac o ganlyniad, y mae ei gyfiawnder yn eiddo iddo."

I hyn yr wyf yn ateb, yn gyntaf, gwir yw fod y wraig, trwy briodas, yn dyfod i berchenogi yr oll o eiddo y gŵr; ond nid y berchenogaeth yma yw y briodas, llawer llai y

gall fod yn achos ffurfiol y briodas; nid yw hyn ond canlyniad neu ffrwyth o honi. Yr un modd hefyd y mae yr hawl a fedd y credadyn i gyfiawnder Crist yn dyfod iddo, sef, trwy ei briodas ysbrydol âg ef; ond, y mae yn rhaid i'r briodas gael ei gwneuthur i fynu rhyngddo â Christ yn gyntaf, (yr hyn a wneir trwy ffydd neu gredu) cyn y daw i feddiant o'r hawl yma yn ei gyfiawnder ef. Am hyny, y mae yn anmhosibl iddo gael ei gyfrif yn y weithred o gredu, a llawer llai yn flaenorol iddi; canys yn y naill amgylchiad hwn a'r llall, nid trwy ei briodas y deuai yr hawl, y soniwn am dano yn bresennol, i gyfiawnder Crist i'r credadyn, ond naill ai yn ei briodas neu yn flaenorol iddi. Ond

Yn ail, Yr wyf yn ateb yn mhellach eto: Pa fodd bynag y mae hawl yn dyfod i'r wraig trwy briodas, i'r oll a berthyn i'w gŵr, fel y gellir dyweyd fod pob peth a fedd y gŵr yn dyfod yn eiddo i'r wraig; eto y mae hyn i'w gymhwyso iddi yn gyson â deddf gweddeidd-dra a difrifwch naturiol. Nid yw eiddo'r gŵr, ddim yn eiddo'r wraig yn mhob ystyr, nac i bob gwasanaeth a dyben. Er engrhaifft: y mae dillad y gŵr yn eiddo y wraig trwy briodas. Ond pa fodd? Nid yn eiddo iddi hi i'w gwisgo; oblegyd felly byddent yn eiddo iddi er ei chywilydd. Ond yn yr ystyr hwn y gellir eu galw yn eiddo'r wraig, o herwydd ei fod yn anrhydedd a chysur iddi fod ei gŵr yn gwisgo yn gyfaddas i'w râdd a'i sefyllfa. Felly yn wir y mae yn gysur annrhaethol i enaid crediniol, fod ei Harglwydd, a'i Phriod, wedi ei wisgo gyda'r fath gyfiawnder dysglaer a thra gogoneddus, a'i fod mor santaidd, difai, a didoledig oddiwrth bechaduriaid. Ond rhaid iddi gymeryd gofal rhag rhyfygu cymeryd y rhai hyn iddi ei hun, amgen nag yn y budd a'r cysur o honynt; a pheidio meddwl ei hunan mor santaidd, difai, a didoledig oddiwrth bechaduriaid, a'r Arglwydd Iesu Grist. Pwy bynag, o'r offeiriaid cyffredin, a roddai am dano wisg yr arch-offeiriad, gan wasanaethu ynddi, a fernid gan yr Iuddewon yn euog o farwolaeth. Felly eilwaith: gellir dyweyd fod doethineb a dealltwriaeth y gŵr yn eiddo'r wraig, trwy briodas. Ond pa fodd? Nid ydyw y wraig mor ddeallus a'i gŵr o herwydd fod ei ddoethineb ef yn eiddo iddi trwy briodas; ei heiddo hi ydyw yn y budd a'r cysur o hono. Yr un modd y mae cyfiawnder Crist yn dyfod yn eiddo i ni trwy ein hundeb priodasol âg ef; nid yn cael ein gwneyd yn gyfiawn gyda chyfiawnder gweithredol a phriodol Crist, canys y mae hwn yn aros yn eiddo iddo ei hun, er ei undeb priodasol â ni; ond yn eiddo i ni yn y fath

fodd ag y cyfranogwn o'r budd a'r bendithion o hono, yn ein cyfiawnhad, mabwysiad, a'n hiachawdwriaeth.

## PEN. X.

*Y trydydd Rheswm yn erbyn y cyfryw Gyfrifiad:— Nid oes angenrheidrwydd am dano.*

Dos. I.—Y trydydd Rheswm yn erbyn y cyfrifiad hwn o gyfiawnder Crist yw, nad oes yr un angenrheidrwydd nac achlysur am dano. Nid yw Duw y Penadur mawr, na natur ei law-forwyn, byth yn gwneyd dim yn ofer. Os yw Duw wedi trefnu ffordd arall i gyfiawnhau pechaduriaid, y mae yn sicr felly nad yw efe yn cyfrif cyfiawnder Crist iddynt er eu cyfiawnhad. Yn awr fod y pechadur crediniol yn cael ei gyfiawnhau heb y fath gyfrifiad, a ddangosaf fel hyn:—yr hwn a wneir yn berffaith gyfiawn trwy faddeuant o'i bechodau, a gyfiawnheir heb gyfrifiad o gyfiawnder Crist iddo. Addefir y gosodiad hwn yn gyffredin; canys nid oes neb yn dadleu am y cyfrifiad hwn, yn yr ystyr yr ydym yn son am dano, er maddeuant pechodau; ac nid oes yr un angen am dano, i hyn ychwaith. Ond y mae yr hwn sydd yn credu yn cael ei gyfiawnhau trwy faddeuant ei bechodau; am hyny, nid oes yr un angen am gyfrifiad o gyfiawnder Crist er ei gyfiawnhad. Y mae'r gosodiad olaf, sef, fod dynion yn cael eu hollol gyfiawnhau trwy faddeuant pechodau, wedi ei brofi yn helaeth eisioes, trwy dystiolaethau eglur o'r Ysgrythyr: a chawsom fod barn Calvin, yn nghyda diwygwyr dysgedig ereill, yn berffaith gyson â hyny.

Dos. II.—Ond gwrthddadleuir yn erbyn hyn, fel yma:—"Y mae yn wir fod maddeuant pechodau yn rhan o gyfiawnhad, ond nid yr oll o hono: rhaid i gyfrifiad o gyfiawnder gael ei ychwanegu ato."

I hyn yr atebaf, yn gyntaf, Y mae mor amlwg, fod Calvin o dyb arall, ag y dichon i eiriau ddangos ei fod; ïe, yn elyn proffesedig i'r cyfiawnhad deublyg hwn. Ar Rhuf. iv. 6, 7, y mae ganddo y geiriau hyn, "Fe'n dysgir yn yr ymadroddion hyn, nad oedd cyfiawnder gan Paul yn ddim arall ond maddeuant pechodau." Nid dyweyd y mae fod Paul yn gosod cyfiawnder neu gyfiawnhad mewn rhan yn maddeuant pechodau, a rhan mewn rhyw beth arall; nage,

ond cadarnhau yn amlwg, nad yw y cyfiawnder y'n cyfiawnheir, neu y'n gwneir yn gyfiawn ger bron Duw trwyddo, ddim arall ond maddeuant pechodau. Eilwaith, yn ei egwyddorion *(institutes)* Lib. 3. c. 11. s. 21: "Cyfiawnder ffydd yw ein heddychiad â Duw, yr hyn sydd yn gynnwysedig yn unig o faddeuant pechodau." Eilwaith, yn yr un dosparth: "Eglur yw, nad yw y rhai y mae Duw yn eu cofleidio yn gyfiawn yr un ffordd arall, ond o herwydd eu bod wedi eu glanhau, a'u brychau wedi eu golchi ymaith trwy faddeuant pechodau." Eilwaith, yn y dosbarth dylynol, y dywed, "Y mae yr Apostol, yn Act. xiii. 38, yn cysylltu a chyplysu maddeuant pechodau â chyfiawnder, yn y fath fodd ag y dengys yn eglur mai yr un peth yn gwbl ydynt." Yn olaf, yn y pedwerydd dosbarth o'r un bennod, gan ddyfynu tystiolaeth Dafydd, "Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau," &c.; efe a sylwa ar y geiriau fel hyn:—"Sicr yw, mai nid llefaru y mae efe yma am *ran* o gyfiawnhad, ond am yr *oll* o hono." Y mae yn cadarnhau, yn mhellach, fod desgrifiad o hyn wedi ei osod i lawr gan Dafydd, pan y mae yn dadgan dedwyddwch y cyfryw y maddeuwyd eu pechodau. Ac oddiwrth hyn ymddengys nad yw y cyfiawnder y soniwn am dano, ddim arall ond ymddifadrwydd o euogrwydd pechod.

Dos. III.—Yn ail, Yr wyf yn ateb, y gellir profi o'r Ysgrythyrau eu hunain, na feddylir mwy wrth gyfiawnhad na maddeuant pechodau. Beth a all fod yn eglurach na Rhuf. iv. 6, 7, &c., "Megys y mae Dafydd hefyd yn datgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd, gan ddyweyd, "Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau, a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau. Dedwydd yw y gŵr nad yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo." Os perthyna rhyw beth arall i'r cyfiawnder hwn ag sydd trwy gyfrifiad, rhagor na maddeu anwiredd, neu guddio pechod, ai tybed y buasai yr Ysbryd Glân yn hebgor ei grybwyll, pan yr oedd yn bwriadu rhoddi desgrifiad llawn o hono? Ië, ai tybed y buasai yn gadael allan y rhan fwyaf arbenig o hono, yr hyn, fel y dychymyga rhai, yw cyfiawnder Crist?

Dos. IV.—Y mae yn wir fod rhan o beth, weithiau, yn yr Ysgrythyrau, yn cael ei osod am y cwbl o hono; megys, dynion a merched, ag sydd yn fodau cyfansawdd o gyrph ac eneidiau, eto, yn cael eu galw yn "eneidiau," Act. vii. 14, a manau ereill; ond dylem gofio na wneir hyn ond yn unig pan fyddo y gwrthddrychau yn berffaith eglur a dealladwy, ac y gellir deall yn hawdd yr hyn a olygir wrth y

rhan a enwir, naill a'i drwy fanau eraill o'r Ysgrythyrau, neu drwy synwyr cyffredin. Felly y dywedir, "Pob cnawd sydd wellt": wrth gnawd yn y fan yma, ni ddichon neb ddeall dim arall, ond fod dynion wedi eu gwisgo a chnawd. Yr un modd hefyd yn Act. VII.: lle y dywedir fod Jacob wedi dyfod i waered i'r Aipht gyda phymtheg enaid a thri-ugain: ni feddylia neb synwyrol fod yr eneidiau hyn wedi dôd gydag ef heb eu cyrph. Ond y mae yn dra gwahanol i hyn yn y desgrifiad hwn o gyfiawnhad: h.y., y dylid deall wrth faddeuant pechodau, gyfrifiad o gyfiawnder Crist yn gystal a maddeuant pechodau y troseddwr; pe byddai yn wir, nid yw mewn un modd yn angenrheidiol; ac nid yw yn ymddangos mewn un modd fod y rhai hyn yn rhanau o'r un a'r unrhyw gyfiawnhad; ac nid oes dim yn cael ei lefaru yn yr Ysgrythyrau ychwaith i gadarnhau hyn. Am hyny nid yw yn debygol, hyd yn nod yn yr ystyriaethau hyn, pan y mae Paul yn lleoli cyfiawnhad dyn yn maddeuant ei bechodau, ei fod yn gwneyd hyny yn y fath ddull o ymadroddi, fel ag i enwi ond un rhan, ond yn golygu rhan arall hefyd.

Dos. V.—Eilwaith, os nad yw maddeuant pechodau ond rhan, a'r rhan ddistadlaf o'n cyfiawnhad, yna pan y mae yr Ysgrythyr yn dyweyd, "Ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ei waed Ef"; megys Rhuf. v. 9, rhaid mai y gwir feddwl yw hyn, "Yr ydym wedi ein cyfiawnhau, mewn rhan, trwy ei waed; ond rhaid i ran benaf ein cyfiawnhad ddyfod ini ryw ffordd arall. Canys y mae yn anmhosibl ini feddiannu ei ufudd-dod gweithredol yn gyfrifedig, trwy ei waed, neu ei farwolaeth." Yr un modd hefyd, pan y dywedir, yn adn. 16, fod "y dawn," sef, y cyfiawnder trwy Grist, "o gamweddau lawer i gyfiawnhad;" ond os nad yw y dawn o gamweddau lawer, h.y., maddeuant pechodau, yn ddigonol er cyfiawnhad heb gyfrifiad o gyfiawnder deddfol yn gysylltiol âg ef, dylem ddyweyd wrth Paul, "Na ddywed fod 'y dawn o gamweddau lawer i gyfiawnhad;' ond, y 'dawn sydd o gamweddau lawer, ac o weithredoedd o gyfiawnder lawer, hefyd, i gyfiawnhad.'"

Yn drydydd, Fod maddeuant pechodau yn gyfiawnhad cyflawn, ac nad oes y fath beth a rhan arall yn angenrheidiol berthynol iddo, fel y dychymyga rhai fod cyfiawnder Crist yn gyfrifedig, a ymddengys oddiwrth y dyben penodol a ddywedant o'r cyfrifiad o gyfiawnder Crist, sef i roddi hawl i'r cyfiawnion i'w nefol etifeddiaeth, yr hyn a feddianant mewn ffordd arall, sef, trwy y gras o fabwysiad.

Dos. VI.—Yn bedwerydd, Os myn dynion gael cyf-

iawnder gweithredol Crist yn gyfrifedig iddynt yn un rhan o'u cyfiawnhad, a marwolaeth Crist yn rhan arall o hono, ac felly gwahanu y budd o'i ufudd-dod gweithredol oddiwrth yr hyn a dderbynir trwy ei ufudd-dod dyoddefol, mewn cyfiawnhad, dyna y ffordd i ddinystrio a cholli y budd o'r naill a'r llall. Canys, os gwahana dynion gyfiawnder ei fywyd, ar y dyb hon, y gwasanaetha ei hun, yn ddigonol iddynt hwy, bydd rhaid iddynt ei gael yn ei farwolaeth, neu yn ei waed drachefn; ac felly, bydd hyny yn aneffeithiol hefyd. Ni bydd cyfiawnder gweithredol Crist o un lles i ddynion, os ei ysgarant oddiwrth ei ufudd-dod dyoddefol, Ioan xii. 24. Ac ni bydd yr ufudd-dod dyoddefol yn iawn dros bechod ychwaith, yn ol ewyllys Duw, ar wahan i'w ufudd-dod gweithredol; canys, megys y mae yn wirionedd sicr, "heb ollwng gwaed nid oes maddeuant," Heb. ix. 22; felly hefyd, heb ollwng gwaed diniwaid nid oes maddeuant. A pha fodd bynag yr oedd undeb y natur ddynol â'r ddwyfol, yn mherson Crist, y cymhwysder mawr tuag at wneyd ei Aberth yn foddlonrwydd llawn dros bechod y byd; eto nid oedd hyn ond y cymhwysder blaenaf tuag at yr amcan hwn, canys yr oedd yna angenrheidrwydd—nid yn unig gyda golwg ar fwriad Duw, ond dybenion ereill hefyd—am i'r cymhwysder ag yr ydym yn son am dano yn bresennol, sef, "cyflawni'r ddeddf," ddyfod rhwng ei undeb â chnawd a'i aberthiad dros bechod ar Galfaria. Ond, ar yr un pryd, er na fynwn wahanu ufudd-dod gweithredol Crist oddiwrth yr un dyoddefol, na'r un dyoddefol oddiwrth y gweithredol, gyda golwg ar yr effaith gysylltiol, canys oddiwrth y naill a'r llall, mewn undeb â'u gilydd, y deillia cyfiawnhad yr euog, eto ni fynwn i Grist, yn ei ddirgelwch, gael ei daflu yn bentwr o gymysgedd; na, dymunwn i'r hyn oll ydoedd Crist ynddo ei hun, yr hyn oll a wnaeth Crist, a'r oll a ddyoddefodd efe, i fod yn wahanedig, nid yn unig ynddynt eu hunain, ond hefyd yn yr effeithiau a dardd oddiwrthynt. Y mae yr hyn oll ydoedd Crist, yr oll a wnaeth, ac a ddyoddefodd, yn cyd-gyfarfod yn yr effaith gyffredinol hon, sef, cyflawn iachawdwriaeth y rhai sydd yn credu; ïe, y mae llawer o honynt yn cyfarfod yn nghyfiawnhad y cyfryw, yn nghychwyniad yr yrfa i feddiannu iachawdwriaeth gyflawn a thragwyddol; ond, i gyfiawnhau anfeidrol ddoethineb Duw, wrth ddwyn oddiamgylch y gorchwyl mawr ei bwys, sef, prynedigaeth y byd, rhaid ini gael allan ddybenion neillduol a phriodol i'r holl amrywiol bethau oedd yn cyfarfod yn mherson ac amgylchiadau y Cyfryngwr; megys,

paham yr oedd yn rhaid iddo fod yn Dduw, a phaham yr oedd yn rhaid iddo fod yn ddyn, a pha beth y mae'r naill a'r llall yn ei gyfranu tuag at iachawdwriaeth dynion; paham yr oedd yn rhaid iddo gael ei eni, a'i eni o forwyn; paham yr oedd yn rhaid iddo dyfu i fynu a byw nes dyfod i oedran cyflawn gŵr; paham yr oedd yn rhaid ei enwaedu, cadw'r ddeddf, a phregethu'r Efengyl yn flaenorol i'w farwolaeth; paham, yn y diwedd, yr oedd yn rhaid iddo ddyoddef marwolaeth, a marw ar y groes; paham yr oedd yn rhaid ei gladdu, a phaham yr oedd yn rhaid iddo gyfodi drachefn? gyda niferoedd o amgylchiadau neillduol ereill a a ellid eu henwi, y rhai oll oeddynt yn meddu eu gwaith priodol a neillduol er dwyn oddiamgylch waith mawr y brynedigaeth. A phan y mae dynion yn peidio a gwahaniaethu y rhai hyn mewn modd priodol, y maent nid yn unig yn taflu eu hunain i ddyryswch, ond, yr hyn sydd waeth na'r cwbl, maent yn dyrysu cyfundrefn ragorol a thra gogoneddus yr Efengyl, yr hon sydd megys dinas amddiffynol, gan ei gwneyd yn garnedd dinystriol.

Dos. VII.—Yn bummed, Os nad yw maddeuant pechodau ond rhan o gyfiawnhad, ac os yw yn angenrheidiol ychwanegu cyfrifiad o gyfiawnder Crist fel rhan arall o hono, i'w wneyd yn gyflawn, yna rhaid fod dau achos yn ffurfio un a'r unrhyw effaith, (yr afresymoldeb ag y mae Calvin yn yn cyhuddo Cymanfa Trent o hono, a Bellermine drachefn yn ei gam-gyhuddo yntau yn euog a hono,) ïe, (yr hyn sydd yn gwneyd yr afresymoldeb yn fwy eto yw) byddai defnydd ffurfiol y peth yn cael ei gyfansoddi o ddau beth nid yn unig gwahanol, ond gwrthdarawol i'w gilydd. Canys lle y mae cyfiawnder perffaith yn gyfrifedig, (y cyfryw rhaid ini olygu yw cyfiawnder Crist) nid oes yno ddim lle i faddeuant pechodau.

## PEN. XI.

*Y Pedwerydd Rheswm yn erbyn Cyfrifiad o Gyfiawnder Crist:—Y mae yn diddymu y Gras o Fabwysiad.*

Y pedwerydd rheswm o'm heiddo yn erbyn y cyfrifiad dychymygol hwn o gyfiawnder Crist yw hyn:—

Dos. I.—Nis gall yr hyn sydd yn cymeryd ymaith yr angenrheidrwydd a gwasanaeth mabwysiad fod yn gyson â gwirionedd yr Efengyl.

Y mae cyfrifiad o gyfiawnder gweithredol Crist yn cymeryd ymaith yr angenrheidrwydd o fabwysiad. Am

hyny, nis gall fod yn gyson â gwirionedd yr Efengyl. Sonia yr Ysgrythyrau lawer am y gras o fabwysiad, neu fod credinwyr yn cael eu gwneyd yn feibion i Dduw. "Fel y derbyniom y mabwysiad," Gal. iv. 5.; "Ac o herwydd eich bod yn feibion," adn. 6; "Felly nid wyt mwy yn was, ond yn fab," adn. 7; "Ond, cynifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu," neu ragorfraint, "i fod yn feibion i Dduw," Ioan i. 12. Sicr yw, nad yw y rhagorfraint o fabwysiad yn cael ei rhoddi gan Dduw yn ofer; na, fe gyfrenir hyn gan Dduw i'r sawl a gredant, i'w gwneyd yn addas a theilwng o'u hetifeddiaeth dragwyddol: eu mabwysiad yw y tir priodol agosaf i roddiad yr etifeddiaeth iddynt. Nid yw yr Ysgrythyrau yn eglurach mewn dim nag yn hyn, "Os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Duw, a chyd-etifeddion â Christ," Rhuf. viii. 17. Yr un modd eilwaith, "Felly nid wyt ti mwy yn was, ond yn fab; ac os mab, etifedd hefyd i Dduw trwy Grist," Gal. iv. 7. Fel pe dywedasai, "Yr ydym ni gan hyny wedi ein mabwysiadu yn feibion, fel trwy hawl y maboliaeth hwn y gallem fod yn etifeddion i Dduw, a thrwy hawl o'r etifeddiaeth anllygradwy y caem ei chyd-etifeddu a Christ ei hun; ac, am hyny, pa dybiaeth bynag a gyfyd i fynu i fawrhau ei hun yn erbyn y mabwysiad hwn trwy wneyd y gwasanaeth a'r dyben o hono yn ddiangenrhaid, sydd yn sicr yn wrth-efengylaidd, ac ni ddylid ei derbyn, ïe pe byddai angel o'r o'r nefoedd yn ei chynnyg."

Dos. II.—Ond y mae y cyfryw gyfrifiad o gyfiawnder Crist ag y dadleuir drosto gan rai, yn gwneyd mabwysiad yn ofer.

Y mae hyn yn amlwg oddiwrth dystiolaeth eglur amddiffynwyr y dyb hon; canys i ba ddyben y dygir cyfrifiad o gyfiawnder Crist i mewn i'r gorchwyl o gyfiawnhad? Y mae ein gwrthwynebwyr yn unllais yn dyweyd, "mai fel y byddai ini gael hawl i'r nefoedd" "canys" meddynt "nid yw dyn trwy faddeuant pechodau, ond yn unig yn cael ei waredu oddi wrth gondemniad a marwolaeth; ac nid yw yn dyfod i feddiant ar hawl i'r nefoedd trwy hyny". Ac felly, trwy eu bod yn methu a deall fod dim arall yn nghylch-feddiant y credadyn, yn gymhwys a galluog i roddi hawl i'r nef, rhwymasant gyfiawnder Crist i gymeryd y swydd hon arno, drwy ei wneyd yn eiddo i'r credadyn trwy gyfrifiad. Ac yn wir, y mae yn anhawdd meddwl pa wasanaeth arall a allai cyfrifiad o gyfiawnder Crist ei wneyd mewn cyfiawnhad. Yn awr, gan mai priodol ddyben a gwaith mabwysiad ydyw rhoddi hawl i'r credadyn i'r nef, y mae yn canlyn yn

naturiol, pwy bynag a gynygia osod i fynu rywbeth arall ar yr orsedd hon yn ei le, ei fod yn ceisio gwneuthur arfaeth Duw o berthynas i'r gras o fabwysiad yn ofer.

Dos. III.—Os dywedir, "Fe all y ddau gyd-sefyll—cyfrifiad o gyfiawnder Crist, a mabwysiad hefyd." Atebaf, na allant; y mae yn anmhosibl iddynt gyd blethu neu gyd sefyll; nid yn gymaint o ran gwahaniaeth eu nhatur, ond o herwydd fod pob un o honynt ynddo ei hun yn gyfiawn ddigonol i roddi hawl i'r nef. Y mae perffaith gyfiawnder yn hawl ddigonol ei hun; felly hefyd y mae mabwysiad: canys y mae bod yn etifedd drwy faboliaeth i etifeddiaeth ddaiarol, yn rhoddi hawl mor deilwng i'w meddiannu, ag y dichon y pryniad mwyaf cyfreithlon ei wneyd. Yn awr, sicr yw nad yw Duw byth yn sefydlu dau foddion er cyflawni un amcan, pan y byddo un yn ddigonol ar bob cyfrif, pa un bynag ai yn y byd moesol ai naturiol. Ond yn yr Efengyl mewn modd arbenig, nid yw Duw byth yn caniatau ond un moddion i un amcan; (fy meddwl yw, un moddion cymhwys a digonol i effeithio yr amcan) ac o ganlyniad, dwyn i fewn ail foddion i'r un dyben, yw diddymu y cyntaf a'i wneyd yn ofer. Felly y dywed St. Paul, "Canys os o'r ddeddf y mae cyfiawnder, yna bu Crist farw yn ofer" Y mae yr Apostol yn ei alw yn ddiddymu a gwneuthur arfaethau Duw yn ofer, pan y gosodir rhywbeth arall gyda hwy er dwyn i ben yr un amcan, neu i wasanaethu yn y lle a'r swydd a benodwyd iddynt hwy i wneyd. A diammheu, y gellir llëoli y gosodiad cyffelyb a ganlyn, ar ddeheulaw gosodiad yr Apostol; "Os yw ein hawl-fraint i'r nef trwy gyfrifiad cyfiawnder Crist, y mae Duw yn cyfranu y gras o fabwysiad yn ofer.

## PEN. XII.

*Y pummed, chwechet, a'r seithfed Rheswm, yn erbyn Cyfrifiad o Gyfiawnder Crist.—Cymer ymaith yr angenrheidrwydd, yn* 1. *O Edifeirwch;* 2. *O Farwolaeth Crist; ac yn* 3. *O Faddeuant Pechodau.*

Dos. I.—Nid yw Duw yn awdwr anghydfod, ond heddwch. Ac nid oes yr un planhigyn o'i blaniad ef yn niweidio planhigyn arall a blanwyd ganddo; llawer llai ei ddiwreiddio. Yn awr, edifeirwch sydd blanhigyn o'i blaniad ef, ac yn hanffodol angenrheidiol er iachawdwriaeth. Medd ein Iachawdwr, "Eithr oni edifarhewch, chwi a ddyfethir oll yn yr

un modd," Luc xiii. 3. Ond y mae y fath gyfrifiad o gyfiawnder Crist, ag y dadleuir drosto gan rai, yn tori ymaith yn hollol yr angenrheidrwydd o edifeirwch. Canys nid yw yr hwn sydd ganddo gyfiawnder perffaith yn gyfrifedig, ac yn eiddo iddo ef mor llawn a phe buasai wedi ei gyflawni yn bersonol, mewn angen am edifeirwch. Pe cadwasai Adda y ddeddf, ni buasai arno angen am edifeirwch mwy nac oedd ar Grist angen am dano; a'r cyfryw sydd wedi cadw y ddeddf yn Nghrist, mor berffaith ag y gwnaeth ef, pa angen sydd arnynt hwy am edifeirwch mwy nag yntau? Canys os ufudd-dod perffaith Crist yw y rheswm nad oedd arno ef angen am edifeirwch; a'r ufudd-dod hwn o'i eiddo, yn ei holl berffeithrwydd, yn eiddo iddynt hwy trwy gyfrifiad, yn gystal ag y buasai pe wedi ei gyflawni yn bersonol; ïe, os oedd ef yn sail digonol i wneyd edifeirwch yn ddiangenrhaid yn y naill, rhaid ei fod yr un fath yn y llall hefyd. Yr hwn sydd mor gyfiawn a'r dyn Crist Iesu, (yn gyfryw rhaid i'r rhai sydd yn gyfiawn trwy ei gyfiawnder ef fod) nid oes arno fwy o angen am edifeirwch na'r dyn Crist Iesu.

Dos. II.—Os dywedir, "Er fod gan y credinwyr gyfiawnder perffaith oddiwrth Grist yn gyfrifedig iddynt, eto y mae ganddynt hwy eu pechodau a'u colliadau personol, yr hyn nad oedd gan Grist; ac o herwydd y rhai hyn y maent mewn angen yn ddyddiol a pharhaus am edifeirwch;" I hyn yr atebaf; Gwir yw, fod y credinwyr yn sefyll mewn angen beunyddiol am edifeirwch, o herwydd eu pechodau a'u colliadau personol: ond nid oes ar y sawl y cyfrifir cyfiawnder perffaith iddynt angen am dano mewn un modd. Felly, nid y credinwyr ydyw y dynion sydd yn meddu y fath gyfiawnder yn gyfrifedig iddynt. Sicr yw, nas gall y rhai sydd yn meddu cyflawniad perffaith o'r ddeddf yn gyfrifedig iddynt, sefyll yn euog o unrhyw drosedd o'r ddeddf hono, oblegyd y mae yn gynwysedig mewn cyfrifiad o gyfiawnder perffaith, hollol anghyfrifiad o bechod. Heblaw hyny, os yw Duw yn cyfrif cyfiawnder perffaith i ddynion, rhaid fod hawliau a rhagorfreintiau perthynol i'r cyfryw gyfiawnder yn hanffodol gysylltiol âg ef yn y cyfrifiad; fel ag y mae yr hwn y gwneir y fath gyfrifiad iddo yn eu meddiannu yn wirioneddol. A phe yn wahanol, buasai Duw felly yn cyfrif y plisgyn heb y canwyllyn, a rhoddi enwau heb y sylwedd o honynt: yn awr, un o brif ragorfreintiau cyfiawnder perffaith yw rhoddi cyflawn hawl i fywyd, allan o'i rinwedd ei hun, yr hon sydd yn ragorfraint hollol annghyson â'r teimlad lleiaf o bechod, yn yr hwn sydd yn ei meddiannu. Am hyny, pwy bynag sydd yn meddu y fath ragorfraint

neu hawl, nis gall fod arno angen am edifeirwch.

Dos. III.—Y chweched rheswm yn erbyn cyfrifiad o gyfiawnder Crist yw, y mae yn cymeryd ymaith yr angenrheidrwydd o'i farwolaeth. Os yw dynion mor gyfiawn ag oedd Crist ei hun, trwy ei fywyd ef, nid oedd dim mwy o eisieu iddo farw drostynt hwy nag oedd iddo farw drosto ei hun, neu i ryw un arall farw drosto EF. Hefyd, pe buasem yn berffaith gyfiawn yn mywyd Crist, yna nid y cyfiawn yn marw dros yr annghyfiawn a fuasai, ond y cyfiawn yn marw dros y cyfiawn, ïe, y cyfryw nad oedd angenrheidrwydd am iddo farw drostynt. Y rheswm hwn y mae yr Apostol yn ei draddodi yn eglur, yn Gal. ii. 21, "Canys os o'r ddeddf y mae cyfiawnder, yna bu Crist farw yn ofer." Dymunwyf i'r darllenydd diduedd sylwi yn fanwl ar rym y casgliad hwn a wneir gan yr Ysbryd Glân. "Os o'r ddeddf y mae cyfiawnder," neu gyfiawnhad, "yna bu Crist farw yn ofer." Y mae yn anmhosibl i ddynion yma lechu yn eu noddfa arferol, a dyweyd mai wrth y "ddeddf" y mae ini ddeall gweithredoedd y ddeddf, a gyflawnir gan ddynion yn bersonol; canys wrth y gair "deddf," yn y fan yma, y meddylir gweithredoedd y ddeddf, a gyflawnwyd gan Grist, felly cyfyd y casgliad gyda mwy o nerth i'w herbyn. Os trwy weithredoedd y ddeddf, a gyflawnwyd gan Grist, yr oedd cyfiawnder, h.y., os y cyfrifiad o honynt ydoedd ein cyfiawnder cyflawn ni, buasai marwolaeth Crist drosom yn gwbl ofer; oblegyd buasai cyfiawnder ei fywyd ef yn gyfrifedig, yn berffaith a digonol gyfiawnder i ni.

Dos. IV.—Nis gellir dyweyd ychwaith, fod yna angenrheidrwydd i'r Eneiniog farw, fel trwy hyny y gellid cyfrif cyfiawnder ei fywyd i ni. Canys, y mae'n sicr, fod cyfiawnder ei fywyd mor alluog o'r fath gyfrifiad, cyn ac heb ei farwolaeth, ac wedi, neu gyda'i farwolaeth. Canys beth a allasai fod yn rhwystr iddo? Yr oedd pechod yr Adda cyntaf yn alluog o gyfrifiad, mor gynted ag y cafodd ei gyflawni; a phaham y mae cyfiawnder Crist, yr ail Adda, yn gofyn cymhwysder pellach, er ei gyfrif, na'r cyflawniad o hono yn unig? Os dywedir eto, "Ni buasai dynion yn alluog o'r cyfrifiad yma, heb farwolaeth Crist;" atebaf, gwir, nad yw dynion yn alluog o'r cyfrifiad hwn heb farwolaeth Crist: ond nid yw ei farwolaeth yn eu gwneyd yn ddim mwy galluog o hono. Ond pe byddai cyfiawnder gweithredol Crist ynddo ei hun yn gyfrifadwy, (yn yr ystyr a dadleuir drosto gan rai) paham na byddai dynion mor alluog o'r cyfrifiad o hono yn nghanol eu pechodau, ag oedd Crist o gyfrifiad eu pechodau hwy yn nghanol ei gyfiawnder?

Yn neillduol pan ystyrier hyn fel yr ymddengys oddiwrth Rhuf. v. 15, "Y mae gras a dawn Duw, yr hwn sydd trwy Iesu Grist," yn gwaredu gyda llaw gryfach nag y condemnia pechod.

Dos. V.—Yn seithfed, Nid yw y dybiaeth sydd yn gwneyd dynion mor berffaith gyfiawn a Christ ei hun, yn gadael lle i faddeuant pechodau, yn y personau a wneir yn gyfiawn felly: ac felly y mae yn diddymu yr angenrheidrwydd o allu goruchel a phenarglwyddiaethol Duw i faddeu pechodau. Gwyddom na faddeuodd Duw bechod erioed i'w Fab: paham? O herwydd ei fod ef yn berffaith gyfiawn, ac, "ynddo ef nid oedd pechod". 1 Ioan, 3 5.

Felly os yw dynion yn gyfiawn gyda yr unrhyw gyfiawnder ag yr oedd Crist yn gyfiawn, ac mor berffaith gyfiawn ag ef, nid oes ganddynt bechod i'w faddeu mwy nag yntau.

Os dywedir "fod Duw yn rhoddi maddeuant i ddyn gyntaf, ac wedi hyny yn cyfrif ei gyfiawnder ef iddo:" Atebaf, y mae yr Arglwydd Iesu wedi ein dysgu i weddio am faddeuant pechodau, ïe yn ddilynol i'r cyfrifiad hwn o gyfiawnder, os oes y fath beth yn bod hefyd, oddi eithr i ni ddyweyd iddo ffurfio y cynllun hono o weddi i'r anngredinwyr yn unig. Gofyn am faddeuant pechodau gan Dduw, ac ar yr un pryd dychymygu ein hunain mor gyfiawn a'r Cyfryngwr ei hun, sydd yn hytrach yn wawdio Duw na'i addoli.

Dos. VI.—Os gwrthddadleuir, gan ddyweyd, "fod yr anhawsdra a nodwyd yn eistedd mor agos i gyfrifiad ffydd yn gyfiawnder, ag i gyfrifiad cyfiawnder Crist i'r perwyl hwnw: canys os cyfrifir ffydd am, neu yn lle, cyfiawnder y ddeddf, oni raid iddi ddwyn cyfiawnder i'r hwn ei cyfrifir felly, mor berffaith a chyflawn â chyfiawnder y ddeddf ei hun, ac o ganlyniad, yn gyfartal a chyfiawnder Crist hefyd". Atebaf, Pan y dywedir fod ffydd yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder mewn cyfiawnhad, yn lle cyfiawnder y ddeddf, y mae yn amlwg, mai nid cyfiawnder y ddeddf a gyfa gyfrifir felly, ond rhyw beth arall.

Yn awr unrhyw gyfiawnder arall, neu unrhyw beth arall a gyfrifir yn gyfiawnder, heblaw cyfiawnder deddfol, a ganiata fodolaeth pechod hefyd, ac felly yn gadael lle i faddeuant pechodau: ond y mae cyfiawnder deddfol yn cau allan yn gwbl y cyntaf sef pechod, ac ni chaniata yr ail sef maddeuant. Pan y cyfrifir santeiddrwydd neu gyfiawnder perffaith i unrhyw ddyn er ei gyfiawnhad, nis gellir cyfrif pechod i'r dyn hwnw, mwy na chyfrif ei fod yn euog o farwolaeth a damnedigaeth, yr hyn sydd yn hollol wrthdarawol i gyfiawnhad. Ond, pan y cyfrifir

yn gyfiawnder i ddyn mewn cyfiawnhad, yr hyn nid yw gyfiawnder, neu i'r eithaf nad yw ond cyfiawnder anmherffaith, eto gall ei gyfiawnhad fod mor llawn, a'i waredigaeth mor berffaith oddiwrth farwolaeth a damnedigaeth, ag mewn cyfiawnhad deddfol, a lle yn cael ei adael i fodoliaeth pechod yn yr hwn a gyfiawnheir; ac o ganlyniad, lle i faddeuant pechod.

## PEN. XIII.

*Yr wythfed Rheswm yn erbyn y cyfrifiad hwn:—Y mae yn cydsynio a'r cyfeiliornad peryglus hwnw, nad yw Duw yn canfod pechod yn ei bobl.*

Dos. I.—Y mae hwn, sef nad yw Duw yn canfod pechod yn ei bobl, yn gyfeiliornad mor ddudew, fel y gellir ei weled a'i deimlo. Ond y mae y dyb a wrthwynebir genym ni yn arwain dynion yn gyfeiriol iddo, fel yr ymddengys oddiwrth yr arddangosiad a ganlyn:—Pwy bynag sydd yn berffaith gyfiawn, neu mor gyfiawn a Christ ei hun, y mae yn annichonadwy i Dduw ganfod pechod yn y dyn hwnw.

"Y mae pob credadyn" medd y dyb hon, "mor berffaith gyfiawn a'r Arglwydd Iesu ei hun; am hyny, nis gall Duw ganfod pechod ynddynt".

Nid oedd Ismael yn fwy naturiol a gwirioneddol ffrwyth Hagar, nag yw y casgliad hwn, "nad yw Duw yn canfod pechod yn ei blant", yn ffrwyth y dyb sydd yn dal fod dynion yn berffaith gyfiawn trwy gyfrifiad cyfiawnder Crist iddynt. Ond fel y digwydd weithiau i ddyn syrthio mewn cariad â gwraig weddw a chanddi blant, wedi iddo briodi y fam, bydd yn ddigon parod i ymwrthod a'r plant a'u taflu dros y drws: felly y gwelir yn fynych, pan fydd dynion wedi cofleidio unrhyw dybiaeth yn fyrbwyll, yr hon a ymddangosai iddynt hwy yn wirionedd teg ar y cyntaf, ac heb ddeall yn flaenorol i'w cymeradwyad a'u derbyniad o honi, y canlyniadau gwrthun fyddai yn gydddylynol iddi, symudant bob ffordd, er ymryddhau oddi wrth y cyhuddiad gwaradwyddus y canfyddant eu hunain oddi tano. Ond pa fodd y dichon y cyfryw sydd yn addef cyfrifiad o gyfiawnder perffaith, fwrw ymaith, gyda unrhyw resymoldeb, y dyb nad yw Duw yn canfod pechod yn y rhai a wisgir gyda'r cyfiawnder hwn, yr wyf yn cyfaddef ei fod tu draw i'm dirnadaeth. Os na allai Duw ganfod

pechod yn Nghrist, o herwydd ei fod yn berffaith gyfiawn, pa fodd y mae yn bosibl iddo ganfod pechod yn y rhai sydd mor berffaith gyfiawn ag yntau, a hyny â'r un cyfiawnder ag yr oedd ef yn gyfiawn, sydd yn ddyryswch nas gellir byth ei wneyd allan.

## PEN. XIV.

*Pedwar o Resymau yn ychwanegol yn erbyn y Cyfrifiad hwn: Y cyntaf yw, y mae yn cysylltu neu yn uno y ddau Gyfammod.*

Dos. I.—Y mae yn wir nad yw llawer sydd yn dal allan y cyfrifiad hwn yn cywilyddio dim o herwydd y canlyniad yma, uno y ddau gyfammod a wnaeth Duw â'r byd—sef y cyfammod o weithredoedd a'r cyfammod o ras. Golygant na wnaeth Duw erioed fwy nag un cyfammod â dyn; ac nad yw yr Efengyl amgen na moddion grasol oddiwrth Dduw i gynnorthwyo dyn i gyflawni y cyfammod o weithredoedd; ac felly, nad yw y bywyd a'r iachawdwriaeth, a ddywedir sydd yn dyfod trwy Grist, yn dyfod trwyddo mewn un ffordd arall, ond yn unig fel y darfu iddo gyflawni y ddeddf dros ddynion, yr hyn nid allasent hwy ei gyflawni eu hunain; a thrwy gyfrifiad, megys trwy weithred o rodd, ei fod yn trosglwyddo ei ufudd-dod gweithredol i'r rhai sydd yn credu; fel y maent, trwy hawl y cyfiawnder hwn wedi ei wneyd yn eiddo iddynt trwy gyfrifiad, yn dyfod i etifeddu bywyd ac iachawdwriaeth, yn ol egwyddor fanol y cyfammod o weithredoedd; sef, "Gwna hyn a byw fyddi."

Ni fyddai waeth i ddynion ddyweyd na bu ail Adda erioed ar wahan i'r cyntaf, na dyweyd na bu erioed ail gyfammod ar wahan i'r cyntaf; neu mai yr un yw ysbryd caethiwed ac ysbryd mabwysiad. Os oedd y cyfammod o ras yn gynnwysedig yn y cyfammod cyntaf, yna rhaid mai y meddwl yn y geiriau hyny yn y cyfammod cyntaf, "Gwna hyn a byw fyddi," ydoedd hyn, "Gwna hyn dy hun, neu arall drosot, a byw fyddi." Nid oes yr un llwybr arall i'w dwyn i fod yr unrhyw gyfammod. Ond os hyn ydoedd meddwl Duw yn y cyfammod cyntaf, y buasai cadw y ddeddf, gan y dyn ei hun, neu gan arall drosto, yn gwneyd y tro, ac y cawsai dyn fyw trwy y naill yn gystal â'r llall; yna, yn 1. Y mae yn canlyn, o angenrheidrwydd, fod Gwaredwr wedi ei addaw cyn y cwymp; canys pan oedd dyn mewn cyf-

lwr o ddiniweidrwydd y gwnaethpwyd y cyfammod hwn âg ef. 2. Naill ai nid oedd Adda yn deall y cyfammod a wnaethpwyd âg ef, neu ynte gwyddai am Waredwr yn flaenorol i'w ddirywiad. 3. Os cyflawni y ddeddf gan y dyn yn bersonol, neu gan arall drosto, oedd yn meddwl Duw, yn ddigonol foddion bywyd, yna buasai unrhyw feichiau arall, neu unrhyw gyfryngwr arall, yn gallu cymmodi y pechadur â Duw, gystal a'r hwn ydoedd Dduw a dyn; canys gallasai Duw greu dyn arall, a hwnw yn unig, a'i gynnysgaeddu â'r fath gymhwysderau ag a fuasai yn ei alluogi i gadw y ddeddf mor llawn a pherffaith ag ydoedd Adda a'i hiliogaeth dan rwymau i wneyd. 4. Ac yn olaf, Os ydoedd cadw y ddeddf gan unrhyw feichiau pa bynag yn ddigonol foddion bywyd i Adda a'i hiliogaeth, yna nid oedd marwolaeth Crist mewn un modd yn angenrheidiol; canys efe a gadwodd y ddeddf yn berffaith cyn ei farwolaeth.

Dos. II.—Eilwaith: Os oedd y cyfammod cyntaf a'r ail yr un o ran sylwedd, yna rhaid fod ammodau y naill a'r llall yr un; canys y mae yr ammodau yn rhan mor hanfodol o gyfammod ag un rhan a berthyn iddo. Er i'r un pleidiau fod yn cyfammodi, ac yn cyfammodi am yr un pethau hefyd; eto os bydd yno ammodau newydd o gytundeb, y mae hwnw yn gyfammod newydd hollol. Yn awr, os yr un yw yr ammodau yn y cyfammod cyntaf a'r ail, felly yr un yw ffydd a gweithredoedd; "Gwna hyn a byw fyddi," a "chred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi," sydd yr un peth. Ond y mae yr Ysgrythyrau bob amser yn gwneyd y gwahaniaeth mwyaf annghymmodadwy rhyngddynt.

Gwir yw, y cywilyddia rhai o'r canlyniad hwn: y maent yn dal cyfrifiad o gyfiawnder Crist, yn ol yr ystyr a wrthwynebir genym, ond dadleuant nad yw yn uno y ddau gyfammod. Ond, er profi ei fod yn gwneyd, ymresymaf fel hyn:—Pan fyddo y pleidiau fydd yn cyfammodi yr un, a'r hyn bethau y cyfammodir am danynt yr un, a'r ammodau yr un, bydd y cyfammodau yno yr un hefyd. Eithr os cyfrifiad o gyfiawnder y ddeddf i ni ydyw ammod y cyfammod newydd, y mae y tri, pleidiau, pethau, a'r ammodau, yr un. Felly yr un yw y cyfammod cyntaf a'r ail, yr hen a'r newydd; oblegyd addefir gan y naill ochr a'r llall, mai yr un yw y pleidiau sydd yn cyfammodi, a bod yr hyn bethau y cyfammodir am danynt yr un; yr ammodau yn unig yw y gwahaniaeth.

Dos. III.—Os gwrthddadleuir, gan ddyweyd, "Fod cyfiawnder y ddeddf yn gyfrifedig oddiwrth arall, a chyfiawnder y ddeddf wedi ei gyflawni gan ddyn yn bersonol, yn

ddau ammodau gwahanol; felly nad ydyw yn canlyn mai yr un yw y cyfammodau." I hyn yr atebaf, Bydd hanfod y cytundeb i'w ganfod yr un er hyny; yr un yw gweithredoedd y ddeddf neu gyfiawnder, gan bwy bynag eu gwneir: pe cadwasai Adda y ddeddf, megys ag y gwnaeth Crist, buasai yn gyfiawn trwy yr unrhyw gyfiawnder ag yr oedd Crist yn gyfiawn trwyddo.

Os dywedir, fod "cyfrifiad, yn yr ail gyfammod, yr hyn nid oedd yn y cyntaf, yn gwneyd gwahaniaeth yn yr ammod." Atebaf, yn 1. Nid cyfrifiad o weithredoddd neu gyfiawnder ydyw ammod y cyfammod newydd, ond credu. Pe cyfrifiad fuasai yr ammod, yna buasai yr holl gyfammod yn ymddibynu ar Dduw, a dim yn ofynol oddiwrth y creadur; canys gweithred o eiddo Duw ydyw cyfrifiad, ac nid o eiddo dynion. 2. Pe caniateid, mai trwy gyfiawnder, neu weithredoedd y ddeddf, yn gyfrifedig i ni oddiwrth Grist, y'n cyfiawnheir, eto rhaid eu bod yn cyfiawnhau, nid fel y maent yn gyfrifedig, ond fel cyfiawnder, neu weithredoedd y ddeddf. Felly, nid yw cyfrifiad yn gwneyd dim gwahaniaeth gyda golwg ar hyn. Nis gall cyfrifiad fod yn un rhan o'r cyfiawnder hwnw y'n cyfiawnheir trwyddo, oblegyd nad yw yn gyd-ffurfiad âg unrhyw ddeddf, nac ag un rhan o unrhyw ddeddf, y bu dyn erioed dan rwymau i'w chadw. Am hyny, nis gall fod yn un rhan o'r cyfiawnder ei cyfiawnheir trwyddo. Felly gwelir, os trwy gyfrifiad o gyfawnder Crist y'n cyfiawnheir, fod ammod y naill gyfammod a'r llall yr un, ac o ganlyniad y ddau gyfammod yr un hefyd.

Dos. IV.—Nid oes un math o gyfeiliornad yn gofyn mwy o rym rheswm er ei ddymchwelyd na'r hwn sydd yn amwisgedig âg ymddanghosiad i ddyrchafu gogoniant Duw, neu anrhydedd Crist; a chan wybod fod y gelyn a'r hwn yr ymrysonwn yn bresennol, yn meddu mwy o'r fantais hon nag y mae y rhan fwyaf o dybiau ereill yn ei feddu, barnwyf yn angenrheidiol i ddwyn yn mlaen gymaint a ellir o resymau yn y gorchwyl i'w wrthwynebu. Felly, yn ddegfed, yn erbyn cyfrifiad o gyfiawnder Crist, ag y dadleuir drosto gan rai, gosodaf y prawf amlwg a ganlyn:—Nis gellir cyfrif i gredinwyr yn gyfiawnder, y peth hwnw er mwyn yr hyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddynt; a chan mai er mwyn cyfiawnder Crist y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder i'r rhai sydd yn credu, nis gellir ei gyfrif iddynt yn gyfiawnder. Nid oes yr un dyn a wâd yr ail osodiad, oddieithr y rhai sydd yn gwadu mai cyfiawnder Crist yw achos haeddiannol cyfiawnder neu gyfiawnhad pechadur. Y gosodiad arall a ddangosaf fel hyn:—

Os yw yn anmhosibl i'r hyn a deilyngir fod yr un peth â'r achos haeddiannol o hono, y mae yn anmhosibl i gyfiawnder Crist fod yn gyfiawnder y credadyn. Y mae y cyntaf yn wir; am hyny, y mae yr ail hefyd. Y mae y canlyniad yn amlwg; oblegyd y mae cyfiawnder Crist, a chyfiawnhad y credadyn, yn sefyll yn y berthynas hon â'u gilydd, fel achos i effaith; cyfiawnder Crist yn achos haeddiannol, a chyfiawnhad y credadyn yn effaith a deilyngwyd ganddo: ac y mae yn berffaith eglur na ddichon yr hyn a deilyngir, a'r achos haeddiannol o hono, fod yr un; canys felly byddai yr un peth yn achos o hono ei hun.

Dos. V.—Eilwaith, yn unfedarddeg: Os cyfiawnder Crist a gyfrifir i'r credadyn yn gyfiawnder, er ei gyfiawnhad, felly y mae achos haeddiannol ei gyfiawnhad yn cael ei iddo yn gyfiawnder; ond nis gellir cyfrif achos haeddiannol cyfiawnhad dyn iddo; am hyny, nis gellir cyfrif cyfiawnder Crist fel hyn. Y mae gwirionedd y gosodiad cyntaf yn amlwg. Rheswm yr olaf yw hyn,—oblegyd nas gall yr achos haeddiannol, yr hwn sydd yn fath o achos effeithiol (*efficient*), (megys yr addefir ar bob llaw) fod yn ddefnydd neu yn ffurf o'r hyn a effeithir ganddo. Am hyny, os cyfiawnder Crist ydyw yr haeddiannol effeithiol achos o'n cyfiawnhad, anmhosibl yw iddo gael ei wneyd trwy gyfrifiad, nac un ffordd arall, yn ddefnydd neu ffurf ein cyfiawnhad. Canys y mae hon yn ddeddf anhydor yn mhlith y pedwar math o achosion, sef, defnyddiol, ffurfiol, gorphenol, ac effeithiol, mai y ddau flaenaf yn unig ydynt y rhanau priodol ac hanfodol yr effaith a gynnyrchir; a'r ddau olaf, sef, gorphenol ac effeithiol, bob amser yn allanol i'r effaith. Megys, er engrhaifft, pan fydd y gwyn-galchwr (*plasterer*) yn gwỳn-galchu pared, yr effaith o'i waith ydyw gwỳn-galchiad y pared. Yn awr, nid yw yr effaith hon, sef, gwỳn-galchiad y pared, yn gyfansoddedig o'r un o'r achosion effeithiol, mewn un rhan o honi, ac nid ydynt yn un defnyddiau cyfansoddol ynddi: nid yw y gwỳn-galchwr ei hun, yr hwn yw y prif achos effeithiol o honi; na'i bwyntil, yr hwn yw yr offerynol achos effeithiol; na'r cyflog a dderbynia am ei waith, yr hyn yw yr haeddiannol achos effeithiol o honi, yn ddefnydd yr effaith hon. Nid yw yr un o'r rhai hyn yn briodol ran o'r effaith, megys yn ddefnydd neu yn ffurf o honi. Y gwyndra a roddir ar y pared, gan y tri achos effeithiol, (yn ol eu hamrywiol weithrediadau) ydyw y rhan ffurfiol o honi; a'r pared ei hun ydyw y defnydd neu y rhan defnyddiol o honi. Felly hefyd yn nghyfiawnhad pechadur; nid yw Duw ei hun, yr hwn yw prif achos eff-

eithiol cyfiawnhad; ac nid yw ffydd, yr hon yw yr offerynol achos effeithiol o hono, canys dywedir yn yr Ysgrythyr, fod Duw yn cyfiawnhau dynion trwy ffydd, Rhuf. iii. 30; ac nid yw cyfiawnder Crist ychwaith, yr hwn yw yr haeddiannol achos o hono, yn ddefnydd neu ffurf neu unrhyw achos cyfansoddol cyfiawnhad; ond yn unig maddeuant pechodau, neu ryddhad oddiwrth gospedigaeth, megys y ffurf yn cael ei gymhwyso at neu ar y defnydd: defnydd neu y gwrthrych y cymhwysir y ffurf yma ato gan y tri achos effeithiol a nodwyd, yn ol eu hamrywiol ddull o weithredu, ydyw y credadyn. Y mae y rheswm yma, i'r hwn ag sydd yn deall deddf annghyfnewidiol y pedwar math o achosion, yn eu cysylltiad â'u heffeithiau, yn rymus ac anwrthwynebol yn erbyn y cyfrifiad a wrthodir genym. Dyweyd, gan hyny, mai cyfiawnder Crist ydyw defnydd neu ffurf cyfiawnhad, ac ar yr un pryd addef ei fod yn achos haeddiannol cyfiawnhad, yw, yn ngeiriau Calvin, ieuo dwfr a thân â'u gilydd.

Dos. VI.—Yn ddeuddegfed, Boed i ni nodi un prawf eglur arall:—Os yw achos haeddiannol ein cyfiawnhad yn cael ei gyfrif i ni, (yn yr ystyr ag sydd mewn dadl), yna gellir cyfrif effeithiau yr achos hwn i ni hefyd; ac felly, gellir dyweyd ein bod wedi teilyngu ein cyfiawnhad a'n hiachawdwriaeth ein hunain: ac fel hyn dyma ni yn nghanol Rhufain yn lle yn Jerusalem. Canys os gellir fy nghyfrif wedi cyflawni y cyfiawnder hwnw ag sydd yn teilyngu fy nghyfiawnhad; paham na ellir fy ngolygu wedi haeddu fy nghyfiawnhad? Nid wyf yn deall fod yr un gwahaniaeth rhwng haeddu a chyflawni yr hyn sydd yn haeddiannol. Ië, yn mhellach, os gellir fy ngolygu wedi cyflawni y cyfiawnder trwy yr hwn y'm cyfiawnheir, yn Nghrist, gellir fy ngolygu felly wedi cyflawni y cyfiawnder hwnw hefyd y cyfiawnheir yr holl fyd trwyddo. Canys ni ddichon i mi gael fy ngolygu wedi gweithredu yr un cyfiawnder arall yn Nghrist ond yr hwn a gyflawnodd efe ei hun; a gwyddom mai hwn ydyw y cyfiawnder y cyfiawnheir yr holl fyd trwyddo.

## PEN. XV.

*Tri o Resymau ereill yn erbyn y cyfrifiad hwn.*

Dos. I.—Gadewch i ni glywed llais ychwaneg o dystion, ag ydynt yn alluog i lefaru dros y gwirionedd.

Os yw ufudd-dod gweithredol, neu gyfiawnder Crist, yn cael ei gyfrif i mi, yn y llythyren o hono, yn fy nghyf-

iawnhad, yna yr ydwyf yn cael fy nghyfrif ger bron Duw wedi cyflawni y cyfiawnder hwnw yn Nghrist; canys cyfrif unrhyw beth i ddyn yn y llythyren o hono, ydyw ei gyfrif yn weithredwr o'r hyn a gyfrifir felly iddo; y mae y naill a'r llall yn gyfystyr.

Ond nid ydwyf yn cael fy nghyfrif gan Dduw wedi gweithredu y cyfiawnder hwn yn Nghrist; am hyny, nid yw cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i mi yn y llythyren o hono.

Y gosodiad olaf a nodwyd a ddangosaf fel hyn:—Os y'm cyfrifir i ger bron Duw, wedi gweithredu cyfiawnder yn Nghrist, yna y mae Crist, yn ei ddyoddefiadau, yn cael ei gyfrif ger bron Duw wedi pechu ynof finau; canys yr un fath y cyfrifir fy mhechod *i* i Grist, ag y cyfrifir *ei* gyfiawnder ef i minau; megys y mae rheswm, ac un mwy na rheswm hefyd, yn ein dysgu, 2 Cor. v. 21; ïe, addefir hyn yn gyffredin gan ein gwrthwynebwyr eu hunain.

Ond y mae hyn, sef, fod Crist yn cael ei gyfrif ger bron Duw, wedi pechu ynof fi, yn haeriad mor chwithyg, gwrthun, ac annghristionogol, fel y mae yn rhaid i Gristion gael benthyg clustiau pagan i wrando arno gydag amynedd: modd bynag, y cyfeiliornad o hono a eglurir yn y modd canlynol:—

Os cyfrifir Crist ger bron Duw wedi pechu ynof fi, yna rhaid iddo gael ei gyfrif wedi hanfodi ynof; canys y mae gweithrediad unrhyw beth yn canlyn ac yn ymddibynu ar ei fodolaeth; felly yr hwn sydd yn tybied neu yn cyfrif unrhyw berson wedi gweithredu da neu ddrwg yn arall, rhaid iddo o angenrheidrwydd ei olygu neu ei gyfrif wedi bodoli yn hwnw. Ond pa fodolaeth a ddichon Crist gael ei gyfrif ger bron Duw o feddu ynof fi, a minau yn bechadur?

Dos. II.—Yn erbyn y cyfrifiad dychymygol yma, gosodaf yr ystyriaeth ganlynol: Os yw ufudd-dod gweithredol Crist yn cael ei gyfrif i mi yn fy nghyfiawnhad, yna y mae ei ddyoddefol ufudd-dod hefyd; canys ni all fod yna reswm digonol i'w roddi, paham y cymerir y naill ac y gadewir y llall; ac nid yw ein gwrthwynebwyr ychwaith yn fwy ffafriol i'r naill na'r llall; y maent yn gyffredin yn caniatau lle i'r ddau yn eu cyfrifiad. Ond na chyfrifir marwolaeth neu ddyoddefiadau Crist yn y llyrhyren o honynt i mi, a ddangosaf fel hyn:—Os ydyw dyoddefiadau a marwolaeth Crist yn cael eu cyfrif i mi, yna gallaf finau gael fy nghyfrif wedi dyoddef a marw yn Nghrist.

Y mae yn anmhosibl i mi gael fy nghyfrif wedi dyoddef a marw yn Nghrist; am hyny nid yw dyoddefiadau a marwolaeth Crist yn gyfrifedig i mi, sef, yn y llythyren ohonynt.

Y mae rheswm y canlyniad yn y gosodiad cyntaf, yn amlwg oddiwrth y rheswm blaenorol. Meddu unrhyw beth yn gyfrifedig i ni yn y llythyren o hono, a chael ein cyfrif yn wneuthurwyr o'r hyn a gyfrifir felly, ydynt ymadroddion hollol gyfystyr.

Rheswm yr ail osodiad, sef "nad oes yr un dyn i gael ei olygu wedi dyoddef yn Nghrist," yw hyn, oblegyd yn Nghrist y'n cyfiawnhawyd ac y'n rhyddhawyd oddi wrth gospedigaeth, ac am hyny nis gellir dyweyd i ni gael ein cospi ynddo ef. "Trwy yr hwn yn gwnaeth ni yn gymeradwy yn yr Anwylyd." Eph. i. 6., felly nid tywallt ei lid a wnaeth efe arnom yn yr Anwylyd; a "thrwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni," 1 Pedr ii. 24., yr hyn sydd yn hollol wrthwyneb i gael ein cospi ynddo ef: dyweyd ein bod wedi dyoddef neu wedi ein cospi yn Nghrist, yw, mewn effaith, gwrth-ddyweyd yr hyn y mae yr Efengyl yn ei lefaru bob amser o berthynas i'n prynedigaeth a'n gwarediad oddiwrth gospedigaeth trwy Grist. Yr hwn sydd yn gwybod am ffordd i gymodi y ddau yma a'u gilydd, sef, bod Duw yn maddeu yn rhad i ni ein holl bechodau, ac eto ein cospi i'r eithaf am danynt hefyd, (yr hyn sydd yn rhwym o gael ei ddyweyd gan y rhai a ddywedant i ni gael ein cospi yn Nghrist) sydd yn gwybod meddaf, am ffordd i wneyd goleuni a thywyllwch yn gyfeillion. Os dyoddefodd Crist drosom, neu yn ein lle, yr hyn yw iaith yr Ysgrythyr, 2 Cor. v. 2I, "A wnaeth efe yn bechod drosom ni," sicr yw nas gellir dyweyd mewn un modd, ein bod ni wedi ein cospi, neu wedi dyoddef ynddo ef.

Dos. III.—Os yw cyfiawnder Crist (yn yr ystyr a a nodwyd mor fynych) yn cael ei gyfrif i ni, yna yr ydym yn cael ein cyfiawnhau, mewn rhan o leiaf, trwy y ddeddf seremoniol. Nis gellir gwadu y canlyniad hwn; oblegyd yr oedd rhan o'r cyfiawnder a gyflawnodd Crist, yn sefyll mewn ufudd-dod i'r ddeddf seremoniol; cafodd ei enwaedu, cadwai y Pasc, &c. Felly os yw cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i ni yn y llythyren o hono, rhaid i'r rhan hono o'i gyfiawnder, sef ei ufudd-dod i'r ddeddf seremoniol, gael ei gyfrif i ni hefyd.

Os atebir gan ddyweyd, "Nid oes yr un angenrheidrwydd am gyfrifiad o'r un rhan o'i gyfiawnder seremoniol, o herwydd y mae ei gyfiawnder moesol yn ddigonol;" Atebaf:—Yn gyntaf, nid oes yr un awdurdod yn yr Ysgrythyrau i ddarnio yr hyn nad oedd ond un cyfiawnder cyflawn a pherffaith yn Nghrist; ac i gymeryd y rhan a welwn ni yn oreu i ni ein hunain, a gadael y llall heibio.

Yn ail, os y rhan hon yn unig o gyfiawnder Crist, sef ei ufudd-dod i'r ddeddf foesol, a gyfrifir i ni yn gyfiawnder, yna nid yr un llwybr o gyfiawnhad sydd i'r holl gorph o gredinwyr; yr Iuddewon crediniol yn flaenorol i farwolaeth Crist, a gyfiawnheid ag un math o gyfiawnder, a'r Cenhedloedd a math arall o gyfiawnder. Canys yr oedd yr Iuddewon yn flaenorol i farwolaeth Crist, mewn angen am y naill gyfiawnder a'r llall yn gyfrifedig iddynt yn eu cyfiawnhad, os oedd eu cyfiawnhad hefyd yn gorphwys yn y cyfryw gyfrifiad. Bod yr Iuddewon yn cael eu cyfiawnhau âg un math o gyfiawnder, a'r Cenhedloedd a chyfiawnder arall, sydd yn ymddifad o gymaint a chysgod o reswm o'i blaid, ond y mae grym yr Ysgrythyrau yn ei erbyn. Rhuf. iii. 22. 30.

Yn drydydd, ac yn olaf, nid oedd cyfiawnder moesol Crist ar wahan i'r un seremoniol, yn gyfiawnder perffaith a chyflawn ynddo ef; oblegyd yr oedd "yn weddus iddo ef gyflawni pob cyfiawnder" yn gystal seremoniol a moesol, Mat. iii. 15. Felly gan hyny, pe cyfiawnheid dynion trwy gyfrifiad o gyfiawnder moesol Crist yn unig, byddai yn canlyn, ein bod wedi ein cyfiawnhau ger bron Duw trwy ran o gyfiawnder; am hyny, os nad yw cyfiawnder seremoniol Crist yn y llythyren o hono, yn cael ei gyfrif ini yn ein cyfiawnhad, nis gall ei gyfiawnder moesol ychwaith fod yn ddefnydd addas o'r fath gyfrifiad.

## PEN. XVI.

*Tri o brawfiadau eglur yn mhellach.*

Dos. I.—Os yw cyfiawnder Crist yn y llythyren o hono yn cael ei gyfrif yn gyfiawnder i ni yn ein cyfiawnhad, yna y mae ein pechodau ninau yn cael eu cyfrif i Grist yn yr un modd, sef yn y llythyren o honynt, yn ei gondemniad a'i farwolaeth. Y mae y canlyniad hwn yn gyfiawn a theg, canys y mae yr un rheswm am gyfrifiad ein pechodau ni i Grist, ag sydd o gyfrifiad ei gyfiawnder ef i ninau.

Ond na chyfrifwyd ein pechodau ni i Grist yn y llythyren o honynt, a ddangosaf fel hyn:—

Os yw pechodau dynion yn gyfrifedig i Grist yn y llythyren o honynt, yna y mae Duw yn edrych arno ef yn ei ddyoddefiadau, fel un ag sydd wedi pechu yn wirioneddol i'w erbyn; megys y dywed ein gwrthwynebwyr am y credinwyr, fod Duw yn edrych arnynt trwy y cyfiawnder hwnw

meddant sydd yn gyfrifedig iddynt, fel rhai wedi cyflawni y ddeddf yn wirioneddol eu hunain. Ond nid yw Duw yn edrych ar ei anwyl-fab Iesu yn ei ddyoddefiadau, fel un ag sydd wedi pechu yn wirioneddol i'w erbyn; am hyny nid yw ein pechodau ninau yn cael eu cyfrif iddo yn y fath fodd yn ei ddyoddefiadau.

Gwirionedd yr ail fraich yn y rheswm a egluraf fel hyn:—Os yw Duw yn edrych ar Grist yn ei farwolaeth, fel un ag sydd wedi pechu yn wirioneddol yn ei erbyn, felly rhaid ei fod yn edrych arno fel un sydd wedi haeddu y farwolaeth a ddyoddefodd. Y mae y rheswm o'r canlyniad yn amlwg; oblegyd cyflawni pechod, a haeddu marwolaeth, ydynt ymadroddion cyfystyr; felly edrych ar ddyn fel pechadur, ac fel un sydd yn haeddu marwolaeth, ydynt yr un peth.

Ond y mae yn amlwg nad oedd Duw yn edrych ar Grist yn ei ddyoddefiadau, fel un ag ydoedd yn haeddu yr hyn a ddyoddefai;—oblegyd,

Yn gyntaf, megys yr offrymodd Crist ei hun yn ddifai i Dduw, felly yn un difai yr edrychodd Duw arno yn ei offrymiad: os yn wahanol, pe yr edrychasai Duw heibio i'r purdeb a'r santeiddrwydd hwnw o'i eiddo, a chyfrif pechod iddo yn ei le, gofynaf, beth fuasai hyn, onid gosod tywyllwch am oleuni, a galw y da yn ddrwg? a haeru hyn am Dduw, yn ddiau sydd gabledd dwl a phechadurus.

Dos. II.—Os oedd Duw yn edrych ar Grist fel un ag oedd yn haeddu marwolaeth, nis gallasai ei farwolaeth gael ei derbyn fel iawn dros eraill. Canys fel nas gall yr hwn sydd yn haeddu marwolaeth, drwy ei farwolaeth ei hun deilyngu arbediad eraill sydd wedi haeddu marw gystal ag yntau; oblegyd nad yw marwolaeth y cyfryw ond yn unig cyfateb i'w ddrwg-haeddiant personol: ac megys nas gall yr hwn sydd mewn dyled, drwy y taliad o'r cyfryw dalu dyled neb arall ond yr eiddo ei hunan; felly nis gall cyfrif unrhyw ddyn yn haeddiannol o farwolaeth, fod yn gyson a chyfrifiad marwolaeth y cyfryw ddyn yn iawn cymeradwyol dros eraill; oddi eithr i ni dybied fod yr hwn sydd yn gwneyd y cyfrifiad naill ai yn analluog i wahaniaethu, neu ynte yn alluog i gysoni y gwrthddywediadau mwyaf.

Yn drydydd ac yn olaf, os oedd Duw yn edrych ar Grist yn ei farwolaeth yn haeddu marw, yna ni bu Crist farw dros ein pechodau ni, fel yr eiddom ni, ond fel ag yr oeddynt yn eiddo iddo ei hun trwy gyfrifiad. Pryd y mae yr Ysgrythyrau bob amser yn tystiolaethu am ei farwolaeth dros ein pechodau *ni*, ac nid byth dros unrhyw bechod o'i

eiddo ei *hun*, a feddai trwy gyfrifiad, na thrwy weithrediad ychwaith: a'r gwir yw, yn yr ystyr y dywedir y cyfrifwyd ein pechodau i Grist, yn yr ystyr hwnw y gellir dyweyd eu bod yn eiddo Crist; ïe, meddianniad o'n pechodau, yn y gospedigaeth o honynt arno ef, ydyw yr holl gyfrifiad y sonia yr Ysgrythyrau am dano. "Efe a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd," Esa. liii. 6., sef yn y gospedigaeth haeddiannol iddynt. Felly eilwaith: "Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren;" 1 Pedr 2. 24.; h.y., cospedigaeth ein pechodau.

Bydded i'r rheswm hwn hefyd gael ei gymeryd i ystyriaeth:—Os yw cyfiawnder Crist, yn y llythyren o hono, yn cael ei gyfrif i ni yn ein cyfiawnhad, y mae Duw yn edrych arnom felly yn deilwng o'n cyfiawnhad.

Y mae hwn yn ddywediad llygredig; am hyny, y mae y dywediad blaenorol felly hefyd.

Y mae y canlyniad, yn y gosodiad blaenorol, fel Mynydd Seion, yr hwn nis gellir ei syflyd. Canys, os yw Duw yn fy nghyfrif wedi cadw y ddeddf mor berffaith ag y gwnaeth Crist, rhaid ei fod yn fy ystyried yn deilwng o'm cyfiawnhad; ond, yn gymaint mai yr un peth yw cyflawni y ddeddf a theilyngu cyfiawnhad, Rhuf. iv. 4., felly cyfrif dyn wedi cyflawni y naill, ydyw ei gyfrif yn haeddu y llall.

Y rheswm o'r gosodiad olaf, sef, "nad yw Duw yn edrych arnom yn deilwng o'r cyfiawnhad a dderbyniwn," yw hwn: Na byddai Duw yn dangos dim ffafr i ni yn ein cyfiawnhad, Rhuf. iv, 4., a xi. 6. Od oes unrhyw ffafr yn cael ei hamlygu, yn hyn yn unig y mae, ei fod yn ein cyfrif yn deilwng o gael ein cyfiawnhau; pryd y mae yr Ysgrythyrau yn cadarnhau yn eglur, mai nid y teilwng neu y cyfiawn y mae Duw yn ei gyfiawnhau, ond yr annuwiol neu yr annheilwng. Rhuf. iv. 5.

Dos. III.—Gadewch ini glywed beth a ddywed rheswm a datguddiad yn mhellach yn erbyn y cyfrifiad hwn.

Os ydyw y fath gyfrifiad yn angenrheidiol mewn cyfiawnhad, rhaid i'r angenrheidrwydd hwn fod naill ai gyda golwg ar gyfiawnder Duw, na allai Duw fod yn gyfiawn wrth gyfiawnhau pechaduriaid yr un ffordd arall, neu, gyda golwg ar drugaredd Duw, neu, er dyrchafu rhyw briodoledd arall yn Nuw.

Nid ydyw yn angenrheidiol dwyn i fewn y fath gyfrifiad gyda golwg ar yr un o'r rhai hyn; am hyny, y mae yn cael ei ddwyn i fewn heb yr un angenrheidrwydd am dano. Nid yw amddiffynwyr y cyfrifiad hwn eu hunain yn gosod yr un angenrheidrwydd arall am dano, ond yn unig

gyda golwg ar gyfiawnder Duw, "Canys ni all Duw," meddynt, "yn gyson â chyfiawnder, gyhoeddi yn gyfiawn yr hwn nid yw yn gyfiawn;" eu meddwl yw, "nid yw felly yn ol cyfiawnder manwl y ddeddf." Ond i hyn yr wyf yn ateb:—

Yn gyntaf, Nid oes dim yn angenrheidiol i'w wneyd gan Dduw na dyn, yn nghyfiawnhad pechadur, mewn ffordd o iawn neu foddlonrwydd i gyfiawnder Duw, er yr un offrymiad mawr a wnaed ar y groes, gan yr Arglwydd Iesu Grist; ac os ydyw yn angenrheidiol, rhaid fod rhyw beth yn ddiffygiol yn y boddlonrwydd hwnw. Os cafodd cyfiawnder Duw ei gyflawn foddloni yn marwolaeth Crist, ar ran cyfiawnhad pechaduriaid, nid oes dim arall yn angenrheidiol i'w wneyd gan Dduw na dyn er boddlonrwydd pellach i'r cyfiawnder hwnw. Am hyny, os yw Duw yn cyfrif cyfiawnder Crist mewn cyfiawnhad, rhaid cael allan ryw ddyben arall iddo, heblaw boddloni ei gyfiawnder. Nid ydyw y gwerth anfeidrol a berthyn i ddyoddefiadau Crist i gael ei leihau er mwyn gwneyd lle i ryw ddychymygol ddyrchafiad o'i gyfiawnder gweithredol. Y mae yr angenrheidrwydd am ffydd mewn cyfiawnhad, fel yr addefir ar bob llaw, yn gorphwys nid o herwydd cyfiawnder Duw, megys pe byddai dyn yn ei foddloni, yn gwbl neu mewn rhan, trwy gredu, eithr naill ai gyda golwg ar ei ddoethineb neu gynghor ei ewyllys, yn ol geiriau yr Apostol, Eph. i. 11. Ni farnodd Duw yn addas i achub dynion yr un ffordd arall trwy farwolaeth Crist, ond trwy ffydd. Medd ein Iachawdwr, Ioan vi. 40., "A hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i," nid cyfiawnder yr hwn a'm hanfonodd i, "gael o bob un ag sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragwyddol." Pe na byddai yr un rhwystr i feddiannu cyfiawnhad ond eisiau iawn i gyfiawnder dwyfol, sicr felly y byddai yr holl fyd wedi ei gyfiawnhau; canys y mae cyfiawnder Duw wedi ei foddloni ar ran y byd, yn iawn Crist, 1 Ioan ii. 2.

Dos. IV.—Yn ail, dywedir, "Na ddichon Duw, yn gyson â'i gyfiawnder, gyhoeddi y dyn hwn yn gyfiawn, nad yw felly yn llythyrenol a phriodol:" Yr wyf yn ateb, Fe all Duw gyhoeddi yn gyfiawn y dyn ag sydd yn amddifad o gyfiawnder deddfol, a golygu fod ganddo gyfiawnder sydd yn dal allan gyfartalrwydd â hwnw, llawn cystal ag y gallodd gyfrif dienwaediad unrhyw ddyn yn enwaediad, Rhuf. ii. 26.; neu alw y Cenhedloedd dienwaededig yn enwaediad, Phil. iii. 3. Yn awr, megys ag yr oedd yr Ysbryd Glân yn llefaru mor wirioneddol pan yn galw y rhai oedd yn credu,

er yn ddienwaededig yn y cnawd, yn "enwaediad," fel pe buasent wedi eu henwaedu yn llythyrenol; felly y gall Duw, gyda chymaint o gyfiawnder a gwirionedd, gyhoeddi y dyn hwnw yn gyfiawn nad yw felly yn llythyrenol, os bydd ganddo unrhyw gymhwysder arall ag fyddo yn cyfateb mewn unrhyw fodd, i'r fath gyfiawnder, yr un modd a phe byddai yn meddu perffaith gyfiawnder deddfol. Canys y mae yn ddigonol er dangos cyfiawnder a gwirionedd Duw, yn ei waith yn rhoddi yr enw neu y cymeriad o ddyn cyfiawn, os bydd y person a gyfiawnheir yn meddu yr unrhyw berthynas neu ragorfreintiau ag sydd yn berthynol i gyfiawnder deddfol. Yn awr, un ragorfraint neillduol a berthyn i gyfiawnder deddfol yw, rhyddhad y person sydd yn ei feddiannu oddiwrth gondemniad a marwolaeth, "Gwna hyn, a byw fyddi:" y mae yr hwn sydd yn feddiannol ar faddeuant pechodau yn cyd-gyfranogi â'r cyfryw o'r rhagorfraint hon, yn ei llawnder; ac, o ganlyniad, yn yr ystyr hwn, fe all, gyda gwirionedd a phriodoldeb, gael ei alw neu ei gyfrif yn gyfiawn.

Yn drydydd, Y mae maddeuant pechodau yn gyfiawnder perffaith a gwirioneddol, o'r natur ag yw, er nad yw yn gydffurfiad âg unrhyw ddeddf foesol. Cyfiawnder goddefol ydyw maddeuant pechodau, ac y mae yn gyfiawnder mor hollol a pherffaith o'i natur, ag unrhyw gyfiawnder gweithredol, yr hwn sydd yn gynnwysedig mewn cyflawniad o unrhyw ddeddf. Ac nis gall yr hwn sydd wedi pechu unwaith, neu ballu yn ei ufudd-dod i'r ddeddf, feddiannu yr un cyfiawnder arall ond goddefol, neu faddeuant pechodau; yr hwn sydd mor effeithiol i bob amcan a dyben, i'r hwn a'i meddianno, â chyfiawnder deddfol, ond yn unig i orfoleddu yn y cnawd; yr hyn sydd yn gwbl annghyson âg ef. Felly gall Duw, gyda cyfiawnder a gwirionedd, gyhoeddi dyn yn gyfiawn, pan y mae wedi maddeu iddo ei holl bechodau, er iddo fod mor bell oddiwrth gyfiawnder deddfol ag yw y dwyrain oddiwrth y gorllewin.

## PEN. XVII.

*Pedwar o Resymau yn ychwanegol.*

Dos. I.—Nis gall yr hyn a gyflawnir genym yn bersonol fod yn gyfiawnhad i ni, nac yn un rhan o hono, ac nis gellir ei wneyd yn gyfiawnhad i ni, nac yn un rhan o hono, trwy gyfrifiad oddiwrth un arall.

Nis gallasai cyfiawnder y ddeddf, pe wedi ei gyflawni genym yn ein personau ein hunain, fod yn gyfiawnhad i ni, nac yn un rhan o hono. Am hyny, nis gall cyfiawnder gweithredol Crist gael ei wneyd yn gyfiawnhad i ni, nac yn un rhan o hono, trwy gyfrifiad oddiwrtho.

O berthynas i'r gosodiad cyntaf, Os na all cyflawniad personol o'r ddeddf fod yn gyfiawnhad, nac yn rhan o gyfiawnhad i ni, sicr nas gall cyfrifedig gyflawniad o honi fod yn gyfiawnhad i ni ychwaith. Ni ddichon cyfrifiad o beth oddiwrth arall ychwanegu dim at rinwedd y peth hwnw, mwy na chyflawniad personol o hono: natur a dyben cyfrifiad, yn yr ystyr y sonir am dano yn bresennol, yw gwneuthur i fynu ddiffyg ac analluogrwydd i gyflawni y ddeddf yn bersonol.

O berthynas i'r olaf, Nas gall cyfiawnder deddfol Crist, pe buasai wedi ei gyflawni ganddom ein hunain, fod yn gyfiawnhad i ni, nac yn rhan o hono ychwaith, sydd amlwg; oblegyd os syrthia dyn unwaith trwy droseddu yn erbyn y ddeddf, a chael ei ddarostwng dan gondemniad y ddeddf, bydd yn annichonadwy iddo gael ei adferyd, er cadw y ddeddf hono ddeng mil o weithiau. Yr oedd y ddeddf yn alluog i roddi bywyd, pe buasai yn cael ei chadw; ond i'r hwn sydd wedi pallu unwaith yn y cyflawniad o honi, ïe, er iddo fod yn alluog i'w chadw ddeng-waith ar ol hyny, y mae hi yn analluog i roddi bywyd neu gyfiawnhad i hwnw. Byddai yn anmhosibl i euogrwydd y pechod a wnaeth, gael ei symud ymaith byth trwy unrhyw gyfiawnder deddfol; ac ni byddai ufudd-dod gweithredol o un math yn effeithiol i wneyd iawn drosto. "Heb ollwng gwaed, nid oes maddeuant," Heb. ix. 22.

Dos. II.—Yr hyn nad yw dynion wedi eu rhwymo gan yr un ddeddf o eiddo Duw i'w cyflawni yn bersonol er eu cyfiawnhad, ni ddichon y pethau hyny gael eu cyfrif oddiwrth arall iddynt er eu cyfiawnhad.

Nid oes yr un ddeddf, o eiddo Duw, yn rhwymo dynion i gadw y ddeddf foesol, er eu cyfiawnhad. Am hyny, nis gellir cyfrif cyflawniad o honi iddynt oddiwrth neb arall er eu cyfiawnhad.

Y rheswm o'r gosodiad cyntaf yw, Oblegyd rhaid fod cyfrifiad, yn yr ystyr a olyga ein gwrthwynebwyr, wedi ei ordeinio gan Dduw, i gynnorthwyo diffygion personol. Ond, lle nad oes yr un ddeddf wedi ei rhoddi i ddynion i'w chadw, nis gall fod yno ddiffyg personol; nid yw yn bechod neu'n diffyg mewn un dyn i beidio ufuddhau, pryd nad oes ganddo yr un gorchymyn i ufuddhau; ac, o ganlyniad, nid

oes dim lle nac achos am unrhyw gyfrifiad i fod yn gynorthwy iddo.

Am yr olaf, Ymddengys fod digon o wirionedd ynddo i'w ddyrchafu uwchlaw pob ammheuaeth a dadl. Eglur yw, oddiwrth holl rediad yr Ysgrythyrau, mai nid y ddeddf foesol y mae dyn dan rwymau i'w gadw, er ei gyfiawnhad, ar ol y cwymp, ond deddf ffydd yn unig. Y mae y ddeddf foesol, megys ag y mae wedi ei hadnewyddu gan Grist, yn rhwymo y gydwybod dan yr Efengyl i'w chyflawni mewn ffordd o ddyled a chydnabyddiaeth i Dduw; ond nid ydyw byth, ar ol y cwymp, yn rhwymo yr un dyn i'w chadw er ei gyfiawnhad; ac, felly, pan y dywedir, yn Rhuf. ii. 13, mai "Nid gwrandawyr y ddeddf sydd yn gyfiawn, ger bron Duw, ond gwneuthurwyr y ddeddf a gyfiawnhir," nid y meddwl yw, fod Duw yn gofyn cyflawniad manwl o'r ddeddf er cyfiawnhad; ond hyn, na bydd i Dduw gyfiawnhau ac achub neb ond yn unig y sawl, oddiar ffydd ddiffuant tuag ato trwy Grist, ac a ymgysegrant i gyflawni ei ewyllys, a'i wasanaethu mewn ffordd o ufudd-dod i'w ddeddfau. Am hyny, nid yw cyflawni y ddeddf yn cael ei grybwyll fel moddion neu achos haeddiannol cyfiawnhad; ond naill ai fel cyflwr *(condition)* nad yw cyfiawnhad i'w ddisgwyl hebddo, neu fel arwydd allanol y personau a gyfiawnheir trwy ffydd.

Dos. III.—Os nad yw Duw yn gofyn ond ffydd oddiwrth ddynion, er eu cyfiawnhad, yna rhaid ei fod yn cyfrif y ffydd hon iddynt yn gyfiawnder, er eu cyfiawnhad. Nid yw Duw yn gofyn ond ffydd er cyfiawnhad. Am hyny,

Y mae y canlyniad, yn y gosodiad cyntaf, yn anwrthwyebol, oblegyd nid yw yr ymadrodd, cyfrif yn gyfiawn, a derbyn yn gyfiawn, er yn wahanol mewn sŵn, ond yr un yn gwbl mewn arwyddocâd. Yn awr, os yw Duw yn gofyn ffydd, a ffydd yn unig, oddiwrth ddynion, er eu cyfiawnhad; ac, ar yr un pryd, yn gwrthod ei derbyn i'r amcan hwnw, y mae felly yn gwneyd cyfammod â dynion, ac yn gomedd sefyll ato drachefn ar ol ei wneyd.

Os gwrthatebir, gan ddyweyd, "Er nad yw Duw yn gofyn gan ddynion ond ffydd er eu cyfiawnhad, eto y mae yn gofyn rhyw beth mwy oddiar law rhyw un arall tuag at hyny; felly, nid yr hyn ag y mae Duw yn ei ofyn oddiwrth ddynion yn bersonol, a gyfrif efe iddynt er eu cyfiawnhad, ond yr hyn ag y mae yn ei ofyn oddiwrth arall drostynt;" yr wyf yn ateb, Pe cyfiawnder Crist fyddai yr hyn ag y mae Duw yn ei gyfrif yn gyfiawnder i ddyn yn ei gyfiawnhad, ac nid ffydd, yna gallasai y cyfiawnder hwn gael

ei gyfrif i'r perwyl hyny, yn flaenorol, ïe, ac heb ffydd yr un dyn. Canys y mae yn sicr, nad yw ffydd yr un dyn yn ychwanegu rhinwedd na gwerth at gyfiawnder Crist; am hyny, os dyna yw yr hyn ag y mae Duw yn ei gyfrif yn gyfiawnder mewn cyfiawnhad, gellir ei gyfrif llawn gystal heb ffydd a chyda hi; ac felly, gallai dynion gael eu cyfiawnhau heb gredu.

Dos. IV.—Ac ni bydd o ddim lles i ddyweyd, "fod cyfrifiad yn canlyn yn ol ewyllys a boddlonrwydd Duw; ac felly nad yw cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif, i neb ond i'r hwn sydd yn credu, oblegyd ewyllys a boddlonrwydd Duw ydyw, i beidio a'i gyfrif ar yr un telerau ereill." Canys,

I hyn yr atebaf: os ewyllys a boddlonrwydd Duw yw, i beidio a chyfrif cyfiawnder Crist, ond ar yr ammod o ffydd, felly y mae yn amlwg nad yw y cyfiawnder hwn yn cael ei gyfrif i un dyn er ei gyfiawnhad, oblegyd rhaid i'r ammod o ffydd gyfryngu rhyngddynt. Ac felly os yw cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i ddynion, y mae yn rhaid mae tu ag at gyfiawnhad yn unig y mae, ac nid yn gyfiawnder iddynt i'w cyfiawnhau; canys yn ol eu honiadau eu hunain, ffydd sydd yn meddu y cysylltiad mwyaf digyfrwng mewn cyfiawnhad.

Yn ail, os yw Duw yn gosod cyfrifiad o gyfiawnder Crist ar y cyflawniad o'r ammod o ffydd, yna nid yw ffydd yn ymaflyd yn nghyfiawnder Crist yn gyfrifedig, ond hi a gymer afael ynddo yn gyntaf, ac wedi hyny y mae y cyfrifiad o hono yn canlyn, Yr hyn 1. sydd yn hollol groes i farn gyffredin y dysgedigion penaf yn mhlith amddiffynwyr y dyb wrthwynebol, y rhai a haerant yn wastad fod y cyfrifiad o gyfiawnder Crist gan Dduw yn blaenori ffydd neu y weithred o gredu mewn dynion. 2. Os ydyw ffydd yn cymeryd gafael yn nghyfiawnder Crist cyn iddo gael ei gyfrif, a gwaith Duw yn ei gyfrif yn ddylynol i hyny, a'r credadyn heb ei gyfiawnhau nes i'r weithred hon o eiddo Duw gael ei chyflawni arno; felly gallai dyn feddu cyfiawnder Crist trwy ffydd, ac eto heb fod wedi ei gyfiawnhau. Canys os ewyllys Duw yw, peidio a chyfrif cyfiawnder Crist er cyfiawnhad, ond ar y cyflawniad o'r ammod o ffydd, a bod yr ammod hon yn cael ei chyflawni trwy gymeryd gafael yn nghyfiawnder Crist (yn anghyfrifedig;) y mae yn canlyn felly yn naturiol y gall dyn gymeryd gafael yn nghyfiawnder Crist trwy ffydd ac eto yn ymddifad o'r hyn sydd yn hanffodol angenrheidiol er ei gyfiawnhad; sef, gwaith Duw yn cyfrif y cyfiawnder hwn iddo, yr hyn, fel y mae y dyb wrthwynebol yn dysgu, sydd yn ddylynol i

waith ffydd yn ymaflyd yn nghyfiawnder Crist, ac nid yn flaenorol i hyny.

Dos. V. Eto unwaith yn rhagor:—

Yr hyn a gyfrifwyd i Abraham yn gyfiawnder er ei gyfiawnhad, yw yr hyn a gyfrifir i'r holl gredinwyr ereill hefyd.

Ffydd Abraham a gyfrifwyd iddo yn gyfiawnder yn ei gyfiawnhad, &c.,

Mai y gosodiadau hyn ydyw athrawiaeth bur yr apostol Paul yn y bedwaredd bennod o'r Rhufeiniaid, sydd wedi ei brofi yn helaeth eisioes; ac felly nid wyf yn barnu fod angenrheidrwydd yn y fan yma i brofi hyny yn mhellach.

## PEN. XVIII.

*Y Rheswm diweddaf yn erbyn cyfrifiad o gyfiawnder Crist.*

Dos. I.—Os na ellir cyfrif cyfiawnder y ddeddf (yn y llythyren o hono) oddiwrth y naill berson i'r llall, yna nis gall cyfiawnder Crist gael ei gyfrif felly i undyn.

Y mae yn anmhosibl gwadu y canlyniad. Am hyny, yr wyf yn penderfynu:—

Nad ydyw cyfiawnder y ddeddf yn gyfrifadwy oddiwrth y naill berson i'r llall:

Am hynny, nid yw cyfiawnder Crist yn gyfrifadwy i un dyn yn ei gyfiawnhad.

Crybwyllwyd y rheswm hwn o'r blaen, pennod viii., wedi ei sylfaenu ar Gal. iii. 12, Y rheswm o'r aunghyfrifiadolrwydd hwn o gyfiawnder y ddeddf, a eglurir yn ngeiriau y ddeddf ei hûn: yn ol yr iaith Roeg, "Y dyn a'u gwnaeth yn unig a fydd byw trwyddynt," a neb arall.

Dos. II.—Ond gwrthddadleuir yn erbyn hynyna fel y canlyn:

"Os ydyw troseddiad o'r ddeddf yn gyfrifadwy oddiwrth y naill berson i'r llall, yna gall cyfiawnder y ddeddf gael ei gyfrif hefyd.

Fod troseddiad o'r ddeddf yn gyfrifadwy oddiwrth y naill berson i'r llall, sydd amlwg; oblegid y mae pechod Adda yn bwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig yn cael ei gyfrif i'w hiliogaeth."

O berthynas i'r gosodiad cyntaf yr wyf yn ateb:

Nad ydyw cyfrifiad o droseddiad o'r ddeddf, pe caniateid y fath beth, yn un arddanghosiad na phrawf o gyfrifiad cyfiawnder neu yr ufudd-dod a roddir i'r ddeddf hono.

Canys yn gyntaf, nid ydyw egwyddor y ddeddf yn caethiwo mor arbenodol euogrwydd a chospedigaeth y troseddiad o honi i'r troseddwr, ag y mae yn rhwymo y wobr addawedig i'r cyflawniad o honi i'r hwn a ufuddhâ iddi; megys y clywsom yn Gal. iii. 12. "Y dyn a wnel hyn yn unig a fydd byw trwyddynt." Ni chanfyddir mewn un man ar y llaw arall, "Y dyn yn unig a drosedda hyn a fydd marw am ei droseddiad." Megys pe byddai Duw yn rhoddiad y ddeddf wedi gadael rhyddid iddo ei hun i drosglwyddo euogrwydd a chospedigaeth haeddiannol i'r troseddiad o honi mor bell ag y gwelai yn dda, ond nid oedd ganddo yr un bwriad i estyn y wobr addawedig i'r cyflawniad o'r ddeddf ddim pellach na pherson y cyflawnwr o honi. Golyga rhai, y mae yn wir, y buasai gwaith Adda yn aros yn ei ufudd-dod i'r ddeddf, yn sefydliad ei holl hiliogaeth mewn cyflwr o ffafr. Ond er y gallaf gyda Paul alw Crist, "yr Adda diweddaf," 1 Cor. xv. 45, eto yr wyf yn rhy dyner i alw Adda, "y Crist cyntaf." Dweyd y buasai Adda trwy ei gyfiawnder yn teilyngu ei gyfiawnhad ei hun a'i holl hiliogaeth hefyd, yw, yn ol fy meddwl I, ei wneyd yn rhyw beth mwy na "ffurf yr hwn oedd ar ddyfod." Ond dweyd ei fod trwy ei drosedd wedi teilyngu ei gondemniad ei hun a'i hiliogaeth hefyd sydd yn wirionedd. Felly, nid ydyw cyfiawnder y ddeddf mor gyfrifadwy a'r troseddiad o honi.

Dos. III.—Yn ail, gan y dichon y gofynir, Beth sydd yn gwneyd y fath wahaniaeth rhwng ufudd-dod i'r ddeddf a'r troseddiad o honi, fel nad yw y cyntaf mor gyfrifadwy a'r olaf? Yr wyf yn ateb: y mae anufudd-dod i unrhyw ddeddf, bob amser yn llawer mwy mewn ffordd o ddrwg-haeddiant, nag yw ufudd-dod i ddeddf o haeddu gwobr: canys y mae yr hwn a gymero gôd dyn, neu a'i laddo ar y ffordd fawr, yn llawer mwy haeddiannol o gospedigaeth nag yw yr hwn sydd yn gadael i ddynion deithio mewn llonyddwch, o haeddu gwobr. Ac er y gellir bwrw i garchar yn gyfiawn yr hwn fyddo yn gomedd talu ei ddyled i'r neb y mae yn ddyledus, eto nid yw yn canlyn, fod yr hwn sydd yn talu yn ei adeg yn haeddu cael ei wneyd yn frenin a'i godi ar orseddfainc. Yr un modd y gallasai Adda trwy ei drosedd haeddu condemniad a marwolaeth iddo ei hun a'i hiliogaeth, ond eto nas gallasai haeddu bywyd a gogoniant iddo ei hun, a'i hiliogaeth, trwy ei ufudd-dod. Y mae y rheswm yn amlwg; oblegyd pe cadwasai efe y ddeddf, ni buasai wedi gwneyd yn unig ond ei ddyledswydd. Pa fwyaf oll ydoedd Adda o ddyledwr i Dduw, mwyaf oll oedd o rwymau arno i gwblhau yr ufudd-dod a ofynai Duw oddiwrtho, a lleiaf oll

fuasai teilyngdod yr ufudd-dod pe buasai Adda wedi ei gyflawni; ac felly mwyaf drwg-haeddianol oll ydoedd ei anufudd-dod. Felly y mae y canlyniad hwn, sef, "Os yw troseddiad o'r ddeddf yn gyfrifadwy, yna y mae yr ufudd-dod iddi yn gyfrifadwy hefyd," mor bell o fod yn safadwy, fel ag y mae y cyfrifiad o'r troseddiad o honi yn dymchwelyd y cyfrifiad o'r ufudd-dod o honi yn hytrach na'i gadarnhau. Canys pa fwyaf cyfrifadwy neu haeddiannol o gosp, yw y troseddiad o honi, mwyaf annghyfrifadwy neu anhaeddiannol o wobr, yw yr ufudd-dod iddi. Ond gan fod cyfrifiad pechod Adda i'w hiliogaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen yn fynych i brofi cyfrifiad o gyfiawnder Crist, ymdrechaf i ddangos gyda chymaint o eglurder ar a allwyf, yn mha ystyr y mae yr Ysgrythyrau yn deall y cyfrifiad hwnw. Nid ydyw yr Ysgrythyrau yn addef yr un cyfrifiad arall o bechod Adda i'w hiliogaeth, ond yn yr un ystyr ag y mae cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i'r credinwyr: yn y bendithion, rhagorfreintiau, a'r manteision a bwrcaswyd trwy y teilyngdod o hono, y cyfrifir cyfiawnder Crist i'r rhai sydd yn credu, ac nid yn y llythyren o hono. Yr un modd hefyd y cyfrifir pechod Adda i'w hiliogaeth, nid yn y llythyren neu y weithred o hono (fel y dywedir yn fynych) ond yn y drwg-haeddiant, h.y. yn y gospedigaeth ddyledus iddo.

Am hyny, mewn perthynas i gyfrifiad pechod Adda,—Yr wyf yn ateb, yn gyntaf, nad ydyw yr Ysgrythyrau mewn un man yn honi cyfrifiad o bechod Adda i'w hiliogaeth, nac o gyfiawnder Crist i'r credinwyr ychwaith: ac nad ydyw y dull yna o lefaru mewn un modd yn gyson ag iaith yr Yspryd Glân; canys pa le bynag yn yr Ysgrythyrau y mae yr ymadrodd "cyfrif," y mae yn cael ei gymhwyso at, neu yn llefaru am, rywbeth perthynol i'r personau hyny y dywedir y gwneir y cyfrifiad iddynt, ac nid byth (am a wyf yn ei gofio) at, neu am, ddim perthynol i berson arall. Felly, Rhuf. iv. 3: "Credodd Abraham i Dduw a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder;" h.y. ei waith ei *hun* yn credu a gyfrifwyd iddo, ac nid eiddo neb arall. Felly, adn. 5: "Ond i'r hwn nid yw yn gweithio, ond yn credu, ei ffydd *ef* a gyfrifir iddo yn gyfiawnder." Felly, Psal. cvi. 30, 31: "Yna y safodd Phinees, ac a iawn-farnodd: a'r pla a ataliwyd. A chyfrifwyd hyny iddo yn gyfiawnder o genhedlaeth i genhedlaeth." Felly hefyd, 2 Cor. v. 19: "Heb gyfrif iddynt eu pechodau," h.y. eu pechodau eu hunain.

Dos. IV.—Yn ail, pan y dywedir fod unrhyw beth yn cael ei gyfrif, megys pechod, ffolineb, a chyfiawnder yr un modd, nid ydyw y fath ymadrodd i'w gymeryd am y cyf-

lawniad o'r pethau hyny; megys, er engrhaifft, pe byddai cyfrif pechod i ddyn yn arwyddo hyn, cyfrif y person, (i'r hwn y cyfrifir pechod) wedi cyflawni gweithred bechadurus, neu, megys pe cyfrif ffolineb fyddai cyfrif y dyn wedi gwneuthur rhyw beth yn ffol: pan y mae yn cael ei gymhwyso at bethau sydd ddrwg, a'i briodoli i bersonau sydd yn meddu awdurdod dros y cyfryw y gwneir y cyfrifiad iddynt, golyga gyfrifiad o euogrwydd, yr hyn a gyfrifir i'r person gyda bwriad i weinyddu rhyw gospedigaeth ddyledus arno. Felly, cyfrif pechod, yn iaith yr Ysgrythyr, ydyw cyfrif euogrwydd pechod ar ddyn gyda bwriad i'w gospi am dano. Felly, Rhuf. v. 13, Dywedir na "chyfrifir pechod pryd nad oes deddf." Nid y meddwl yw, nad yw y weithred a gyflawna dyn, pa un bynag fod deddf a'i peidio, yn cael ei chyfrif iddo. Nid ydyw y ddeddf yn gwneyd i'r un weithred gael ei chyfrif neu ei phriodoli i ddyn, ar nad ellir llawn gystal ei chyfrif iddo hebddi. Ond y meddwl yw, nad ydyw Duw ddim yn cyfrif euogrwydd ar ddynion, nac yn gweinyddu unrhyw gospedigaeth am yr hyn a wneir ganddynt, ond yn unig trwy oleuni y ddeddf yn gwahardd; ac, yn yr ystyr hwn, y dywedir "Mai y ddeddf ydyw grym pechod," oblegyd ei bod yn condemnio y pechadur gydag awdurdod; ond heb i'r ddeddf wahardd ni byddai ganddi awdurdod i gondemnio neb, 1 Cor. xv. 56. Felly eilwaith, pan y dywedir, "Ac nid yw Duw yn rhoi ffolineb yn eu herbyn," h.y., cyfrif ffolineb iddynt, "yr hyn sydd yn gwneyd i eneidiau y rhai archolledig waeddi;" Job xxiv. 12; nid y meddwl yw, nad ydyw Duw yn eu cyfrif wedi gorthrymu neu lofruddio, canys, os darfu iddynt gyflawni y cyfryw bethau, y mae yn anmhosibl iddo ef beidio a'u cyfrif yn weithredwyr o honynt, ond nad ydyw Duw ddim mewn modd amlwg yn cyfrif euogrwydd y pechodau hyn arnynt, neu weinyddu cospedigaeth am danynt. Felly, 2 Sam. xix. 19, Pan erfyniodd Simei ar i Dafydd beidio a chyfrif neu gofio anwiredd iddo, nid ei feddwl ydoedd erfyn am i Dafydd beidio a meddwl ei fod wedi gwneuthur yn annuwiol, trwy ei ddifenwi, (canys y mae yn cyfaddef hyn ei hun, yn y geiriau dylynol) ond am iddo beidio a gweinyddu y gospedigaeth ag oedd yr annuwioldeb hwnnw yn ei haeddu. Yr un modd, pan y mae Dafydd yn datgan dedwyddwch y dyn, nad yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo, nid ei feddwl yw, fod yr un dyn na bydd i'r Arglwydd ei gyfrif wedi cyflawni y gweithredoedd pechadurus ar a gyflawnodd, ond mai y cyfryw rai sy yn ddedwydd, na bydd i Dduw gyfrif iddynt ddrwg-haeddiant eu pechodau

yn y gospedigaeth ddyledus am danynt. Yr un modd eilwaith, ac i hebgor dyfyniadau yn ychwaneg, pan y dywedir nad yw Duw yn cyfrif i ddynion eu pechodau, 2 Cor. v. 19, nid y meddwl yw, nad ydyw Duw yn cyfrif fod dynion wedi cyflawni y fath bechodau i'w erbyn, ond, ei fod yn eu rhyddhau yn llwyr oddiwrth y gospedigaeth haeddiannol iddynt. Trwy yr holl dystiolaethau Ysgrythyrol hyn, o berthynas i arferiad cyffredin yr ymadrodd "cyfrif neu gyfrifiad," eglur yw, na fedd y gosodiad hwnw, sef fod troseddiad o'r ddeddf yn gyfrifadwy oddiwrth y naill berson i'r llall, ddim sail yn yr Ysgrythyrau.

Dos. V.—Ac am hyny, yn drydydd, ac yn olaf, i ddyfod eilwaith at y pwngc, sef cyfrifiad pechod Adda i'w hiliogaeth, yr wyf yn ateb,—

Yn gyntaf, y mae dweyd fod cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i'w hiliogaeth, sef y credinwyr, neu fod pechod Adda yn cael ei gyfrif i'w hiliogaeth yntau, yn ymadroddion hollol ddieithr i'r Yspryd Glân yn yr Ysgrythyrau. Nid oes gymaint a gair, sill, na llythyren o son am y fath beth i'w ganfod yn yr oraclau dwyfol: ond fod ffydd yr hwn sydd yn credu yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder, sydd yn ymadrodd a ddefnyddir gan yr Yspryd Glân.

Yn ail, ond o herwydd nad ydwyf am wneyd gwrthwynebiad yn erbyn geiriau, ddim pellach nag y mae angenrheidrwydd yn galw, yr wyf yn addef, fod yna ddywediadau yn yr Ysgrythyr gyda golwg ar y berthynas a fedd pechod Adda â'i hiliogaeth, a chyfiawnder Crist â rhai sydd yn credu, a oddefant yn deg yr ymadrodd cyfrifiad, ond iddo gael ei ddeall yn iawn, ac yn gyson a'r arferiad o hono yn yr Ysgrythyrau ar achlysuron ereill; ond yn yr ystyr y mae yn cael ei gymeryd a'i ddeall yn gyffredin gan lawer, y mae yn achosi camgymeriad a chyfeiliornad dirfawr.

Dos. VI.—O berthynas i bechod neu anufudd-dod Adda, dywedir fod "llawer wedi eu gwneuthur yn bechaduriaid trwyddo," Rhuf. v. 19. Ac yn yr un man y dywedir, "trwy ufudd-dod Crist y gwneir llawer yn gyfiawn." Os bydd i ddynion gyfnewid geiriau â'r Yspryd Glân, rhaid iddynt edrych nad ydynt yn ei wneyd ef yn golledwr. Os ydyw dynion, pan y dywedant "fod pechod Adda yn gyfrifedig i bawb i gondemniad," yn golygu yr un peth a'r Yspryd Glan pan y dywed, "trwy ufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid," pob peth yn dda; ond y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddywedir gan lawer, nad ydynt hwy a'r Yspryd Glân o'r un farn o berthynas i gyfrifiad pechod Adda i'w hiliogaeth; ond gwahaniaethant gymaint

mewn meddwl ac mewn geiriau. Os dyma a olygant pan y dywedant, "fod pechod Adda yn cael ei gyfrif i bawb i gondemniad," mai euogrwydd pechod Adda a gyfrifir i'w holl hiliogaeth, neu fod cospedigaeth pechod Adda wedi dylifo oddiwrtho at ei holl olynwyr, a rhan fawr o'r gyfryw gospedigaeth yn gorphwys yn yr halogrwydd gwreiddiol yn yr hwn y maent oll wedi eu cenhedlu a'u geni ynddo, a thrwy yr hwn y maent yn bechaduriaid ger bron Duw; os hyn a olyga yr ymadrodd "cyfrifiad" pan ei cymhwysir at bechod Adda, caniataer ef. Ond os y meddwl yw, bod gweithred bechadurus Adda yn bwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig, yn y llythyren o honi yn cael ei chyfrif i'w hiliogaeth, fel ag y maent trwy y cyfrifiad hwn yn cael eu gwneyd yn bechaduriaid gweithredol, y mae yn gyfryw gyfrifiad na wna yr Ysgrythyrau byth gymeradwyo.

Dos. VII.—Ymddengys fod cyfiawnder Duw yn ei waith yn lledaenu cospedigaeth camwedd cyntaf Adda dros ei holl hiliogaeth, yn sylfaenedig ar dri pheth: yn gyntaf, drwg-haeddiant neu bechadurusrwydd y camwedd; yn ail, bychanedd neu gyfyngedd person Adda; yn drydydd, y berthynas neillduol oedd rhwng ei hiliogaeth âg ef.

Yn gyntaf, mawredd drwg-haeddiant neu bechadurusrwydd y camwedd. Byddai yr holl ddrwg a berthyn iddo yn anamgyffredadwy, pe ystyrid ei holl amgylchiadau; ond nid wyf yn bwriadu yn bresenol i orphwys ar y cwbl o'r rhai hyn.

Dos. VIII.—Yn unig dymynwyf nodi un, yr hwn sydd yn berffaith eglur. Yr oedd pechod Adda yn dra-phechadurus ar y cyfrif hwn: nid ymddiriedwyd i'r angylion a bechasant ond am eu dedwyddwch eu hunain; am hyny, pan bechasant hwy, iddynt eu hunain y gwnaethant, ni ddarfu iddynt bechu ymaïth na dinystrio dedwyddwch neb arall ond yr eiddynt eu hunain. Ond yr oedd Adda mewn ymrwymiad uwch a phwysicach na hwynt hwy; yr oedd cyflyrau ei holl hiliogaeth wedi eu rhoddi yn ei law ef; a gwyddai os byddai iddo bechu a syrthio, y tynai filoedd ar filoedd o eneidiau ar ei ôl i afael yr un golledigaeth; ie, y cyfryw ag yr oedd deddf natur yn ei rwymo i fod yn fwy gofalus am eu dedwyddwch a'u lles nac am unrhyw greaduriaid ereill; yn gymaint ac y byddent yn blant iddo, "yn gnawd o'i gnawd ef, ac asgwrn o'i asgwrn ef." Os cyfrifir hyn yn waradwydd-nod o fawredd drwg annuwioldeb Jereboam, iddo "wneyd i Israel bechu," pryd nad oedd yn fath orfodaeth i bechu nad allesid ei wrthsefyll gan y rhai a lithiwyd i bechod trwyddo; yna rhaid fod pechod Adda yn

ddrwg ofnadwy, yr hyn a wnaeth, nid yn unig i Israel bechu, ond a wnaeth i'r holl fyd bechu; a hyny mewn ffordd nad oedd gan y byd y gallu lleiaf i'w wrthsefyll neu ei wrthwynebu.

Yn awr yn yr addefiad o, â'r olwg ar, dra-phechadurusrwydd camwedd Adda, y mae yn anmhosibl barnu mewn un modd ei fod yn annghyfiawn yn Nuw i weinyddu cospedigaeth gyfatebol mewn mawredd arno.

Dos. IX. Boed i ni ystyried, yn ail, fychandra person Adda; mor ddistadl, eiddil, ac analluog ydoedd ei lestr, i gynwys yr holl gospedigaeth a allai Duw yn gyfreithlon ei mynu am y fath sarhâd neu y di-anrhydedd a daflwyd arno ef yn y drosedd ofnadwy ac andwyol; ac y mae hyn yn ein harwain i gyfaddef yn mhellach, fod yn rhaid i Dduw naill a'i bod yn y golled, fel y dywedir, neu ynte edrych yn mhellach nag Adda, am ereill i gyd gyfranogi ag ef o'r gospedigaeth, er cynorthwyo ei analluogrwydd ef i ymgynnal dan bwys ei mawredd. Mewn llywodraethau gwladol, nid ydyw yn fwy arferol nag ydyw o resymol, pan fyddo y troseddau o'r natur waethaf, megys amgylchiadau o fradwriaeth, i beidio cyfyngu y gospedigaeth i berson y troseddwr, ond ei hestyn yn mhellach, hyd nes byddo natur y drosedd rywfodd yn cael ei ateb. Ar yr un tir o gyfiawnder, yr wyf yn golygu na foddlonai Duw ddim ar ddinystr personol Corah, Dathan, ac Abiram, ond efe a ddygodd eu teuluoedd hefyd, eu gwragedd, eu meibion a'u rhai bach, o dan garnau dinystriol y gospedigaeth gyd â hwynt. Num. xvi. 27, 32, 33, gydâ Deut. xi. 6. Y mae yn wir fod plant Corah, neu o leiaf rai o honynt, fel yr ymddengys oddiwrth Num. xxvi. 11, y rhai a giliasai oddiwrth babell eu tad a'i gyfeillion, cyn i'r farn ddisgyn, wedi ysgoi felly ei gafaelion. Ond am y teuluoedd, gwragedd, plant, a'r rhai bach, ie, a phawb a gafwyd gyda Corah, pan ddaeth dyrnod dwyfol daledigaeth, a gyd-fwriwyd i glorian y gospedigaeth, i fod yn bwysau am echryslonrwydd y pechod. Yn un modd hefyd y mae i ni olygu amgylchiad pechod Achan. Jos. vii. 24, 25. Pe buasai cospedigaethau personol y dynion hyn yn daledigaeth gyfartal a'u troseddiadau, sicr yw y buasai llaw ddialeddol Duw yn aros heb gael ei hestyn yn mhellach na'u personau hwynt.

Dos. X.—Y trydydd a'r olaf, ond y prif, ystyriaeth yw, y berthynas neillduol oedd rhwng hiliogaeth Adda ag ef. Yr oedd ei hiliogaeth yn perthyn mor agos iddo, pan y cyflawnwyd y drosedd ac y syrthiodd y farnedigaeth gyntaf arni, fel yr oeddynt yn ei berson ef, ac megys yn rhan o

hono. Bu amser, pryd nad oedd pob dyn ond un Adda, megys y mae Augustine yn ei egluro: " Adda oeddem ni i gyd." " Yr un Adda hwnw oeddem ni oll." Ac nid ydyw yr holl hiliogaeth ddynol ond un Adda, neu berson Adda wedi ymddadblygu ac ymhelaethu; a gellir gyda chymaint priodoldeb eu galw yn "Adda," a galw yr holl genedl Iuddewig yn "Jacob," fel y gwneir yn fynych yn yr Ysgrythyrau. Pan y mae yn addefedig, yn gyntaf, fod pechod Adda yn dra-phechadurus; yn ail, fod ei berson ef, mewn ystyr briodol, yn analluog i gynnwys y gospedigaeth a haeddai y pechod hwnw; nis gellir golygu yn annghyfiawn gymeryd gafael yn ei hiliogaeth hefyd, yn y gweinyddiad o'r gospedigaeth; yn enwedig pan ystyriom y cysylltiad a'r berthynas a hanfodai rhyngddo ef a'i hiliogaeth.

Dos. XI.—Fe allai fod y tri gosodiad a nodwyd yn cael eu crybwyll a'u golygu yn yr Ysgrythyr hon, "Am hyny, megys trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod, yn gymaint a phechu o bawb *ynddo*." Rhuf. v. 12. Yn gyntaf, y mae mawredd drwg-haeddiant neu bechadurusrwydd y camwedd yn cael ei olygu ynddi, yn y farwolaeth a ddywedir, a " ddaeth ar y byd trwyddo." Yn ail, dywedir, fod "y farwolaeth ddaeth i'r byd, wedi dyfod ar bawb," yr hyn sydd yn dangos nad oedd person Adda yn unigol yn alluog i gynnal pwys yr holl gospedigaeth a haeddai ei drosedd; pe amgen buasai marwolaeth yn sefyll yno heb ymledu na chyffwrdd â neb arall. Yn drydydd, ychwanegir hefyd fel rheswm paham yr oedd marwolaeth, ar ol dyfod i'r byd, wedi dyfod ar, a goresgyn pawb, heb wahaniaeth, sef, "o herwydd fod pawb wedi pechu ynddo ef;" arwydda hyn, pe na buasai dynion yn lwynau Adda, ac heb feddu perthynas neillduol âg ef, na buasai gan farwolaeth ddim mwy o awdurdod drostynt hwy na thros ryw greaduriaid ereill.

Dos. XII.—Wrth ystyried y pethau hyn, y mae yn eglur mai nid cyfrifiad pechod Adda, hyny yw, y weithred o hono, i'w hiliogaeth, ydyw sail y gospedigaeth sydd wedi disgyn arnynt o'i herwydd; ac nid oes y prawf lleiaf yn yr Ysgrythyrau i gadarnhau hyny ychwaith, ond profant yn eglur mai y berthynas agos a feddant hwy a'i natur ef,—pawb yn meddu bod yn ei lwynau ar y cyntaf, ac o ganlyniad yn cyfranogi yn ei gamwedd; "yn yr hwn y mae pawb wedi pechu," ydyw y rheswm o'r gospedigaeth. Felly, nid cyfrifiad o bechod Adda, ydyw sylfaen y gospedigaeth sydd wedi dyfod ar bob dyn, ac os oes unrhyw gyfrifiad yn yr amgylchiad hwn, rhaid mai o bechod pob dyn yn bersonol

yn Adda ydyw, canys nid Adda yn unig a bechodd, ond pawb a bechasant ynddo ef.

Dos. XIII.—Swm y cwbl ydyw hyn: 1, Nad ydyw cyfrifiad o droseddiad o'r ddeddf oddiwrth y naill berson i'r llall, pe caniateid ef, ddim yn profi cyfrifiad o'r ufudd-dod o honi. 2, Na ddywedir yn yr Ysgrythyrau, fod dim yn gyfrifedig i un dyn ond yr hyn a berthyna iddo ef yn flaenorol i'r cyfrifiad o hono. 3, Nad ydyw cyfrif byth yn arwyddo priodoli unrhyw weithred, dda neu ddrwg, i unrhyw ddyn; ond ymddwyn tuag at y person, y gwneir y fath gyfrifiad iddo, yn ol haeddiant neu ddrwg-haeddiant yr hyn a gyfrifir iddo, 4, Nas gellir, gan hyny, yn gyson âg iaith yr Ysgrythyr, neu briodoldeb ymadrodd, ddweyd fod gweithred o ufudd-dod, nac anufudd-dod un dyn, yn cael eu chyfrif i neb arall, ond i'r cyfryw fyddo yn ufuddhau neu yn anufuddhau. 5, Fod yr Ysgrythyrau yn gwbl ddistaw o berthynas i gyfrifiad gweithred pechod Adda i'w hiliogaeth. 6, Bod rheswm ei hun yn arddangos na byddai y cyfryw gyfrifiad byth yn sail gyfreithlon i Dduw yn gyson a chyfiawnder, i ddwyn holl hiliogaeth Adda odditan gospedigaeth haeddianol ei drosedd ef. 7, Ac yn olaf, fod yna seiliau ereill yn fwy cyson a rheswm ac ag egwyddorion cyfiawnder; fel nad oes angenrheidrwydd am ddwyn i mewn gyfrifiad o bechod Adda yn yr ystyr sydd yn cael ei argymell gan ein gwrthwynebwyr.

Y casgliad sydd yn tarddu, oddiwrth y gosodiadau a nodwyd, yw, nad yw cyfrifiad pechod Adda i'w hiliogaeth ddim mwy o reswm i brofi cyfrifiad cyfiawnder Crist i'r credinwyr, nag ydyw cyfrifiad cyfiawnder Crist i brofi cyfrifiad pechod Adda; ac nad yw y naill na'r llall, yn yr ystyr y maent wedi eu cymhell a'u gwrthwynebu, yn meddu un sylfaen mewn rheswm na dadguddiad.

(TERFYN Y RHAN GYNTAF.)

# TRAETHAWD AR GYFIAWNHAD.

---

## YR AIL RAN.

---

### PEN. I.

*Crynodeb o gynwysiad yr Ail Ran.*

WEDI i ni ddwyn yn mlaen ein grym o brawfion, o Ysgrythyr a rheswm, y rhai sydd wedi eu cefnogi gan awdurdodau teilwng, er dadymchwelyd tŷb ein gwrthwynebwyr, a chadarnhau yr hyn a gymerasom ni i'w brofi, y mae yn aros i ateb yr Ysgrythyrau a'r rhesymau hyny trwy y rhai yr ymdrechant hwy i brofi i'r gwrthwyneb. Ni chelaf, mewn un modd, yr un o'u gwrthddadleuon, ac ni cheisiaf wanychu grym yr un o'u rhesymau, ond yn hytrach ymdrechaf i gynnorthwyo eu diffygion, er amddiffyn yr achos y maent wedi ei gymeryd arnynt.

Yn yr Ail Ran, gan hyny, yn gyntaf, caf osod i lawr a phrofi rhai gosodiadau sydd yn dal perthynas â'r ddadl, y rhai fyddant fel sylfaeni i osod atebion arnynt, i amrywiol wrthddadleuon a ddichon gael eu codi.

2. Gosodaf i lawr rai gwahaniaethiadau, (*distinctions*) y rhai a rwyddhant ffordd y gwirionedd trwy gaddug niferoedd o anhawsderau.

3. Gosodaf i lawr natur cyflawnhad, yn nghyda'r amrywiol achosion o hono, yn ol yr Ysgrythyrau.

4. Ymdrechaf i osod ger bron ac ateb yr Ysgrythyrau sydd yn cael eu golygu yn gwrthryfela yn erbyn yr hyn a amddiffynwyd.

5. Ac yn olaf, terfynaf y cwbl trwy osod i lawr ac ateb y rhesymau gwrthwynebol.

## PEN. II.

*Rhai gosodiadau er parotoi'r ffordd i ateb amrywiol wrthddadleuon.*

Dos. I.—Y mae yr hwn y rhoddwyd iawn digonol dros ei gamweddau, (ganddo ei hun neu arall) ac a gymmeradwywyd gan yr hwn y troseddwyd i'w erbyn, mor gyfiawn a'r hwn na throseddodd erioed. Y mae hyn yn eglur, canys y mae cymaint o gyfiawnder mewn adgyweirio y drwg a wneir i rywun ag sydd mewn ymgadw rhag gwneuthur drwg. Yr hwn a ddyry iawn digonol i'w gymydog am y difrod a wnaeth ei anifeiliaid yn ei faesydd, sydd yn ymddwyn mor gyfiawn a gonest tuag ato, a'r hwn na throseddodd erioed felly.

Dos. II.—Nid oes canol-fan rhwng rhyddhad oddiwrth bob pechod, a chyfiawnder perffaith; y mae yr hwn sydd wedi ei hollol ryddhau oddiwrth bechod, wedi ei wneyd yn *ipso facto*, yn berffaith gyfiawn. Y mae y rheswm o hyny yn amlwg: nid oes dim a all leihau neu niweidio cyfiawnder perffaith ond pechod; mwy nag y gall dim rwystro goleuni ond tywyllwch, yn y naill radd neu y llall; neu berffeithrwydd y golwg ond dallineb mewn rhyw radd neu gilydd: ac megys y mae yr awyr, pan yn rhydd oddiwrth bob gradd o dywyllwch, yn rhwym o fod yn berffaith oleu, a'r dyn nad yw mewn un radd wedi dallu yn rhwym o fod yn meddu golwg perffaith; felly y mae yr hwn sydd wedi ei hollol ryddhau oddiwrth bechod, yn rhwym o fod yn berffaith gyfiawn. Y mae yr Ysgrythyrau bob amser yn gwneyd gwahaniaeth digyfrwng rhwng y ddau gyflwr y soniwn am danynt yn bresenol, sef cyflwr o bechod a chyfiawnder; ac nid ydynt byth yn cydnabod nac yn crybwyll am drydydd cyflwr rhyngddynt. "Fel trwy anufudd-dod un," medd Paul, "y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn." Mewn trefn i gael allan drydydd cyflwr—un rhwng pechod a chyfiawnder, rhaid ini dd'od o hyd i drydydd Adda, oddiwrth yr hwn y mae yn tarddu.

Dos. III.—Yr oedd Adda hyd ei ddarostyngiad trwy bechod mewn sefyllfa berffaith gyfiawn ger bron Duw. A dyweyd nad oedd Adda yn berffaith gyfiawn, ac o ganlyniad, ddim mewn sefyllfa gyfiawnhaol, hyd ei ddirywiad trwy bechod, ydyw ei osod mewn sefyllfa gondemniol cyn iddo bechu. Pa le bynag y crybwyllir am gyfiawnhad a chon-

demniad yn yr Ysgrythyrau, canfyddir gwahaniaeth penodol a digyfrwng rhyngddynt; ac ymddengys hyn yn neillduol oddiwrth Rhuf. viii. 1, 2, wedi eu cydmaru ag adn. 3, 4, lle y mae cyfiawnhad yn cael ei ddesgrifio trwy'r ymadrodd dim damnedigaeth: pe buasai yna sefyllfa ganol rhwng cyfiawnhad a damnedigaeth, ni buasai dim damnedigaeth yn cynwys cyfiawnhad, a llawer llai y buasai yn cael ei arferyd fel ymadrodd cyfystyr. Am hyny, addef, fod maddeuant pechodau yn gosod dyn yn yr un cyflwr cyfiawn ag yr oedd Adda ynddo yn flaenorol i'w ddirywiad, (yr hyn sydd yn cael ei addef yn gyffredin gan ddynion o farn wahanol, a dim yn cael ei addef ychwaith ond gwirionedd diwad) ydyw addef hefyd y pwnc mewn dadl.

Dos. IV.—Y mae maddeuant pechodau yn cynwys cyfrifiad neu gydnabyddiaeth o gyflawniad o'r holl ddeddf, yr u fath ag y mae cyfrifiad o gyflawniad o'r ddeddf o angenrheidrwydd yn cynwys annghyfrifiad o bechod. Canys pa fodd y gellir dweyd fod y dyn hwnw wedi derbyn maddeuant pechodau, ag yr edrychir arno fel un sydd heb droseddu yr un ban o'r ddeddf? A'r hwn yr edrychir arno fel un sy heb droseddu y ddeddf erioed, sydd yn rhwym o gael ei olygu fel un ag sydd wedi cadw yr holl ddeddf, yr hyn nid yw ddim arall ond meddu cyfiawnder perffaith, neu yr hyn sydd yn gyfystyr, cyflawniad perffaith o'r ddeddf yn gyfrifedig iddo. Felly, heblaw y llawn faddeuant pechodau a bwrcaswyd trwy waed Crist i'r sawl a gredant, nid oes un angen am—yn wir yr un lle i—gyfrifiad o unrhyw gyfiawnder a wnaethpwyd gan Grist; oblegyd, y mae yn gynwysedig yn y weithred o faddeuant pechodau, gyfrifiad o gyfiawnder perffaith: neu, i lefaru yn fwy priodol, a chyda manylrwydd yr Ysgrythyr, nid yw y weithred hono o eiddo Duw, sef maddeu pechodau, ddim arall mewn ffordd eglurhaol, ond cyfrifiad o gyfiawnder perffaith, neu o gyflawniad o'r ddeddf: cydmarer Rhuf. iv. 6, âg adn. 7 a 11. Yr un modd ag y gellir galw gyda phriodoldeb y weithred hono o eiddo y meddyg trwy yr hon y mae yn adferyd y claf o'i afiechyd, yn weithred trwy yr hon y mae yn ei adferyd i'w iechyd yn ol; a'r un modd ag y gellir galw y weithred hono o eiddo'r haul trwy yr hon y mae yn ymlid y tywyllwch i ffordd, yn weithred trwy yr hon y mae yn llenwi yr awyr â goleuni. Ac megys nad yw y meddyg yn gwella yr afiechyd drwy un weithred, ac adferyd iechyd drwy un arall, ond yn gwneyd y naill a'r llall drwy un a'r unrhyw weithred, gwellha yr afiechyd, ac adferyd iechyd; felly hefyd yr un modd, nid yw Duw yn maddeu pechod drwy un weithred, a chyfrif cyfiawnder

drwy un arall, ond trwy un a'r unrhyw weithred y mae yn gwneyd y naill a'r llall; nid yw maddeuant pechodau a chyfrif cyfiawnder ond enwau gwahanol ar un a'r unrhyw beth. Ac fel mai un a'r unrhyw berson sydd yn cael ei alw weithiau yn "Iesu," a phrydiau ereill yn "Grist;"—gelwir y person "Iesu" weithiau yn "Grist," i osod allan mai un Eneiniedig yw; a gelwir ef yn "Iesu" i arwyddo ei fod yn Waredwr; felly yr un modd, y mae un a'r unrhyw weithred o eiddo Duw weithiau yn cael ei galw yn "faddeuant pechodau," a phryd arall yn "gyfrifiad o gyfiawnder;" gelwir maddeuant pechodau yn "gyfrifiad o gyfiawnder" i arddangos nad oedd ar ddyn eisiau ond maddeuant pechodau er cyfiawnhad llawn: a gelwir cyfrifiad o gyfiawnder yn "faddeuant pechodau," i ddangos na feddai Duw un cyfiawnder arall i'w gyfrif i bechadur, ond yr hwn sy yn gynwysedig mewn maddeuant pechodau; felly y mae y ddau ymadrodd hyn, "cyfrif cyfiawnder," a "maddeuant pechodau," yn cynnorthwyo eu gilydd tuag at eglurhau yn llawn natur y weithred o eiddo Duw, yr hon weithiau sydd yn myned odditan y naill enw a'r llall.

Dos. V.—Os gofynir yn y fan yma, "Pa fodd y gellir dyweyd fod Duw yn cyfrif cyfiawnder i'r hwn na fu erioed yn gyfiawn?" Atebaf, dyweyd na fedr Duw gyfrif cyfiawnder ond yr hwn a gyflawnir yn weithredol, ydyw gwadu fod ganddo allu i faddeu pechodau; canys y mae maddeuant pechodau yn gyfrifiad o gyfiawnder, o'r cyfryw gyfiawnder ag sydd heb weithredoedd; Rhuf. iv. 6. iii. 28. &c.; hyny yw, cyfiawnder heb fod yn gynnwysedig o unrhyw weithredoedd a gyflawnir gan ddyn.

Dos VI.—Nid ydyw yr hwn sydd wedi ei hollol rydd-hau oddiwrth ei bechodau, mewn angen am gyfiawnder arall i roddi iddo hawl i fywyd; y mae y rheswm o hyny yn amlwg: cyflog pechod ydyw marwolaeth, a phechod yn unig, ac nid yw yn haeddiannol i neb creadur mewn un ystyr arall ond ar y cyfrif hwn; ac felly nis gellir, yn ol egwyddorion cyfiawnder, ei gweinyddu yn gosp ar unrhyw greadur ond am bechod.

Yr hwn gan hyny, sydd rydd oddiwrth farwolaeth, ac heb mewn un modd fod yn ddarostyngedig iddi, y mae yn anmhosibl iddo beidio a meddu hawl i fywyd; canys nid oes yr un cyflwr canol rhwng marwolaeth a bywyd. Meddianai Adda, tra yn rhydd oddiwrth bechod, hawl i fywyd, ïe, yr oedd mewn meddiant o fywyd, er nad oedd eto wedi cyflawni y ddeddf ei hun nag arall drosto, yn yr ystyr hwnw y dadleuir drosto gan rai fel yn anhebgorol angenrheidiol er

rhoddi hawl i fywyd; ac os na feddai Adda hawl i fywyd trwy ei rydd-deb oddiwrth bechod, ond ei fod dan rwymau i'w bwrcasu trwy weithredol gyflawniad o'r ddeddf, gofynaf, pa gymaint o ufudd-dod i'r ddeddf oedd yn rhaid iddo dalu mewn trefn i wneyd y pwrcasiad hwn, ac am faint o amser yr oedd yn rhaid ufuddhau i'r ddeddf cyn y buasai yr hawl-fraint hon i fywyd yn dyfod iddo. Canys pe buasai wedi byw fil o flynyddoedd yn ei berffeithrwydd heb gyflawni y drosedd leiaf, buasai yn aros yn barhaus dan rwymau i ufuddhau i'r ddeddf ar yr un telerau ag ar y cyntaf, a buasai y rhwystr lleiaf yn ngyrfa ei ufudd-dod, yn fforffetiad o'r bywyd hwnw. Felly, gan hyny, y mae hyn yn wirionedd diwad, nad oes angenrheidrwydd am gyfiawnder arall ond maddeuant pechodau i roddi hawl gyfiawn i fywyd.

Dos. VII.—Y mae yr Iawn a dalodd Crist i gyfiawnder Duw dros bechod, a thrwy yr hwn yr enillodd faddeuant pechodau i'r sawl a gredant, yn gynnwysedig yn yr ufudd-dod hwnw o'i eiddo i'r ddeddf gyfryngol, yr hon a osododd Duw iddo, (yr hwn a elwir yn gyffredin, er dichon nid yn gwbl briodol, ei "ufudd-dod dyoddefol",) ac nid mewn un modd yn yr ufudd-dod a dalodd efe i'r ddeddf foesol: y mae hyn yn amlwg, canys nis gall dim fod yn foddlonrwydd i gyfiawnder dwyfol am bechod, ond yr hyn a ystyrir yn gospawl *(penal.)* Medd yr Apostol, Heb. ix. 22., "Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant", ac o ganlyniad, yr un iawn. Yn awr, y mae yn berffaith eglur oddiwrth yr hyn a ganlyn, nad oedd ufudd-dod Crist i'r ddeddf foesol mewn un modd yn gospawl: cospawl gyda golwg ar ei Dduwdod nis gallai fod, canys nid oedd y natur ddwyfol yn ddarostyngedig i gospedigaeth. Eilwaith: gyda golwg ar ei natur ddynol nis gallai yr ufudd-dod hwn fod yn gospawl, oblegyd yr oedd hyn yn ofynol oddiwrth Adda yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd; ïe, ac y mae yn aros yn barhaus, ac fe erys hefyd ar ddynion ac angylion mewn cyflwr o ogoniant trwy gyfnodau tragwyddoldeb. Nid yw y cariad y mae yr Apostol yn cadarnhau ei fod yn "gyflawniad o'r ddeddf" "byth yn cwympo ymaith"; am hyny, gwneuthur ufudd-dod i'r ddeddf yn gospawl, ydyw haeru fod dyn wedi ei gospi, a hyny yn ol apwyntiad Duw, cyn iddo bechu; a bod y saint gwaredigol a'r angylion, ïe, a'r Cyfryngwr mawr ei hun, yn cael eu cospi yn awr yn y nef.

Heblaw hyny, nid yw yr Ysgrythyrau mewn un man yn priodoli yr Iawn, neu waith y brynedigaeth, nac un rhan o hono, i santeidrwydd neu ufudd-dod gweithredol Crist, ond bob amser i'w ufudd-dod dyoddefol. Gwel Rhuf. iii. 25,

v. 6, 8; 2 Cor. v. 21; Eph. i. 7; ii. 16; Col. i. 14; Heb. ii. 14; ix. 12, 14, 26; x. 10; 1 Pedr ii. 24; iii. 18; 1 Ioan i. 7; Dat. i. 5; &c.

Pe buasai Crist wedi cadw y ddeddf yn ein lle ni, trwy holl gyfnod ei fywyd, ni buasai angenrheidrwydd am ei farwolaeth drosom ni. Nid oes dim amlycach na hyn. Canys os ydym yn sefyll yn berffaith gyfiawn ger bron Duw trwy rinwedd cyfrifiad o gyfiawnder perffaith Crist i ni fel ein heiddo ein hunain, nid ydym mwyach odditan felldith y ddeddf, ac o ganlyniad, nid oes angenrheidrwydd am i Iawn gael ei roddi i gyfiawnder dwyfol drosom, nac am dderbyniad o faddeuant pechodau trwy waed. Nid oes dim mwy yn angenrheidiol tuag at gyfiawnhad perffaith, na chyfiawnder perffaith, neu gyflawniad perffaith o'r ddeddf; hyn y mae yr Apostol yn ei osod i lawr yn amlwg yn Gal. ii. 21. "Canys os o'r ddeddf y mae cyfiawnder," pa un bynag a'i wedi ei gyflawni genym ni a'i gan arall drosom ni, "yna bu Crist farw yn ofer." Y mae y gosodiad hwn mor amlwg, nes y darfu i Piscator a Pharæus cyn hyn, a Mr. Gataker yn ddiweddar, nid yn unig haeru, ond profi gyda mwy o ëofnder na chyffredin, fod dal cyfrifiad o ufudd-dod gweithredol Crist, yn diddymu yr angenrheidrwydd o'i farwolaeth.

Dos. VIII.—Nid ydyw yr undeb a'r berthynas a fedd credinwyr a Christ mewn un modd yn gofyn y fath gyfrifiad o'i gyfiawnder iddynt. Ni esyd yr undeb a'r berthynas a fedd y wraig a'i gwr, angenrheidrwydd am i bob peth fedd y gwr i gael ei gyfrif i'w wraig, neu y dylai y wraig gael ei chyfrif yn meddiannu pob peth a fedd y gwr. Nid yw y wraig i gael ei chyfrif yn ddoeth o herwydd fod ei gwr felly; dichon iddi hi fod yn wan o synwyr er hyny, ac yn gyfiawn ei chyfrif felly; ac nid ydyw gonestrwydd y gwr ychwaith yn cael ei gyfrif i'r wraig, fel y dylid ei chyfrif hi yn onest o'i herwydd; ac nid ydyw yr undeb a'r berthynas sydd rhwng aelodau y corph a'r pen, ychwaith, yn gosod angenrheidrwydd y dylid cyfrif pob peth a fedd ac a weithreda y pen i holl aelodau y corph. Ni chyfrifir y llygaid y rhai sydd yn y pen i'r dwylaw neu y traed, na'r clustiau a dŷf ar y pen i'r sodlau; ac nid yw y weithred o weled a chlywed, byth yn cael eu cyfrif i'r breichiau neu i'r esgeiriau; fel ag i ddyweyd fod y rhai hyn yn gweled neu glywed. Yr un modd hefyd nid oes gymaint a chysgod o reswn i osod angenrheidrwydd am gyfrifiad o gyfiawnder Crist i'r credinwyr, ar sail yr undeb a'r berthynas a feddant âg ef; neu i benderfynu o herwydd fod y saint yn meddu

undeb a pherthynas â Christ, y rhaid fod ei gyfiawnder ef yn eiddo iddynt yn y fath fodd, ag y gellid eu gwneuthur yn gyfiawn â'r cyfiawnder hwnw. Oni ellir dweyd gyda chymaint o reswm, o herwydd fod y saint yn meddu undeb a pherthynas â Christ, fod yn rhaid fod ei gorph a'i enaid yn cael eu cyfrif iddynt; ie, ei ddoethineb, ei allu, a'i ogoniant hefyd; ac felly yn cael eu cyfrif gan Dduw mor ddoeth, mor alluog, ac mor ogoneddus ag yw Crist ei hun?

Dos. IX.—Y mae yr undeb a'r berthynas a fedd credinwyr â Christ yn cael eu hegluro yn eu cysylltiadau yn y pethau canlynol: 1, Trwy rinwedd yr undeb a'r berthynas hyn âg ef, y maent yn aelodau bywiol o'r corph dirgeledig, o'r hwn y mae Crist yn ben. 2, Y maent yn gyfranogion o'r un Yspryd ag ef, yr hwn sydd yn preswylio ynddynt hwy megys y preswylia yn Nghrist ei hun. 3, Y maent yn meddu cyfranogaeth o'r un ffrwythau yr yspryd ag ef. 4, Y mae ganddynt gyfranogaeth yn y bryndigaeth a bwrcasodd ef â'i waed. 5, Y maent yn meddu cyfran neillduol yn ei anfeidrol ddoethineb a'i allu, megys yn ei holl berffeithderau ereill, trwy yr hyn y mae yn alluog i wneuthur yn dra rhyfeddol drostynt, a chynyddu pethau hanfodol eu heddwch. 6, Y mae ganddynt hawl gyflawn i'r etifeddiaeth anilygradwy sydd yn nghadw yn y nef. 7, Y maent yn meddu perthynas a chymdeithas â'r Tad a chyfran neillduol yn ei gariad. 8, Ac yn olaf, y mae ganddynt gymdeithas â'u gilydd, ac y maent yn fawr ac yn anwyl yn serchiadau y naill a'r llall. Felly nid yw gwadu cyfrifiad o gyfiawnder Crist i'r credinwyr, ddim mwy o wadu eu hundeb a'u perthynas âg ef, na gwadu fod y gwyrthiau a gyflawnodd efe yn gyfrifedig iddynt; neu, mwy nag yw gwadu fod dyn yn gweled a'i ddwylaw, neu glywed a'i sodlau, yn wadu fod aelodau y corph yn meddu undeb a pherthynas â'r pen.

Dos. X.—Ni ddywedir mewn un man o'r Ysgrythyrau fod pechod Adda (h.y. yn y weithred o hono) yn gyfrifedig i'w hiliogaeth; ac nis gellir profi cyfrifiad arall o hono trwy Ysgrythyr na gwir reswm, amgen na'r hyn sydd yn sefyll yn y berthynas a feddai ei holl hiliogaeth âg ef yn y drosedd; (yr ail Adda yn eithriad;) neu, yn nhrosglwyddiad a lledaeniad ei natur a lygrwyd yn y drosedd i'w hiliogaeth; neu ynte, yn y condemniad neu y gospedigaeth sydd wedi dyfod ar y byd trwy y drosedd. Ond am y fath gyfrifiad o bechod Adda i'w hiliogaeth, a'u bod trwy y cyfrifiad hwnw, wedi eu gwneuthur, ac yn cael eu hystyried yn bechaduriaid gweithredol, nid yw yr Ysgrythyrau na rheswm byth yn caniatau y fath beth. Y mae y rhan

gyntaf yn y gosodiad presenol yn ddi-ddadl. Bob amser pan y mae yr Ysgrythyrau yn llefaru am bechod Adda, yn nghyd â'i berthynas â'i hiliogaeth, ymgadwant oddiwrth yr ymadrodd *cyfrifiad*, ac nid ydynt ychwaith yn arferyd gair o'r un arwyddocad, o leiaf yn ol yr ystyr ei defnyddir mor fynych yn y ddadl bresenol. Ond, yn gyntaf, y mae yr Ysgrythyrau yn addef perthynas rhwng Adda a'i hiliogaeth yn y camwedd cyntaf, ar gyfrif yr hon y gellir priodoli y pechod i bawb o'i hiliogaeth llawn cystal ag i Adda ei hun; yr un modd ag y mae gweithred Abraham yn talu degwm i Melchisedec, yn cael ei phriodoli i Lefi, yr hwn ydoedd yn ei lwynau, gystal ag i Abraham ei hun. Medd yr Yspryd Glân, "Ac, (fel y dywedwyf felly) yn Abraham y talodd Lefi hefyd ddegwm, yr hwn oedd yn cymeryd degymau." Heb. vii. 9. Gwirionedd a chysondeb y fath ymadroddion a eglura efe yn yr arddanghosiad canlynol: "Canys yr oedd efe eto yn lwynau ei dad Abraham pan gyfarfu Melchisedec âg ef." Sylwer, ni ddywedir yma mai gwaith Abraham yn talu degwm a gyfrifwyd i Lefi, ond fod Lefi ei hun wedi talu degwm, yn y weithred hono o eiddo Abraham, yn gystal ag Abraham. Felly, fod y weithred hon yn weithred i Lefi yn gystal ag Abraham; ac a gyfrifwyd iddo nid fel gweithred Abraham, ond ei eiddo ei hun. Yr un modd y mae yr Ysgrythyrau yn cadarnhau yn amlwg, fod yr holl hil ddynol wedi pechu yn Adda, yn y camwedd cyntaf; Rhuf. v. 12; ond ni ddywedant mewn un man, fod pechod Adda yn gyfrifedig iddynt. Gellir dyweyd, gyda phriodoldeb, fod eu pechod eu hunain yn Adda yn gyfrifedig iddynt; ond dyweyd fod pechod Adda, amgen nag y mae yn eiddo i'w hiliogaeth gystal ag yntau, yn gyfrifedig iddynt, sydd heb sail mewn Ysgrythyr na chysondeb â rheswm.

2. Y mae pechod Adda yn meddu perthynas a'i hiliogaeth mewn pwynt o halogrwydd, ac, o ganlyniad o euogrwydd a chospedigaeth, trwy ymledaeniad naturiol oddiwrtho. Gan fod person Adda, ffynhonell darddiol yr hil ddynol, wedi ymlygru ac ymwenwyno, heb i'r UN MAWR weithredu yn wyrthiol, naill ai trwy lanhau y ffynon cyn i'r ffrydiau ddechreu tarddu o honi, neu trwy wahanu y gwenwyn oddiwrth y dyfroedd foment eu tarddiad, (er nad oedd o dan rwymau i wneyd y naill na'r llall,) nis gallasai ond taflu allan ffrydiau halogedig o'r un natur a hi ei hun. Y mae yr Ysgrythyrau yn dysgu hyn yn amlwg: "Pwy a ddyry beth glân allan o beth aflan? Neb." Job xiv. 4. Yr un modd y dywed ein Hiachawdwr,

Ioan iii. 6: "yr hyn a aned o'r cnawd," wedi ei lygru a'i wanychu trwy bechod, "sydd," yn ol trefn natur a chyd-syniad cyfiawn Duw, "gnawd;" h. y. creadur o'r un natur bechadurus: ond i hebgor dyfyniadau ychwanegol, y mae yr Apostol yn Rhuf. v. 19. yn cadarnhau yn amlwg, mai "trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid;" nid trwy gyfrifiad o'i weithred bechadurus ef iddynt, (nid yw hyn yn ysgrythyrol nac yn resymol,) ond o herwydd ei fod ef wedi llygru a halogi ei berson ei hun, y mae pawb a enir o hono mewn ffordd o genhedliad naturiol, yn rhwym o gael eu geni yn bechaduriaid.

3. Y mae condemniad a marwolaeth wedi dyfod yn gyfiawn ar y byd, nid yn gymaint (i lefaru yn briodol) am, a thrwy, bechod Adda; o herwydd fod y camwedd hwn o'i eiddo ef mewn rhan yn gamwedd a phechod y byd; a thrwy y pechod hwn mewn rhan y mae holl blant dynion yn dyfod yn bechadurus. Yn yr ystyr hwn y dywedir, mai "trwy gamwedd un y teyrnasodd marwolaeth," sef ar bawb, "trwy un;" Rhuf. v. 17.; "ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymaint a phechu o bawb." adn. 12. Ac eilwaith: "canys y farn a ddaeth o un camwedd i gondemniad;" adn. 16.; ac, "fod pawb wrth naturiaeth yn blant digofaint," &c., Ephes. ii. 3. Os medr dynion ganfod unrhyw briodoldeb yn y gair "cyfrifiad" i arwyddo un o'r tri ystyriaethau a nodwyd, rhyddid iddynt ddyweyd fod pechod Adda yn gyfrifedig i'w hiliogaeth, ni wnaf eu gwrthwynebu mewn un modd; ond am y fath gyfrifiad a gymhellir gan rai, trwy yr hwn y dywedant y gwneir dynion yn bechaduriaid gwirioneddol ger bron Duw, a'r pechod heb mewn un modd gael ei ystyried fel yr eiddynt hwy, ond yn unig trwy gyfrifiad, nid wyf yn cael yr Ysgrythyrau byth yn ei honi, ac ar y llaw arall yr wyf yn rhy analluog i'w ddeall.

Dos. XI.—Er fod cyfiawnhad ac iachawdwriaeth wedi dyfod trwy yr ail Adda, yr un modd ag y daeth condemniad a marwolaeth trwy y cyntaf, eto y mae yna lawer o wahaniaeth rhwng dyfodiad iachawdwriaeth trwy un, a chondemniad trwy y llall. Dengys yr Apostol ddau beth neillduol yn yr hyn y gwahaniaethant yn ddirfawr; Rhuf. v. 15, 16; ac amrywiol fanau ereill heblaw y rhai hyn. Yn 1, Yr oedd pechod Adda, trwy yr hwn y dygodd gondemniad ar y byd, yn weithred o eiddo ei hiliogaeth gystal a'i eiddo yntau, ac ar y cyfrif hwnw gellir dyweyd mor wirioneddol iddynt ddwyn condemniad arnynt eu hunain, a dyweyd i Adda wneyd hyny; Ond am yr ufudd-dod, trwy yr hwn y daeth

Crist a gwaredigaeth i'r byd, nis gellir dyweyd gyda dim mwy o briodoldeb, ei fod yn eiddo i'r credinwyr, neu wedi ei gyflawni ganddynt, na dyweyd gyda dim mwy o wir eu bod wedi achub eu hunain, na phe buasent erioed heb ei hachub. Dywedir, y mae yn wir, fod "Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun," 2 Cor. v. 19. Ond ni ddywedir mewn un man fod y byd yn Nghrist yn cymmodi ei hun â Duw. 2, Dygodd Adda trwy ei bechod gondemniad ar y rhai oedd yn ei lwynau, ac yn meddu bôd naturiol ynddo; ond fe ddygodd Crist trwy ei ufudd-dod waredigaeth i'r rhai nad oeddynt yn meddu y fath berthynas âg ef, nac unrhyw fôd naturiol nac ysprydol ynddo; (yr hyn sydd trwy ffydd;) ond yr oeddynt yn gwbl estronol a dieithriol oddiwrtho, ie, yn elynion iddo. 3, Yr oedd yr holl rai a gondemniwyd trwy Adda yn meddu bodaeth ynddo ar un a'r unrhyw amser. Nid oedd Cain yn Adda o flaen Judas, na Judas ar ôl Cain. Ond am y rhai a achubir trwy Grist, y mae gwahaniaeth mewn amser gyda golwg ar ei himpiad ynddo ef; y mae rhai yn nghynt na'u gilydd ynddo. Yr oedd Andronicus a Junia, ceraint Paul, yn Nghrist o'i flaen ef. Rhuf. xvi. 7. 4, Trwy ufudd-dod gweithredol y dygodd Adda gondemniad ar y byd, ond trwy ufudd-dod dyoddefol y mae Crist yn dwyn iachawdwriaeth i'r byd, yr hyn sydd wedi ei brofi eisioes, ac a ymddengys yn mhellach trwy gydmaru Rhuf. v. 19, â Phil. ii. 8, &c. 5, Ymddibynai holl bwys prynedigaeth y byd trwy Grist ar yr ufudd-dod hwnw o'i eiddo trwy yr hwn y darfu iddo ei phwrcasu. Ond pwys y condemniad, ddaeth trwy droseddiad Adda, a ymddibynai nid yn unig ar ddrwg-haeddiant ei drosedd, ond ar y berthynas oedd rhwng y rhai a gondemniwyd âg ef megys rhai yn meddu gwir hadawl (*seminal*) fodaeth yn ei lwynau pan droseddodd. Felly pe buasai pechod Adda yn llai mewn drwg-haeddiant yn ngolwg Duw nag oedd, buasai ei hiliogaeth yn gyfiawn dan yr un condemniad trwyddo, ag y maent yn bresenol. Ond pe buasai ufudd-dod neu ddyoddefiadau Crist o lai gwerth nag oeddynt, nis gallesid enill prynedigaeth y byd trwyddynt.

Dos. XII.—Y mae dull gwahanol yr Ysgrythyrau yn llefaru am y naill a'r llall, o bwys mawr i'w ystyried. Pan y maent yn llefaru am brynedigaeth neu gyfiawnhad trwy Grist, defnyddiant ymadroddion i arwyddocau anfeidrol werth Crist yn ei dyoddefiadau, megys lle dywedir, fod Duw "er mwyn Crist" wedi maddeu i ni ein pechodau; Eph. iv. 32. Ond pan y maent yn llefaru am gondemniad y byd trwy Adda, ni ddywedant mewn un man, fod Duw, er mwyn

Adda, wedi darostwng y byd dan gondemniad a marwolaeth; ond yn unig fel hyn, "Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod;" Rhuf. v. 12. Ac eilwaith: "Trwy gamwedd un y bu feirw llawer;" adn. 15. Eilwaith: "Trwy gamwedd un y teyrnasodd marwolaeth trwy un," adn. 17. Bob amser defnyddiant ymadroddion nad ydynt yn golygu mai pechod Adda ydoedd yr achos haeddiannol, er nad yw hyn yn cael ei wadu, ond yn hytrach yr achos offerynol o'r condemniad hwn ar y byd. Y mae yn wir, fod teilyngdod ufudd-dod dyoddefol Crist, trwy yr hwn y pwrcaswyd iachawdwriaeth y byd, yn cael ei osod allan amrywiol weithiau â'r un rhan ymadrodd, sef, "trwy;" megys Rhuf. v. 11: "Trwy yr hwn y derbyniasom y cymmod." Ond nid oes dim yn fynychach yn yr Ysgrythyr na llefaru yn gyffredinol ac mewn rhan mewn un lle, yr hyn a lefarant yn llawn a chyda manylrwydd mewn lle arall. A dylem gofio, pan fydd genym ddynodiadau llawnach ac eglurach mewn rhai manau na'u gilydd, nad ydym byth i gyfyngu ein meddyliau i gylch y rhai sydd yn gyfyngach a mwy cyffredinol; megys, yn yr achos mewn llaw, yr ymadrodd mwyaf cyffredin a ddefnyddir yw, mai "trwy Grist," neu, "trwy ei waed," y mae i ni brynedigaeth neu faddeuant pechodau: eto nid ydym i gasglu oddiwrth hyny, nad yw Crist a'i waed ond yn unig achos offerynol prynedigaeth, a'u bod heb deilyngdod yn perthyn iddynt, oblegyd yr hyn a arwydda yr ymadrodd "trwy," yn gyffredin, yw, achos offerynol peth, a dim ychwaneg. Canys y mae yr Ysgrythyrau mewn manau ereill yn gwneyd i fynu yr hyn sydd yn ddiffygiol yn y fath ymadrodd; canys presenolant i ni achos neillduol arall yn Nghrist a'i ddyoddefiadau, sef, "achos haeddiannol;" a phe mai drwg-haeddiant pechod Adda a ddygodd gondemniad ar ei hiliogaeth, ni byddai rheswm braidd i'w roddi paham na ddygasai pechod yr angylion a syrthiasant gyffelyb gondemniad ar yr holl greadigaeth angylaidd; oblegyd, sicr yw, fod pechod yr angylion hyny mor llawn o gynhyrfiad i ddigofaint (*provocation*) ag ydoedd pechod Adda.

Diamheu, mai ystyriaeth o'r gwahaniaeth rhwng yr Adda cyntaf a'r ail, gyda golwg ar yr annghyfartalrwydd mawr sydd rhwng drwg-haeddiant y naill a theilyngdod y llall, ydyw sail y gwahaniaeth cysurlawn, yn yr hwn y mae yr Apostol yn ymorfoleddu, "Eithr nid megys y camwedd y mae y dawn hefyd;" Rhuf. v. 15; sef, gyda golwg ar allu y naill i gondemnio, a'r llall i gyfiawnhau ac achub. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt yn y golygiad hwn,

"Canys os trwy gamwedd un y bu feirw llawer, mwy o lawer yr amlhaodd gras Duw, a'r dawn trwy ras yr un dyn Iesu Grist, i laweroedd." Os bu camwedd Adda yn alluog i ddarostwng llawer,—ei holl hiliogaeth, dan gondemniad a marwolaeth, "mwy o lawer y mae y gras," h.y., bwriad grasol Duw tuag at ddynion, a'r "dawn trwy ras," sef, cyfiawnhad, trwy y dyn Crist Iesu, yr hwn sydd yn Dduw a dyn, "yn amlhau i laweroedd;" h.y., y mae yn cyfiawnhau gyda llawer mwy o allu yr holl rai sydd trwy adgenhedliad ysprydol, a ffydd fywiol yn deilliaw o hono.

A chan fod y fath wahaniaeth rhwng Adda yn condemnio y byd, a Christ yn ei achub, y mae yn eglur fod yr holl resymau a dynir oddiwrth gydweddiad rhyngddynt yn ddirym ac aneffeithiol, oddieithr iddynt gael rhyw sylfaen arall i'w gosod arni.

Dos. XIII.—Nid dim sydd yn naturiol i wir ffydd sydd yn ei gwneyd yn offerynol mewn cyfiawnhad, ond rhywbeth tuallan iddi; sef, ewyllys ac apwyntiad Duw. Felly, y mae yn berffaith eglur, nad yw ffydd yn cyfiawnhau ar gyfrif ei pherthynas â Christ, neu ei bod yn ymaflyd yn Nghrist, neu brynedigaeth drwyddo; canys y gweithredoedd yna ydynt naturiol i ffydd, a'r hon nad yw yn cyflawni y gweithredoedd a nodwyd, nid gwir ffydd mo honi; am hyny, pe byddai ffydd yn cyfiawnhau trwy rinwedd un o'r rhai yna, cyfiawnhai trwyddi ei hun, neu trwy ryw rinwedd neu weithred sydd yn naturiol berthynol iddi; ond ymddengys fod yr Ysgrythyrau, bob amser, yn lleoli gallu ffydd i gyfiawnhau ar ewyllys, gras, a boddlonrwydd Duw, ac nid ar unrhyw weithred neu rinwedd naturiol briodol i ffydd. Medd ein Hiachawdwr, "Hyn yw ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i, cael o bob un ag sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragwyddol," Ioan vi. 40. Gallwn ychwanegu llaweroedd o ysgrythyrau, megys Ioan i. 2, lle dywedir, mai i'r cyfryw a dderbyniasant Grist, h.y., a gredasant ynddo, y rhoddes Duw allu neu ragorfraint i fod yn feibion; h.y., a arfaethodd mai y cyfryw a gânt fod yn feibion iddo: a thrwy rinwedd yr arfaeth hono, efe a'u gwnaeth, ar sail eu crediniaeth ynddo, yn feibion mewn gwirionedd iddo ei hun: yr hyn sydd yn dangos yn eglur, nad yw credu yn Nghrist, fel y cyfryw, yn gwneyd neb yn blentyn i Dduw, ond derbyn y gallu neu y rhagorfraint uchel hon y mae yr enaid crediniol trwy rôdd neillduol oddiwrth Dduw.

Pan yr wyf yn gwadu fod ffydd yn cyfiawnhau ar gyfrif ei bod yn ymaflyd yn Nghrist, pell ydwyf oddiwrth olygu y

gall un ffydd arall gyfiawnhau ond yr hon ag sydd yn ymaflyd yn Nghrist; ïe, credwyf mewn gwirionedd, er fod yna amrywiol weithredoedd o eiddo ffydd heblaw ymorphwys ar Grist, megys diddanu, nerthu, a phuro calonau y rhai sydd yn credu, nad yw arfaeth ac ewyllys Duw, yr hyn wyf yn olygu sydd yn gwneyd ffydd yn gyfiawnhaol, yn cymeradwyo yr un o'i gweithredoedd er cyfiawnhad, ond yn unig y weithred o gymeryd gafael yn Nghrist; felly, yn yr ystyr hwn, yr ydwyf yn addef ac yn dàl allan y gellir dyweyd fod ffydd yn cyfiawnhau, fel yr ymafla yn Nghrist, sef, megys ag y gwahaniaetha y weithred hon o eiddo ffydd oddiwrth yr oll o'r gweithredoedd ereill a gyflawnir ganddi; nid yw yn cyfiawnhau fel ag y mae hi yn cysuro, neu yn puro y galon, ond fel y mae hi yn dàl perthynas â Christ, ac yn ymorphwys arno. Hyn yn unig wyf yn ei wadu, fod y weithred hon o eiddo ffydd, —cymeryd gafael yn Nghrist, yn meddu y gallu i fod yn effeithiol er cyfiawnhad, ynddi ei hun, nac mewn un modd arll; ond mai ei dderbyn y mae oddiwrth ewyllys a boddlonrwydd Duw.

Dos. XIV.—Nid oes sail mewn Ysgrythyr na rheswm, i ddyweyd fod Crist trwy unrhyw gyfrifiad o bechodau iddo, wedi ei wneuthur yn bechadur gweithredol; neu fod pechod wedi ei gyfrif iddo amgen nag yn y gospedigaeth o hono a weinyddwyd arno. Felly y mae Esgob Davenant yn dangos, fod cyfrifiad pechod i Grist yn sefyll yn nhrosglwyddiad pechod arno: ac mewn un man y dywed, "yr oedd Crist yn ewyllysgar i gymeryd ein pechodau ni arno ei hun, nid i gael ei wneyd yn bechadur trwy hyny, ond i fod yn aberth dros bechod." Felly, pe byddai i'r sawl y mae genym i ymwneyd a hwy yn y gorchwyl hwn o gyfrifiad, ond sefyll eu tir eu hunain, a rhodio yn gyson a'u hegwyddorion eu hunain, byddai yn gytundeb rhyngom yn y fan; canys eu hegwyddor fawr yw, mai fel y cyfrifwyd ein pechodau ni i Grist, y cyfrifir ei gyfiawnder ef i ninau. Os felly, nid ydym wedi ein gwneyd yn weithredol gyfiawn trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist i ni, o herwydd na wnaethpwyd mohono ef yn bechadur gweithredol trwy gyfrifiad ein pechodau ni iddo ef.

Dos. XV.—Nid yn unig datgan fod dyn mewn sefyllfa gyfiawnhaol y mae ffydd, ond hi ydyw y moddion trwy yr hwn y meddiennir cyfiawnhad; ac nid oes un dyn yn gyfiawn ger bron Duw, nes iddo feddiannu y gras hwn trwy gredu. Dyma athrawiaeth sefydlog yr Ysgrythyrau, ac nid oes un o'r duwinyddion diwygedig yn ei gwrthwynebu,

ac medd yr Apostol Paul, "yr ydym ni gan hyny yn cyfrif mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn, heb weithredoedd y ddeddf," Rhuf. iii. 28.

Dos. XVI.—Ni chyflawnwyd dedfryd neu felldith briodol y ddeddf ar Grist yn ei farwolaeth; er hyny yr oedd ei farwolaeth ef yn sail i Dduw allu cymedroli ei ddeddf, a pheidio a gweinyddu y gospedigaeth a fygythiwyd ynddi. Gellir dyweyd y mae yn wir i Grist i dyoddef cospedigaeth neu felldith y ddeddf yn yr ystyr hwn. Yn gyntaf, melldith neu gospedigaeth y ddeddf, ag ydoedd barod i ddisgyn ar y byd, a achosodd ddyoddefiadau y Cyfryngwr. Pe buasai dyn heb dynu melldith y ddeddf arno ei hun, ni buasai raid i Grist ddyoddef o gwbl. Yn ail, a dichon, yn fwy priodol, y gellir dyweyd fod Crist wedi dyoddef melldith y ddeddf, o herwydd fod yr hyn a ddyoddefodd o'r un natur, o leiaf mewn rhan, a'r hyn a fwriadodd Duw yn melldith y ddeddf yn erbyn ei throseddwyr, sef, marwolaeth. Ond os bydd i ni ddeall wrth felldith y ddeddf, y gyfundraeth o gospedigaethau a olygai y ddeddf yn y gair "marw," neu ei bwriad gyda golwg ar y personau yr ydoedd i gael ei gweinyddu arnynt, ni ddyoddefodd Crist felldith y ddeddf yn ol yr ystyriaethau hyn; ni ddyoddefwyd, ac ni ddyoddefir byth mo honi ychwaith felly gan neb o'i throseddwyr a gredant yn Mab Duw. Gofynai Duw ddyoddefiadau a marwolaeth Crist, nid fel byddai i'r ddeddf yn briodol, yn y llythyren neu y bwriad o honi, gael ei chyflawni; ond i'r gwrthwyneb, fel y ceid modd i beidio ei gweinyddu ar y rhai a gredant.

## PEN. III.

*Rhai gwahaniaethiadau (distinctions) angenrheidiol tuag at ddeall y ddadl yn mhellach, a symud ymaith lawer o anhawsderau.*

Dos. I.—Y mae'r gair "cyfiawnhad" yn cael ei gymeryd mewn dau ystyr, sef gweithredol a goddefol: yn yr ystyr gweithredol, arwydda yn gyffredin y weithred o eiddo Duw yn cyfiawnhau; h.y., rhyddhau y pechadur crediniol oddiwrth euogrwydd a chospedigaeth haeddiannol ei bechodau. Gall, yn yr ystyr hwn, arwyddo hefyd unrhyw weithred o eiddo unrhyw achos effeithiol arall, trwy yr hyn y byddo yn gwasanaethu ryw beth tuag at gyfiawnhad pechadur.

Yn yr ystyr goddefol, arwydda "cyfiawnhad" yr effaith ynddi ei hun, neu yr holl weithrediadau blaenorol, ond yn

fwyaf neillduol, yr effaith gyflawn yn yr hon y mae eu hamrywiol ddylanwadau yn ymgyfarfod; sef, y cyfnewidiad a weithredir yn nghyflwr dyn pan ei cyfiawnheir; yr hwn sydd yn gynwysedig yn hyn, lle yr oedd ef o'r blaen yn ddarostyngedig dan euogrwydd a chondemniad pechod, yn awr y mae yn ŵr rhydd, wedi ei waredu oddiwrth y naill a'r llall o honynt.

Dos. II.—Y mae cyfiawnder yn meddu amrywiol ystyrion yn yr Ysgrythyr. Pan ei priodolir i Dduw, arwydda weithiau santeiddrwydd llawn a chyffredinol ei natur, yr hwn sydd yn ei wneyd yn anfeidrol annhueddol i wneuthur dim yn groes i egwyddorion cyfiawnder, ac yn ei dueddu i wneuthur pob peth yn gyson â hyny. Arwydda bryd arall ei ffyddlondeb yn nghyflawniad addewid. Yn drydydd, arwydda tueddfryd grasol Duw tuag at ei bobl, trwy yr hwn y mae yn barod bob amser ei wneuthur daioni iddynt, eu cynnal mewn trallodion, neu eu gwaredu allan o honynt: a dyna yr arwyddocäd mwyaf cyffredin o'r gair. Felly, Sal. cxlv. 7; "Coffadwriaeth amlder dy ddaioni a draethant; a'th gyfiawnder a ddatganant," h.y., ei diriondeb a'i ras tuag at ei bobl. Yn bedwerydd, golyga weithiau drefn Duw yn cyfiawnhau. Felly, Rhuf. iii. 21; "Ac yr awr hon yr eglurwyd cyfiawnder Duw," h.y., y ffordd gafodd Duw allan i gyfiawnhau dynion, heb fod yn gynwysedig yn nghyflawniad o'r ddeddf; "wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf," sef, ysgrifeniadau Moses a'r Prophwydi. Yr un modd, adn. 22, sef, "Cyfiawnder Duw, yr hwn sydd trwy ffydd Crist." Yn yr un ystyr ei defnyddir hefyd, yn Rhuf. i. 17; x. 3. Wrth "gyfiawnder Duw," yn yr holl fanau a nodwyd, golygir y drefn ryfedd i gyfiawnhau, a gafodd Duw allan trwy ei anfeidrol ddoethineb a'i ras, yr hon sydd yn dra gwahanol i'r llwybr hwnw o gyfiawnhad, y meddylia dynion gymaint am dano, sef, trwy weithredoedd y ddeddf. Felly hefyd, golyga "cyfiawnder dynion," y llwybr neu y moddion trwy yr hyn y ceisiant gael eu cyfiawnhau; Rhuf. x. 3. Yn chweched, meddyliwyf fod "cyfiawnder" yn gosod allan weithiau doster Duw yn erbyn pechod a phechaduriaid. Ac yn yr ystyr hwn ei deallir yn Rhuf. iii. 25, 26, &c. "Fel y byddai yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu," h.y., fel yr ymddangosai Duw yn farnwr cyfiawn, ac yn gospwr pechod, a chyfiawnhau, neu ryddhau oddiwrth bechod y rhai a gredant yn Nghrist. Yn seithfed, gelwir Crist ei hun, weithiau, yn "gyfiawnder Duw," megys ag y mae yn Awdwr neu Gyfryngwr y cyfiawnder, neu gyfiawnhad, y mae Duw o'i ras yn ei gynyg i'r byd. Yn olaf,

gelwir y rhai sydd wedi eu cyfiawnhau gan Dduw, trwy Grist, yn "gyfiawnder Duw," 2 Cor. v. 21.

Dos. III.—Eilwaith, Y mae y gair "cyfiawnder," pan yn cael ei gymhwyso at ddynion, yn golygu weithiau yr agwedd hwnw o'r galon, ag sydd yn gynwysedig o'r tueddiadau santaidd, y rhai sydd i'w canfod, mewn rhyw radd, yn holl blant Duw. Arwydda, yn ail, y ffrwyth neu weithredoedd y cyfryw agwedd o'r galon. Fel hyn ei defnyddir yn Act. x. 35; 1 Ioan iii. 7; a manau ereill. Golyga, yn drydydd, y duedd neillduol hono ag sydd yn cymhell dyn i ymddwyn yn gyfiawn tuag at bawb, yn nghyda ffrwyth y duedd hono. Yn bedwerydd, Y mae cyfiawnhad, yn yr ystyr oddefol, yn cael ei osod allan, weithiau, drwy y gair "cyfiawnder." Felly, Gal. ii. 21; "Canys os o'r ddeddf," o weithredoedd y ddeddf, "y mae cyfiawnder," cyfiawnhad, "yna y bu Crist farw yn ofer." Yr un modd, Rhuf. x. 4, "Crist yw diwedd y ddeddf er cyfiawnder," h.y., er cyfiawnhad, "i'r rhai sydd yn credu." Felly, gan hyny, gwneyd yn gyfiawn a chyfiawnhau, sydd yr un peth: cydmharer Rhuf. v. 19. âg 18. Yn bummed, Gelwir Crist, weithiau, yn yr Ysgrythyrau, trwy adael allan yr achos effeithiol neu y pwrcasydd, yn "gyfiawnder dynion," h.y., Awdwr neu Bwrcaswr eu cyfiawnhad neu gyfiawnder: megys Jer. xxv. 6. xxxiii. 16., &c. Trwy yr unrhyw ddull o ymadrodd y mae yn cael ei alw mewn manau ereill, ein Gobaith, ein Bywyd, ein Santeiddrwydd, a'n Prynedigaeth, &c.; h.y., Awdwr a Phwrcaswr yr holl bethau a nodwyd. Yn chweched, Y mae y manteision a gwobrwyon y cyfiawnder, yn gystal a'r bendithion sydd yn gysylltiol â'r cyfiawnder a dderbyniwn yn ein cyfiawnhad, yn cael eu gosod allan weithiau trwy y gair "cyfiawnder," trwy drawsenwi yr achos am yr effaith: yr hwn sydd yn ddull cyffredin yn yr Ysgrythyrau. Felly, Job xxxiii. 26; "Efe a dâl i ddyn ei gyfiawnder;" h.y., a wobrwya uniondeb pob dyn â bendithion cyfaddas. Felly, Sal. cxii. 9; "Ei gyfiawnder sydd yn parhau byth," h.y., y clod a'r gwobrwyon o'i gyfiawnder a barhant heb ddiwedd. Yn seithfed, Ni fedd y gair "cyfiawnder," mewn rhai cysylltiadau, un meddwl penodol, ar wahan i'r gair cysylltiedig âg ef, ond mewn undeb â'r gair hwnw arwyddoceir un a'r unrhyw beth. Er engrhaifft, yn yr ymadrodd "cyfrif cyfiawnder," Rhuf. iv. 6. 11, &c.; nid yw y gair "cyfrif" yn golygu un peth, a "chyfiawnder" beth arall; ond, arwydda y ddau air yn nghyd un a'r unrhyw weithred o eiddo Duw, yr hon a elwir genym yn "gyfiawnhau yn rhad:" felly nid yw cyfrif cy-

iawnder yn ddim arall ond cyfiawnhau yn rhad; a chyfiawnder cyfrifedig ddim ond cyfiawnhad rhad yn ei ystyr goddefol. Gellid dwyn yn mlaen amrywiol enghreifftiau, mewn gwahanol ddulliau o ymadrodd, nad yw y gwir ystyr a fedd y geiriau mewn rhai cysylltiadau ddim i'w gasglu oddiwrth yr arwyddocâd y maent yn ei feddu ar wahan, ond oddiwrth eu cyd-olygiad yn yr ymadroddion y maent yn dal perthynas a hwynt.

Y mae y gair "cyfiawnder" yn ol priodoldeb yr iaith Hebraeg, yr hon yn fynych sydd yn arfer ansoddau am wrthddrychau, yn arwyddo weithiau gymdeithas o rai wedi eu cyfiawnhau, brydiau ereill, o rai gonest a chyfiawn. Yn yr ystyr cyntaf ei defnyddir yn 2 Cor. v. 21. "Fel yn gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef;" h.y., yn gymdeithas o rai cyfiawnedig, wedi eu gwneuthur felly gan Dduw, trwy Iesu Grist. Yn yr ail ystyr y mae yn cael ei ddefnyddio yn Esay lx. 17; lle y mae Duw yn addaw i'w bobl wneyd eu trethwyr yn gyfiawn; h.y., yn ddynion a ymddygai yn gyfiawn. Ac yn ol y dull hwn o ymadrodd, gosodir "tylodi" (yn yr iaith wreiddiol) am dylodion; 2Bren. xxiv. 14. Yr un modd "caethiwed," am gaethion, 2 Cron. xxviii. 5; Deut. xxi. 10; yn nghyd ag amrywiol fanau ereill. Felly hefyd, "enwaediad," am enwaediaid; Phil. iii. 3; ac "etholedigaeth," am etholedigion; Rhuf. xi. 7.

Felly, gan hyny, yn y pwnc mewn llaw, y mae yn angenrheidiol cymeryd gofal mawr, rhag i ni ymddyrysu trwy yr amrywiol arwyddocâd sydd i'r gair "cyfiawnder," yr hyn, oddieithr arfer llawer o bwyll, a all achlysuro ein tramgwydd.

Y mae cyfiawnder Crist yn ddeufath; geilw duwinyddion un yn "gyfiawnder ei berson;" a'r llall, yn "gyfiawnder ei haeddiant." "Cyfiawnder ei berson," ydyw yr un y mae efe yn gyfiawn trwyddo ei hun; "cyfiawnder ei haeddiant," yw yr un trwy yr hwn y mae efe yn cyfiawnhau ereill. Y mae y cyntaf yn gynwysedig, mewn rhan, o'r purdeb a fodolai ynddo ef, ac mewn rhan o'r ufudd-dod a gyflawnodd i'r ddeddf foesol, yr hon yw rheol ymarweddiad pob dyn. Yr oedd y diweddaf yn gynwysedig o'r ufudd-dod a ddangosodd efe i'r ddeddf gyfryngol, yr hon a roddwyd iddo ef yn unig, ac nid i neb arall erioed. Canys y mae yn amlwg fod Crist wedi dyoddef llawer, nid yn unig fel dyn, ond fel Cyfryngwr; yn neillduol ei ddarostyngiad gwirfoddol i ddyoddef marwolaeth, er prynedigaeth y byd. Pe buasai Crist yn cael ei rwymo gan y ddeddf foesol i farw, buasai ei farwolaeth yn gwbl aneffeithiol dros ereill; canys sicr yw, nad

yw neb yn diddyledu arall trwy dalu ei ddyled ei hun. Heblaw hyny, y mae yr hwn sydd yn dàl bod y ddeddf foesol yn rhwymo Crist i farw, yn dyweyd mewn effaith, pe na buasai yn marw y buasai yn bechadur; ac felly, y mae yn taflu i'r llwch yr anfeidrolrwydd o ras a ddangosodd Crist trwy farw drosto.

Y gwirionedd a'r angenrheidrwydd o'r gwahaniaethiad a nodwyd a ellir ei ddangos oddiwrth niferoedd o Ysgrythyrau, yn neillduol Esay, liii. 11; 2 Cor. v. 21; Heb. vii. 26; ix. 14; 1 Pedr, iii. 18. Eglur yw, oddiwrth yr holl Ysgrythyrau yna, nad yw Crist yn cyfiawnhau neb arall trwy y cyfiawnder yr oedd ef ei hun yn gyfiawn trwyddo, ond trwy y cyfiawnder arall o'i eiddo, yr hwn a elwir yn gyfiawnder "cyfryngol, iawnyddol, dyoddefol, neu haeddiannol;" ond nis gallai y cyfiawnder hwn wneuthur dim, ond ar ragdybiaeth o'r llall.

Sylwa Paræus, o berthynas i'r gwahaniaethiad hwn, fod "anghof o hyn yn achosi terfysg dirfawr, ac yn gorlwytho yr athrawiaeth o gyfiawnhad â llawer o anhawsderau ac anfanteision, yr hyn sydd yn ei gwneyd yn anhawdd i'w hamddiffyn yn ngwyneb y Pabyddion a gwrthwynebwyr ereill iddi." Am hyny, wrth drîn y pwnc presenol yn nghylch cyfrifiad, rhaid meddu gofal mawr, na bydd i ni ein hunain arfer na derbyn oddiwrth ereill, yr ymadrodd "cyfiawnder Crist," ond gyda llygad ar y gwahaniaethiad hwn.

Dos. IV.—Gellir dyweyd fod peth yn gyfrifedig i ddyn mewn llawer o ystyriaethau. Yn gyntaf, dywedir fod gweithredoedd dyn ei hun, pa un bynag a'i da a'i drwg, yn gyfrifedig iddo, yn syml ac heb gyfeiriad at wobr na chosp, pan y mae yn cael ei gyfrif neu ddatgan yn wneuthurwr o honynt. Yn yr ystyr hwn, y mae ufudd-dod gweithredol a goddefol Crist, yn cael eu cyfrif gan Dduw iddo ef, ac nid i neb arall; a phechodau y credinwyr, i'r sawl o honynt a'u cyflawna, ac nid i neb arall. Yn ail, dywedir fod gweithredoedd dyn, pa un bynag a'i da a'i drwg, yn cael eu cyfrif iddo, pan y mae yn cael ei wobrwyo neu ei gospi o'u herwydd. Yn yr ystyr hwn yr archodd Shimei ar Ddafydd na byddai iddo gyfrif ffolineb iddo, h.y., na byddai iddo gospi ei ffolineb. Yr un modd gellir dyweyd fod pechodau yr anngrhedinwyr yn cael eu cyfrif iddynt, pan eu cospir gan Dduw, yn y byd hwn neu yn yr hwn a ddaw, am danynt. Yn drydydd, gellir dyweyd fod trosedd dyn arall yn gyfrifedig i ni, pan yr edrychir arnom fel rhai wedi anog a chynorthwyo y cyfryw yn hyny, neu gael ein cospi, megys

pe byddem yn gyfranogion o'r drosedd; a'r un modd gellir dyweyd fod rhinwedd, dysgeidiaeth, a gwrolder arall, yn gyfrifedig i'r hwn yr edrychir arno fel awdwr, dysgawdwr, neu anogwr y llall, yn y pethau hyny. Yn yr ystyr hwn y gellir cyfrif ymarweddiad uniawn y brenhin Joas tua dechreuad ei deyrnasiad, i Jehoiada yr offeiriad; 2 Bren. xii. 2; 2 Cron. xxiv. 2. Fel hyn yr oedd gwybodaeth a gwrolder Pedr ac Ioan, yn cael eu cyfrif mewn effaith i Grist, gan yr Offeiriaid a'r llywodraethwyr; Act iv. 13. Ac yn yr ystyr hwn hefyd y mae y fuddugoliaeth a enillir gan filwyr yn cael ei chyfrif yn aml i'r cad-flaenor. Yn bedwerydd, gellir dyweyd fod drygioni dyn yn cael ei gyfrif i ereill, pan fyddont hwy yn cael eu cospi o'u herwydd; megys, ar y llaw arall, gellir dyweyd fod rhinwedd neu deilyngdod dyn yn gyfrifedig i ereill, i'w blant neu ei berthynasau, pan yr ymddygir tuag atynt hwy gyda pharch o herwydd eu perthynas a'r person hwnw. Felly y cyfrifodd Dafydd diriondeb Jonathan, i Mephiboseth, ei fab, pan y darfu iddo ei ddyrchafu i anrhydedd o herwydd hyny; a'r un modd y gellir dyweyd fod y Brenhin wedi cyfrif gweithred annuwiol y rhai a gyhuddasant Daniel, i'w gwragedd a'u plant, pan y gorchymynodd iddynt hwythau hefyd gael eu taflu i ffau y llewod. Yn yr ystyr hwn o gyfrifiad, a hwn yn unig, y gellir dyweyd fod pechodau dynion yn gyfrifedig i Grist, sef, o herwydd iddo ddyoddef yr hyn a ddyoddefodd efe yn eu hachos hwynt: a gellir dyweyd fod ei ddyoddefiadau ef yn gyfrifedig i ninau, o herwydd ein bod yn cael ein gwobrwyo, h.y., ein cyfiawnhau a'n hachub, trwy y cyfryw. Ond dyweyd fod ein pechodau ni yn gyfrifedig i Grist, trwy fod Duw yn ei ystyried wedi eu cyflawni, neu fod ei gyfiawnder ef, pa un bynag a'i gweithredol a'i goddefol, yn gyfrifedig i ni, o herwydd fod Duw yn ein cyfrif ni wedi cyflawni y naill neu ddyoddef y llall,* sydd heb sail mewn Ysgrythyr na rheswm.

Dos. V.—Yn bummed, gellir dyweyd fod rhyw beth yn gyfrifedig i ddyn pan yr ymddygir tuag ato, megys pe byddai ganddo ryw gymhwysder ynddo ei hun, i'r hwn y perthyna ryw ragorfreintiau neilltuol, pryd nad yw mewn gwirionedd yn meddu y fath gymhwysder, eithr yn dyfod i feddiant o'r rhagorfreintiau hyny ryw ffordd arall. Yn yr ystyr hwn dywedir fod cyfiawnder yn cael ei "gyfrif i'r hwn sydd yn

* Yn yr ystyr hwn o gyfrifiad y mae ufudd-dod dyoddefol Crist yn gystal a'r gweithredol, yn cael eu gwadu mewn manau ereill o'r Traethawd hwn. Gwel rhan I. pen. ix. dos. iv., &c.

credu;" Rhuf. iv. 6, 11, &c.; h. y., y mae yr hwn sydd yn credu mewn gwirionedd yn Nghrist, yn cael edrych arno gan Dduw, mewn rhan yn, ac mewn rhan i, feddiannu yr holl ragorfreintiau perthynol, trwy gyfammod, i gyfiawnder deddfol, er ei fod ef yn ymddifad o'r cyfryw gyfiawnder; o herwydd y mae Crist trwy ei farwolaeth, wedi pwrcasu hawl iddo i'r rhagorfreintiau hyn, y rhai a roddir iddo mewn gwirionedd ar ei waith yn credu. Felly, nid yw dyweyd, fod "Duw yn cyfrif cyfiawnder i ddyn," ond dyweyd mewn effaith fod Duw yn edrych arno gyda yr un ffafr ag y gwnaethai pe buasai yn briodol a deddfol gyfiawn, ac yn bwriadu iddo gael y rhagorfreintiau uwchaf a berthyn i'r cyfryw gyfiawnder.

Dos. VI.—Nid oes yr un gair yn perthyn i'r athrawiaeth o gyfiawnhad, yn cael ei lwytho gyda mwy o amrywiol ystyriaethau na'r gair cyfrifiad; ac, o ganlyniad, yr un yn fwy darostyngedig i gael ei gamgymeryd. Nid oes un gosodiad braidd lle defnyddir y gair hwn yn anmhenodol, ond a ellir ei addef neu ei wadu, yn ol y gwahanol arwyddocâd o hono. Megys, er engrhaifft, y gosodiadau canlynol: "Y mae ufudd-dod gweithredol Crist yn gyfrifedig;" "Nid ydyw ufudd-dod gweithredol Crist yn gyfrifedig;" "Y mae ufudd-dod dyoddefol Crist yn gyfrifedig;" "Nid ydyw ufudd-dod dyoddefel Crist yn gyfrifedig;" &c.; y maent yn wir neu yn gyfeiliornad, yn ôl fel y deallir y gair "cyfrifiad" ynddynt; gan hyny dylid defnyddio gofal neillduol y modd y mae y gair hwn yn cael ei ddefnyddio, neu ei dderbyn, yn y ddadl bresenol.

Dos. VII.—Gellir dyweyd fod ufudd-dod i'r ddeddf foesol yn ofynol oddiwrth ddynion mewn dau olygiad: yn gyntaf, mewn ffordd o gyfiawnhad, er galluogi dyn i gael ei gyfrif yn gyfiawn gan Dduw, a'i gynnysgaethu a holl ragorfreintiau cyfiawnder. Yn ail, mewn ffordd o santeiddhad, fel y byddai i ddyn arddangos ei ddarostyngiad i Dduw, a'i ddymyniad diffuant i'w foddloni yn mhob peth. Yr oedd ufudd-dod yn ofynol oddiwrth ddyn yn ei gyflwr cyntefig yn y ddau olygiad a nodwyd, ac y mae yn ofynol eto oddiwrth yr holl angylion; ïe, yr oedd hyn yn ofynol oddiwrth yr Arglwydd Iesu ei hun. Cydmarer Matt. iii. 16, 17, âg Ioan xv. 10, &c. Ond ar ôl cwymp dyn, nid yw yn ofynol oddiwrtho ef, mewn ffordd o gyfiawnhad; y mae hyn yn amlwg, oddiwrth y ddau ystyriaeth hyn: yn gyntaf, oblegyd wedi i ddyn unwaith ballu yn y pwynt lleiaf o ufudd-dod, yr hyn wnaeth pob dyn yn y cwymp, nid yw mwyach yn alluog i roddi y fath ufudd-dod i'r ddeddf, ag fyddo yn

effeithiol er ei gyfiawnhad; nag ydyw, pe cadwai y ddeddf gyda phob manylrwydd fyddo yn bosibl o hyny allan hyd ddiwedd y byd; oblegyd, ammod cyfiawnhad deddfol oedd, fod yn rhaid i ddyn aros, o'r foment gyntaf yr ymddanghosai ar chwareu-fwrdd bôd hyd derfyn y bodaeth hwnw, "yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt." Yn ail, o herwydd fod Duw wedi agor llwybr arall i gyfiawnhau pechaduriaid, sef, "ffydd yn Nghrist;" ac nid yw efe byth yn sefydlu y naill foddion yn erbyn y llall; am hyny, haeru, fod cyflawniad o'r ddeddf yn ofynol oddiwrth ddyn yn bersonol, neu oddiwrth arall yn ei le, er ei gyfiawnhad, ydyw haeru, naill a'i nad yw y dyn sydd wedi pechu, ddim wedi pechu, neu fod Duw yn gwrthddyweyd yr hyn a ddywedodd.

Dos. VIII.—Y mae dau olygiad y dywedir fod Crist wedi cadw y ddeddf gyda golwg ar ein cyfiawnhad; yn gyntaf, drosom ni, neu, yn ail, yn ein lle ni. Yn yr ystyr cyntaf gellir addef fod Crist wedi cadw y ddeddf er ein cyfiawnhad; ond nid yn yr olaf. Ni olyga y cyntaf ond yn unig fod yr ufudd-dod hwnw o'i eiddo yn meddu dylanwad ar ein cyfiawnhad, ac wedi gwasanaethu yn gynorthwyol yr hyn oedd yn hollol angenrheidiol tuag at hyny. Ond yr ystyr olaf a olyga, mai cadw y ddeddf oedd y prif beth a ofynid oddiwrth ddynion er eu cyfiawnhad, ar ol y cwymp; a bod Duw, gyda golwg ar anallu dynion i gyflawni hyny, wedi anfon ei Fab i gadw y ddeddf yn eu lle: ond y mae y golygiad hwn yn sefyll yn gyfeiliornad amlwg yn y gwahaniaethiad cyntaf o hono.

Dos. IX.—Er nad yw cyfiawnhad pechadur, (yn yr ystyr goddefol) ond un effaith, gellir ei phriodoli i lawer o achosion, yn ol eu hamrywiol ddylanwadau. Gellir dyweyd fod Duw yn cyfiawnhau;—fod Crist yn cyfiawnhau;—fod yr Yspryd Glân yn cyfiawnhau;—gellir dyweyd fod ffydd yn cyfiawnhau;—fod y gweinidog yn cyfiawnhau; yn gystal ag achub; 1 Tim. iv. 16. A gellir dyweyd fod maddeuant pechodau yn cyfiawnhau. Beth bynag sydd yn cyfranu rhywbeth, mwy neu lai, mewn ffordd uwch neu îs, tuag at gynnyrchu rhyw effaith, gyda chysondeb gellir priodoli yr effaith iddo. Y mae mor gyson dyweyd mai y ffon-dafl yn llaw Dafydd, neu mai y gareg esmwyth a daflodd, neu mai ei waith yn taflu a laddodd Goliath, a dyweyd mai Dafydd ei hun a'i lladdodd; er y mae yn wir mai Dafydd ydoedd y prif effeithydd yn y wethred hono.

## PEN. IV.

*Golwg ar gyfiawnhad yn yr amrywiol achosion o hono.*

Dos. I.—Er eglurhau pethau yn fwy, a thrwy hyny ddynoethi gwendid y rhesymau a ddygir i wrthbrofi yr hyn a amddiffynwyd gennyf, bernais na byddai yn feius i ddangos y modd y mae gras, cyfiawnder, a doethineb Duw yn cydweithredu yn nghyfiawnhad pechadur; ac o herwydd fod gwybodaeth iawn o hyn yn ymddibynu ar wybodaeth o'r amrywiol achosion yn cydweithredu tuag at hyny, erfyniwyf ganiatâd yma i ragnodi rhai rheolau o berthynas i natur achosion yn gyffredinol.

1, Y mae yna bedwar rhyw o achosion, dan y rhai y cynwysir pob math o achosion, pa mor amrywiol bynag ydynt: gelwir hwynt yn gyffredin—1, achos effeithiol; 2, achos gorphenol; 3, achos defnyddiol; 4, achos ffurfiol.

Dos. II.—2, Nid ydyw yr achos effeithiol a gorphenol byth yn rhan o'r effaith a gynyrchir, ond y maent bob amser tuallan iddi; ac ar y llaw arall, y mae yr achos defnyddiol a ffurfiol bob amser yn fewnol yn yr effaith, ac yn nghyd gwnaent i fynu ei gwir sylwedd a'i hanfod. Sylwer, er enghraifft: nid yw y saer, yr hwn yw yr achos effeithiol o'r tŷ a adeiliedir, yr un modd ei fwyall, llif, a'i forthwyl, ddim yn rhanau o'r tŷ; ac nid yw cyfleusdra y trigianydd, yr hwn ydyw achos gorphenol y tŷ, yn rhan o hono: ond y coed, cerrig, pridd-feini, yr hyn yw yr achos defnyddiol, a'r drefn y maent wedi eu gosod yn nghyd yn adeilad, yr hyn yw yr achos ffurfiol, ydynt y priodol ranau cyfansoddol o'r tŷ; fel os bydd i un o'r rhai hyn gael eu cyfnewid neu eu cymeryd ymaith, rhaid i'r tŷ gael ei gyfnewid a'i gymeryd ymaith.

3, Nis gall achos feddu mwy o berthynasau achosoldeb *(causality)* nag un, mewn un a'r unrhyw weithred. Nis gall yr achos effeithiol byth fod yn achos ffurfiol, na defnyddiol, na gorphenol y peth a effeithir ganddo; yr un modd hefyd nis gall yr achos defnyddiol o beth fod yn achos ffurfiiol nac effeithiol, na gorphenol o hono; ac y mae yr un rheswm am danynt oll. Nis gall y saer, ei ddyfais, ei fwyall, na'i forthwyl, y rhai ydynt achosion effeithiol, fod yn ddefnydd y tŷ a adeilada efe â hwynt; ac nis gall y coed neu gerig, yr hyn yw yr achos defnyddiol o hono, fod yr achos effeithiol hefyd.

4, Er nad oes yna ond pedwar rhyw cyffredinol o achosion, eto y mae pob un o honynt yn cynwys amrywiol rywogaethau o achosion.

Dos. III.—Ac yn gyntaf: am achosion effeithiol, y mae rhai yn brif, a rhai yn gyffredin. Y prif achos effeithiol ydyw yr hwn sydd yn gweithredu o hono ei hun, a chanddo effeithyddion ereill oddi tano, ag sydd yn gweithredu yr un modd tuag at yr effaith, ond yn ymddibynu arno ef yn eu gweithrediad. Y saer ydyw y prif achos effeithiol o'r tŷ: nid yw ei fwyall, llif, a'i forthwyl, ond offerynol effeithyddion; oblegyd er fod y rhai hyny yn gwasanaethu rhywbeth tu ag at yr adeilad, eto gan y saer y maent yn cael eu llywodraethu yn eu gweithrediad, ac ni weithredent mewn un modd pe na baent yn cael eu defnyddio ganddo ef.

Eilwaith: am achosion effeithiol, pa un bynag a'i prif a'i cyffredin, y mae rhai yn naturiol a rhai yn foesol. Wrth yr effeithydd naturiol yr ydwyf yn golygu, yr hwn sydd yn cyfranu tu ag at yr effaith trwy ryw allu sydd yn naturiol iddo: fel hyn, y mae yr haul yn achos effeithiol naturiol o'r goleuni yn yr awyr.

Y moesol achos effeithiol, ydyw yr hwn sydd yn cyfranu rhywbeth tuag at yr effaith, trwy dueddu ewyllys y naturiol achos effeithiol tuag at effeithio unrhyw beth. Fel hyn y mae cyflog y gweithiwr a gytuna i adeiladu ty, gellir galw y gobaith sydd ganddo i dderbyn ei gyflog, a'r duedd fewnol sydd ynddo yn cymeryd y gwaith gyda golwg ar y cyflog, yn foesol achosion effeithiol o'r gwaith hwnw. Ac felly y tiriondeb a ddangosodd Jonathan i Dafydd, ydoedd y moesol achos effeithiol o'r ffafr a ddangosodd Dafydd i Mephiboseth ei fab; hefyd mawredd pechod Sodom a Gomorrah, yn nghyd a chyfiawnder Duw, ydoedd yr achos o'r dinystr ofnadwy o dân a brwmstan, a ddaeth arnynt.

Dos. IV.—Yn drydydd, am yr achosion effeithiol y mae rhai yn bell a chyfryngol, a'r lleill yn agosach ac uniongyrchiol. Yr achos cyfryngol ydyw yr hwn sydd yn cyfranu tuag at effeithio'r peth, eto nid yw yn ei effeithio ond trwy gyfryngdod un arall. Yr achos uniongyrchiol ydyw, yr hwn sydd yn cynnyrchu yr effaith heb gyfryngiad unrhyw achos arall. Fel hyn y mae gwaith dyn yn bwyta ac yfed yn achosion cyfryngol o'i nerth a'i iechyd, trwy gyfrwng treuliad y bwyd yn y cylla, yr hwn yw yr achos digyfrwng o hyny. Felly hefyd, y cymedroldeb y sonia Paul am dano, 1 Cor. ix. 25, yn yr hwn "sydd yn ymdrechu," ydyw yr achos cyfryngol o'r holl fuddugoliaethau a enillir ganddo; beth bynag sydd yn cymhwyso yr effeithydd naturiol er cynyrchu effaith, gall yn briodol gael ei alw yn achos cyfryngol o honi; ac yn y golygiad hwn, gall ufudd-dod gweith-

redol Crist gael ei alw yn achos effeithiol cyfiawnhad, cyfryngol ac nid uniongyrchol, oblegyd i hyn ei gymhwyso i'r dyoddefiadau trwy y rhai y dygwyd yr effaith fawr hono oddiamgylch.

Dos. V.—Yr ail math o achosion a grybwyllwyd yw, achos gorphenol: y mae llawer math o'r achos hwn hefyd. Achos gorphenol, neu ddyben unrhyw effaith, ydyw y dyben y mae yr effaith yn naturiol dueddol i'w gynyrchu, neu ynte, y dyben a achlysurir gan yr effaith, ond damweiniol yn unig. Fel hyn y mae caledu dynion annuwiol, ac felly ychwanegu eu damnedigaeth, yn ganlyniadau damweiniol pregethu yr Efengyl; megys y mae tyneru calonau dynion, a'u cyfarwyddo a'u nerthu yn llwybrau crefydd, yn ddybenion penodol o hyny.

Eilwaith: am achosion gorphenol, y mae rhai o honynt yn flaenorol, a'r lleill yn ddilynol; yr achos gorphenol blaenaf ydyw yr hyn y mae y prif effeithiol achos yn amcanu ei gyrhaeddyd, trwy gyfrwng y cyfryw effaith a gynyrchir ganddo.

Y dilynol, neu yr ail achos gorphenol, ydyw y gwrthddrych, i les y rhwn y mae y dyben (yn briodol a elwir felly) wedi ei fwriadu: fel hyn y mae y claf yn ddyben o'r adferiad yr ymdrecha y meddyg i'w ddwyn oddi amgylch.

Dos. VI.—Y trydydd math o achosion yw, y defnyddiol; y rhai yn briodol neu yn anmhriodol a elwir felly. Yr achos defnyddiol, (yn briodol a elwir felly) yw yr hyn, mewn undeb â'r ffurf, sydd yn gwneyd i fynu gorph cyfansawdd sylweddol. Y defnydd o beth, (a elwir felly yn anmhriodol) yw yr hyn sydd yn meddu ryw fath o gyfatebiad i'r hwn sydd yn briodol ddefnydd.

Dos. VII.—Y pedwerydd math o achosion a elwir "yr achos ffurfiol;" y mae hwn yn cael ei ddosparthu i'r hyn sydd yn cael ei alw, yn briodol ac anmhriodol. Yr achos ffurfiol, (yn briodol a elwir felly) yw yr hwn, mewn cysylltiad â'r defnydd, sydd yn gwneyd i fynu gorph cyfansawdd sylweddol. Yr achos ffurfiol o beth, yn anmhriodol a elwir felly, (yr hwn yw y ffurf yn unig y mae genym i ymwneyd âg ef yn y gorchwyl o gyfiawnhad) sydd bob amser yn beth o'r natur gyffredin hono a elwir yn "ddamweiniol."

Dos. VIII.—Wedi gosod i lawr yr amrywiol fathau o achosion, deuaf yn awr i egluro yr athrawiaeth o gyfiawnhad yn ol yr hyn a draddodwyd.

Dechreuaf gydag achosion effeithiol cyfiawnhad, y rhai sydd yn amrywiol ac o wahanol ystyriaethau.

Prif achos naturiol ac effeithiol cyfiawnhad, yw Duw,

Tad, Mab, ac Yspryd Glân, fel un a'r unrhyw syml hanfod; er fod cyfiawnhad yn cael ei briodoli mewn modd neillduol i'r Tad, yr un modd a phrynedigaeth i'r Mab, a santeiddhad i'r Yspryd Glân: (ond rhaid fod y tri Personau dwyfol, gan eu bod yn un Hanfod anwahanedig, yn cyd-weithredu yn y naill a'r llall o'r goruchwyliaethau a nodwyd.) Dywedir yn Rhuf. viii. 33, "Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau," h.y., Duw dad; canys crybwyllir am Grist yn uniongyrchiol ar ôl hyny: "Crist yw yr hwn fu farw." &c.

Dos. IX.—Yn ail, mai y prif achos effeithiol o gyfiawnhad yw Duw, ac nid offerynol, sydd amlwg, oblegyd nad yw efe byth yn cael ei ddefnyddio gan un achos arall, yn nghyfiawnhad pechadur, ond efe sydd yn llywodraethu a threfnu yr holl gorph o achosion yn offerynol tuag at hyny. "Duw sydd yn cyfiawnhau y cenhedloedd, trwy ffydd;" Gal. iii. 8; yr un modd Rhuf. iii. 30, &c. Duw yw yr hwn sydd yn gwneyd gwasanaeth o ffydd; ac hefyd o'i air, a gweinidogion ei air, i gynyrchu ffydd yn nghalonau dynion, ac, o ganlyniad i'w cyfiawnhau; ond y mae yn anmhosibl dyweyd fod y rhai yna yn gwneyd gwasanaeth o Dduw yn, neu o gylch, yr effaith fawr o gyfiawnhad.

Yn drydydd, mai Duw ydyw naturiol achos effeithiol cyfiawnhad, sydd amlwg; oblegyd y mae efe yn gweithredu yn hyny o'i awdurdod a'i allu naturiol ei hun. Gwir yw, ei fod yn cael ei gymhell i weithredu gan yr hyn sydd tuallan ac nid hanfodol iddo, sef, dyoddefiadau a marwolaeth Crist; eto y mae y weithred ei hun yn dechreu o'i awdurdod a'i allu hanfodol ef.

Yn bedwerydd, achos moesol cyfiawnhad, fel gweithred o eiddo Duw, ydyw y cariad, y daioni, a'r graslonrwydd anfeidrol sydd ynddo ef tuag at ei greadur dyn, yr hwn yr edrychir arno fel bod truenus, ac yn gorwedd dan gondemniad am bechod. Hwn hefyd ydoedd yr achos o roddiad y Mab, ac o'i ddyoddefiadau a'i farwolaeth; ac, o ganlyniad, o'r cyfiawnhad a enillwyd ac a bwrcaswyd trwy Grist a'i ddyoddefiadau: "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol;" Ioan iii. 16.

Yn bummed, yr achos allanol cymhelliadol o'r weithred hon o gyfiawnhad o eiddo Duw yw Crist ei hun, trwy ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth; neu yr hyn sydd yn gyfystyr, dyoddefiadau a marwolaeth Crist; trwy fod Duw yn edrych ar yr Eneiniog fel dyoddefwr dros bechodau y byd, cymhellir ef oddiar hyny i waredu pawb a gredant ynddo ef oddiwrth

y gospedigaeth sydd ddyledus iddynt. Y mae yr Ysgrythyr yn oleu pan yn gosod i lawr yr achos hwn: "Megys y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau;" Eph. iv. 32. Y mae yr ymadrodd hwn, "er mwyn Crist," yn gymeriad goleu a llawn o'r achos y soniwn am dano yn bresennol. Cysylltir yr achos hwn a'r un blaenorol yn nghyd yn Rhuf. iii. 24. "A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei râs ef," yr hyn yw mewnol achos cymhelliadol cyfiawnhad, "trwy y brynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu," sef, trwy ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth, yr hyn yw yr allanol achos cymhelliadol. Nis gall dyoddefiadau a marwolaeth Crist, gael eu golygu, gydag unrhyw gysgod o reswm, neu unrhyw ddull goddefol o lefaru, am un achos arall yn y gorchwyl o gyfiawnhad, ond yr achos cymhellol yn unig. Yr hwn a wnelo Grist yn achos offerynol cyfiawnhad, a deifl ffydd o'r neilldu yn gwbl. A llawer mwy afresymol yw gwneyd Crist, neu ei gyfiawnder, gweithredol neu oddefol, yn achos defnyddiol, neu ffurfiol cyfiawnhad. Ond y mae yn fwy afresymol na'r cwbl i wneyd Crist neu ei gyfiawnder yn achos ffurfiol a defnyddiol hefyd, pryd y mae y ddau yna mor wahanol yn eu nhatur.

Yn y dosparth hwn o achosion y gellir rhestru cyfiawnder gweithredol Crist, mor bell ag y maent yn meddu dylanwad ar gyfiawnhad pechadur. Canys, er nad yw yn foddlonawl (*satisfactory*) ynddo ei hun, nac yn cyfranu yn uniongyrchiol tuag at gyfiawnhad yr euog; eto, mewn cysylltiad a chyfiawnder dyoddefol Crist, ac yn effeithiol er gwneyd i'w waed fod "yn waed gwerthfawr a difrycheulyd," 1 Pedr i. 19, y mae ynddo ryw fath o gymhellawl effeithiad, tuag at gyfiawnhad, trwy iddo gymhwyso, mewn rhan, aberth Crist er ei dyrchafu i'r fath anfeidrol gymeradwyaeth gyda Duw.

Nis gellir gyda phriodoldeb alw trueni a thylodi y creadur dyn yn achos o'i gyfiawnhad; eto y mae ryw fodd yn addas i gael ei restru gyda'r allanol achos cymhelliadol, yn gymaint fod daioni Duw wrth hyny wedi ei gymhell i drefnu rhyw lwybr er ei waredigaeth.

Dos. XI.—O berthynas i ffydd, y mae yr awduron diwygiedig yn gyffredinol yn ei gosod allan yn offerynol achos effeithiol cyfiawnhad. Ond y mae amrywiol ereill o achosion offerynol o hono; megys gair Duw, pregethiad y gair, gweinidogion y gair, iawn ddeall y gair, gweithrediad yr Yspryd Glân trwy yr hwn y mae y gair yn effeithiol ar y galon, ac, yn gyffredin, gellir galw, beth bynag sydd yn cydgynorthwyo tuag at ddwyn yn mlaen waith ffydd yn yr enaid, yn offerynol er cyfiawnhad.

Dos. XII.—Yn ail, o berthynas i achosion gorphenol cyfiawnhad, cyduna pawb braidd yn hyn hefyd: nid oes neb a wâd mai gogoniant Duw, yr hwn yw prif ddyben arbening pob peth, ydyw y prif ddyben hefyd yn holl ddybenion cyfiawnhad. Yr ail ddyben mawr ydyw dyrchafiad yr holl rai a gyfiawnheir i ogoniant a dedwyddwch diddiwedd.

Yn drydydd, o berthynas i achos defnyddiol cyfiawnhad, golyga rhai mai cyfiawnder ac Iawn Grist ydyw; ond trwy wneyd y rhai yna yn achos defnyddiol cyfiawnhad, y maent yn eu diosg o'r anrhydedd neillduol berthynol iddynt, sef, o fod yn achos haeddiannol o hono Y mae hyn yn eglur yn ol y drydydd reol, sef, nas gall un achos feddiannu mwy o berthynasau achosoldeb nag un, mewn un a'r unrhyw effaith; felly os ydyw cyfiawnder Crist yn achos haeddiannol cyfiawnhad, (yr hyn a addefir ar bob llaw) nis gall fod yn achos defnyddiol hefyd. Ond, mewn gwirionedd, nid yw achos defnyddiol cyfiawnhad ddim arall ond y pechadur crediniol.

Yn bedwerydd, beth yw achos ffurfiol cyfiawnhad? Creda rhai mai cyfiawnder Crist yn gyfrifedig i ni; ond anmhosibl yw i'r achos effeithiol fod yn achos ffurfiol hefyd: y mae hyn yn eglur oddiwrth egwyddor y rheol gyffredinol a nodwyd o berthynas i achosion. Fod cyfiawnder Crist yn achos effeithiol cyfiawnhad, sydd wedi ei brofi eisioes, ac y mae yn addefedig hefyd gan awduron o'r dyb a nodwyd.

Dos. XIII.—Os cyfiawnder Crist yw achos ffurfiol cyfiawnhad, yna â chyfiawnder Crist y mae y credadyn yn gyfiawn. Ond nad ydyw credadyn i gael ei gyfrif yn gyfiawn â chyfiawnder Crist, neu gyda'r unrhyw gyfiawnder ag y mae ef yn gyfiawn trwyddo, a ddanghosaf fel hyn: Yr hwn a all yn gyfreithlon gael ei gyfrif yn gyfiawn â'r un cyfiawnder ag yr oedd Crist yn gyfiawn trwyddo, a all yn gyfreithlon hefyd gael ei gyfrif heb bechu erioed; oblegyd nis gall y cyfiawnder sydd yn golygu neu yn addef pechod fod yn gyfiawnder Crist; yr hyn a berthynai yn hanfodol i'w gyfiawnder ef oedd, yr hwn ni wnaeth bechod. Ond y mae y golygiad hwn, sef, bod yn addas cyfrif yr un credadyn dan y nefoedd heb bechu erioed, yn gyfeiliornad mor amlwg, fel nad yw neb mewn angen am fwy o oleuni i ganfod hyny. O ganlyniad, nid cyfiawnder Crist yn gyfrifedig yw achos ffurfiol cyfiawnhad.

Dos. XIV.—Dyna hefyd ydyw cyffes amddiffynwyr dysgedig y dŷb o gyfrifiad, yr hon a wrthwynebir genym: ac felly, yn wir y mae ffrwd gyffredin Duwinyddion

diwygiedig yn rhedeg. "Pwy o'n hysgrifenwyr," medd Doctor Prideaux, "a haerodd erioed ein bod yn cael ein cyfiawnhau yn ffurfiol trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist?" Esgob Downham hefyd, pleidiwr selog i gyfrifiad, a gyhudda ei wrthwynebwyr, gan ddyweyd, "eu bod yn gwneyd cam a'u hathrawiaeth hwy," ei hunan a Duwinyddion Protestanaidd ereill a feddylia, "trwy haeru, gyd a'r Pabyddion, eu bod yn dal ein bod yn ffurfiol gyfiawn trwy y cyfiawnder hwnw nad yw ynom ni, ond yn Nghrist, yr hyn sydd yn afresymol."

Dos. XV.—Y mae tŷb arall yr hon a olyga mai maddeuant pechodau ydyw achos ffurfiol cyfiawnhad;* y dŷb hon yw yr un fwyaf mewn cymeradwyaeth yn ngolygiadau ac ysgrifeniadau Duwinyddion Protestanaidd. Am gydsyniad cyffredinol yr awduron diwygiedig, heblaw yr hyn a draddodwyd eisioes, digon yw genyf dystiolaethau dau yn unig o enwogion yn eu plith, y rhai wyf yn eu golygu, yn deilwng, ac o ddysgeidiaeth a chywirdeb digonol i'w credu.

Y cyntaf o'r ddau yw David Paræus, gynt prif athraw duwinyddol, yn Athrofa Heidelburg; yn ei draethawd ar 'gyfiawnder goddefol a gweithredol Crist,' tu dal. 176, a ddywed fel hyn, "Maddeuant pechodau yn gyfrifedig i ni, er mwyn Iawn Crist yw ein holl gyfiawnhad," gan ddadleu yr egwyddor yn y dalenau dylynol: meddai, "Gallaf ddwyn yn mlaen awdurdodau y tadau yma i gefnogi hyn, y rhai sydd yn lleoli ein cyfiawnder," sef, mewn cyfiawnhad, yn unig yn maddeuant pechodau, er mwyn marwolaeth Crist;" gan ddyfynu amrywiol dystiolaethau o waithAustin, Œcumenius, ac Ambrose. Ac yn fuan ar ol hyny y dywed, "Gallwn ddwyn yn mlaen hefyd i brofi hyn farn Luther, Melancthon, Calvin, Martyr, Musculus, a niferoedd lawer ereill, y rhai nad wyf yn gwahaniaethu oddiwrth eu golygiad, yn y pwnc o gyfiawnhad, gymaint a thrwch ewin." Nis gallasai y gŵr enwog hwn, trwy ei waith yn darllen, a grym ei amgyffredion yn nghyd, gael allan un golygiad arall o berthynas i achos ffurfiol cyfiawnhad, yn ngweithiau y tadau, na'r prif Brotestaniaid, ond yr hyn sydd yn sefyll mewn maddeuant pechodau.

Yr olaf ydyw Mr. Thomas Gataker, dyn cymeradwy o ran ei ddysgeidiaeth a chywirdeb ei farn; yr hwn, yn "Amddiffyniad," Mr. A. Wotton, a gyhoeddwyd ganddo ef, tu dal. 58, a ddywed, "pa fodd bynag, ei fod ef o'i ran ei hun yn ei ystyried yn gyfeiliornus", (felly yr wyf finau

* Yr hon yw barn yr awdwr o berthynas i achos ffurfiol cyfiawnhad.

hefyd, yn ol yr ystyr helaeth a roddai ef i'r gair "cyfiawnhad,") "i ddal fod cyfiawnhad yn gynwysedig mewn maddeuant pechodau, eto ymddengys fod Calvin, Besa, Piscator, Paræus, Musculus, Bullinger, Fox, &c., &c., ac amrywiol ereill o enwogion, ïe, â'n holl gymanfaoedd yn dyweyd felly yr un modd;" gan ychwanegu, "Ac ni chafodd y dynion hyny erioed eu condemnio megys hereticiaid, am ddyweyd felly, ond eu dyrchafu, fel yr oeddynt hwy a'u gweithiau yn teilyngu, gan y rhai a wahaniaethent oddiwrthynt yn hyn."

Dos. XVI.—Yn awr, er profi hyn, gellir rhag-grybwyll rhai pethau; megys,

1. Nad yw cyfiawnhad yn weithred sydd yn meddu achos ffurfiol, a elwir felly mewn ystyr briodol; oblegyd i fodau sylweddol yn unig y mae hyny yn briodol. Gwel dos. xii. o'r benod hon.

2. Nas gellir priodoli achos ffurfiol i gyfiawnhad mewn un golygiad arall, ond yn unig fel y gweithreda gyfnewidiad yn mherson, neu yn hytrach yn nghyflwr, yr hwn a gyfiawnheir.

3. Mai y cyfnewidiad a weithredir yn nghyflwr y cyfiawnedig, trwy ei gyfiawnhad, ydyw y ffurf neu achos ffurfiol ei gyfiawnhad.

4. Nad ydym, yn yr ymofyniad presennol, yn chwylio am achos ffurfiol cyfiawnhad mewn ystyr gyffredinol, ond o'r math neillduol hwnw o gyfiawnhad, trwy yr hwn y mae y pechadur crediniol yn cael ei gyfiawnhau gan Dduw trwy y brynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu.

Dos. XVII.—Ar ol y crybwylliadau blaenorol, dechreuaf yn awr i ddangos, mai maddeuant pechodau ydyw achos ffurfiol cyfiawnhad.

Yn gyntaf, Os maddeuant pechodau ydyw yr effaith gyntaf, benodol, ac uniongyrchiol y weithred hono o eiddo Duw, trwy yr hon y mae yn cyfiawnhau pechadur, yna y mae yn briodol achos ffurfiol cyfiawnhad. Maddeuant pechodau yw yr effaith gyntaf, benodol, ac uniongyrchiol y weithred hono o eiddo Duw trwy yr hon y mae yn cyfiawnhau pechadur. Y mae yr Ysgrythyrau yn cadw cysylltiad annghyfryngol rhwng gwaith Duw yn cyfiawnhau, a rhyddhad y pechadur oddiwrth ei bechodau; h.y., oddiwrth yr euogrwydd a'r gospedigaeth haeddiannol iddynt, pan y gelwir cyfiawnhad yn gyfiawnhad oddiwrth bechod. "Am hyny," medd Paul, "bydded hysbys i chwi, ha wyr frodyr, mai trwy hwn yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechodau: a thrwy hwn y cyfiawnheir pob un sydd yn credu, oddiwrth

yr holl bethau y rhai ni allech trwy gyfraith Moses gael eich cyfiawnhau oddiwrthynt;" Act. xiii. 38, 39. Lle gwelwn fod cyfiawnhad yn waredíad uniongyrchiol oddiwrth bechod, oddiwrth yr euogrwydd neu yr awdurdod gondemniol o hono, ac o ganlyniad, rhaid mai hwn yw achos ffurfiol cyfiawnhad.

Yr ail, Yr hyn sydd yn rhoddi yr enwad "cyfiawn" i'r cyfryw a gyfiawnhawyd, a raid fod yr achos ffurfiol o gyfiawnhad. Y mae maddeuant pechodau yn rhoddi yr enwad "cyfiawn" i'r sawl a gyfiawnheir; am hyny, maddeuant pechodau ydyw achos ffurfiol cyfiawnhad. Yr ail fraich yn y rheswm blaenorol a egluraf fel hyn:—Os yw pechadur yn cael ei gyfiawnhau, o herwydd fod ei bechodau yn cael eu mhaddeu iddo, yna maddeuant pechodau sydd yn rhoddi yr enwad "cyfiawn" iddo ef. Ond y mae pechadur yn cael ei gyfiawnhau, o herwydd ei fod yn derbyn maddeuant o'i bechodau: y rheswm o'r gosodiad diweddaf yw hyn, oblegyd fod y cyfiawnhad y soniwn am dano, yr hwn sydd yn wrthgyferbyniol i gondemniad, yn rhwym o angenrheidrwydd i sefyll mewn rhyddhad oddiwrth gospedigaeth, yr hyn nid yw ddim arall ond derbyniad o faddeuant pechodau. Canys nid oes rhyddhad oddiwrth gospedigaeth oddi ar law yr hwn sydd yn Farnwr anfeidrol, i'r euog i'w gael, ond trwy faddeuant o'i bechodau; megys ar y llaw arall, y mae maddeuant pechodau yn rhyddhad cyflawn o'r natur hwn.

Dos. XVIII.—Yn drydydd, y cyfnewidiad a gymer le yn nghyflwr y person a gyfiawnheir, ac sydd yn cael ei achosi yno gan y weithred trwy yr hon y mae Duw yn ei gyfiawnhau, a raid fod yr achos o'i gyfiawnhad. Maddeuant pechodau neu ryddhad oddiwrth gospedigaeth, ydyw y cyfnewidiad a gymer le yn nghyflwr y person a gyfiawnheir trwy y weithred hono o eiddo Duw yn ei gyfiawnhau; o ganlyniad, y cyfnewidiad hwnw ydyw achos ffurfiol cyfiawnhad.

Dos. XIX.—Yn bedwerydd, Yr hyn sydd yn gwneyd y person a gyfiawnhawyd yn ffurfiol a pherffaith gyfiawn ger bron Duw, ydyw achos ffurfiol cyfiawnhad. Maddeuant pechodau sydd yn gwneyd y person a gyfiawnhawyd yn ffurfiol a pherffaith gyfiawn ger bron Duw; o ganlyniad, dyna achos ffurfiol cyfiawnhad.

Yn bummed, Os ydyw maddeuant pechodau yn gyfiawnder perffaith a chyflawn, yna efe ydyw achos ffurfiol cyfiawnhad. Y mae maddeuant pechodau yn gyfiawnder perffaith a chyflawn, am hyny, y mae yn achos ffurfiol cyf-

iawnhad hefyd. Y cyfiawnder hwnw na raid iddo ofni presennoldeb Duw na gorsedd fanol y farn, sydd, y mae yn sicr, yn gyfiawnder perffaith. Y mae maddeuant pechodau yn gyfryw gyfiawnder na raid iddo ofni brawdsedd fanol y farn, na phresennoldeb Duw ; o ganlyniad, y mae yn gyfiawnder perffaith.

Yn olaf, os yw maddeuant pechodau, a pheidio cyfrif pechod i'r rhai a bechasant, yn ymadroddion cyfystyr, ac yn arwyddo yr un fraint neu gyflwr o berthynas i'r hwn a gyfiawnhawyd, yna y mae maddeuant pechodau yn achos ffurfiol cyfiawnhad. Y mae grym y casgliad hwn yn gorphwys yn hyn, fod yr Yspryd Glân yn desgrifio y cyfiawnder a gyfrif Duw mewn cyfiawnhad, trwy yr ymadrodd peidio cyfrif pechod. Y mae hyn yn eglur trwy gydmaru Rhuf. iv. 6, âg adn. 8. A phrofwyd o'r blaen, mai y cyfiawnder a gyfrif Duw mewn cyfiawnhad a raid fod yr achos ffurfiol o hono. Canlyna, os yw "maddeuant pechodau," a "pheidio cyfrif pechod" yn ymadroddion o'r un ystyr, mai maddeuant pechodau ydyw achos ffurfiol cyfiawnhad. Yn awr, eglur yw, fod yr ymadroddion a nodwyd yn gyfystyr: canys beth y mae Duw yn ei wneyd yn fwy, neu yn wahanol, pan yn maddeu pechod, na phan yn peidio a'i gyfrif? Neu beth y mae yn ei wneyd yn fwy pan yn peidio cyfrif pechod, nag a wna efe pan yn ei faddeu? Ni olyga peidio cyfrif pechod i'r pechadur, ddim arall ond peidio cyfrif yr euogrwydd o hono arno ef; beth a olyga maddeuant pechodau yn fwy neu yn llai na hyny?

Oddiwrth yr hyn y buwyd yn ymresymu mor helaeth yn nghorph y benod hon, o berthynas i gyfiawnhad a'r amrywiol achosion o hono, gellir ffurfio darluniad o hono, yn yr hwn y gall y darllenydd pwyllog a medrus gymeryd sylw o'r oll neu y rhan fwyaf o'r achosion y buwyd yn gorphwys arnynt.

Cyfiawnhad sydd weithred o eiddo Duw, a gafodd efe allan o'i annrhaethol râs a'i ddaioni at bechaduriaid, trwy draddodi ei unig-anedig Fab i farwolaeth i fod yn Iawn drostynt; a thrwy yr Iawn hwn, y mae efe yn maddeu yn rhad i'r holl rai a gredant ynddo trwy bregethiad Crist iddynt, neu a eglurwyd rywfodd arall iddynt gan yr Yspryd Glân.

## PEN. V.

*Yr Ysgrythyrau a ddygir yn mlaen dros Gyfrifiad o Gyfiawnder neu Ufudd-dod gweithredol Crist mewn Cyfiawnhad yn yn cael eu hateb, a'r gwir Ystyr o honynt yn cael ei sefydlu ar wahan, yn ol Barn yr Esponwyr enwocaf.*

Dos. I.—Y mae camgymeriadau mewn materion crefydd, yn cael eu hachlysuro yn gyffredin, trwy rywbeth y mae Duw wedi dyweyd yn iawn, ond fod dynion heb ei ddeall yn iawn. Ac megys y sylwodd Gregory, er's amser maith mewn pwynt o ymarferiad, Pan y tybia dynion fod pechod yn ddyledswydd y mae yn cael ei gyflawni gyda llaw uchel; yr un modd hefyd mewn pwynt o grêd, pan y golyga dynion fod camsyniadau yn cael eu cefnogi o'r nefoedd, y mae eu hunan-ymddiried yn ymgyfodi mor uchel, nes yr ymddengys y gwrthddywediadau esmwythaf yn ffieiddra yn eu golwg: yn mhlith llawer o arwyddion o'r fath dybiaeth, y mae hwn yn un o nodiad mynych; pan fyddo ei hamddiffynwyr yn pentyru dyfyniadau heb rif o Ysgrythyrau, megys pe byddai i orchfygu eu gwrthwynebwyr â thystiolaethau dwyfol; ond, fel y mae y dywediad, "yr hwn sydd yn mhob man nid yw mewn unman;" felly y mae lle i ofni, nad yw y dŷb hono, yr ymhonir ei bod yn mhob man yn yr Ysgrythyrau, mewn un man ynddynt. Pan fyddo dynion yn awch-chwilio yma a thraw am Ysgrythyrau, yn gwrthod gweled y rhai sydd yn cynyg eu hunain, ac yn llafurio, megys, mewn tân, i wneyd i fynu ddiffyg prawfion llawn, â lluaws o'r cyfryw a allent gael, y mae hyny yn sail i amheuaeth dirfawr nad yw y dŷb hono o Dduw, ond o ddynion.

Y mae yr Ysgrythyrau, a ddygir yn mlaen gan ddysgawdwyr y dyb o gyfrifiad a wrthwynebir genym, yn lluosog; ond yn mhlith yr oll nid oes gymaint ag un yn llefaru yn eglur a chyfeiriol i'r gorchwyl mewn llaw. Nôd amlwg yw, mai nid hwy sydd yn llefaru o gwbl, ond yspryd y dynion sydd yn llefaru ynddynt, beth bynag a ymddangosant i ddyweyd o'r natur hwn. Nid oes dim amheuaeth ynwyf na byddaf yn alluog i roddi cyfrif llawn o'r hyn a haerwyf yn bresennol, trwy ymchwiliad manwl i'r Ysgrythyrau hyny. Dechreuaf gyda'r rhai a ddygir yn mlaen o'r Hen Destament.

Dos. II.—Y man cyntaf yw Sal. xxxii. 1. "Gwyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd ac y cuddiwyd ei bechod: gwyn fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd," &c. Wrth "y cuddio pechod" a grybwyllir yma, golyga rhai gyfrifiad o gyfiawnder Crist, gan Dduw, i'r credinwyr, trwy

yr hwn y mae yn cuddio eu holl bechodau: ond i hyn yr wyf yn ateb,

1, Y mae rhai o'n hesponwyr goreu yn golygu y tri ymadroddion yn gyfystyr, o'r un a'r unrhyw arwyddocâd; ac eto yn golygu fod yr amrywiaeth hwn o bwys mawr, ac yn arddangos y llawnder o ras sydd yn Nuw, trwy yr hwn y maddeuir ein pechodau. Felly Dr. Ames, a Luther hefyd, ar y Salm hon. A Paræus, ar Rhuf. iv. 7, sydd o'r un farn, gan ddyfynu Ambrose hefyd.

2, O berthynas i'r ymadroddion "peidio cyfrif pechod," a "chuddio pechod;" y mae Calvin yn dal mai yr un peth ydynt o ran ystyr, a'u bod o'r un arwyddocâd a'r ymadroddion ysgrythyrol eraill, lle dywedir fod Duw yn "anghofio pechod, yn ei ddileu, yn ei daflu tu ôl i'w gefn, neu i ddyfnderoedd y môr;" gan ddyfynu Augustine fel ei ragflaenydd yn y dehongliad hwn; (Calvin Insti. lib. iii. cap. 4.) Felly ni feddyliodd un o'r rhai yna erioed, yn nghyd a llawer ereill a ellid eu rhestru gyda hwy, am gyfiawnder Crist i orwedd mor guddiedig dan yr ymadrodd "cuddio pechod."

3, Nis gellir dyweyd ychwaith fod pechod yn cael ei guddio â chyfiawnder neu ufudd-dod gweithredol Crist; o herwydd yn ôl y dŷb a wrthwynebir genym, y mae pechod yn cael ei ddwyn ymaith yn llwyr trwy gyfrifiad o'i farwolaeth, neu ufudd-dod dyoddefol, a hyny yn flaenorol i gyfrifiad o'r ufudd-dod gweithredol. Nid rhaid i'r hyn sydd wedi ei ddileu am un cuddio pellach gyda golwg ar Dduw, ac yn wir y mae yn analluog o'r fath beth.

Dos. III.—2, Jer. xxiii. 6, a xxxiii. 16: "A hyn fydd yr enw y gelwir ef, yr Arglwydd ein cyfiawnder." Yr wyf yn ateb, nad oes cysgod o brawf yn y geiriau yna dros y cyfrifiad dychymygiedig. Canys,

Yn gyntaf, ni ddywedir yma, mai cyfiawnder yr Arglwydd a fydd yn gyfiawnder i ni, neu mai cyfiawnder yr Arglwydd a gyfrifir yn gyfiawnder i ni. Na, nid oes yma ond dystawrwydd hollol o berthynas i unrhyw gyfrifiad.

Yn ail, y mae yn hollol wrthwyneb i arwyddocâd grammadegol ac areithyddol y geiriau, ac yn annghytunol âg ymadrodd a dull yr Ysgrythyr o lefaru mewn achosion cyffelyb, i roddi iddynt y fath ddehongliad a hwn, "Crist yw ein cyfiawnder trwy gyfrifiad." Nis gellir dyweyd, mewn unrhyw ddull goddefol o ymadrodd, fod Crist yn cael ei gyfrif i ni: ni chlywwyd erioed sôn am gyfrifiad person i neb; am hyny, nis gellir dyweyd ei fod yn gyfrifedig i ni er ein cyfiawnder.

Yn drydydd, ac yn olaf, eglur a chyfeiriol feddwl y geiriau, "A hyn fydd yr enw y gelwir ef, Yr Arglwydd ein cyfiawnder," yw hyn; cydnabyddir Ef yn gyffredinol gan ei bobl, sef, yr Iuddewon, (canys am danynt hwy y llefara y Proffwyd yn neillduol fel y mae yn eglur oddiwrth y cyd-destyn,) fel yr Awdwr a'r Haeddwr mawr o'r cyfiawnder neu gyfiawnhad (canys gosodir cyfiawnder yn fynych am gyfiawnhad) trwy yr hwn y byddai i lawnder o anrhydedd allanol, heddwch, a llwyddiant gael ei gyfranu iddynt. Y mae y dehongliad hwn yn gyson âg iaith a dull yr Ysgrythyr yn llefaru mewn amgylchiadau cyffelyb. Canys,

Yn gyntaf, Y mae rhoddiad enw ar beth neu berson yn dynodi yn fynych ansawdd y naill neu y llall, neu ryw fudd a ddeillia oddiwrthynt cyfatebol i'r enw: "gelwir ei enw ef Rhyfeddol, Cynghorwr," &c.; Esa. ix. 6; h.y., cydnabyddir ef gan ddynion yn Weithredwr pethau rhyfedd ac ardderchog, ac fel un galluog a pharod i hyfforddi yn y modd goreu bawb a êl ato. Gwel ymadroddion cyffelyb yn Ezec. xlviii. 35; Mat. i. 21. 23; Dat. viii. 10, 11.

Yn ail, Nid oes dim yn fwy arferol yn yr Ysgrythyr na phriodoli yr effaith i'w hachos, neu ei hawdwr, trwy ferf enwedigol yn unig, neu gadarnhau effaith yr achos yn uniongyrchiol. Fel hyn y gelwir Crist, ein "Gobaith," 1 Tim. i. 1; ein "Bywyd," Col. iii. 4; yr "Adgyfodiad," Ioan xi. 25; ein "Tangnefedd," Eph. ii. 14; ac yn "Ogoniant ei bobl," Luc. ii. 32: yn golygu dim ond mai efe ydyw Awdwr, Pwrcaswr, neu Haeddwr yr holl bethau hyny. Felly hefyd, pan ei gelwir ef ein "cyfiawnder," y mae yn anmhosibl rhoddi un ystyr arall iddo ond hyn, mai efe ydyw Awdwr neu Haeddwr ein cyfiawnder. Y mae yn eglur fod Calvin am y dehongliad yna i'r geiriau: felly dywed, "Y mae yr holl ymadroddion hyn yn cario yr un meddwl, ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ras Duw, mai Crist yw ein cyfiawnder, fod cyfiawnder wedi ei bwrcasu i ni trwy farwolaeth ac adgyfodiad Crist;" Calvin ar Gal. iii. 6.

Yn drydydd ac yn olaf, mai wrth "gyfiawnder" yn y geiriau a nodwyd, y golygir cyfiawnhad neu faddeuant pechodau, ac wrth fod Crist yn cael ei alw "Yr Arglwydd ein cyfiawnder," y golygir yn unig, mai trwyddo ef y byddai i Dduw gymodi â hwynt, ac ymheddychu gyda hwy er eu holl ymddygiadau annuwiol, sydd amlwg oddiwrth wir feddwl ymadroddion ysgrythyrol ereill; canys, yn gyffredin pan y mae Duw yn addaw gwaredigaeth a llwyddiant i'w bobl, ar ôl trallodion maith a blin, (megys y mae yn gwneyd yn y rhan gyntaf o'r adnod hon, a'r ddwy ddylynol) y mae yn

crybwyll am ei ffafr tuag atynt, trwy faddeuant o'u pechodau, ac o'i heddychiad â hwynt, er yr oll o'u camweddau. Ac y mae y ffafr hon, ei heddychiad â hwynt, yr hyn sydd yn cael ei arddangos mewn tangnefedd ac anrhydedd allanol, yn cael ei alw yn fynych, ei "gyfiawnder ef," o herwydd mai efe sydd yn ei roddi iddynt; ac weithiau, eu "cyfiawnder hwy," o herwydd eu bod yn ei dderbyn oddiwrtho ef. Cydmarer Esay xlv. 8, 24, 25: xlvi. 13; xlviii. 18; li. 5, 6, 8; liv. 17; Jer. i. 19, 20; li. 10; yn nghyd âg amrywiol ereill.

Dos. IV.—Y mae rhai wedi cloddio am y trysor o gyfrifiad yn yr ysgrythyr hon, "Yn ddiau, yn yr Arglwydd," medd un, "y mae i mi gyfiawnder a nerth," Esa. xlv. 24. Ond,

Yn gyntaf, Ni rydd y geiriau hyn y crybwylliad lleiaf am y fath gyfrifiad y crwydrir cymaint ar ei ol; ac, ni chanfyddais ychwaith un crybwylliad yn cael ei roddi am y fath beth gan un esponiwr iawn-gred ar yr Ysgrythyr hon.

Yn ail, Gwir ac eglur feddwl y geiriau yw hyn, pan byddai i Dduw hysbysu gwybodaeth o hono ei hun yn ei Fab i'r byd, (am yr hyn y llefara yn yr adnodau blaenorol,) y meddianant y syniant hwn am foddion eu hiachawdwriaeth a'u tangnefedd, sef mai o ras Duw trwy Iesu Grist y byddai iddynt eu derbyn, ac nid o honynt eu hunain, neu drwy haeddiant eu cyfiawnder eu hunain, yr hwn megys lefain ydoedd wedi lefeinio yr holl gorph o Iuddewon braidd y pryd hyny. Felly nid yw i ddyn ddyweyd, "Yn yr Arglwydd y mae i mi gyfiawnder," yn cynwys dim mwy na phroffes yn cael ei gwneyd ganddo o'i gyfiawnhad o ras Duw, trwy Iesu Grist, megys y danghosir yn adn. 25, "Yn yr Arglwydd y cyfiawnheir holl hâd Israel." Fel hyn yr esponia Calvin y geiriau, gan ddyweyd, "O herwydd mai cyfiawnder a nerth ydyw dau brif osodiadau ein hiachawdwriaeth, y mae yr enaid cywir yn cydnabod Duw yn Awdwr o'r naill a'r llall.

Dos. V.—Yr Ysgrythyr olaf y gwn am dani, a ddygir yn mlaen o'r Hen Destament yw hon, "gan lawenychu y llawenychaf yn yr Arglwydd, fy enaid a orfoledda yn fy Nuw: canys gwisgodd fi â gwisgoedd iachawdwriaeth, gwisgodd fi a mantell cyfiawnder;" &c., Esay lxi. 10. Y mae y gwisgoedd iachawdwriaeth a mantell cyfiawnder, yn cael eu golygu i fod yn gyfiawnder Crist yn gyfrifedig i'r credinwyr, megys mantell neu wisg wedi ei rhoddi am danynt, yn yr hon y safant yn rai cyfiawn yn ngolwg Duw. Ond yr wyf yn ateb,

Y mae y geiriau gwisgo "â gwisgoedd iachawdwriaeth," a gwisgo â "mantell cyfiawnder" yn dal perthynas a'r eglwys Iuddewig yn eu gwaredigaeth o gaethiwed Babilon, (os nad o'r caethiwed y maent ynddo hyd y dydd hwn,) megys y dengys y bennod o'i dechreu i'w diwedd. Ac felly y mae Musculus yn nghyd ac esponwyr dysgedig ereill yn dehongli yr adnod hon. "Y mae y Proffwyd," medd ef, "yn personoli yr eglwys yn ei gwaredigaeth o Babilon," &c. A phan yn egluro y geiriau, "gwisgodd fi," (neu fel y mae ef yn eu cyfnewid, "Pan fydd iddo fy ngwisgo") â gwisgoedd iachawdwriaeth, gwisgodd fi a mantell cyfiawnder," efe a ddywed fel hyn: "y meddwl yw, pan fydd iddo achub a gwaredu, ac amlygu ei gyfiawnder, h.y., ei ffyddlondeb a'i ddaioni tuag ataf." Felly, nid ydym i ddeall wrth y geiriau am waith Duw yn gweinyddu bendithion ysprydol (megys yw cyfiawnhad,) trwy y rhai y byddai iddo gyfoethogi ei eglwys, ond bendithion allanol a thymhorol. Ac nid ydym i ddeall ychwaith wrth "fantell cyfiawnder," ufudd-dod Crist i'r ddeddf foesol, nid oes ynddynt gymaint a gair, sill, na llythyren mewn un modd, yn arwain i'r fath ddehongliad a hyny; ond effaith y "cyfiawnder," h.y., o wirionedd a ffyddlondeb, neu ddaioni a graslonrwydd Duw, (y mae y naill a'r llall yn cael eu dynodi yn fynych yn yr Ysgrythyrau trwy y gair "cyfiawnder,") yn eu gwaredigaeth o'u caethiwed, yn nghyd a'u tangnefedd a'u diogelwch, ac amrywiol ragorfreintiau cysurlawn ereill.

Dos. VI.—Os deallwn yr ymadroddion am waredigaeth dymhorol, (megys y gwna Musculus a dehonglwyr ereill) canfyddwn ffigiwr y geiriau yn drawgar, ie yn gyson hefyd âg iaith yr Ysgrythyrau mewn manau ereill. Gwyddom ei bod yn arferiad yn mhlith yr Iuddewon (ac nid oes ond ychydig genhedlaethau heb fod yr arferiad yn eu plith, i raddau mwy neu lai) i wisgo eu hunain yn gyfaddas i'r amgylchiadau y byddent ynddynt. Byddai ganddynt sachlïan i'w wisgo mewn amserau galarus; ac yr oedd ganddynt gwisgoedd cyfaddas hefyd, i amserau o lawenydd. Gadawaf heibio ddwyn yn mlaen Ysgrythyrau i brofi hyn, o herwydd eu bod yn eithaf hysbys. Yn awr, gan hyny, pan y mae Duw yn addaw gwisgo ei eglwys, yr hon ydoedd mewn caethiwed, a gwisgoedd iachawdwriaeth, y mae yn golygu, eu bod y pryd hwnw, yn wisgedig fel alltudion a chaethion, h.y., eu bod yn y cyflwr hwnw, ac felly yn ddarostyngedig i'r holl anfanteision a'r truenusrwydd dygwyddiadol iddynt. Ond y bydd iddo newid eu gwisgoedd, h.y., newid eu cyflyrau; o fod yn gaethion i fod yn rhyddion; o fod yn

alltudion, yn etifeddion eu gwlad eu hunain; o fod yn dylodion, yn gyfoethogion; o fod yn ddirmygus, yn anrhydeddus: y mae y Proffwyd yn gosod allan ddedwyddwch y cyflwr newydd, trwy newid eu gwisgoedd, yn ol dull arferol yr Ysgrythyrau, y rhai sydd yn gosod allan yn fynych wahanol gyflyrau trwy y gwisgoedd priodol iddynt. Felly Junius: "fel ag y mae urddas galwedigaeth neu swydd yn adnabyddus wrth y gwisgoedd cyfaddas iddi, felly, hefyd, y mae yn cael ei gosod allan yn aml yn yr Ysgrythyrau trwy hyny; megys pan y bygythiodd Duw ddiswyddo Sobna y trysorydd, ac y gosodai efe ei was Eliacim yn ei le, gan ddyweyd, "A'th wisg di hefyd y gwisgaf ef, ac a'th wregys di y nerthaf ef;" Esay xxii. 21. Yr un modd dywedir am y dyrfa fawr o waredigion allan o bob llwythau, eu bod yn "sefyll ger bron yr Oen wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion," (gwisgoedd yn ol fy marn I o'r un natur a gwisgoedd iachawdwriaeth yn Esay,) "a phalmwydd yn eu dwylaw;" Dat. vii. 9. Felly hefyd Dat. xix. 14, lle dywedir y "caniatawyd i wraig yr Oen," (yr eglwys) "gael ei gwisgo â lliain main glân a dysglaer," yr hyn a ddywedir yw "cyfiawnder y saint;" Dat. xix. 7, 8; eglur yw na feddylir dim o berthynas i gyfiawnhad trwy Grist, neu ei gyfiawnder, ond y gwobrwyon a'r anrhydedd mawr hyny a olygir yma, y rhai yr oedd Crist yn foddlon eu rhoddi i'r rhai a gyfiawnhawyd ganddo. Gelwir, "y lliain main, glân, a dysglaer," yn "gyfiawnder y saint" i arddangos nad yw y gogoniant, yr anrhydedd, a'r urddas, a ddyry Crist i'w eglwys, ddim ond gwobr grasol a ddyry ei phriod iddi, oddi ar yr ystyriaeth o'i chyfiawnder, h.y., ei santeiddrwydd, ffyddlondeb, sêl, a'i dianwadalwch, o dan erledigaeth y bwystfil, a chyfnewidiadau y byd Cristionogol. Y mae yn ddull arferol yn yr Ysgrythyr i ddynodi gwobr unrhyw beth trwy enw y peth ei hun: Felly Num. xxii. 7, lle dywedir fod henuriaid Midian a Moab wedi myned â "dewiniaeth" (yn ol yr iaith wreiddiol) "yn eu dwylaw," h.y., "gwobr dewiniaeth." Felly Dat. xiii. 10: "Dyma amynedd a ffydd y saint," h.y., gwobr amyneddgar a ffyddlon ymlyniad y saint wrth Grist, pan y gwelant ddialedd yn cael ei dywallt ar eu gelynion. Yr un modd y mae "y lliain main gwyn a dysglaer," h.y., y gogoniant dysglaer a'r hwn yr arwisgir y saint, yn cael ei alw yn "gyfiawnder y saint," o herwydd ei fod yn wobr eu cyfiawnder. Dyna ydyw eglur a chyfeiriol ystyr y geiriau. Ac y maent o'r un arwyddocâd a'r geiriau hyny, Dat. iii. 4: "A hwy a rodiant gyda mi mewn dillad gwynion; oblegyd teilwng ydynt;" yr un ydyw

teilyngdod y naill a chyfiawnder y llall, a rhoddir y naill a'r llall fel rheswm o'r anrhydedd a wneir iddynt. Trwy gydmarau yn ofalus yr Ysgrythyrau a nodwyd, (yn nghyd a llawer ereill a ellid eu hychwanegu atynt) eglur yw, wrth yr ymadrodd "gwisgoedd," a "mantell" yn Esay, nad ydym i olygu dim o berthynas i gyflwr mewnol ac ysprydol yr eglwys, llai o lawer i olygu ei chyfiawnhad, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist. Ac yn wir y mae yn beth hollol chwithyg i sylfaenu pwnc o grêd ar ymadroddion ffigwrol a thrawssymudol, pryd nad oes un Ysgrythyr amlwg i'w awdurdodi a'i gadarnhau.

Mewn perthynas i'r geiriau hyny o eiddo Paul "gwisgo am danom yr Arglwydd Iesu," Rhuf. xiii. 14; Gal iii. 27; nid yw y naill na'r llall o honynt yn llefaru am gyfiawnhad; cyfeiria y man cyntaf at santeiddhad, a'r olaf at broffes o Grist; pe na baent yn ddigon amlwg hawdd fyddai profi y naill a'r llall; cyfeirier at Calvin, Musculus, a dehonglwyr Protestanaidd ereill am eglurhad arnynt.

Ni chanfyddasom ddim yn yr Hen Destament i brofi yr athrawiaeth o gyfrifiad cyfiawnder gweithredol Crist i bechadur. Gadawn, gan hyny, yr Hen Destament, a dechreuwn gyda'r Newydd, i edrych a lefara yr Apostolion rywbeth drosti, ynte trawsnyddu eu tystiolaethau a wneir. Y mae y rhan fwyaf o'r tystioliaethau a ddygir yn mlaen o'r Testament Newydd dros y pwnc o gyfrifiad, yn cael eu dyfynu allan o'r Epistol at y Rhufeiniaid.

Y man cyntaf yw Rhuf. iii. 21, 22: "Ac yr awr hon yr eglurwyd cyfiawnder Duw heb y ddeddf, wrth gael tystiolaeth gan y ddeddf a'r Proffwydi; sef cyfiawnder Duw, yr hon sydd trwy ffydd Iesu Grist." "Wrth 'gyfiawnder Duw,'' meddant hwy, "y meddylir yma, cyfiawnder gweithredol Crist, yr hwn y mae Duw yn ei gyfrif i bob un sydd yn credu;" &c. Yr wyf yn ateb,

Yn gyntaf, y mae yr Ysgrythyr a nodwyd wedi ei hegluro yn llawn yn y rhan gyntaf o'r Traethawd hwn, lle canfyddwyd mai llefaru y mae am gyfrifiad ffydd yn gyfiawnder, ac nid mewn un modd am gyfrifiad o gyfiawnder Crist.

Yn ail, golyga rhai wrth "gyfiawnder Duw" yn yr adnod uchod, ffyddlondeb Duw i gyflawni ei addewid. Dyna olygiad Ambrose, er's amser maith. Bod y ffyddlondeb hwn o eiddo Duw yn cael ei alw yn fynych yn yr Ysgrythyrau yn "gyfiawnder," sydd wedi ei egluro eisioes.

Yn drydydd, ac yn olaf, wrth "gyfiawnder Duw," yn yr adnodau dyfynedig, y meddylir, y drefn a gafodd Duw allan

i gyfiawnhau neu wneyd dynion yn gyfiawn, neu y cyfiawnder hwnw, trwy yr hwn y'n cyfiawnheir ger bron Duw. Fel yna y mae yr esbonwyr Protestanaidd enwocaf yn dehongli y geiriau, megis Calvin, Besa, Musculus, &c., ac ni chyfarfyddais âg un yn eu golygu am gyfiawnder Crist, ac nid oes gan neb yr esgus lleiaf dros eu cymeryd felly.

Eilwaith: dychymyga rhai fod yr adnod olaf yn yr un bennod yn ffafriol i'w cyfrifiad: "A ydym ni, wrth hyny, yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? na atto Duw: eithr yr ydym yn cadarnhau y ddeddf." Meddyliant fod yn anmhosibl i'r ddeddf gael ei chadarnhau trwy ffydd, ond yn unig trwy gyfrifiad o ufudd-dod Crist i'r sawl a gredant. Yr wyf yn ateb: 1, Nid y ddeddf foesol yn unig ydym i ddeall wrth "y ddeddf" yn yr adnod uchod; y mae Calvin yn ei ddeall am y ddeddf seremonïol yn gystal a'r foesol; a dengys y modd y gellid dyweyd fod y naill a'r llall wedi eu cadarnhau trwy ffydd. O ganlyniad, y mae ef yn bell oddiwrth feddwl, fod cyfrifiad o gyfiawnder Crist yn cael ei gadarnhau trwy waith Paul yn haeru fod y ddeddf yn cael ei chadarnhau trwy ffydd.

Dos. VII.—Pe caniataer mai am y ddeddf foesol yn unig y llefara yr Apostol, eto ni enillir dim oddiwrth hyny, i ddyweyd ei bod yn cael ei chadarnhau trwy gyfrifiad cyfiawnder Crist. Canys, 1, Dywedir, megys y cadarnha Austin a Chrysostom, fod y ddeddf yn cael ei "chadarnhau trwy ffydd," oblegyd fod ffydd yn cyrhaeddyd y cyfiawnder hwnw yr oedd y ddeddf yn ei geisio, ac nis gallai ei gyrhaeddyd. Geiriau Chrysostom ydynt, fod "ffydd yn cadarnhau dymuniad y ddeddf, trwy ddwyn i berffeithrwydd yr hyn fuasai y ddeddf yn ei wneyd." 2, Gellir dyweyd fod y ddeddf foesol yn cael ei chadarnhau trwy ffydd, yn yr ystyr hwn, o herwydd fod ffydd yn puro calonau y credinwyr, ac yn gweithio allan y llygredigaethau hyny y rhai sydd yn eu hanalluogi i gyflawni gofynion y ddeddf, a thrwy hyny yn dyrchafu a lledaenu yr ufudd-dod iddi. Dyna olygiad Musculus, Paræus ac Austin ar y geiriau.

3. Golygwyf mai y dehongliad mwyaf priodol o'r geiriau yw hyn, mai wrth y "ddeddf" y golyga yr Apostol, y rhan hwnw o'r Hen Destament, cynwysedig o ysgrifeniadau Moses, yn nghyd a'r llyfrau ereill, y rhai, yn nghyd âg ysgrifeniadau y Proffwydi sydd yn ei wneyd i fynu yn llawn. Yn awr, gellir dyweyd yn briodol, fod y ddeddf, yn yr ystyr hwn, wedi ei chadarnhau trwy waith Paul yn dysgu athrawiaeth ffydd, o herwydd fod yr athrawiaeth hon yn berffaith gyson a'r hyn a ysgrifenwyd ynddynt, megys y dengys yn eglur

yn y bennod ddylynol, gan sylwi ar ddwy dystiolaeth, y naill gan Moses a'r llall gan Dafydd, i arddangos hyny. Y dehongliad olaf a gymeradwyid gan Origen, Hierom yn gyffelyb iddo, a Piscator hefyd.

Yr Ysgrythyr nesaf a ddygir dros y cyfrifiad a wrthwynebir genym yw Rhuf. iv. 6: "Megys y mae Dafydd yn datgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd." Medd rhai, "nis gall y cyfiawnder, y dywedir yma fod Duw yn ei gyfrif i ddyn, fod yn un arall ond cyfiawnder Crist." Ond i hyn yr atebaf,

Dos. VIII.—Yn gyntaf, yr hyn a olyga yr esponwyr enwocaf wrth y cyfiawnder y dywedir yma fod Duw yn ei gyfrif, yw maddeuant pechodau. "Y mae cyfiawnder cyfrifedig," medd Paræus, "yn gynwysedig mewn maddeuant, cuddio, neu beidio cyfrif pechod." Ac yn fuan ar ol hyny, dengys yn mha ystyr y gellir galw y cyfiawnder a gyfrif Duw i'r credinwyr, "yn gyfiawnder Crist," gan ddyweyd, "yn yr ystyr hwn y gelwir cyfiawnder cyfrifol yn 'gyfiawnder Crist,' nid o herwydd ei fod yn reddfol neu yn preswylio ynddo, ond mewn ffordd o haeddiant, o herwydd ei fod wedi ei haeddu i ni trwy deilyngdod Crist." Dyfynwyd amrywiol dystiolaethau oddiwrth awduron dysgedig o'r un farn ag ef yn hyn. "Fe'n dysgir," medd Calvin ar y geiriau, "fod maddeuant pechodau yn rhad, am y cyfrifir ef heb weithredoedd."

Yn ail, meddyliwyf y gellir dehongli yr ymadrodd "cyfrif cyfiawnder" yn fwy priodol, wrth yr ymadrodd cyferbyniol "cyfrif pechod." Ni olyga, "cyfrif pechod" ond yn unig "edrych ar ddyn yn gyfiawn ddarostyngedig i gospedigaeth," neu, "weinyddu cospedigaeth ar ddyn am bechod." Yr ystyr olaf a ganfyddir fynychaf yn ngweithiau awduron o gyfrifiad. Medd Paræus, "Y mae Duw yn cyfrif pechod, pryd y mae yn cospi; ond nid yw efe yn ei gyfrif, pan yn maddeu." Felly y mae Calvin yn gwneyd peidio cyfrif pechod, a pheidio cospi pechod, yn gyfystyr: "Os nad yw 'cyfrif pechod' yn arwyddo mwy nag 'ystyried dyn yn ddarostyngedig i gospedigaeth am bechod,' neu 'weinyddu cospedigaeth arno ef,' sicr felly, nad yw 'cyfrif cyfiawnder' yn cynwys dim arall, ond 'edrych ar ddyn fel un cyfiawn,' neu, ynte, roddi iddo ragorfreintiau dyn cyfiawn." Ond pa fodd bynag,

Yn olaf, nid oes un sail na chysgod o reswm yn y fan hon i feddwl mai cyfiawnder Crist a olygir wrth "gyfiawnder" yn yr Ysgrythyr hon.

Dos. IX.—Yr Ysgrythyr nesaf a gamddefnyddir yw,

Rhuf. v. 19: "Oblegyd megys trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid, felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn." Oddiwrth hyn dadleuir, "megys y mae dynion trwy gyfrifiad anufudd-dod Adda wedi eu gwneyd yn bechaduriaid ffurfiol, *(formally)* felly hefyd, trwy gyfrifiad ufudd-dod Crist y gwneir dynion yn ffurfiol *(formally)* gyfiawn." I hyn yr atebaf,

Ni ddywedir yma, mai trwy gyfrifiad anufudd-dod Adda y gwneir dynion yn bechaduriaid ffurfiol, ond yn unig yn "bechaduriaid," neu yn hytrach yn bechadurus, h.y., yn ddarostyngedig i gondemniad a marwolaeth, (fel ag y mae Esgob Davenant, (Bish. Daven. de Justi. Act., &c. p. 363) ac ereill yn dehongli y gair, ac megys y defnyddir y gair "pechadur" yn aml yn yr Ysgrythyr, 1 Bren. i. 21; Diar. vi. 29; Salm cix. 7, &c.) neu ynte yn bechaduriaid trwy genhedliad, ac nid trwy gyfrifiad, megys y cadarnha Augustine, Peter Martyr, Musculus a niferoedd ereill. Felly, yn ôl y dehongliadau uchod o'r gair "pechaduriaid" nid oes ynddynt ddim dros gyfrifiad o gyfiawnder Crist.

2. Nid cydmaru y mae yr Apostol ufudd-dod Crist âg anufudd-dod Adda, megys un weithred â gweithred arall, ond megys boddlonrwydd yn ngwyneb yr anfoddlonrwydd, neu feddyginiaeth gyda'r afiechyd. Ac os yn wahanol, gwnai ar unwaith na byddai pechodau o omeddiad yn ufudd-dod, oblegyd nid yw esgeulusiad yn weithred; ond yr oedd troseddiad Adda yn gynwysedig nid yn unig yn y cyflawniad o ddrwg, ond esgeuluso gwneuthur yr hyn ydoedd dda hefyd. O ganlyniad, yn

3. Wrth ufudd-dod Crist, trwy yr hwn y dywedir yma, "Y gwneir llawer yn gyfiawn," h.y., eu cyfiawnheir; nid ydym i olygu y cyfiawnder hwnw o eiddo Crist sydd yn gynwysedig yn ei ufudd-dod i'r ddeddf foesol yn unig, ond ei gyfiawnder Iawnyddol neu ei ufudd-dod i'r ddeddf gyfryngol a roddwyd iddo, yr hyn ydoedd yn gynwysedig yn benaf yn ei ddyoddefaint. Y mae niferoedd lawer o esponwyr hen a diweddar dros y dehongliad uchod i'r gair "ufudd-dod." Cydmarent yr Ysgrythyr hon â Phil. ii. 8., lle dywedir am Grist, iddo "ddarostwng ei hun gan fod yn ufudd hyd angeu." Golygant fod y ddwy Ysgrythyr yn llefaru am yr unrhyw ufudd-dod. Theophylact, Martyr, Calvin, Musculus, Paræus, Piscator, Gaulter, a Gataker ydynt dros y dehongliad yna. Paræus a ddyry ddau reswm drosto; y cyntaf yw, y cyferbyniad y mae yr Apostol yn ei wneyd rhwng anufudd-dod Adda ac ufudd-dod Crist; "Yr hyn," meddai, "nis gall fod os golygwn holl ufudd-dod Crist i

ofynion y ddeddf foesol, yn gymaint nad oedd anufudd-dod Adda ond *un* weithred o droseddiad. Ei ail, a'i brif reswm yw, yr effaith a briodolir i ufudd-dod Crist, sef, gwneyd llawer yn gyfiawn; " yr hyn," medd ef, "y mae yr Apostol bob amser yn ei briodoli i farwolaeth Crist; ïe, a'r holl Ysgrythyrau a ddysgant i'n ffydd geisio ei chyfiawnder yn ei farwolaeth." O ganlyniad, gwelwn nad oes yma ddim dros gyfrifiad o ufudd-dod gweithredol Crist.

4. Golyger mai wrth "ufudd-dod Crist" y dylid deall yma,—yr hyn sydd yn hollol groes i farn yr Ysgrythyrau, ac esponwyr hefyd—ei gyfiawnder gweithredol, neu ei ufudd-dod i'r ddeddf foesol; eto, nid yw yn canlyn fod dynion yn rhwym o gael eu cyfiawnhau trwyddo mewn ffordd o gyfrifiad. Canys sicr yw, mai am yr un cyfiawnhad y llefara yr Apostol yn adn. 19, ac yn adn. 16, 17, 18. Yn awr y cyfiawnder (megys ei geilw, adn. 17.) a ddywedir, yn adn. 16, yw y dawn (h.y., maddeuant,) o gamweddau lawer; h.y., o'r holl droseddau y mae dyn yn sefyll yn euog o honynt ger bron Duw; ac y mae yn berffaith eglur, nas gall y cyfiawnhad sydd yn sefyll mewn maddeuant pechodau, byth sefyll mewn cyfrifiad o gyflawniad o'r ddeddf.

Dos. X.—Ysgrythyr arall a ddygir yn mlaen dros gyfrifiad yw Rhuf. viii. 4: "Fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynom ni, y rhai ydym yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd." Oddiwrth y geiriau yna dadleuir fod yn anmhosibl dyweyd fod "cyfiawnder y ddeddf yn cael ei gyflawni ynom ni," mewn un ystyr arall, ond yn unig trwy gyfrifiad cyfiawnder Crist i ni. Ond i hyn yr wyf yn ateb, yn

1. Fod rhai dysgedigion yn deall y geiriau am santeiddhad, yn hytrach nag am gyfiawnhad; ac wrth "gyflawni cyfiawnder y ddeddf," deallant yr ufudd-dod efengylaidd a gyflawna pob credadyn.

2. Nas gellir golygu, " wrth gyflawni cyfiawnder y ddeddf," yn y rhai sydd yn credu, gyfrifiad o gyfiawnder gweithredol Crist, sydd amlwg oddiwrth hyn, Y rhaid iddo fod yn gyfryw gyfiawnder neu gyflawniad o'r ddeddf mewn credinwyr, ag sydd yn ganlyniad priodol o waith Crist yn "condemnio pechod yn y cnawd," yn adn. 3, canys dengys y cyd-destyn yn eglur, yr amcanai Duw i'r olaf fod yn ffrwyth neu ganlyniad y cyntaf; "Canys yr hyn ni allai y ddeddf," medd yr Apostol, "o herwydd ei bod yn wan trwy y cnawd, Duw a ddanfonodd ei Fab, yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac am pechod a gondemniodd bechod yn y cnawd; fel y cyflawnid cyfiawnder y ddeddf ynom ni," &c. Y mae

y gair "fel" yn arwyddo mai "cyflawni cyfiawnder y ddeddf" yn y rhai sydd yn credu, ydyw effaith uniongyrchiol gwaith Crist yn "condemnio pechod yn y cnawd." Yn awr, y mae yn anmhosibl i gyfiawnder gweithredol Crist, neu y cyfrifiad o hono, fod yn effaith neu ganlyniad uniongyrchiol Crist yn "condemnio pechod yn y cnawd:" canys trwy y dynodiant hwn eglur yw, mai golygu y mae yr Apostol ddiddymiad euogrwydd pechod, trwy farwolaeth Crist. Ond pa fodd y gall diddymiad euogrwydd pechod trwy farwolaeth Crist fod yn foddion i gyfrif cyfiawnder ei fywyd, nis gallaf ddirnad.

Dos. XI.—Y mae galw cyfrifiad o gyfiawnder Crist i gredinwyr yn "gyflawni y ddeddf ynddynt," yn ddynodiant tra chwithyg. Canys y mae yr ymadrodd "ynom ni," bob amser yn dynodi ryw beth yn feddiannol berthynol mewn dynion, neu ynte ryw fath ar weithrediad. Y mae amddiffynwyr cyfrifiad eu hunain yn unfryd yn credu mai yn Nghrist yn unig y preswylia ei gyfiawnder trwy feddiant gwreiddiol, yn ereill dim ond trwy gyfrifiad yn unig. Felly, yn yr ystyr hwn, nis gellir dyweyd fod cyfiawnder Crist wedi ei gyflawni ynddynt hwy; ac nis gallant ddyweyd ychwaith fod "cyfiawnder y ddeddf," neu gyfiawnder Crist, wedi ei gyflawni ynddynt hwy, mewn ffordd o weithrediad; oblegyd nid hwy ydyw gweithredwyr y cyfiawnder hwn. O ganlyniad, y mae yn annghyson â phob ystyr a golygiad cywir i ddyweyd fod cyfiawnder cyfrifol wedi ei gyflawni mewn dynion.

4. Os golygwn, wrth "gyfiawnder y ddeddf," yr ufudd-dod ag y mae pob credadyn, yn ol eu gwahanol alwedigaethau a'u sefyllfaoedd, dan rwymau i'w gyflawni, y mae yn annghyson â phob synwyr i ddyweyd fod hwnw yn cael ei gyflawni ynddynt trwy "gyfrifiad cyfiawnder Crist iddynt;" o herwydd nid oes braidd un credadyn ar nad yw yn sefyll mewn dyled i Dduw, i gyflawni llaweroedd o weithredoedd o lawer math o ufudd-dod, nad ydynt i'w cael yn y llechres euraidd o weithredoedd cyfiawnder a gyflawnwyd gan Grist. O ganlyniad, y mae yn annichonadwy i gyfiawnder y ddeddf, yn yr ystyr yna, gael ei gyflawni yn y rhai sydd yn credu, trwy gyfrifiad o gyfiawnder gweithredol Crist iddynt.

Dos. XII.—Yr Ysgrythyr nesaf yw Rhuf. ix. 31. 32: "Ac Israel, yr hwn oedd yn dylyn deddf cyfiawnder, ni chyrhaeddodd ddeddf cyfiawnder. Paham? Am nad oedd yn ei cheisio trwy ffydd, ond megys trwy weithredoedd." Oddi wrth y geiriau ymresymir fel hyn,—Pe buasai Israel,

h.y. yr Iuddewon, y rhai oedd yn "dylyn ar ol deddf cyfiawnder," yn credu yn Nghrst, buasent yn "cyrhaeddyd deddf cyfiawnder," h.y., buasent wedi derbyn y cyfiawnder a gyflawnwyd gan Grist, trwy gyfrifiad. Yr wyf yn ateb,

Yn gyntaf, mai nid y ddeddf foesol a olygir wrth "ddeddf cyfiawnder" y dywedir yma fod yr Iuddewon yn ei dylyn, ac yn wir, nid unrhyw ddeddf a elwir felly yn briodol, moesol, seremoniol, na gwladol; canys yr oedd Duw wedi rhoddi iddynt yr holl gyfreithiau hyn, fel nad oedd un angenrheidrwydd arnynt i'w dylyn. Os gwrth-ddadleuir yma, oni ellir galw eu hymdrech i gadw y ddeddf, yn "ddylyn y ddeddf,"? Atebaf, boed felly; eto nis gallasai yr ymdrech hwnw o'i heiddo fod yn un achos iddynt fethu a chyrhaedd cyfiawnder neu gyfiawnhad, yr hyn a briodolir yn bennodol i ddylyn deddf cyfiawnder a grybwyllir yn y geiriau. Megys nad yw Cristionogion ddim pellach oddi wrth fod wedi eu cyfiawnhau trwy gadw gorchymynion Duw, felly yr un modd nid oedd ymdrech yr Iuddewon i gadw gorchymynion y ddeddf a roddes Duw iddynt, yn un achos o rwystr iddynt gael eu cyfiawnhau. Yr oedd Abraham, a phawb a gyfiawnhawyd trwy ffydd yn Nghrist megys yntau, mor ddichlynaidd yn eu hufudd-dod i holl gyfreithiau Duw, a neb o'r rhai a dramgwyddasant wrth y maen tramgwydd, na chyfiawnhawyd mo honynt erioed. Am hyny, nid yw yr ymadrodd "deddf cyfiawnder" yn yr adnod hon ddim yn golygu un ddeddf a elwir felly mewn ystyr briodol, a llai o lawer y mae yn golygu "y ddeddf foesol" yn bennodol.

Yn ail, tybia Calvin mai traws-newidiad geiriau sydd yn y rhan gyntaf o'r adnod, "deddf cyfiawnder" yn cael ei roddi am gyfiawnder y ddeddf: yn y rhan ddiweddaf o'r adnod efe a'i deallai mewn ystyr wahanol, sef am reol cyfiawnder. Calvin, Rhuf. ix. 1.

Gwahaniaetha Musculus ychydig oddiwrth y dehongliad yna; wrth "ddeddf cyfiawnder" y golygai ef y cyfiawnder sydd yn gynwysedig o weithredoedd y ddeddf. Ni ddarfu y ddau yna, (na neb ereill a wn am danynt) erioed gaethiwo y gair "deddf" yn yr adnodau dyfynedig, i olygu y ddeddf foesol.

Dos. XIII.—Yn drydydd, nid oes un rheswm i gyfyngu geiriau yr Apostol, sef "deddf cyfiawnder" i'r ddeddf foesol a'i chyfiawnder yn unig; oblegyd y mae yn ddigon hysbys, nad oedd yr Iuddewon yn gobeithio am, nac yn ceisio cyfiawnder neu gyfiawnhad, trwy y ddeddf foesol yn unig, ond trwy y ddeddf seremoniol hefyd, ïe, a thrwy hon yn benaf.

Felly wrth "ddeddf cyfiawnder" y methasant ei chyrhaeddyd, am nad oeddynt yn ei cheisio trwy ffydd, y mae yn anmhosibl golygu y ddeddf foesol,' oblegyd nad oeddynt yn meddwl nac yn gobeithio cael eu cyfiawnhau trwy y ddeddf foesol yn unig.

Yn olaf, gwir feddwl y geiriau yw hyn; wrth "ddeddf cyfiawnder" y dywedir fod Israel wedi ei dylyn ac heb ei chyrhaeddyd, y meddylir cyfiawnhad a dim arall, yr hyn yr ymdrechai yr Iuddewon i'w gyrhaeddyd, "trwy weithredoedd y ddeddf," h.y. trwy deilyngdod eu gweithredoedd eu hunain, ac nid trwy ffydd yn Nghrist; a thrwy hyny methasant ei gyrhaeddyd—collasant ffafr Duw, a buont feirw yn eu pechodau. Mai dyna ydyw gwir ac eglur feddwl y geiriau, a ellir ei brofi trwy amrywiol ffyrdd.

Dos. XIV.—1. Y mae galw "cyfiawnder," yn unig, h.y., cyfiawnhad yn "ddeddf cyfiawnder," yn gyson â dull arferol yr Apostol Paul. Canys wrth "ddeddf pechod," Rhuf. vii. 23 a 25, nid yw yn golygu dim ond pechod yn unig; felly, Rhuf. iii. 27, wrth "ddeddf ffydd," ni olyga ond ffydd yn unig; a'r un modd, Rhuf. viii. 2, wrth "ddeddf pechod a marwolaeth," ni olyga ddim arall ond pechod a marwolaeth. Canys ni pherthyna deddf (a elwir felly mewn ystyr briodol) i'r un o'r rhai yna; dim ond yn unig fod y gair "deddf" yn gysylltiedig â'r ymadroddion, yn eu presenoli yn fwy trawgar a phwysig.

2. Pan y llefara yr "Apostol hwn am "gyfiawnder y ddeddf," nid yw byth yn arfer ei alw yn "ddeddf cyfiawnder," ond bob amser mewn iaith eglur a chyfeiriol, yn "gyfiawnder y ddeddf." Gwel Rhuf. ii. 26. viii. 4.

3. Y mae yr esponiad hwn yn arddangos, yn eglur a llawn, y cyferbyniad deublyg y mae yr Apostol yn ei wneyd rhwng y cenhedloedd, adn. 30, a'r Iuddewon, adn. 31; ac y mae pob esponiad arall yn gwanychu y grym, ac yn tywyllu eglurdeb y cyferbyniad. Yn adn. 30 y dywed, "Y cenhedloedd, y rhai nid oeddynt yn dylyn cyfiawnder," h.y., nid oeddynt yn ceisio nac yn gofalu am un cyfiawnder ger bron Duw; "ond Israel," adn. 31, oedd yn dylyn deddf cyfiawnder," h.y., hwy a'i hystyrient yn orchwyl o bwys iddynt feddu cyfiawnder ger bron Duw, ac a redant yrfa o gyflawniadau, o'r fath ag oedd, i amcanu ei gyrhaeddyd. Eilwaith, efe a ddywed, adn. 30, "Y cenhedloedd wedi derbyn cyfiawnder;" h.y., er eu cyfiawnhad ger bron Duw; llawer o honynt a gyfiawnhawyd ac a achubwyd. "Ond Israel nis gallai gyrhaeddyd deddf cyfiawnder," h.y., nis gallasant feddianu cyfiawnhad.

4. Ymddengys mai cyfiawnhad a olyga yr Apostol wrth "ddeddf cyfiawnder" y dywedir nas gallasai Israel ei chyrhaeddyd, oddiwrth y rheswm a ddyry efe yn adn. 32, dros fod Israel yn fyr o'i chyrhaeddyd. "Paham? am nad oeddynt yn ei cheisio trwy ffydd, ond megys trwy weithredoedd y ddeddf." Os ufudd-dod neu gyfiawnder y ddeddf, a ddeallwn wrth "ddeddf cyfiawnder," yr hon oedd Israel yn ei dylyn, y mae y rheswm a ddyry yr Yspryd Glân, paham nad allasent ei chyrhaeddyd, sef "o herwydd eu bod yn ei cheisio trwy weithredoedd y ddeddf," yn afresymol. Canys pa reswm fyddai, dyweyd nas gall dyn gyrhaeddhyd cyfiawnder neu ufudd-dod y ddeddf, am ei fod yn ei geisio trwy weithredoedd y ddeddf? Ond dyweyd nas gall dyn gyrhaeddyd cyfiawnhad o herwydd ei fod yn ei geisio trwy weithredoedd y ddeddf, sydd yn berffaith gyson â rheswm a gwirionedd.

Yr Ysgrythyr nesaf a ddygir yn mlaen, yw, Rhuf. x. 4: "Canys Crist yw diwedd y ddeddf er cyfiawnder i bob un sydd yn credu;" o ganlyniad, y mae cyfiawnder Crist, neu yr ufudd-dod a roddodd efe i'r ddeddf foesol, yn cael ei gyfrif er cyfiawnder i'r rhai sydd yn credu, meddynt. Nid ydyw yr Ysgrythyr hon yn profi y fath beth. Canys,

Yn gyntaf, nid oes gymaint a chysgod o reswm i feddwl, mai y ddeddf foesol yn benodol a feddylir wrth "y ddeddf" yn y geiriau yna; oblegyd ni feddyliodd yr Iuddewon (â'r rhai y mae yr Apostol yn ymddadlu yma) erioed am gyfiawnhad trwy y ddeddf foesol yn unig, ond trwy y ddeddf seremonïol, a hono yn benaf hefyd. Nid yw Calvin, nac un esponiwr arall y cyfarfyddais ag ef, yn deall y geiriau am y ddeddf foesol. Heblaw hyny, eglur yw, oddiwrth adn. 5, mai nid am y ddeddf foesol y llefara efe; canys yno y mae yn dyfynu y desgrifiad a rydd Moses o gyfiawnder y ddeddf; ond nid yw yn dyfynu un rhan o'r ddeddf foesol, ond o'r ddeddf seremonïol, "y dyn a wnel y pethau hyn a fydd byw trwyddynt," yr hyn yw desgrifiad Moses o gyfiawnder y ddeddf, Lef. xviii. 5; y rhai ydynt mewn modd neillduol wedi eu llefaru am y cyfreithiau hyny sef seremonïol a gwladol; canys fel hyn y dywedir, "Ië, cedwch fy neddfau a'm barnedigaethau: a'r dyn a'u cadwo a fydd byw ynddynt." Felly eglur yw, nad am y ddeddf foesol y llefara yr Apostol.

Yn ail, y mae yr esponwyr Groegaidd megys Chrysostom, Theophylact, a Theodoret, yn golygu fod Crist yn cael ei alw yn "ddiwedd y ddeddf i bob un sydd yn credu," o herwydd ei fod ef wedi amlygu iddynt yr hyn a honai y ddeddf fel ei dyben, ac a fuasai yn ei gyflawni pe gallasai, sef eu cyfiawnhau.

Ond yn drydydd, ymddengys mai gwir feddwl yr Apostol yw hyn, "Crist yw diwedd y ddeddf er cyfiawnder i bob un sydd yn credu;" h.y., yr oedd yr holl oruchwyliaeth fosenaidd wedi ei rhoddi gan Dduw i'r Iuddewon, i'w haddysgu o berthynas i'r Messia fel y gallent gredu ynddo a chael eu cyfiawnhau, eu hyfforddi, a'u parotoi ar gyfer y Messia addawedig, ac addoliad y Duw Byw a sefydlai efe yn y byd. Hwn ydoedd esponiad Crysostom, Gataker, ac y mae Paræus yn ei amddiffyn; ac ymddengys fod Calvin yn ffafriol iddo hefyd. Calvin, Rhuf. x. 4. Gellir cadarnhau y dehongliad yna,

Yn gyntaf, oddiwrth y cyd-destyn; canys y mae yn sicr mai meddwl yr Apostol yw, mai diwedd y ddeddf hono "ydoedd Crist, er cyfiawnder i bob un sydd yn credu," sef, yr hon y ceisiai yr Iuddewon gael eu cyfiawnhau trwyddi. Y mae hyn wedi ei brofi yn eithaf eglur, fod yr Iuddewon yn ceisio cyfiawnhad oddiwrth eu hufudd-dod i'r ddeddf seremoniol, yn gystal a'r foesol.

Yn ail, oddiwrth feddwl a chydsyniad Ysgrythyrau ereill, 2 Cor. iii. 13, lle dywedir, "fel nad edrychai plant Israel yn graff ar ddiwedd yr hyn a ddileid," h.y., yr oruchwyliaeth Fosenaidd, fel y mae yn eglur oddiwrth yr holl bennod. Yn awr, beth oedd diwedd yr oruchwyliaeth hono, ond Crist, a chyfiawnhad trwyddo ef? Felly, Gal. iii. 24, "Y ddeddf, gan hyny, oedd ein hathraw ni at Grist, fel y'n cyfiawnheid trwy ffydd." Wrth y gair "deddf," yn y geiriau yna, y mae yn anmhosibl i ni olygu y ddeddf foesol; canys y mae yr holl gyd-destynau, o'r 13 hyd y 25, yn cyfodi yn erbyn y golygiad; ac nis gwn am un esponiwr yn deall yr ymadrodd felly; ond fe'i deallir am holl gyfundraeth goruchwyliaeth Moses, ac yn fwyaf neillduol y rhan seremoniol o honi.

Fel hyn, o'r diwedd, yr ydym wedi profi, yn eglur a helaeth, nad yw cyfiawnder Crist yn gyfrifadwy, oddiwrth y rhesymau hyny a sylfaenir yn gyffredin ar yr epistol at y Rhufeiniaid, yn yr hwn y mae y rhan fwyaf o rym ein gwrthwynebwyr yn gorphwys. Ymdrechaf i grynhoi atebion i'r Ysgrythyrau sydd yn aros eto i derfyngylch llai nag yn y rhai blaenorol.

Dos. XV.—Y gyntaf o'r rhai hyny, yw 1 Cor. i. 30, "Eithr yr ydych chwi o hono ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, yn gyfiawnder, yn santeiddrwydd, ac yn brynedigaeth." O herwydd y dywedir yma fod Crist wedi ei wneuthur gan Dduw yn gyfiawnder i ni, dadleuir, oddiwrth hyny, fod cyfiawnder Crist yn gyfrif-

edig i ni. Eithr i hyn yr atebaf, fod yn yr Ysgrythyr hon lai o sail i gyfrifiad dychymygol ein gwrthwynebwyr nag mewn un o'r rhai blaenorol. Canys,

Yn gyntaf, Ni ddywedir yma fod Crist wedi ei wneyd yn "gyfiawnder i ni," amgen nag y mae wedi ei wneyd yn ddoethineb, ac yn santeiddrwydd i ni. O ganlyniad, nid oes mwy o sail i gasglu oddiwrth y geiriau yna, fod cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif yn gyfiawnder i ni, mwy na chasglu fod ei ddoethineb yn cael ei gyfrif yn ddoethineb i ni, neu ei santeiddrwydd yn santeiddrwydd i ni. Ac os ydyw yn gasgliad anmhriodol oddiwrth y geiriau yna, ein bod ni yn ddoethion â doethineb Crist, trwy gyfrifiad o hono i ni, yr un mor afresymol ac anmhriodol yw casglu oddiwrthynt ein bod ni yn cael ein gwneyd yn gyfiawn â chyfiawnder Crist, trwy gyfrifiad o hono i ni. Amlwg yw, i bawb, nad oes ynddynt fwy o son am gyfrifiad o'r naill nag o'r llall.

Yn ail, pan y dywedir fod Crist wedi ei "wneyd yn gyfiawnder i ni," y meddwl yw hyn, ei fod wedi ei wneyd gan Dduw yn awdwr neu unig achos, mewn ffordd o haeddiant, o'n cyfiawnhad, ac wedi ei bwrcasu yn gwbl i ni trwy ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth. Canys,

Dos. XVI.—Yn gyntaf, arferir y gair "cyfiawnder," yn aml gan yr Apostol Paul am gyfiawnhad, megys y sylwasom o'r blaen.

Yn ail, priodolir bob amser yn yr Ysgrythyrau y cyfiawnhad neu gyfiawnder ag y mae y credinwyr yn ei feddiannu yn, neu trwy Grist, i'w ddyoddefiadau a'i farwolaeth, megys y nodasom o'r blaen, ac nid byth i'w gyfiawnder neu ufudd-dod gweithredol

Yn drydydd, y mae yn annghyson âg egwyddorion ein gwrthwynebwyr eu hunain, fod Crist trwy ei ufudd-dod gweithredol yn unig yn cael ei wneyd yn gyfiawnder i ni. Am hyny, pan y ceisiant yr athrawiaeth o gyfrifiad cyfiawnder o'r geiriau yna, y maent yn ymwrthod a'u hegwyddorion eu hunain.

Yn olaf, y mae yr esponiad a roddwyd o'r geiriau yn cael ei anrhydeddu a chydsyniad esponwyr iawn-gred a dysgedig; ni ddeallent ddim mwy wrth y geiriau fod "Crist wedi ei wneyd yn gyfiawnder i ni" na'n cyfiawnhad trwyddo ef; a rhai a leolant y cyfiawnhad hwn yn maddeuant ein pechodau, ereill a'i priodola i Iawn yr Arglwydd Iesu; ond nid oes neb o honynt yn priodoli y pwrcas o hono i'w ufudd-dod gweithredol, neu yn ei leoli yn y cyfrifiad o hwnw i ni. Gwel Cry-

sostom, Theophylact, Pomeranus, a Piscator, ar y geiriau. Gataker yr un modd, sydd yn gwrthod y dehongliad hwn, am nad oes ynddo gysgod na sylwedd o wirionedd, ag sydd yn sefydlu cyfrifiad o gyfiawnder gweithredol Crist ar yr Ysgrythyr a ddyfynwyd olaf. Bernard hefyd sydd yn cymeradwyo yr ystyr a roddwn ni i'r geiriau dan sylw: "Y mae Crist," medd ef, yn ol cyfieithiad Esgob Downham, "wedi ei wneyd i ni yn ddoethineb, trwy bregethu; yn gyfiawnder, mewn maddeuant pechodau." Eilwaith: "Goleua fy llygaid, fel y byddwyf ddoeth; na chofia bechodau ac ynfydrwydd fy ieuenctyd, a chyfiawn fyddaf." Eilwaith eto: "Efe a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, trwy ddysgu doethineb; yn gyfiawnder, trwy faddeu pechodau. Y rhai a ddysgwyd yn ei athrawiaeth ef yn unig sydd ddoeth; a'r cyfryw yn unig sydd gyfiawn, a dderbyniasant o'i drugaredd ef faddeuant pechodau." Yn yr amrywiaeth yna o ymadroddion, amlwg yw, ei fod yn lleoli y cyfiawnder neu gyfiawnhad, y dywedir fod Crist wedi ei wneyd yn gyfryw i ni, yn maddeuant ein pechodau; ac yn ngoleu y fath ymadroddion, a'r gosodiadau blaenorol ar y geiriau, meddyliwyf na ddadleuir mwy dros gyfrifiad o gyfiawnder gweithredol Crist oddiwrth yr Ysgrythyr fu dan sylw yn bresennol.

Dos. XVII.—Yr Ysgrythyr nesaf yw 2 Cor. v. 21, "Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef." Y mae rhai yn casglu, oddiwrth y geiriau yna, Gan fod ein pechodau ni yn cael eu cyfrif i Grist, cyfrifir ei gyfiawnder gweithredol ef i ninau. O'r holl Ysgrythyrau a ddefnyddiant dros gyfrifiad, megys y dywed Mr. Gataker, dyna yr un amlycaf i'w herbyn o bob un.

Yn gyntaf, Nid oes un sail yn yr Ysgrythyr hon i'r casgliad a dŷn rhai oddiwrthi: ni sonir gair yma am gyfrifiad o'n pechodau i Grist, ac, o ganlyniad, nid oes ynddynt un sail i gyfrifiad cyferbyniol o'i gyfiawnder ef i ninau. Mewn perthynas i'r dynodiant yna, fod Crist wedi ei wneyd yn bechod drosom ni, ni arwydda y fath beth, fel y dangosir yn fuan.

Yn ail, Y mae rhai o amddiffynwyr mwyaf dysgedig yr athrawiaeth o gyfrifiad, yn ymwrthod â'r golygiad hwn, Mai fel y cyfrifwyd ein pechodau ni i Grist y cyfrifir ei gyfiawnder ef i ninau. "Nid oes yr un grym neu allu," medd Esgob Davenant, "i'n hannghyfiawnder ni i wneyd Crist yn annghyfiawn, ag sydd yn ei gyfiawnder ef i wneyd y rhai

sydd yn credu yn gyfiawn." Felly, yn ol eu hegwyddorion eu hunain, os nad yw cyfiawnder Crist yn gyfrifedig i ni, yn amgen nag y cyfrifir ein pechodau ni iddo ef, ni wneir mo honom yn ffurfiol gyfiawn trwy y cyfrifiad hwnw.

Yn drydydd, Nid oes, yn y geiriau a nodwyd, gymaint a chysgod o gydmhariaeth yn cael ei gwneyd rhwng Crist yn cael ei wneyd yn bechod drosom ni, beth bynag a feddylir wrth hyny, â'n gwneuthuriad ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef; ni wneir ynddynt ond yn unig dangos a chadarnhau yr olaf megys dyben, canlyniad, neu effaith y cyntaf.

Yn bedwerydd, Dyweyd fod cynwysiad yr ymadrodd "ynddo ef" yn cael ei ddwyn oddiamgylch trwy gyfrifiad ei gyfiawnder ef, nid oes engrhaifft yn yr Ysgrythyr, rheol mewn gramadeg, na ffigiwr mewn areithyddiaeth, a'i cefnoga mewn un modd.

Yn bummed, Eglur feddwl y geiriau yw hyn, fod Duw wedi gwneyd Crist yn bechod, h.y., yn bech-aberth dros ein pechodau ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef, h.y., fel y'n cyfiawnheid, neu yn gwnelid yn gyfiawnion, yn ol y drefn neillduol o gyfiawnhad a sefydlodd Duw trwy aberth ei Fab. Y mae y dehongliad yna yn gywir ar yr ystyriaethau canlynol:—

Dos. XVIII.—Yn gyntaf, Y mae yn ddynodiant Ysgrythyrol aml, i alw pech-aberth, neu aberth dros bechod, wrth yr enw "pechod" yn unig. Gwel Ecs. xxix. 14; xxx. 10; Lef. v. 6. 16. 18. 19; vii. 1; ii. 7; ix. 7; Ezec. xliv. 19. 23; Hos. iv. 8.

Yn ail, Y mae yn gyson âg arferiad yr Ysgrythyrau i osod allan Gymdeithas o gyfiawnion, trwy y gair "cyfiawnder" yn unig.

Yn drydydd, Y mae yr attodiad "Duw," sef, "cyfiawnder Duw," yn arwyddo, fod y cyfiawnder neu gyfiawnhad a etifedda y credinwyr trwy aberth Crist, nid yn unig yn ddawn o gyfiawnder o ras Duw, ond o'i drefniad neillduol ef hefyd.

Yn bedwerydd, Oddiwrth ddibyniaeth y rhan olaf o'r ymadrodd, sef, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw yn Nghrist, ar yr un blaenorol, iddo ef gael ei wneyd yn bechod drosom ni, y mae yn eglur, y dylid golygu yr effaith yn yr olaf i gyfateb â'r achos yn y cyntaf, sef marwolaeth Crist drosom. Yn awr, priodol effaith marwolaeth Crist yw, gwaredigaeth oddiwrth euogrwydd a chospedigaeth pechod, ac nid cyfrifiad o'i ufudd-dod gweithredol. Nid marw dros ddynion wnaeth Crist, iddynt allu cael eu cyfiawnhau trwy weithredoedd ei fywyd.

Yn bummed, Nid ydyw yr Ysgrythyrau, pan yn llefaru am ddyoddefiadau a marwolaeth Crist, gyda golwg ar gyfiawnhad, byth yn priodoli un effaith arall iddynt ond maddeuant pechodau, gwarediad rhag digofaint, prynedigaeth, neu y cyffelyb, "Crist a'n llwyr brynodd ni oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith trosom," Gal. iii. 13.

Yn chweched, Y dehongliad a roddwyd i'r geiriau yna, o ran y sylwedd o hono, ydyw esponiad dehonglwyr heb rif, megys Chrysostom, Theophylact, Œcumenius, Calvin, Musculus, Piscator, &c. Hebgoraf osod i lawr ddyfyniadau o honynt, gan fod yr Awdwyr eu hunain, os oes neb yn ammheu, yn agored iddynt gyfeirio atynt.

Dos. XIX.—Yr Ysgrythyr olaf a sylwaf arni yw Gal. iii. 10; "Canys ysgrifenwyd, melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt." Oddiwrth yr ymadrodd yna dadleua rhai, "Os yw pob un nad yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn y ddeddf i'w gwneuthur hwynt, yn felldigedig, yna nis gall undyn gael ei gyfiawnhau, ond y mae yn aros yn felldigedig, tu yma i feddu perffaith ufudd-dod i'r ddeddf yn gyfrifedig iddo oddiwrth Grist." Eithr i hyn yr atebaf,

Yn gyntaf, os nad oes yr un moddion arall i symyd ymaith y felldith a fygythir yn erbyn y rhai sydd wedi pallu i aros "yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn y ddeddf i'w gwneuthur," ond trwy gyfrifiad o gyflawniad perffaith o'r ddeddf gan Grist iddynt, gwae i'r holl fyd heb wahaniaeth. Canys sicr yw,

1. Nad oes y fath gyflawniad digoll o'r ddeddf yn cael ei gyfrif oddiwrth Grist i un dyn; megys y profwyd yn helaeth eisioes. 2. A phe byddai y fath gyfrifiad yn bod, nis gallai byth symyd ymaith y felldith: y mae hon yn cydio yn dynach wrth yr hil ddynol, nag y gellir ei symyd ymaith trwy un moddion arall ond gwaed y Cyfryngwr. Ni ddywedir, mai heb gadw y ddeddf, ond mai "heb ollwng gwaed nid oes maddeuant;" Heb. ix. 22. Diau y gallasai Crist gadw y ddeddf am fil o flynyddoedd i ni, ac eto heb effeithio prynedigaeth oddiwrth felldith y ddeddf i ni, pe na buasai iddo gael ei "wneyd yn felldith drosom ni," trwy ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth; Gal iii. 13.

Dos. XX.—Yn ail, y mae yr hwn sydd wedi ei hollol ryddhau oddiwrth euogrwydd yr holl bechodau a gyflawnodd yn erbyn y ddeddf, y mae yn sicr, allan o afaelion melldith y ddeddf. Yn awr priodola yr egwyddorion a wrthwynebir

genym faddeuant pechodau i ufudd-dod dyoddefol neu farwolaeth Crist, ar wahan i gyfrifiad o'i ufudd-dod gweithredol i'r dyben hyny: felly nid yw y rheswm mewn llaw yn cefnogi dim mwy ar y dŷb y ceisia gadarnhau, nag ar y gwirionedd ei hun.

Yn drydydd, nis gall cyfrifiad o gyflawniad perffaith o'r ddeddf oddiwrth arall, pe byddai iddo gael ei ganiatau, byth wneyd yr hwn sydd yn troseddu yn feunyddiol mewn llawer o bethau, yn "arhoswr yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn y ddeddf i'w gwneuthur hwynt;" ac, o ganlyniad gadawai y dyn yn yr un cyflwr ag y byddai iddo ei gael, sef, o dan felldith y ddeddf. Y mae yn annichonadwy i bob cyfrifiad dan y nefoedd, wneyd yr hwn *nad* yw wedi "aros yn yr holl bethau yn y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt," yn un *sydd* wedi aros ynddynt a'u cyflawni yn ddiball. Y mae yn dda fod y rheswm yna yn gyfeiliornus a gwan; canys y mae o yspryd creulon a didrugaredd, ië, am gilgwthio yr holl fyd o'i flaen i orddyfnderau distryw. Os nad oes un ffordd arall i bechaduriaid tylodion i ddyfod allan o afaelion melldith y ddeddf, ond trwy aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd ynddi i'w gwneuthur, sicr yw, y rhaid iddynt oll syrthio dan ei mhelldith, ac ni chyfodant yn dragywydd. Felly,

Yn bedwerydd, gwir a chyfeiriol feddwl y geiriau yw hyn, "Melldigedig yw pob un nad yw yn aros," &c.; h.y., pob un sydd yn disgwyl ac yn ceisio cyfiawnhad trwy y ddeddf, gwae iddynt os nad arhosant yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn y ddeddf i'w gwneuthur hwynt; canys disgyna melldith y ddeddf yn drwm ac ofnadwy arnynt. Eglur yw mai hyn ydyw gwir feddwl yr Apostol, a bod yr ymadrodd cyffredinol, "melldigedig yw pob un," i gael ei gyfyngu i'r holl rai hyny yn unig ag sydd yn ymorphwys ar y ddeddf am gyfiawnhad.

Dos. XXI.—Yn gyntaf, megys ag y mae yn wirionedd, "Beth bynag a lefara y ddeddf, ei bod yn llefaru wrth y sawl sydd odditan y ddeddf;" Rhuf. iii. 19; felly yr un mor wir yw hefyd, beth bynag a lefara y ddeddf, mai wrth y rhai sydd dan y ddeddf yn *unig* y llefara. Ond nid yw y rhai sydd yn edrych am gyfiawnhad trwy ffydd yn Nghrist, "dan y ddeddf, eithr dan ras;" Rhuf. vi. 14. Felly ni pherthyna bygythion y ddeddf i un o'r rhai hyn.

Yn ail, y mae y cyd-destun yn amlwg yn ein harwain i'r dehongliad yna. Yn gyntaf, oblegyd y geiriau blaenorol cysylltiol, "canys cynifer ag y sy o weithredoedd y ddeddf," h.y., sydd yn ceisio cael eu cyfiawnhau trwyddynt, "o dan felldith y ddeddf y maent." Ac i brofi hyn, y mae yn

dwyn yn mlaen, "canys ysgrifenwyd, melldigedig yw pob un nad yw yn aros," &c. Felly nid ydyw yr ymadrodd yna, na'r felldith a gynwysa ychwaith, ond yn unig yn cyfeirio at y rhai sydd o weithredoedd y ddeddf; h.y., yn ceisio cael eu cyfiawnhau trwy y ddeddf, ac nid trwy Grist. Yn ail, cadarnheir y dehongliad a roddwyd i'r geiriau oddiwrth adn. 9. Y mae yr Apostol wedi datgan yno "y rhai sydd o ffydd;" h.y., sydd yn ceisio cyfiawnhad trwy ffydd yn Nghrist, "a fendithir gydag Abraham ffyddlon." Ac yn awr i brofi mai y rhai hyn ydyw gwynfydedigion Duw, ac nid y rhai a fynent gael eu cyfiawnhau trwy y ddeddf, yr hwn yspryd ydoedd yn dechreu gweithio yn mhlith y Galatiaid, y mae'n cadarnhau fod y rhai yna o dan y felldith, ac o ganlyniad, yn mhell o fod yn fendigedig; ac i brofi hyn, dyfyna eiriau y ddeddf ei hun: "Melldigedig yw pob un nad yw yn aros yn yr holl bethau," &c. Felly eglur yw oddiwrth hyn, nad yw "aros yn yr holl bethau a ysgfrifenir yn y ddeddf i'w gwneuthur," ond yn unig yn ofynedig oddiwrth y cyfryw sydd yn ceisio cael eu cyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf, er symyd ymaith y felldith, neu etifeddu y fendith, ac nid oddiwrth y rhai sydd yn credu gydag Abraham. Yn drydydd, y mae yr adnod ganlynol fel goleuni yr haul, yn egluro y dehongliad hwn. Oblegyd y mae yr Apostol yma yn myned yn mlaen gyda phrawf pellach i'r gosodiad diweddaf, (sef, "cynifer sy o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent,") fel hyn: "Ac na chyfiawnheir neb," felly, ni fendithir mo honynt, ac o ganlyniad y maent dan felldith, "trwy y ddeddf ger bron Duw eglur yw; oblegyd y cyfiawn a fydd byw," h.y., a gyfiawnheir ac felly a fydd byw ac a fendithir, "trwy ffydd." Pan y dywed efe, "na chyfiawnheir neb trwy y ddeddf," y mae yn golygu na's gellir dyweyd am un dyn ei fod yn "aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn y ddeddf i'w gwneuthur;" oblegyd yr hwn ag y gellir dyweyd hyny am dano, yn briodol gellir dyweyd iddo gael ei gyfiawnhau trwy y ddeddf: canys nid oes un llwybr arall o gyfiawnhad trwy y ddeddf ond hwn yn unig. Am hyny nis gellir galw y cyfiawnhad a dderbyniwn trwy ffydd yn Nghrist, yn gyfryw, trwy "aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn y ddeddf i'w gwneuthur hwynt," canys nid yw hyny ddim arall ond cyfiawnhad trwy y ddeddf.

Dos. XXII.—Ni wn am un Ysgrythyr arall a ddygir yn mlaen gyda chysgod o reswm dros gyfrifiad o gyfiawnder Crist. Am y rhai hyny sydd yn benderfynol eu bod yn gweled cyfrifiad o gyfiawnder Crist, yn yr Ysgrythyr hon

a'i chyffelyb, "Gwared fi oddiwrth waed, O Dduw, a'm tafod a gân am dy gyfiawnder," Salm l. 14, gadawaf hwy, a'i penderfyniad i argyhoeddiadau gan wyrthiau ac arwyddion o'r nefoedd. Oblegyd y mae yn sicr, fod Ysgrythyrau a dehongliadau "yn cael eu troi yn sofl gyda hwynt," ac nid yw rhesymau a phrawfion eglur ddim mwy yn eu golwg "nag yw haiarn a phrês o flaen y Lefiathan;" a hyny ond megys gwellt neu bren pwdr.

## PEN. VI.

*Y Gwrthddadleuon a ddygir yn mlaen yn erbyn Cyfrifiad Ffydd yn Gyfiawnder yn cael eu hateb.*

Dos. I.—Yr wrtheb gyntaf yn erbyn cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder yw hon:

"Nis gall yr hyn sydd yn dwyn cyhuddiad yn erbyn gwirionedd a chyfiawnder Duw, fod yn wir. Y mae cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder yn dwyn cyhuddiad yn erbyn gwirionedd a chyfiawnder Duw. Oblegyd, pe cyfrifai Duw ffydd yn gyfiawnder, efe a gyfrifai yn gyfiawnder yr hyn nad yw yn gyfryw."

Yr wyf yn ateb, yn gyntaf, mai hyn ydoedd dadl Cymanfa Trent, megys y sylwodd Calvin, nad yw y gair "cyfiawnhad," yn yr Ysgrythyr, ddim i'w gymeryd mewn ystyr ddeddfol, am ryddhad, ond mewn ystyr anianyddol neu foesol, o wneyd dyn yn gyfiawn. A hyn ydyw dadl gyffredin y Pabyddion, dros eu cyfiawnhad trwy eu gras a'u gweithredoedd. Ond,

Yn ail, Er fod Duw yn cyfrif ffydd yn gyfiawnder, nid yw yn canlyn oddiwrth hyny ei fod yn cyfrif yn gyfiawnder y peth nad yw yn gyfiawnder. Oblegyd y mae pob gweithred neu ufudd-dod sydd yn gydffurfiol âg unrhyw ddeddf gyfiawn yn briodol i gael ei alw yn "gyfiawnder." Felly, Sal. cvi. 30, 31; "Yna y safodd Phinees, ac a iawn farnodd," &c.; "A chyfrifwyd hyny iddo yn gyfiawnder." Wrth gyfiawnder, yn y geiriau yna, nis gellir golygu cydffurfiad neu ufudd-dod i'r holl ddeddf: oblegyd anmhosibl yw i un weithred neillduol, beth bynag ddichon iddi fod, gael ei golygu yn "gyfiawnder" mewn ystyr fel yna. O ganlyniad, ni olyga ond yn unig cydffurfiad â rhyw orchymyn neillduol. Gwel y defnyddir y gair mewn ystyr cyffelyb yn Gen. xxx. 33; 2 Cor. ix. 9, 10; Heb. xi. 33, &c. Ac felly ffydd

neu gredu, gan ei bod yn ufudd-dod i orchymyn neillduol o eiddo Duw, (1 Ioan iii. 23; 2 Pedr ii. 21; Rhuf. i. 5, &c.) gellir ei galw gyda gwirionedd a phriodoldeb, yn "gyfiawnder;" ond eto, pryd y dywedir fod Duw yn cyfrif ffydd yn gyfiawnder, nid wyf yn golygu mai gweithred o ufudd-dod i unrhyw orchymyn neillduol a feddylir.

Dos. II. Yn drydydd, pan yr ydym gyda'r Ysgrythyrau yn haeru fod Duw yn "cyfrif ffydd i ddyn yn gyfiawnder," nid ein golygiad yw, nad yw Duw yn cyfrif y ffydd hono iddo ond yn unig megys gweithred gyfiawn; a llawer llai y golygwn, ei fod yn cyfrif y ffydd hono yn gyflawniad digoll a llythyrenol o'r holl ddeddf foesol; ond yr hyn a olygir genym yw, fod Duw yn edrych ar yr hwn sydd yn credu gyda chymaint o ffafr, ac yn bwriadu ymddwyn mor rasol âg ef, a phe meddiannai berffaith gyfiawnder, ac wedi cyflawni yr holl ddeddf. "Cyfrif ffydd yn gyfiawnder" yn yr ystyr hwn, sydd yn berffaith gyson â chyfiawnder Duw, ac nid oes dim ynddo yn wrthwyneb i'w wirionedd.

Yn bedwerydd, Nid oes dim braidd yn cael ei gadarnhau mor fynych, gan yr awduron Diwygiedig enwocaf, na bod Duw yn cyfrif y cyfryw yn gyfiawn, nad ydynt felly yn ol manylrwydd iaith, ond yn unig am eu bod wedi derbyn maddeuant o'u pechodau. O ganlyniad, ni ddeallasent hwy fod dim annghyfiawnder, neu wrthwynebrwydd, i'r gwirionedd yn y fath beth. "Oddiwrth hyn yr ydym yn casglu," meddai Calvin, "mai dadl Paul yw, nid beth yw dynion ynddynt eu hunain, ond yn mha gyflwr y mae Duw yn gweled yn dda i'w cyfrif.† Ac mewn màn arall y dywed, "Y mae yn canlyn felly ein bod yn gyfiawn, o herwydd nad yw ein pechodau yn gyfrifedig i ni."‡ "Am hyny, yr ydym yn sefyll yn gyfiawn ger bron Duw," meddai Mr. Fox, "o herwydd fod ein pechodau wedi eu mhaddeu."§ "Yr ydym yn derbyn maddeuant pechodau," meddai Melancthon, "er a thrwy Grist; yn meddiant yr hyn yr ydym yn gyfiawn ger bron Duw."‖

Dos. III.—Yr ail wrtheb yw hon:—"Pe cyfrifid ffydd, yn yr ystyr yna, yn gyfiawnder, byddai cyfiawnhad felly o weithredoedd, neu rywbeth ynom ein hunain. Ond y mae yr Ysgrythyrau drwyddynt oll, yn cau allan weithredoedd a phob peth ynom ni, oddiwrth feddu yr un gorchwyl mewn cyfiawnhad."

† Calvin, Rom. iv. 3. ‡ De vera Eccles. Refor. ratione. p. 368. § De Christo justific., Lib. iii. p. 280. ‖ In Exam. Theol. de Justific. Lib. iii. p. 529. justi. Lib. iii. cap. 11., sect. 11.

Yr wyf yn ateb, gellir deall yr ymadrodd "trwy weithredoedd" mewn dwy ffordd; yn gyntaf, trwy haeddiant neu deilyngdod gweithredoedd, yr hyn yw ystyr arferol yr Ysgrythyrau; yn ail, trwy y cyflawniad syml o weithredoedd. Os cymerir y gosodiad cyntaf yn yr ystyr blaenaf o'r ddau a nodwyd, y mae yn annghywir hollol, a'r casgliad o hono a wedir. Dichon ffydd gael ei chyfrif yn gyfiawnder, eto, dyn heb gael ei gyfiawnhau trwy deilyngdod unrhyw weithredoedd ynddo ei hun. Os ei cymerir yn yr ystyr olaf, y mae yr ail osodiad yn gyfeiliornus; canys nid yw yr Ysgrythyrau mewn un man yn cau allan bob gweithred a ddichon gael ei chyflawni genym o feddu dim i wneyd mewn cyfiawnhad; na, y maent mewn modd eglur yn gofyn rhywbeth i fod ynom, o angenrheidrwydd, er cyfiawnhad, ie, rhywbeth ag y mae yr Ysgrythyrau eu hunain yn ei alw yn waith: meddai y Gwaredwr wrth yr Iuddewon, "hyn yw gwaith Duw; credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe," Ioan 6. 29. Yn awr, fod credu yn Nghrist yn ofynol oddi wrthym fel yr hyn sydd yn hollol angenrheidiol er cyfiawnhad, sydd yn bwnc o addefiad cyffredinol. Ac fel hyn y mae ein hawduron enwocaf heb ddim petrusder, yn galw y grediniaeth trwy yr hon y'n cyfiawnheir, yn "waith," neu "gyflawniad" o beth. "Ffydd" meddai Calvin, "ydyw y prif waith y mae Duw yn ei ofyn genym." Calvin in Jac. i. 22. "Beth a gyflawnodd Abraham," meddai Musculus, "i gael ei gyfrif yn gyfiawnder, ond yn unig credu Duw?" Mus. Gal. iii. 6.

Dos. IV.—Y drydedd wrtheb yw hon:—"Y mae yn anmhosibl i'r hyn sydd yn gwneyd cyfiawnhad heb fod o ras fod yn gyson â gwirionedd yr Efengyl. Y mae cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder, yn gwneyd cyfiawnhad heb fod o râs."

Yr wyf yn caniatau y gosodiad cyntaf, ond am yr olaf y mae yn hollol gyfeiliornus; canys y mae yr Ysgrythyrau yn wastad yn addef perffaith gysondeb rhwng gras, a'r ammod o ffydd, mewn cyfiawnhad: "Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig trwy ffydd;" Eph. ii. 8; "A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef;" &c., Rhuf. iii. 24; "Trwy ffydd yn ei waed ef;" &c., adn. 25. Na, y mae y gwaith o gredu, megys y geilw ein Hiachawdwr ef, mor bell oddiwrth fod yn wrthwynebol i radlonrwydd gras Duw mewn cyfiawnhad, fel y mae yn cael ei ofyn oddiwrth ddynion yn fwriadol ganddo ef, fel y byddai i'w ras gael ei amlygu a'i gadarnhau yn eu cyfiawnhad: "Am hyny o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras;" Rhuf. iv. 16. Ac mewn gwirionedd, pa fodd y dichon dawn fod yn fwy o ras

na phryd na ofynir dim mwy oddiwrth y derbynydd, na'r derbyniad o hono? Yn awr, nid yw credu ddim ond derbyn y cyfiawnhad y mae Duw yn ei roddi trwy ei Fab Iesu Grist: "Ond cynifer ag a'i derbyniasant ef," &c., Ioan i. 12, h.y., (megys y mae yn cael ei egluro yn niwedd yr adnod,) cynifer ag a gredasant yn ei enw ef; felly nid oes dim mewn cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder yn gogwyddo at gau allan ras o'r fendith o gyfiawnhad.

Dos. V.—Y bedwerydd wrtheb yw hon:—"Nid yw yr hyn sydd yn rhoddi achos i ymffrostio mewn un modd yn gyson â gwirionedd yr Efengyl. Y mae cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder yn rhoddi achos ymffrost."

Yr wyf yn ateb, yn gyntaf, golyger y gwaith neu y weithred o gredu, yr hyn a gyfrifir yn gyfiawnder, i fod yn weithred o eiddo y dyn, eto y mae felly o ddawn, a thrwy ras Duw yn unig. Gan nad yw dyn yn meddu, nac yn gwneyd dim yn ei waith yn credu, ond yr hyn a dderbynia efe oddiwrth arall, y mae pob achos ymffrost yn cael ei lwyr ddinystrio, yn ol ymresymiad yr Apostol ei hun, 1. Cor. iv. 7: "Pa beth sydd genyt ar na's derbyniaist? Ac os derbyniasit, paham yr wyt ti yn gorfoleddu megys pe baet heb dderbyn?" yn arwyddo yn eglur, nad oes gan neb un sail i ymffrostio, (o hono ei hun) o herwydd dim ond sydd ganddo o'i eiddo ei hun, ac o hono ei hun. Bydded y peth mor ardderchog ag y byddo, os oddiwrth arall y mae y dyn wedi ei dderbyn, nid oes ganddo un achos i ymffrostio ond yn unig yn yr hwn y derbynia efe y cyfryw oddiwrtho. Pe buasai Duw mewn modd gwyrthiol wedi codi plant i Abraham o'r meini, a fuasai gan y meini hyny, pe wedi eu gwneyd yn ddynion, ac yn ddynion o'r rhagoriaethau enwocaf, ryw sail i ymogoneddu ynddynt eu hunain o herwydd y rhagoriaethau a'r urddas a fuasai yn awr arnynt? Nid oes gan un cnawd ddim mwy o sail i ymffrostio ynddo ei hun, pa mor ragorol bynag y dichon y weithred o ffydd fod, o herwydd eu rhoddi iddynt a wneir gan arall: y rhoddwr biau y gogoniant, a'r derbynydd y cysur a'r dedwyddwch.

Ond yn ail, golyger i'r weithred o gredu fod ond mewn rhan oddiwrth y dyn ei hun, eto nid oes ganddo un achos i ymffrostio ynddo ei hun, fod Duw yn foddlon i'w chyfrif iddo yn gyfiawnder; oblegyd nid yw y gogoniant, sef, y pethau rhagorol sydd yn canlyn ffydd, yn cael eu rhoddi iddi o herwydd dim teilyngdod sydd ynddi, ond o ras ac ewyllys da Duw. Felly, er fod y credadyn yn derbyn maddeuant, cariad, ffafr Duw, a hawl i deyrnas nef, ar sail ei ffydd, eto nid yw hyn oll yn sail paham y dylai dyn ymffrostio o

hono ei hun neu o'i ffydd, pe byddai o hono ei hun; (yr hyn yr ydym ni yn ei wadu yn hollol) oblegyd, pe na buasai i'r ffydd hon gyfarfod a Duw anfeidrol yn ei ras a'i gymwynasgarwch, gallasem gael ein damnio er ein holl ffydd. Ac, yn ol rheol yr Apostol ei hun, fod Duw wedi gweled yn dda ddewis gwan a ffôl bethau fel y gwaradwyddai y doethion, y mae pob achlysur i ymffrostio yn cael ei lwyr ddinystrio. Pe buasai dynion wedi cadw y ddeddf, a chael eu cyfiawnhau, drwy y ffordd hono, buasai lle, y mae yn wir, i ddynion ymffrostio. Yn gyntaf, o herwydd y buasai y cyfryw gyfiawnder yn dal allan ryw gyfartalrwydd i'r wobr a roddid iddo: "Eithr i'r neb sydd yn gweithio," medd Paul, h.y., sydd yn cadw y ddeddf, "ni chyfrifir y gwobr o ras, ond o ddyled:" ni roddai Duw ddim mwy iddynt felly nag y byddent, mewn rhyw ystyr, wedi ei haeddu. Yn ail, pe buasent wedi diogelu eu dedwyddwch y ffordd hono, buasent wedi ei ddiogelu trwy y galluoedd ag ydoedd yn hanfodol i'w natur, ac yn eiddynt, yn yr ystyr mwyaf priodol ag y gellir llefaru am y creadur; ond nid yw y naill na'r llall yn berthynol i ffydd, neu y weithred o gredu; felly nis gall fod yna un esgus o ymffrost i'r cnawd, er iddi gael ei chyfrif gan Dduw yn gyfiawnder.

Dos. VI.—Yn bummed, gwrthddadleua rhai, "Os yw ffydd yn cael ei chyfrif i ni yn gyfiawnder, cyfiawnheir ni felly trwy yr hyn sydd yn anmherffaith; canys nid yw ffydd neb yn berffaith yn y bywyd hwn. Ond ni chyfiawnheir neb gyda Duw trwy yr hyn sydd yn anmherffaith."

Yr wyf yn ateb, dichon i'r frawddeg "cyfiawnheir ni felly trwy yr hyn sydd yn anmherffaith," feddu arwyddocad deublyg; naill ai ein bod yn cael ein cyfiawnhau heb gynnorthwy dim ag sydd yn wir berffaith er ein cyfiawnhad, neu ynte, y gall rhywbeth ag sydd mewn cydmhariaeth yn wan ac anmherffaith, gyd-gynorthwyo tuag at ein cyfiawnhad. Os yn yr ystyr cyntaf y golygir y gosodiad, y mae yn hollol gyfeiliornus, ac y mae y casgliad i gael ei wadu: oblegyd nid yw yn canlyn, os cyfrifir ffydd yn gyfiawnder, na ofynir dim ag sydd berffaith fel peth angenrheidiol er cyfiawnhad; canys y mae cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder, yn rhagolygu rhywbeth sydd yn hollol berffaith ac yn angenrheidiol er cyfiawnhad. Pe na buasai yr Arglwydd Iesu, yr un difai, wedi rhoddi Iawn perffaith a digonol dros bechod, ni buasai lle i gyfrifiad ffydd yn gyfiawnder; iё, ni buasai lle i'r fath ffydd fodoli, nac un cyfiawnhad i bechadur ychwaith. Oblegyd trwy yr Iawn a roddwyd gan Grist drosom, yr ydym yn credu ynddo, neu yn Nuw

trwyddo ef; a thrwy yr un Iawn y mae Duw yn ein cyfiawnhau ar sail ein credu, h.y., cyfrif ein ffydd ini yn gyfiawnder.

Os golygir y geiriau a nodwyd yn yr ystyr diweddaf, sef, y gall yr hyn sydd wan ac anmherffaith weithiau fod yn gynorthwyol tu ag at gyfiawnhad, y mae y gosodiad felly yn wir: oblegyd y mae cyfiawnhad i'w ddysgwyl er fod y ffydd trwy yr hon yr ydym yn credu, yn wan ac anmherffaith, canys gwyddom fod hono rywfodd yn cyd gynorthwyo tu ag at ein cyfiawnhad: "ninau hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnheid trwy ffydd Crist;" Gal. ii. 16. Ac hefyd, eglur yw, fod y Gweinidog yn meddu ei ran yn ein cyfiawnhad; "Pa fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano? A pha fodd y clywant heb Bregethwr?" Rhuf, x. 14. Ond dealler nad yw ein cyfiawnhad yn ymddibynu ar berffeithrwydd ein ffydd, ond ar ei chywirdeb; ac nid yw cywirdeb ein ffydd yn ymddibynu ar berffeithrwydd yr Hwn yr ydym yn credu trwyddo, ond ar wirionedd yr hyn y mae yn ei draddodi. Felly y mae goleuni y gwirionedd hwn yn tywynu ar bob llaw, y gall dynion gael eu cyfiawnhau, yn weinidogaethol ac offerynol, trwy yr hyn sydd yn wan ac anmherffaith.

Dos. VII.—Gwrthddadleuodd rhai fel hyn, "Os cyfrifir ffydd i ni yn gyfiawnder, yna y mae Duw yn derbyn cyfiawnder oddiwrthym ni, yn hytrach na nyni oddiwrtho ef yn ein cyfiawnhad. Ond nid yw Duw yn derbyn cyfiawnder oddiwrthym ni, mewn cyfiawnhad, eithr nyni sydd yn derbyn cyfiawnder oddiwrtho ef."

Yr wyf yn ateb, Nid yw yn canlyn, mewn un modd, oddiwrth gyfrifiad ffydd yn gyfiawnder, fod Duw yn derbyn cyfiawnder oddiwrthym ni, neu nad ydym ni yn derbyn cyfiawnder oddiwrtho ef yn ein cyfiawnhad. Oblegyd,

Yn gyntaf, Nid yw gwaith Duw yn cyfrif ffydd yn gyfiawnder ddim yn cynwys fod ffydd yn "gyfiawnder," a elwir felly yn briodol, ond yn unig fod Duw, ar sail ei nhatur, yn edrych arnom yn gyfiawn; eto, nid fel rhai wedi eu gwneyd yn haeddiannol neu ffurfiol gyfiawn trwyddi, ond fel rhai wedi cyflawni yr ammod, ar gyflawniad o'r hon y mae Duw wedi cyfammodi i'n gwneyd yn gyfiawn, yn haeddiannol, trwy farwolaeth ei Fab, yn ffurfiol, â madddeuant pechodau.

Yn ail, Pe golyger fod ffydd yn gyfiawnder, mewn ystyr briodol, eto ni wnai hyn brofi fod Duw yn derbyn cyfiawnder oddiwrthym ni yn ein cyfiawnhad. Oblegyd oddiwrth Dduw yr ydym yn derbyn ffydd ei hun, ac nid efe sydd yn ei derbyn oddiwrthym ni. Ond,

Yn drydydd, Fod cyfrifiad ffydd yn gyfiawnder yn golygu fod dynion yn derbyn cyfiawnder oddiwrth Dduw mewn cyfiawnhad, sydd amlwg oddiwrth hyn, oblegyd nis gellid dyweyd gyda gwirionedd fod Duw yn cyfrif ffydd yn gyfiawnder i ddyn, oddieithr ei fod yn ei wneyd yn gyfiawn ar sail ei grediniaeth. Yn awr, fel y mae yn anmhosibl i ddyn gael ei wneyd yn gyfiawn heb gyfiawnder o ryw natur, felly hefyd y mae yn anmhosibl i'r cyfiawnder, â'r hwn y gwneir ef yn gyfiawn yn ei gyfiawnhad, gael ei roddi iddo gan neb arall ond Duw yn unig. Canys nid yw y cyfiawnder hwn yn un arall ond maddeuant pechodau; a "phwy a ddichon faddeu pechod ond Duw?"

## PEN. VII.

*Y prif Resymau dros Gyfrifiad o ufudd-dod gweithredol Crist, (yn yr ystyr a wrthwynebwyd) yn cael eu hateb.*

Dos. I.—Y rheswm cyntaf dros gyfrifiad o gyfiawnder Crist yw hwn:—"Os na bydd modd sefyll mewn barn ger bron Duw, heb i ni gael ein cynysgaethu â chyfiawnder perffaith, yna rhaid i gyfiawnder Crist gael ei gyfrif i ni yn ein cyfiawnhad. Ond ni bydd modd sefyll mewn barn ger bron Duw, os na byddwn wedi ein cynysgaethu â chyfiawnder perffaith."

Yr wyf yn ateb, trwy wadu y casgliad yn y gosodiad cyntaf: dichon i anmhosiblrwydd fod i sefyll ger bron brawdsedd y farn heb berffaith gyfiawnder, ac eto i gyfiawnder Crist, yn yr ystyr a wrthwynebir genym, fod yn annghyfrifedig. Y rheswm yw, oblegyd fod maddeuant pechodau, yr hyn ydyw y pwrcas o farwolaeth Crist, (megys yr oddefa ein gwrthwynebwyr) yn berffaith gyfiawnder, ac yn addas i'n galluogi i sefyll yn ddigryn yn nydd barn ger bron Duw.Ië, y mae y Duwinyddion Diwygiedig enwocaf yn ystyried fod digon o hyder i'r credinwyr i sefyll yn mhresenoldeb Duw, yn marwolaeth Crist yn unig. Calvin, ar ol crybwyll y geiriau hyny o eiddo yr Apostol, Rhuf. iii. 24, &c., "A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu; yr hwn a osododd Duw yn Iawn trwy ffydd yn ei waed ef," a ddywed fel hyn: "Y mae Paul yn canmol gras Duw yn hyn, iddo osod gwaith ein prynedigaeth yn marwolaeth Crist; ac yna yn ewyllysio i

ninau ymdaflu ar deilyngdod ei waed, a thrwy feddianu cyfiawnder felly, gallwn sefyll yn ddiogel ger bron gorsedd barn Duw." Calvin, Instit., lib. ii. cap. 17, sect. 9. "Os barna Duw di," meddai Anselm, "dywed, Arglwydd, yr wyf yn gosod marwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist rhyngwyf a thi, ac â'th farn." Felly, nid oes eisieu i ddyn feddwl am un cyfiawnder arall yn mhresennoldeb Duw, ond maddeuant o'i bechodau trwy farwolaeth Crist.

Dos. II.—Yr ail reswm dros gyfrifiad cyfiawnder Crist yw hwn:—"Y mae yr hwn sydd yn cael ei gyfiawnhau trwy gyfiawnder un arall, yn rhwym o gael ei gyfiawnhau trwy gyfrifiad cyfiawnder Crist iddo; o herwydd nad oes cyfiawnder addas, er cyfiawnhad dyn, i'w gael yn neb arall ond yn Nghrist yn unig. Y mae pob un a gyfiawnhawyd, wedi ei gyfiawnhau trwy gyfiawnder un arall."

Yr wyf yn ateb, Yn gyntaf, Gall dyn gael ei gyfiawnhau trwy gyfiawnder un arall, ac eto heb fod angenrheidrwydd am gyfrifiad o gyfiawnder gweithredol Crist iddo, canys y mae cyfiawnder *dyoddefol* Crist yn gyfiawnder *un arall;* a gall dynion gael, ïe, maent yn cael eu cyfiawnhau yn llawn ac yn hollol trwy y cyfraniad o deilyngdod hwn iddynt yn maddeuant eu pechodau, heb estyn iddynt gyfiawnder ychwanegol, oddiwrth Grist ei hun, nac oddiwrth neb arall ychwaith.

Yn ail, Dichon dyn gael ei gyfiawnhau trwy gyfiawnder un arall, mewn dau olygiad; 1. Mewn ffordd o haeddiant; neu yn 2. Fel ffurf. Yn yr ystyr cyntaf addefir y gosodiad: fod yr holl rai a gyfiawnhawyd wedi eu cyfiawnhau trwy gyfiawnder un arall; h.y., wedi eu cyfiawnhau trwy deilyngdod un arall, ac nid trwy eu teilyngdod eu hunain. Ond nid yw yr ystyr yna yn cefnogi dim ar y pwnc mewn llaw. Yn yr ystyr diweddaf, y mae yn gyfeiliornus hollol; canys y mae y cyfiawnder trwy yr hwn y gwneir dŷn yn gyfiawn, bob amser yn eiddo y dyn, (trwy rôdd a meddiant) ac nid yn eiddo un arall, oddieithr gyda golwg ar y pwrcasiad a'r rhoddiad o hono; yn y naill ystyr y mae yn eiddo Crist, ac yn y llall yn eiddo Duw; Crist yw y pwrcasydd o hono, a Duw yw y rhoddwr o hono. Y mae maddeuant pechodau, yr hyn yw ffurf ei gyfiawnhad, yn gyfiawnder y dyn ei hun, yn yr un ystyr ag y mae ei edifeirwch a'i ffydd yn eiddo iddo, ond oll yn cael eu rhoddi iddo gan Dduw. "Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw, yn Dywysog, ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel a maddeuant pechodau," Act. v. 31. Yn awr, gellir galw yn briodol yr hyn y mae Duw yn ei *roddi* i ddyn yn eiddo iddo. Gwir yw nad oes

dim teilyngdod mewn maddeuant pechodau, ond y mae yna addasrwydd ynddo i gyflwr y pechadur a'i derbynia.

Dos. III.—Y trydydd rheswm dros gyfrifiad o gyfiawnder Crist yw hyn:—"Os ydyw y credinwyr yn meddu gwir undeb â Christ, yna y mae ei gyfiawnder yn eiddo iddynt trwy gyfrifiad. Y mae y credinwyr yn meddu gwir undeb â Christ."

Yr wyf yn ateb, Y mae y gosodiad cyntaf yn ymddifad o wirionedd a rhesymoldeb: yn gyntaf, y mae yn ymddifad o wirionedd, oblegyd dichon i wir undeb rhwng y credinwyr â Christ sefyll, heb i'w gyfiawnder gweithredol gael ei wneyd yn eiddo iddynt trwy gyfrifiad. Y mae gwir undeb rhwng y pen a'r traed yn y corph naturiol; eto, nid yw synwyr, neu briod-waith y pen, yn cael ei drosglwyddo i feddiant y traed, trwy gyfrifiad; yr un modd y mae gwir undeb yn bod rhwng y gwr a'r wraig; eto nid yw santeiddrwydd, nerth, neu ddoethineb y gwr, yn cael eu gwneyd yn santeiddrwydd, nerth, neu ddoethineb i'r wraig trwy gyfrifiad.

Eilwaith: Megys y mae yn ymddifad o wirionedd felly y mae o reswm hefyd. Nid oes gymaint a chysgod o wirionedd yn hyn, sef, fod yr undeb sydd rhwng y credinwyr a Christ, yn golygu trosglwyddiad o'i ufudd-dod gweithredol iddynt trwy gyfrifiad; o leiaf, yn ol y cyfrifiad a amddiffynir mor ëofn gan ein gwrthwynebwyr. Canys pa reswm ellir gael oddiwrth yr undeb sydd rhwng Crist a chredinwyr, dros fod ei ufudd-dod gweithredol yn cael ei wneyd yn eiddo iddynt trwy gyfrifiad, mwy na thros fod ei ddoethineb, ei allu, a'i ogoniant yn cael eu gwneyd yn eiddo iddynt trwy gyfrifiad?

Dos. IV.—Y pedwerydd rheswm yr adeilada rhai gyfrifiad arno, yw hwn:—"Os nad oedd dyben neu angenrheidrwydd arall i Grist gadw y ddeddf, ond yn unig fel y byddai i'w ufudd-dod gael ei gyfrif yn gyfiawnder i ni yn ein cyfiawnhad, nid yw y cyfrifiad felly i gael ei wadu. Ni ellir dwyn yn mlaen un dyben neu angenrheidrwydd arall, paham yr oedd yn angenrheidiol i Grist gadw y ddeddf, ond fel y byddai i'w ufudd-dod gael ei gyfrif yn gyfiawnder i ni yn ein cyfiawnhad."

Y mae y gosodiad diweddaf yn gamgymeriad hollol: gellid nodi amrywiol ddybenion ereill i ufudd-dod Crist i'r ddeddf heblaw hyny.

Dos. V.—Yn gyntaf, Yr oedd y cyfiawnder hwn o eiddo Crist, yn wasanaethgar i'r unrhyw ddyben mawr ag y mae ein hufudd-dod ninau i'r ddeddf yn wasanaethol, sef, gogoniant Duw a dyrchafiad ei deyrnas. "Wedi eich cyflawni â

ffrwythau cyfiawnder," medd Paul, "y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw;" Phil. i. 11. Os ydyw cyfiawnder dynion trwy Iesu Grist yn cael ei wneyd yn foddion addas er gogoniant a moliant Duw, mwy o lawer, nac eiddo neb arall, y rhaid fod ei gyfiawnder personol yn effeithio er dyrchafu gogoniant Duw. Felly gwelwn dyna un dyben arall i ufudd-dod gweithredol Crist, heblaw cyfrifiad.

Dos. VI.—Ail ddyben o hono yw, Fel y byddai yn gynllun neu esiampl i ni. Dyma y portread yn y mynydd i holl hil Adda weithio wrtho. Gwir yw, fod y ddeddf yn rheol neu gyllun cyfiawnder mor berffaith i ni ag ufudd-dod Crist ei hun, ond nid yw mor eglur mewn rhai amgylchiadau; ac am hyny y mae'r Yspryd Glân, weithiau wrth grybwyll am egwyddor y ddeddf, yn gwneyd gwasanaeth o ufudd-dod Crist, megys pe byddai i'w hesponio a'i heglurhau. "A rhodiwch mewn cariad megys y carodd Crist ninau, ac a'i rhoddodd ei hun drosom; Ephes. v. 2.

Yn drydydd, Y mae ufudd-dod Crist i'r ddeddf foesol o bwys neillduol, trwy ei fod yn llawn o yspryd anogaethol i ddenu yr holl fyd ar ei ôl mewn efelychiad; y mae yn demtasiwn santaidd a bendithiol i'r byd i weithredu cyfiawnder; a'r hon na ddichon neb ei gwrthsefyll ond â llaw uchel o annuwioldeb. Lled-grybwyllir y dyben hwn hefyd yn yr Ysgrythyr: "Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch genyf," medd ein Hiachawdwr, Matt. xi. 29, "canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon," &c.; yn arwyddo, nid yn unig fod yn ei addfwynder esiampl i'w dylyn, ond egwyddor i'w cynhyrfu, eu denu, a'u gwneyd yn ewyllysgar ac awyddus i'w ddylyn.

Yn bedwerydd, Yr oedd cyfiawnder gweithredol Crist yn foddion ei ddiogeliad a'i barhad yn nghariad ei Dad; yr hyn oedd yn anhebgorol angenrheidiol er dwyn i ben waith mawr y brynedigaeth a gymerasai efe arno. Canys pe buasai y Cyfryngwr, ar ffafr yr hwn gyda Duw, yr ymddibynai ffafr ac iachawdwriaeth yr holl fyd, ond pallu unwaith ac anfoddloni Duw, pwy fuasai yn eiriol ac yn gwneyd Iawn drosto ef? Y dyben hwn o'i ufudd-dod i'w Dad efe ei hun a eglura yn amlwg: "Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a arhoswch yn fy nghariad; fel y cedwais I orchymynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ef gariad ef;" Ioan xv. 10.

Dos. VII.—Yn bummed, yr oedd y cyfiawnder hwnw o eiddo Crist yn hollol angenrheidiol er gwneyd yr aberth yn addas i'r allor; yr hyn a feddyliwyf yw, ei wneyd yn gymhwys i roddi Iawn dros y byd, ei buro a dwyn ymaith ei

anwiredd. Gwir yw, y tarddai anfeidrol deilyngdod ei farwolaeth oddiwrth ei Dduwdod, â'r hwn y meddai dyndod Crist undeb personol; eto yr oedd purdeb a santeiddrwydd hollol y ddynoliaeth yn angenrheidiol i hyny, mewn dau olygiad. Yn gyntaf, o herwydd nad oes cymhwysder yn y natur ddynol i feddu undeb personol â'r ddwyfol natur, oddieithr iddi fod yn gwbl rydd oddiwrth bechod. Yn ail, golyger (er mwyn dadl yn unig) y gallai y natur ddwyfol gael ei huno â dynoliaeth wedi ei diwyno â phechod, eto ni allai felly roddi Iawn cymeradwy dros ereill, pe cynhygid y fath, neu wneyd aberth trwy hyny; am y byddai y fath offrymiad o angenrheidrwydd yn ofynol i fod yn Iawn dros ei phechod ei hun; byddai yn ddyledus o leiaf, a gallai cyfiawnder Duw yn gyfreithlon ei ofyn hefyd; canys nid yw perthynas unrhyw greadur â'r natur ddwyfol, bydded mor agos ag y byddo, yn alluog i ddiddymu un hawl sydd yn hanfodol i Dduw, megys y mae yr hawl o ofyn boddlonrwydd llawn dros bechod. Yn awr beth bynag y mae Duw, neu yn gyfiawn a all ofyn oddiwrth ddyn i wneyd Iawn dros ei anwiredd ei hun, ni all y taliad o hyny wneyd Iawn dros bechodau neb arall; megys ag y mae yn annichonadwy, yn ol trefn cyfraith, i ddyn trwy dalu ei ddyled ei hun, ryddhau neb arall oddiwrth ddyled ond ei hunan. Nid oedd yr Arch-offeiriaid o dan y gyfraith yn gwneuthur Iawn drosto ei hun a thros y bobl, â'r un a'r unrhyw aberth, ond efe a "offrymai aberthau yn gyntaf dros ei bechodau ei hun, ac yna," heb angen am fwy drosto ei hun, "dros bechodau y bobl;" Heb. vii. 27. Eglur yw felly, er fod teilyngdod marwolaeth Crist yn cyfodi oddiwrth ei natur ddwyfol, na buasai y fath foddlonrwydd wedi cymeryd lle ar ran ereill, oni buasai fod Crist fel dyn yn rhydd oddiwrth bechod, er ei wneyd yn ddiangen am y fath aberth a offrymai o hono ei hun. Y mae bod Crist yn Dduw, ac yn marw yn gyfiawn, yn rhoddi digon o deilyngdod yn ei angeu i fod yn Iawn dros yr holl fyd; pryd ar y llaw arall, pe buasai yn marw yn bechadur yn y gradd lleiaf, ac er i'w farwolaeth, trwy undeb y natur ddwyfol a'r ddynol yn un person, fod o anfeidrol werth, eto ni buasai y boddlonrwydd yna yn cyrhaedd at gymaint ag un arall, ond ei hunan. Ac felly, yn yr achos hwn, pe bwriadasai Crist roddi Iawn dros y byd, ar ol iddo farw drosto ei hun, buasai yn rhaid iddo ddychwelyd yr ail-waith i wisgo cnawd, a dyoddef marwolaeth eilwaith hefyd. Diau mai ar yr ystyriaethau yna, y mae yr Yspryd Glân, yn wastad yn crybwyll am ei berffaith gyfiawnder, pan yn llefaru am ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth

drosom ni." "Fy ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer trwy ei wybodaeth; canys efe a ddwg eu hanwireddau hwynt;" Esay liii. 11; h.y., y gospedigaeth ddyledus i'w pechodau; yn gosod allan yn amlwg, fod yna ddigon o bwys yn nghyfiawnder person Crist, i dawelu cydwybodau dynion ar ran eu cyfiawnhad trwy ei farwolaeth. Felly, dadlenasom un dyben arbenig arall o gyfiawnder neu ufudd-dod gweithredol Crist; sef, y cymhwysiad o hono (mewn rhan o leiaf) er gosod teilyngdod yn ei farwolaeth, yr hwn sydd yn ddigonol er cyfiawnhad y byd. Am hyny nid oes angen am feddu noddfa i'r cyfrifiad dychymygol i ddiogelu yr angenrheidrwydd neu y gwasanaeth o hono.

Dos. VIII.—Yn chweched, Megys ac yr oedd Crist yn Aberth, felly yr oedd, y mae, a bydd am byth, yn Archoffeiriad; Heb. vii. 17, &c.; ac yr oedd cyfiawnder ei fywyd yn ei gymhwyso, h.y., yn cyd-gynorthwyo i'w gymhwyso, i fod yn Offeiriad, yn gystal ag aberth. Pe na buasai efe yn berffaith gyfiawn, ac wedi cyflawni y ddeddf foesol, yn gystal a phob deddf arall a berthynai iddo, buasai yn annhgymwys i'r Offeiriadaeth a weinydda efe yn awr yn y nef. Y mae hynyna yn eglur oddiwrth Heb. vii, 26, 27: "Canys y cyfryw Arch-offeiriad santaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid, oedd weddus i ni;" yn arwyddo nad oedd un offeiriad heb y cymhwysderau yna, yn addas i eiriol gyda Duw drosom megys y gwna Crist yn bresenol.

Dos. IX.—Y pummed rheswm a ddefnyddir dros gyfrifiad yw hwn:—"Os ydym yn ddyledwyr i'r ddeddf, nid yn unig mewn pwynt o gosbedigaeth ond ufudd-dod perffaith hefyd, yna nid dyoddef marwolaeth yn unig a wnaeth Crist drosom, fel y byddai i ni gael ein gwaredu oddiwrth gosbedigaeth, ond efe a gadwodd y ddeddf hefyd, fel trwy hyny y gellid ein cyfrif ni wedi cadw y ddeddf ynddo ef. Yr ydym yn ddyledwyr i'r ddeddf, nid yn unig mewn pwynt o gospedigaeth, ond ufudd-dod perffaith hefyd; a phe yn amgen, gwnai ein gwaith yn pechu yn erbyn y ddeddf ein rhyddhau felly oddiwrth ein rhwymedigaeth iddi." Yr wyf yn ateb, pan yr haerir ein bod yn ddyledwyr i'r ddeddf o berffaith ufudd-dod, yn gystal ac mewn pwynt o gospedigaeth, gan y gellir deall y ddyled hon o ufudd-dod mewn gwahanol foddau, yn ol hyny y dichon y gosodiad fod yn gywir neu gyfeiliornus. Os hyn ydyw y meddwl, ein bod yn ddyledwyr i'r ddeddf mewn perffaith ufudd-dod er ein cyfiawnhad, y mae yn hollol gyfeiliornus; canys nid rhaid ini wrth ufudd-dod perffaith iddi er ein cyfiawnhad, oblegyd cyfiawnheir ni yn rhad trwy waed Crist, Rhuf. v. 9. Ac nid

yw y credinwyr yn ddyledwyr iddi ychwaith mewn pwynt o gospedigaeth, canys y mae Crist wedi eu rhyddhau oddiwrth y baich hwn trwy ei gymeryd arno ei hun. Gwir yw na ellir dyweyd fod y credinwyr yn ddyledwyr i'r ddeddf yn gystal mewn pwynt o berffaith ufudd-dod a chospedigaeth; ac os golygant gael eu cyfiawnhau ac ysgoi y gospedigaeth, amgen na thrwy Grist, rhaid iddynt gadw yr holl ddeddf; canys ni chlywwyd erioed son am drydydd llwybr i gyfiawnhau, dim ond yn unig trwy ffydd yn Nghrist, neu trwy gyflawniad personol o'r holl ddeddf. Ac yn yr ystyr hwn y mae yr Apostol yn tystiolaethu i bob dyn ar a enwaedir, sef, mewn cyfeiriad at ei gyfiawnhad, ei fod yn rhwym i gadw yr holl ddeddf, yn gystal a chael ei enwaedu; Gal. v. 3; o herwydd rhaid i'r hwn nad yw yn ymorphwys ar Grist yn gwbl am gyfiawnhad, gadw yr holl ddeddf er ei feddiannu. Ond,

Yn ail, Os hyn olyga y gosodiad, fod y credinwyr yn ddyledwyr i'r ddeddf o berffaith ufudd-dod, mewn ffordd o gydnabyddiaeth i Dduw, y mae yn gywir; ond nid yw yn yr ystyr hwn yn dal dim perthynas â'r pwnc mewn llaw.

Yn drydydd, Nid ydym wedi ein rhyddhau oddiwrth ufudd-dod i'r ddeddf, gyda golwg ar gyfiawnhad, o herwydd i ni ei throseddu. Ond, yn 1. Ar ol i ni unwaith ei throseddu, yr ydym yn analluog o'r fath gyflawniad o honi, pa un bynag ai yn bersonol ai trwy gyfrifiad, ag fyddo yn effeithiol er ein rhyddhad oddiwrth gospedigaeth. 2 Y mae ein rhyddhad oddiwrth rwymau i gadw y ddeddf er ein cyfiawnhad, yn dyfod i ni ar yr ystyriaeth o'n hymddibyniaeth ar Grist. Rhuf. vii. 4. Canys,

Dos. X.—Yn bedwerydd, ni ofynodd Duw erioed ufudd-dod llawn i'r ddeddf a dyoddef y gospedigaeth ddyledus i'r troseddiad o honi hefyd, oddiwrth neb ond Crist yn unig. Y neb a geidw y ddeddf yn berffaith, nid yw mewn un modd yn rhwym i ddyoddef y gospedigaeth ddyledus i'r troseddiad o honi; na, y mae egwyddor amlwg y ddeddf ei hun yn addaw rhyddhad oddiwrth gospedigaeth i'r cyfryw: "gwna hyn a byw fyddi." Nid yw y ddeddf yn gwneyd un dyn yn rhwym i gospedigaeth, ond yn ammodol yn unig, ar yr ystyriaeth o bechod.

Yn olaf, Os bydd dyn wedi troseddu y ddeddf, ac wedi dyoddef (ei hun neu arall drosto) y gospedigaeth briodol o honi, nid yw mwyach yn rhwym iddi mewn pwynt o gospedigaeth, ac nid oes ganddo ddim i wneyd â hi yn fwy na llai na hyny er ei gyfiawnhad; oblegyd byddai y gospedigaeth hono a ddyoddefai yn ystyriaeth gyfartal i'r ddeddf a'r cyd-ffurfiad

mwyaf dichlynaidd a'i gorchymynion. Fel nad oes, ac na bu, neb dan rwymau i gadw y ddeddf ddwywaith drosodd er ei gyfiawnhad, felly hefyd nid yw yn gyfiawn a thêg, fod yr hwn sydd wedi dyoddef yn llawn gospedigaeth y ddeddf, yr hyn sydd yn cadw ei hanrhydedd mor uchel a'r ufudd-dod mwyaf dichlynaidd, yn rhwym er hyny i gadw y ddeddf (ei hun neu arall drosto) er ei gyfiawnhad; o herwydd nad yw hyn ond yr un peth, a gofyn ail ufudd-dod i'r ddeddf ar ol i ddyn unwaith ei chyflawni yn berffaith.

Dos. XI.—Yn bummed, Dadleua rhai dros gyfrifiad o gyfiawnder gweithredol Crist fel hyn:—"Os nad yw cyfiawnhad yn gyrhaeddadwy heb gyfiawnder perffaith, na'r fath gyfiawnder i'w gael ond cyfiawnder Crist, yna rhaid i'r cyfiawnder hwnw gael ei gyfrif i ni yn ein cyfiawnhad. Ni ellir enill cyfiawnhad heb gyfiawnder perffaith, ac nid oes y fath gyfiawnder i'w gael ychwaith ond cyfiawnder Crist."

Yr wyf yn ateb, yn gyntaf, Er nas gall cyfiawnhad gymeryd lle heb gyfiawnder perffaith, eto nid yw y fath gyfiawnder a olygir gan rai, sef, cyfiawnder yn gynwysedig mewn modd penodol o ryw gynifer o weithredoedd a gyflawnwyd gan Grist mewn ffordd o ufudd-dod i'r ddeddf foesol, ddim yn anhebgorol angenrheidiol i'w ddwyn oddiamgylch. Canys os cyfiawnhawyd yr Iuddewon, dan y gyfraith, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist, nid yw y cyfiawnder hwn o'i eiddo i'w gyfyngu i'r gweithredoedd cyfiawn a gyflawnwyd ganddo mewn ufudd-dod i'r ddeddf foesol yn unig, ond i'r ddeddf seremoniol hefyd, megys y profwyd ychwaneg nag unwaith.

Dos. XII.—Yn ail, Nid yw y cyfiawnder yn yr hwn y mae cyfiawnhad yn gynwysedig, ac â'r hwn y gwneir dynion yn gyfiawn pan eu cyfiawnheir, ddim arall ond maddeuant pechodau, megys y profwyd yn helaeth. Dyma y cyfiawnder y mae yr Ysgrythyr yn ei alw yn "gyfiawnder heb weithredoedd," Rhuf. iv. 6, wedi ei chydmaru âg adn. 7; a'r hyn y mae Augustine, Haymo, Bernard, Luther, Calvin, Musculus, Paræus, Chamier, yn nghydag ereill, ac Homiliau yr eglwys hefyd, yn wastad gyda hyder a dibetrusder yn ei alw wrth yr enw "cyfiawnder." O herwydd fod rhai yn awyddus i wneyd Calvin yn bleidiwr iddynt, yn y pwnc o gyfrifiad, dyfynaf dystiolaeth o'i eiddo i arddangos yn eglur ei olygiad: yn ei esponiad ar Rhuf. iv. 6. y dywed, "Fe'n dysgir nad yw cyfiawnder ddim arall gyda Paul ond maddeuant pechodau." Wrth yr ymadrodd yna eglur yw, (beth bynag ydoedd ei farn ef ar y pwnc dan sylw,) ei fod yn

priodoli y golygiad cadarnhaol i Paul, ac yn cadarnhau fod ei farn ef dros mai maddeuant pechodau yn unig yw, gan gau allan bob peth arall. Pe buasai Calvin yn priodoli un dŷb i Paul, yn y pwnc o gyfiawnhad, a bod ei hun o olygiad arall, ni buasai hyny yn well na gwaeth na phroffesu ei hun yn ddoethach nag ef, ïe, na'r Ysbryd Glân oedd yn llefaru trwyddo.

Dos. XIII.—Y seithfed rheswm yw hwn:—"Os ydyw 'Gwna hyn a byw fyddi' yn ddeddf dragywyddol o eiddo Duw ac na ddiddymir mo honi byth, rhaid felly i gyfiawnder Crist gael ei gyfrif i ddynion mewn cyfiawnhad, fel trwy hyny y gallant gael eu golygu yn rhai sydd wedi 'gwneyd hyn,' sef, cadw y ddeddf, ac felly gael byw. Y mae 'gwna hyn a byw fyddi' yn ddeddf dragywyddol o eiddo Duw na ddiddymir mohoni byth."

Yr wyf yn addef, yn yr ystyr hwn fod "gwna hyn a byw fyddi" yn ddeddf dragwyddol; Yr oedd, y mae, a bydd yn wirionedd tragwyddol, y bydd i bwy bynag a " wna hyn," h.y., cadw y ddeddf yn berffaith, "gael byw," a mwynhau ffafr Duw. Ond nid yw yr ystyr hwn yn gwasanaethu dim i'r amcan, ac nid oes gymaint a chysgod o le i'r casgliad yn y gosodiad cyntaf: pwy bynag a "erys yn yr holl bethau a ysgrifenir yn y ddeddf i'w gwneuthur hwynt, a fydd byw," ac a achubir, pa un bynag a geiff cyfiawnder Crist ei gyfrif iddo a'i peidio. Ond os meddwl yr ymadrodd "y mae yn ddeddf dragwyddol" yw hyn, mai yr unig ddeddf sefydlog, wrth yr hon y rhaid i ddynion gael eu cyfiawnhau a'u hachub, fel na all yr un dyn gael ei gyfiawnhau, ond yr hwn a ellir dyweyd ei fod wedi "gwneyd hyn," h.y., wedi rhoddi ufudd-dod cyffredinol i bob iod a rhan o'r ddeddf, yn yr ystyr hwn nid yw, ni bu, ac ni bydd byth yn ddeddf o eiddo Duw, nac yn ddeddf gwirionedd. Canys yr oedd gan Dduw bob amser, a bydd ganddo hefyd, ddeddf arall i gyfiawnhau dynion, sef y ddeddf hono ag sydd yn fynych yn yr Ysgrythyr yn cael ei gwrthgyferbynu i hynyna, sef, "cred a byw fyddi."

Dos. XIV.—Sylfaen arall i adeiladu y cyfrifiad hwn arni, a osodir yn ol y drefn ganlynol:—"Y cyfiawnder hwnw a gymeradwya Duw ar ein rhan, yw y cyfiawnder a gyfrifir i ni yn ein cyfiawnhad. Cyfiawnder Crist yw yr un a gymeradwya Duw ar ein rhan."

Yr wyf yn ateb, yn gyntaf, trwy wadu y gosodiad cyntaf, oblegyd gall Duw, ac y mae yn cymeradwyo y cyfryw ar ein rhan, yr hyn nad yw efe dan angenrheidrwydd i'w gyfrif i ni. Derbyniodd Duw weddi Abraham dros Ismael,

ac eto ni chyfrifodd y weddi hon i Ismael megys un wedi ei gweddio ganddo ef. Yr un modd y cymeradwyodd efe weddi Eliseus dros fab y Sunamees, ac heb edrych ar y bachgen fel un wedi ei chyflawni drosto ei hun. Yn yr amgylchiadau yna ac amrywiol ereill, derbyniai y cyfryw bersonau y gweddiai ereill drostynt fudd trwy y gweddiau hyny, ond nid oes un rheswm i olygu yr edrychai Duw ar y gweddiau hyny megys wedi eu cyflawni gan y personau eu hunain; y maent megys pe byddent wedi llwyddo mwy ar eu rhan o herwydd iddynt gael eu cyflwyno gan ereill drostynt, (yn neillduol gan bersonau mor llawn o ras) na phe buasent wedi eu cyflwyno ganddynt eu hunain. Yr un modd yn union, y mae y rhai y cymeradwywyd dyoddefiadau Crist ar eu rhan, yn derbyn budd annhraithol trwyddynt; ond ni phrawf hyn fod yn rhaid i Dduw, o herwydd hyny, edrych ar ddyoddefiadau ei Fab megys pe byddent hwy yn bersonol wedi eu dyoddef; y mae y fath dybiaeth yn tueddu yn hytrach i ddinystrio ein cymeradwyaeth na'i gynorthwyo. Y mae dyoddefiadau Crist yn meddu uchder eu cymeradwyaeth gyda Duw ar ran y byd, trwy ei fod yn edrych arnynt megys dyoddefiadau o eiddo Crist ei hun ac nid eiddo neb arall.

Yn ail, yr wyf yn ateb yr ail osodiad, os golygant wrth gyfiawnder Crist ei ufudd-dod i'r ddeddf gyffredinol yr hon y mae pob dyn dan rwymau iddi, a'i ystyried ar wahan i'w ufudd-dod i'r ddeddf a dderbyniodd fel Cyfryngwr, y mae yn gwbl gyfeiliornus. Canys ni chymeradwyodd Duw y cyfiawnder hwnw o eiddo Crist ar ein rhan fel ag i'n cyfiawnhau âg ef neu erddo. Os deallir wrth gyfiawnder yn y gosodiad, yr ufudd-dod o eiddo Crist a elwir yn gyffredin ei "ufudd-dod dyoddefol," neu ei weithredol a'i ddyoddefol ynnghyd, gellir caniatau y gosodiad. Ond wedi hyny bydd y gosodiad arall yn ymddangos yn fusgrell, y gair cyfiawnder yn cael ei ddefnyddio mewn un ystyr yn y naill osodiad, ac mewn ystyr wahanol yn y gosodiad arall.

Dos. XV.—Ymresyma rhai fel hyn:—"Os oedd Crist yn berson cyhoeddus, yn cynrychioli yr holl rai a gredant, yna y mae yr oll a wnaeth ac a ddyoddef yn cael eu cyfrif megys wedi eu cyflawni a'u dyoddef ganddynt. Yr oedd Crist yn berson cyhoeddus yn cynrychioli yr holl rai a gredant."

Yr wyf yn ateb, Y mae y gosodiad cyntaf yn gyfeiliornus, oblegyd nid yw bod Crist yn berson cyhoeddus ddim yn sail ddigonol i dynu y casgliad hwn, sef, "Am hyny, edrychir ar yr oll a wnaeth ac a ddyoddefodd gan Dduw

megys wedi eu cyflawni genym ni." Y mae hyn yn eglur, nad yw ei ymgnawdoliad, ei enedigaeth, ei enwaediad, ei ddarostyngiad i Joseph, ei waith yn bwrw allan o'r deml y prynwyr a'r gwerthwyr, a phrynedigaeth y byd, a niferoedd o bethau neillduol ereill, a gyflawnwyd neu a ddyoddefwyd ganddo, ddim yn cael edrych arnynt gan Dduw fel wedi eu cyflawni, neu ddyoddef gan yr holl rai sydd yn credu. Oblegyd i ba ddyben, er engrhaiff, fyddai i mi, a minau yn Genedlddyn crediniol, ac felly nid yn unig yn rhydd oddiwrth iau y seremoniau Iuddewig, ond o dan ddeddf i beidio a'u harferyd hwynt, gael edrych arnaf gan Dduw yn un wedi ei enwaedu? Yr un modd, yn ol pob rheswm, pa fûdd ddichon iddo fod i mi i Dduw edrych arnaf yn un ag ydoedd yn Nghrist yn ddarostyngedig i Joseph? Yn neillduol, pa fodd y gallaf ddychymygu heb grynu ac arswydo, fod Duw yn edrych arnaf megys un sydd wedi prynu y byd? Yr oedd Adda yn berson cyhoeddus, ie, mor gyhoeddus mewn ystyr a Christ ei hunan: ond eto y fath ynfydrwydd fyddai golygu fod yr oll a wnaeth Adda yn cael ei gyfrif i'w hiliogaeth megys wedi eu cyflawni ganddynt hwy! Pa les ddichon iddo fod i mi, pe bae Duw yn edrych arnaf fel un a "enwodd enwau ar yr holl anifeiliaid, ac ar ehediaid y nefoedd, ac ar holl fwystfilod y maes," yr hyn a wnaeth Adda? Gen. ii. 20: neu iddo edrych arnaf fel un a genhedlodd yr un cyntaf a anwyd, sef Cain, yr hyn a wyddom a wnaethpwyd gan Adda? yn nghyd a llawer o bethau ereill cyffelyb.

Dos. XVI.—Yn ail, dangoswyd yn eglur o'r blaen mor annghyson a'r gwirionedd yw dyweyd, Fod Duw yn edrych ar ddyoddefiadau Crist fel dyoddefiadau o'n heiddo ni. "Y mae yn beth gwahanol i ddyweyd" ebe Dr. Willet, "ein bod ni wedi ein cospi yn Nghrist, a bod Crist wedi ei gospi drosom neu yn ein lle:" y mae hyn yn cael ei awdurdodi gan yr Ysgrythyrau, ond ni ellir honi y llall; o herwydd gan y derbyniwn faddeuant o'n pechodau yn marwolaeth Crist, ni ellir dyweyd ein cospi yn, neu gydag ef, am yr un pechodau ag y derbyniwn faddeuant o honynt trwy ei farwolaeth.

Yn drydydd, nid yw gwaith unrhyw berson yn cymeryd arno orchwyl rhai ereill, megys y gwnaeth Crist gyda phechaduriaid, yn llesau y cyfryw i'r rhai y perthyna yr achosion y mae yn eu trin, ddim pellach na chyda golwg ar yr elw a ddeillia iddynt oddiwrth ei weithrediad. Pe cymerai dyn arno unrhyw oruchwyliaeth drosof, gan ymddwyn yn annghyfiawn âg ereill yn yr alwedigaeth, ac yn y diwedd fy

ngholledu inau yn ddirfawr hefyd, yr hyn trwy gallineb a allasai gael ei attal, byddwn yn yr amgylchiad yn rhwvm i ddyoddef yr holl golled a ddygai fy ngoruchwyliwr trwy ei annghyfiawnder neu ei wendid arnaf; ond nid ydwyf i gael edrych arnaf fel un wedi arfer yr annghyfiawnder a wnaeth ef, nen fod ei wendid ef yn perthyn i mi. Neu ar y llaw arall, pe pyddai iddo ymddwyn yn gall a ffyddlon drosof, a thrwy hyny ddwyn yn mlaen yn llwyddiannus fy ngoruchwyliaeth ymddiriedol iddo, ac felly derbyniwn fudd trwy gallineb a ffyddlondeb y cyfryw ddyn; ond nid yw hyny i gael ei gyfrif i mi fel yr eiddo fy hun, canys efe oedd fy ngoruchwyliwr a'u defnyddiodd. Nid yw yr ymgyngherydd sydd yn llwyddo yn erbyn ei wrthwynebwr ger bron y Barnwr trwy fedrusrwydd ei gynghorwr, ddim i gael ei gyfrif o herwydd hyny mor fedrus yn y gyfraith a'i gynghorwr, na'i fod wedi dadleu ei achos ei hun megys y darfu ei gyfreithiwr. Yr un modd, mor bell ag yr oedd Adda wedi ei osod gan Dduw i ymddwyn drosof, yn gymaint a fy mod yn un o'i hiliogaeth, yr wyf yn rhwym o ddyoddef fy rhan o'r drwg a ddaeth ar y byd trwy ei anffyddlondeb; ond nid yw yr anffyddlondeb hwn yn cael edrych arno fel y cyfryw o'm heiddo i yn bersonol; ond cyn belled ag yr oedd fy mherson i ynddo ef cyfrifir hyny i mi fel yr eiddo fy hun. Yr un modd ar y llaw arall, mor bell ag yr oedd Crist wedi ei awdurdodi gan Dduw i weithredu drosof, os wyf yn credu ynddo, y mae genyf fy rhan o'r canlyniad bendithiol i'r hyn, trwy ei santeiddrwydd, doethineb, ffyddlondeb a'i amynedd, y dygodd efe amgylchiadau y byd; ond nid yw Duw byth yn edrych arnaf megys pe byddai y santeiddrwydd, doethineb, ffyddlondeb, a'r amynedd hwnw yn eiddo i mi, ac nid yw mewn un modd yn angenrheidiol iddo wneyd hyny, er fy ngwneyd yn gymhwys o fy rhan fel credadyn yn y gorchwyl mawr a bendigedig a ddygodd Crist oddi amgylch.

Dos. XVII.—Yn bedwerydd, Nid yw yn wirionedd mor safadwy ag y meddylia rhai, fod Crist yn sefyll yn lle y rhai a gredant ynddo, yn neillduol yn yr oll a gyflawnwyd ganddo, a'r hyn a dueddai i'w gymhwyso er cwblhau y gorchwyl mawr o brynedigaeth y byd. Y mae sefyll yn lle un arall, yn arwyddo y rhwymau sydd ar yr arall hwnw i sefyll yn y lle hwnw ei hun, a gwneyd yr un pethau ag y mae yr hwn sydd yn cael ei olygu i sefyll yn ei le, yn eu gwneyd. Yn awr, gŵyr pawb y gwnaeth Crist lawer o bethau, ïe, a dyoddef llawer hefyd, na buasai un rhwymau ar y credinwyr i'w gwneuthur na'u dyoddef, pa un bynag a

fuasai Crist wedi gwneyd hyny ai peidio. Er engrhaifft, nid oedd un angenrheidrwydd mewn ffordd o ddyledswydd nac o gospedigaeth iddynt gael eu geni o forwyn, iddynt droi dwfr yn win, a gostegu y gwyntoedd a'r moroedd. Eilwaith: Nid oes rhwymau ar genedl-ddyn crediniol i gael ei enwaedu, ac i fwyta y pasg yn Jerusalem, &c. O ganlyniad, yn yr holl amgylchiadau yna o'i fywyd, yn nghyda llawer ereill, eglur yw, nad oedd efe yn sefyll yn lle y credinwyr. Yr oll a lefara yr Ysgrythyr yn yr achos hwn yw, iddo ef "ddyoddef drosom," "ei wneyd yn felldith drosom;" y cyfryw ymadroddion, er eu bod yn y cyffredin yn arwyddo, yr angenrheidrwydd am i ni ddyoddef pe na buasai Crist wedi dyoddef drosom, eto, ni arwyddant un angenrheidrwydd am i'n dyoddefiadau ni fod o'r un natur, nac yn ol yr un dull, yn mhob peth neillduol. Nid yw yn canlyn, pe na buasai Crist wedi ei enwaedu y buasai yn rhaid i ni gael ein henwaedu; pe na buasai iddo ef ymprydio deu-ugain niwrnod, y buasai yn rhaid i ni ymprydio am yr yspaid hyny; pe na buasai iddo ef gael ei fflangellu â ffrewyll, a'i groes-hoelio, y buasai yn rhaid i ni gael ein fflangellu a'n croes-hoelio: y canlyniad yn unig yw hyn, oddieithr i Grist fod wedi dyoddef yn y pethau yna neu ryw fodd arall, buasai yn rhaid i ni ddyoddef er rhoddi boddlonrwydd i gyfiawnder dwyfol. Am hyny, nid yw yn wirionedd, fod Crist, yn ei ddyoddefiadau, a'u hystyried yn neillduol, yn sefyll yn ein lle ni. Ond nid yw yr Ysgrythyrau sydd yn dyweyd i Grist ddyoddef drosom, byth yn dyweyd iddo gadw y ddeddf foesol na'r seremoniol drosom, er y dichon i'r dynodiant hwn gael ei ganiatau heb addef iddo wneyd hyny yn ein lle. Gwelwn wrth hyn fod y rheswm hwn hefyd yn ddiffygiol ar bob llaw.

Dos. XVIII.—Rheswm arall a amcenir dros gyfrifiad yw hwn:—"Os na allwn gael ein cyfiawnhau trwy gyfiawnder Crist ond trwy gyfrifiad o hono, yna rhaid ei fod yn cael ei gyfrif i ni yn ein cyfiawnhad. Nis gallwn gael ein cyfiawnhau trwy gyfiawnder Crist, amgen na thrwy y cyfrifiad o hono."

Yr wyf yn ateb i'r gosodiad diweddaf, Os na ddichon cyfiawnder gweithredol Crist feddu un dylanwad ar gyfiawnhad ond yn y ffordd yna o gyfrifiad, rhaid i gyfiawnhad sefyll hebddo, neu ynte syrthio; canys sicr yw, na ddichon y fath gyfrifiad fod, megys y profwyd yn helaeth eisioes. Y mae gwendid y gosodiad yn cael ei brofi yn eglur oddiwrth hyn, Y mae cyfiawnder Crist yn cyfranu tuag at gyfiawnhad, trwy gymhwyso ei berson i fod

yn Aberth, trwy yr hon y mae cyfiawnhad wedi ei bwrcasu ar gyfer y byd.

Dos. XIX.—Rheswm arall yw hwn:—"Os gallwn yn wirioneddol gael ein cyfrif wedi marw a'n croeshoelio gyda Christ, wedi ein bywhau gyda Christ, cyfodi drachefn gyda Christ, eistedd yn y nefolion leoedd yn neu gyda Christ, yna gellir dyweyd yn briodol ein bod wedi cadw y ddeddf gyda Christ hefyd, ac, o ganlyniad, y mae y cyflawniad o'r ddeddf gan Grist yn gyfrifedig i ni. Gellir dyweyd, yn wirioneddol, ein bod wedi marw, ein croeshoelio, ein bywhau, a chyfodi drachefn, ac eistedd gyda Christ yn y nefolion leoedd."

Yr wyf yn ateb, Y rheswm o'r gwahaniaeth, na ellir dyweyd ein bod wedi cadw y ddeddf gyda Christ, yn gystal a dyweyd ein bod wedi marw ac adgyfodi gyda Christ, &c., yw hyn,—Pan y dywed yr Ysgrythyr, ein bod wedi marw, bywhau, ac adgyfodi gyda Christ, nid y meddwl yw fod Duw yn edrych arnom megys wedi rhoddi ein bywyd i lawr, pan y gwnaeth ef, a bod y rhoddiad hwn o'n bywyd i lawr yn Iawn i gyfiawnder dros ein bai; canys felly gellid dyweyd mor briodol am danom ein bod wedi rhoddi Iawn drosom ein hunain, neu wedi prynu ein hunain gyda Christ, a'n bod wedi marw, ac wedi ein croeshoelio gydag ef. Ni arwydda y fath ymadroddion a'r rhai yna, ond naill ai proffes o'r fath farwolaeth ynom ag sydd yn meddu cyffelybiaeth â marwolaeth Crist, yr hyn sydd yn cael ei alw yn gyffredin yn farw i bechod, ac i'r byd; Rhuf. vi. 5; neu ynte, cyflawniad y farwolaeth hon yn wirioneddol ynom trwy farwolaeth Crist, ac o herwydd hyny a elwir yn "gymdeithas â'i ddyoddefiadau," yn gystal a "chyd-ffurfiad â'i farwolaeth," Phil. iii. 10. Y mae yr ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr cyntaf, yn Rhuf. vi. 2: "Pa wedd y bydd i ni sydd wedi marw i bechod," h.y., sydd yn proffesu ein bod wedi marw i bechod gyda Christ, "fyw eto ynddo ef," ac felly bod yn waradwydd i'n proffes? Yn yr ystyr diweddaf ei defnyddir yn Gal. ii. 20. "Mi a groeshoeliwyd gyda Christ," h.y., y mae marwolaeth Crist drosof a llawer ereill, wedi gweithio ynof y fath debygoliaeth iddi ei hun, ac wedi fy ngwneyd yn farw i'r byd. Yr un modd, pan y dywedir fod y credinwyr wedi bywhau, neu adgyfodi gyda Christ, nid y meddwl yw, fod Duw yn edrych arnynt wedi cyfodi o farwolaeth naturiol i fywyd naturiol, neu o ogoniant, megys y gwnaeth Crist; yr hyn raid fod y meddwl, os y sugnir dim o'r geiriau yna dros gyfrifiad. Ond y maent naill ai yn golygu y broffes a wneir genym o'r bywyd newydd, yr hwn

mewn ffordd o gyffelybrwydd ysbrydol sydd yn cyfateb i'r bywyd yr adgyfododd Crist drachefn iddo; Rhuf. vi. 5; neu ynte golyga y bywyd newydd a weithir ynom trwy adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw. Yn yr ystyr cyntaf ei defnyddir yn Col. iii. 1, "Am hyny, os cyd-gyfodasoch gyda Christ," h.y., gan eich bod wedi gwneyd proffes o'r bywyd newydd ac urddasol ag sydd yn cyfateb i'r bywyd a fywiodd Crist ar ol ei adgyfodiad, rhoddwch y prawf hwn i'r byd, "Ceisiwch y pethau sydd uchod," &c. Yn yr ystyr diweddaf ei defnyddir yn Eph. ii. 5, "Ië, pan oeddym feirw mewn camweddau a phechodau, a'n cyd-fywhaodd ni gyda Christ;" yn golygu, fod Duw trwy fywhau ac adgyfodi Crist o feirw, wedi eu cenhedlu, megys y dywed Pedr, i'r fath fywyd ag ydoedd yn ysprydol gyfateb i fywyd ac adgyfodiad Crist. Ond, ar y llaw arall, nid oes y fath ymadroddion yn yr Ysgrythyr a hyn, "Cadwasom y ddeddf gyda Christ;" a phe byddai yn bod, ni byddant o un lles i gefnogi y gosodiad dan sylw, os y rhedai yr ystyr o honynt fel yr ymadroddion ereill; o herwydd, pe dyweder ein bod yn proffesu cyflawniad o'r ddeddf ag a fyddo yn dal allan gyffelybiaeth ysprydol â gwaith Crist yn cadw y ddeddf, neu gadw y ddeddf mewn gwirionedd yn bersonol yr un modd, beth a fyddai yn hyn i gasglu fod gwaith Crist yn cadw y ddeddf yn cael ei gyfrif yn y llythyren o hono i ni? Y mae yn sicr nad yw adgyfodiad Crist yn y llythyren o hono ddim yn cael ei gyfrif yn adgyfodiad i'r credinwyr yr un modd; pe byddai, ni buasai Hymeneus a Philetus yn Hereticiaid am ddysgu ddarfod yr adgyfodiad eisioes; 2 Tim. ii. 17, 18.

Dos. XX.—Ar ben hyn oll, "os pecha neb, y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad, Iesu Grist y cyfiawn; ac efe yw yr Iawn tros ein pechodau ni, ac nid tros yr eiddom ni yn unig, eithr dros bechodau yr holl fyd." 1 Ioan ii. 1, 2. a thrwy yr Iawn hwn dileuir holl bechodau y credinwyr, fel nad oes angen am gyfrifiad o gyfiawnder gweithredol Crist iddynt: y mae yr hyn yw Crist iddynt yn ei waed a'i gyfryngdod, trwy eu ffydd ynddo, yn dwyn hyn oddi amgylch yn gyflawn iddynt heb gynorthwy cyfrifiad. A sicr yw, nad yw y cyfrifiad dychymygol yna ddim mwy i gyfiawnhad, nag oedd y bydwragedd i waredigaeth yr Hebreesau, y rhai ydoedd yn "esgor cyn dyfod y bydwragedd atynt." Ecs. i. "Pa Iawn sydd gyda Duw ond aberth?" meddai Augustine, "a pha aberth sydd ond yr hwn a offrymwyd drosom yn marwolaeth Crist." Nid ydym i feddwl fod anfeidrol haeddiant marwolaeth Crist yn cael ei gyfyngu oll i bwrcasu maddeuant pechodau yn unig,

a'i fod yn analluog i ddal allan bwrcasiad o gymeradwyaeth gyda Duw i ni hefyd. Na, meddai Mr. Reynolds, "trwy anfeidroldeb y teilyngdod hwn, heblaw boddloni cyfiawnder Duw ar ein rhan, y mae yna bwrcasiad pellach o ras a gogoniant, a phob peth er ein lles wedi ei wneyd. Ie, y mae mabwysiad, cymeradwyaeth ein personau, ein derbyniad i ffafr Duw, ein gwneyd yn etifeddion iachawdwriaeth, yn tarddu oll o'r un gwreiddyn ffrwythlawn sef gwaed Crist, ar y rhagolygiad o santeiddrwydd ei berson a chyfawnder ei fywyd: felly nis gallai yr hwn sydd yn meddu cyfranogiad yn llawnder bendithion ei farwolaeth, wybod beth i wneyd â chyfrifiad o gyfiawnder ei fywyd ar ol hyny, pe byddai hyny yn cael ei wneyd iddo." Reynolds's Life of Christ, Page 402.

Fel hyn yr ydym o'r diwedd wedi ateb yn llawn yr holl resymau a wyf yn hysbys o honynt, a ddygir yn mlaen dros gyfrifiad o gyfiawnder Crist, yn yr ystyr y mae wedi ei wrthwynebu mor fynych, sef yn y llythyren a'r ffurf o hono, neu megys ffurfiol achos (pa un bynag a'i yn gwbl a'i mewn rhan) o'n cyfiawnhad. Ond os bydd i ryw un o farn wahanol, weled yn dda mewn yspryd o addfwynder a chariad, ddangos a phrofi fod gwendid yn yr atebion, neu ynte ddwyn yn mlaen resymau a olyga efe yn gadarnach na'r rhai a atebwyd eisioes, gwnaf eu hystyried yn ddiduedd a chydag ewyllysgarwch. Ac hefyd os canfyddaf ynddynt unrhyw argyhoeddiad llawn, ac uwchlaw posiblrwydd i'w hateb, buan y deuaf yn broselyt, gan lawenychu am gael fy ngwaredu oddiwrth gyfeiliornad. Hoffach o lawer genyf y gorchwyl o wyrthwynebu a diddymu fy nghyfeiliornadau fy hun nag eiddo dynion ereill; a dymunwn ei wneyd yn waith beunyddiol i gyfnewid tywyllwch am oleuni, ceimion am bethau uniawn, cyfeiliornadau am wirioneddau. A'r Arglwydd trwy ei Yspryd a'n harweinio i ffordd pob gwirionedd, ac a'n cadwo fel na wyrom ar y dehau nag ar yr aswy, fel ein hadeiliedir felly yn y sancteiddiaf ffydd, ac y'n cymhwyser yn llawn i'w dragwyddol deyrnas!

ARGRAFFWYD GAN H HUMPHREYS, CASTLE SQUARE, CARNARFON.

## NODIANT O RAI GWALLAU O BWYS YN NGHORPH Y GWAITH.

Yn tu dal. viii, yn lle *Metraphast*, darllener *Metaphrase.*

Yn tu dal. 49, llinell agosaf i derfyn y tu dal., yn lle *gwadu yr anmhosibilrwydd*, darllener *gwadu y posibilrwydd.*

D.S. Beth bynag arall a ganfyddir, gan y Darllenydd, bydded gystal a chymeryd ei ysgrif-bin i'w wella.